

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

13/05/2014

Cynnwys Contents

[Datganiad gan y Llywydd](#)
[Statement by the Presiding Officer](#)

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Adroddiad yr Athro Andrews ar Ofal yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot](#)
[Statement: The Professor Andrews Report on Care in the Princess of Wales and Neath Port Talbot Hospitals](#)

[Datganiad: Argymhelliad ar Leoli'r Ganolfan Isranbarthol ar gyfer Gofal Newyddenedigol Dwys yng Ngogledd Cymru](#)
[Statement: Recommendation on the Siting of the Sub-Regional Neonatal Intensive Care Centre \(SuRNICC\) in North Wales](#)

[Datganiad: Gweithio mewn Partneriaeth gyda Chymdeithasau Tai](#)
[Statement: Partnership Working with Housing Associations](#)

[Datganiad: Strategaeth Ddŵr i Gymru](#)
[Statement: The Water Strategy for Wales](#)

[Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu Strategol Morol a Physgodfeydd](#)
[Statement: Update on the Marine and Fisheries Strategic Action Plan](#)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dadreoleiddio](#)
[Legislative Consent Memorandum on the Deregulation Bill](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:30 **Datganiad gan y Llywydd** **Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I call the First Minister, I have two short statements.

Statement by the Presiding Officer

Cyn i mi alw ar y Prif Weinidog, mae gennyf ddau ddatganiad byr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

It has been 15 years now since the Assembly met for the first time. On behalf of myself, and the former Presiding Officer, may I thank all those Members who have contributed constructively during that time to bring forward and scrutinise legislation and policy that has had a positive impact on the lives of the people of Wales? Diolch yn fawr.

Mae 15 mlynedd wedi mynd heibio bellach ers i'r Cynulliad gyfarfod am y tro cyntaf. Ar ran fy hunan, a'r cyn-Lywydd, a gaf fi ddiolch i'r holl Aelodau hynny sydd wedi cyfrannu'n adeiladol yn ystod y cyfnod hwnnw i gyflwyno a chraffu ar ddeddfwriaeth a pholisi sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl Cymru? Diolch yn fawr.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It gives me great pleasure to announce that, in accordance with Standing Order 26.75, the Education (Wales) Bill was given Royal Assent on 12 May. Well done.

Mae'n rhoi pleser mawr i mi gyhoeddi, yn unol â Rheol Sefydlog 26.75, y rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Fil Addysg (Cymru) ar 12 Mai. Da iawn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Cynnydd Merched ym Myd Addysg

Questions to the First Minister

Girls' Progress in Education

13:31	Julie Morgan Bywgraffiad Biography <i>1. Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o gynnydd merched yn system addysg Cymru?</i> OAQ(4)1661(FM)	<i>1. What assessment has the First Minister made of the progress girls are making in the Welsh education system?</i> OAQ(4)1661(FM)	Senedd.tv Fideo Video
13:31	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> I am pleased to report that girls are making good progress in all areas of the Welsh education system. However, of course, there will be some areas, such as science, technology, engineering and mathematics, where there is more work to be done.	Rwy'n falch o adrodd bod merched yn gwneud cynnydd da ym mhob rhan o system addysg Cymru. Fodd bynnag, wrth gwrs, bydd rhai meysydd, fel gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg, lle mae mwy o waith i'w wneud.	Senedd.tv Fideo Video
13:31	Julie Morgan Bywgraffiad Biography I thank the Minister for that response. It would be wrong to really ask any question about girls' education without expressing the abhorrence that I am sure that we all share at the abduction of the schoolgirls in Nigeria. May I go on to ask the First Minister what is being done to encourage more girls who are successfully studying STEM subjects at school to go on and make it their careers after school?	Diolchaf i'r Gweinidog am yr ateb yna. Ni fyddai'n iawn i ofyn unrhyw gwestiwn am addysg merched heb fynegi'r atgasedd yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn ei rannu tuag at herwgipiad y merched ysgol yn Nigeria. A gaf fi fynd ymlaen i ofyn i'r Prif Weinidog beth sy'n cael ei wneud i annog mwy o ferched sy'n astudio pynciau STEM yn llwyddiannus yn yr ysgol i fynd ymlaen i wneud hynny'n yrfa ar ôl yr ysgol?	Senedd.tv Fideo Video
13:31	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> May I join with the Member in expressing, I am sure, what will be the entire Assembly's abhorrence of what happened in northern Nigeria? What happened there was little more than a cover for what appears to be slave trading, and I am sure that all Members will want to express their disgust at what has happened, and will join those who want to see those girls returned to their homes as soon as possible. Could I deal with the issue of girls' education in Wales? I mentioned STEM subjects. We are reviewing existing funding to Techniquet and Techniquet Glyndŵr, to enhance support for girls' progression in STEM subjects at key stage 4. For example, Techniquet will be working with the Institute of Physics on the delivery of a pilot programme, with Schools Challenge Cymru, to enhance girls' take-up of A-level physics. I know of course of the good work that has been done in this area as well by Engineering Education Scheme Wales.	A gaf fi ymuno â'r Aelod i fynegi'r hyn, rwy'n siŵr, fydd atgasedd y Cynulliad cyfan tuag at yr hyn a ddigwyddodd yng ngogledd Nigeria? Nid oedd yr hyn a ddigwyddodd yno fawr mwy na ffordd o guddio'r hyn sy'n ymddangos fel achos o fasnachu caethweision, ac rwy'n siŵr y bydd pob Aelod yn awyddus i fynegi ei ffieidd-dod tuag at yr hyn sydd wedi digwydd, ac y byddant yn ymuno â'r rhai sydd eisiau gweld y merched hynny'n cael eu dychwelyd i'w cartrefi cyn gynted â phosibl. A gaf fi ymdrin â'r mater o addysg merched yng Nghymru? Soniais am y pynciau STEM. Rydym yn adolygu'r cyllid presennol i Techniquet a Techniquet Glyndŵr i wella cefnogaeth i gynnydd merched yn y pynciau STEM yng nghyfnod allweddol 4. Er enghraifft, bydd Techniquet yn gweithio gyda'r Sefydliad Ffiseg ar y ddarpariaeth o raglen arbrofol, gyda Her Ysgolion Cymru, i gynyddu nifer y merched sy'n dewis astudio ffiseg Safon Uwch. Rwy'n gwybod, wrth gwrs, am y gwaith da sydd wedi ei wneud yn y maes hwn hefyd gan Gynllun Addysg Peirianeg Cymru.	Senedd.tv Fideo Video
13:32	Suzy Davies Bywgraffiad Biography First Minister, the curriculum review is, of course, in hand. However, what consideration has your Government already given to ensuring that business and entrepreneurship forms part of the curriculum on vocational courses that are commonly taken by girls, such as hair and beauty, for example? Furthermore, is your Government already discussing the possibility of those curriculum changes with the awarding bodies that do award on different vocational qualifications?	Brif Weinidog, mae'r adolygiad o'r cwricwlwm ar y gweill, wrth gwrs. Fodd bynnag, pa ystyriaeth mae eich Llywodraeth wedi ei rhoi eisoes i sicrhau bod busnes ac entrepreneuriaeth yn rhan o'r cwricwlwm ar gyrsiau galwedigaethol a ddilynir gan ferched fel arfer, fel gwallt a harddwch, er enghraifft? Hefyd, a yw eich Llywodraeth eisoes yn trafod y posibilrwydd o'r newidiadau hynny i'r cwricwlwm gyda'r cyrff dyfarnu sy'n dyfarnu ar wahanol gymwysterau galwedigaethol?	Senedd.tv Fideo Video

13:33	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Of course, the review of the curriculum is wide-ranging, and we will consider how we can support those subjects that we know will provide the greatest skill levels for our young people as they go out into the world.	Wrth gwrs, mae'r adolygiad o'r cwricwlwm yn eang, a byddwn yn ystyried sut y gallwn gefnogi'r pynciau hynny y gwyddom y byddant yn darparu'r lefelau sgiliau uchaf i'n pobl ifanc wrth iddynt fynd allan i'r byd.	Senedd.tv Fideo Video
13:33	Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography First Minister, I hope that you are aware of the pioneering research undertaken by Professor Emma Renold of Cardiff University with children from 10 to 12 years of age in Wales. That research found that sexism, pressure to conform to gender norms, and even sexual harassment was, in fact, a feature of their everyday lives. How will your Government ensure that plans to deliver healthy relationship education in schools will tackle the problem of sexism and harassment, and will you commit to looking closely at Cardiff University's research findings?	Brif Weinidog, rwy'n gobeithio eich bod yn ymwybodol o'r gwaith ymchwil arloesol a wnaed gan yr Athro Emma Renold o Brifysgol Caerdydd gyda phlant 10 i 12 mlwydd oed yng Nghymru. Canfu'r gwaith ymchwil hwnnw bod rhywiaeth, pwysau i gydymffurfio â normau rhyw, a hyd yn oed aflonyddu rhywiol, mewn gwirionedd, yn nodwedd o'u bywydau beunyddiol. Sut y bydd eich Llywodraeth yn sicrhau bod cynlluniau i ddarparu addysg perthynas iach mewn ysgolion yn mynd i'r afael â'r broblem o rywiaeth ac aflonyddu, ac a wnewch chi ymrwymo i edrych yn ofalus ar ganfyddiadau ymchwil Prifysgol Caerdydd?	Senedd.tv Fideo Video
13:34	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Yes, I entirely accept what the Member has said about how important it is to ensure that healthy relationships are an important part of life in schools. That is something that we seek to promote in schools. Of course, the Member will be aware of the forthcoming Bill that will be presented to the Assembly, which will give Members the opportunity to see how this can be progressed further.	Ydw, rwy'n derbyn yn llwyr yr hyn y mae'r Aelod wedi ei ddweud am ba mor bwysig yw hi i sicrhau bod perthynas iach ag eraill yn rhan bwysig o fywyd mewn ysgolion. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n ceisio ei hybu mewn ysgolion. Wrth gwrs, bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r Bil sydd ar y gweill a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad, a fydd yn rhoi cyfle i'r Aelodau weld sut y gellir symud ymlaen â hyn ymhellach.	Senedd.tv Fideo Video
Band Eang Gwledig		Rural Broadband	
13:34	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography <i>2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fand eang gwledig yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1653(FM)</i>	<i>2. Will the First Minister make a statement on rural broadband in North Wales? OAQ(4)1653(FM)</i>	Senedd.tv Fideo Video
13:34	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Yes. Superfast Cymru is progressing well in the north. Nearly 44,500 premises across the north can now access fast fibre broadband as a result of the Superfast Cymru programme.	Gwnaf. Mae Cyflymu Cymru yn symud ymlaen yn dda yn y gogledd. Gall bron i 44,500 o safleoedd ledled y gogledd ddefnyddio band eang ffeibr cyflym bellach, o ganlyniad i raglen Cyflymu Cymru.	Senedd.tv Fideo Video
13:34	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography Thank you for that, First Minister. Access to reliable broadband in rural Wales remains a problem, with 22% of rural businesses saying that connection to the internet is either poor or very poor, as a result of the Wales Rural Observatory survey, which I am sure you are aware of. I understand that Xwavia has recently received a grant of £1.2 million from Finance Wales. Its idea is to improve broadband in north Wales, particularly in the Conwy area. Given the likelihood of that overlapping with the Superfast Cymru broadband programme, will you encourage Xwavia, and indeed BT, to publish their programmes for roll-out as soon as possible so that communities can know which companies to go to for what?	Diolch i chi am hynna, Brif Weinidog. Mae mynediad at fand eang dibynadwy yng nghefn gwlad Cymru yn parhau i fod yn broblem, ac mae 22% o fusnesau gwledig yn dweud bod cysylltiad â'r rhyngwrdd naill ai'n wael neu'n wael iawn, o ganlyniad i arolwg Arsyllfa Wledig Cymru, ac rwyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol o hynny. Rwy'n deall bod Xwavia wedi derbyn grant o £1.2 miliwn gan Cyllid Cymru yn ddiweddar. Ei syniad yw gwella band eang yng ngogledd Cymru, yn enwedig yn ardal Conwy. O ystyried y tebygolrwydd y bydd hynny'n gorgyffwrdd â rhaglen band eang Cyflymu Cymru, a wnewch chi annog Xwavia, ac yn wir BT, i gyhoeddi eu rhaglenni ar gyfer cyflwyno cyn gynted â phosibl fel y gall cymunedau wybod pa gwmnïau i fynd atynt ar gyfer beth?	Senedd.tv Fideo Video

13:35

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Superfast Cymru is the Government's programme; we have funded it, as has the UK Government, with substantial funding from the European Union. It is an ambitious programme, which will allow 96% of households to have access to superfast broadband by 2016 and will deliver in many parts of Wales what the market cannot deliver because there are insufficient people in some parts of Wales in order for the market to be able to deliver services at a profit. It is an example of governments working together and intervening to make sure that people and businesses across Wales have access to a broadband speed that will be acceptable.

Cyflymu Cymru yw rhaglen y Llywodraeth; rydym ni wedi ei hariannu, fel y mae Llywodraeth y DU, gyda chyllid sylweddol gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n rhaglen uchelgeisiol, a fydd yn caniatáu 96% o gartrefi i gael mynediad at fand eang cyflym iawn erbyn 2016 a bydd yn darparu mewn sawl rhan o Gymru yr hyn na all y farchnad ei ddarparu gan nad oes digon o bobl mewn rhai rhannau o Gymru i'r farchnad allu darparu gwasanaethau am elw. Mae'n enghraifft o lywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd ac yn ymyrryd i sicrhau bod gan bobl a busnesau ledled Cymru fynediad at gyflymder band eang a fydd yn dderbyniol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae cryn fwch rhwng datganiadau BT ynglŷn â llwyddiant y rhaglen hon a phrofiad defnyddwyr ar y llawr. Un o'r rhwystredigaethau mwyaf sydd gan ddefnyddwyr ydy diffyg gwybodaeth a methiant i gael gwybodaeth gywir ynglŷn â beth sydd wedi digwydd a phryd y byddant yn derbyn gwasanaeth. Gan fod y Llywodraeth yn ariannu'r rhaglen hon, a allwch chi sicrhau gwell darpariaeth gwybodaeth i ddefnyddwyr er mwyn iddynt wybod pryd mae'r newidiadau yn digwydd?

There is quite a difference between BT's statements about the success of this programme and the experience of users on the ground. One of the major frustrations that users have is the absence of information and a failure to obtain accurate information about what has happened and when they are to receive a service. As the Government is funding this programme, can you ensure an improved provision of information to users so that they know when the changes are to take place?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Byddwn yn erfyn i BT sicrhau ei fod yn rhoi gwybodaeth i bobl ynglŷn â phryd mae'r gwasanaeth yn dod i'w hardaloedd nhw, ac, wrth gwrs, mae'n bosibl, os cofiaf yn iawn, i edrych ar y safle ar y we er mwyn gweld sut mae pethau yn mynd o ran rholio allan Superfast Cymru. Fodd bynnag, fel y dywedais, mae hon yn rhaglen uchelgeisiol iawn er mwyn sicrhau bod gan y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru fynediad i'r band eang.

I would expect BT to ensure that it gives people information on when the service will be coming to their areas, and, of course, it is possible, if I remember correctly, to look at the website in order to see how things are progressing with the roll-out of Superfast Cymru. However, as I said, this is a highly ambitious programme in order to ensure that the majority of people in Wales have access to broadband.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

First Minister, last week, you urged people to look at the outcomes of the Andrews report before making a judgment. That report has now been published and the failings at the Princess of Wales Hospital and Neath Port Talbot Hospital are truly shocking. First Minister, you will be familiar with the evidence, but I will repeat some of it for the record:

'In hospital they left him with the cloth and a bowl to wash himself. I found dried excrement on his legs';

'My mum had no medication or food or water for days';

'There were patients calling out, one stuck in bed with bed rails and one lady said to me "I am in Hell".'

Do you think that these patients and others are due an unreserved apology from you as First Minister of Wales?

Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, anogwyd pobl gennych i edrych ar ganlyniadau adroddiad Andrews cyn beirniadu. Mae'r adroddiad hwnnw wedi ei gyhoeddi bellach ac mae'r methiannau yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn wirioneddol syfrdanol. Brif Weinidog, byddwch yn gyfarwydd â'r dystiolaeth, ond aildroddaf rywfaint ohoni ar gyfer y cofnod:

Yn yr ysbyty, fe'u gadawsant ef gyda'r lliain a phowlen i ymolchi ei hun. Deuthum o hyd i ysgarthiad sych ar ei goesau;

Nid chafodd fy mam unrhyw feddyginiaeth na bwyd na dŵr am ddiwrnodau;

Roedd cleifion yn galw am gymorth, un yn gaeth i'w wely gyda rheiliau gwely a dywedodd un wraig wrthyf "Rwyf yn Uffern".

A ydych chi'n credu y dylech chi fel Prif Weinidog Cymru ymddiheuro'n ddiamod i'r cleifion hyn ac erail?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. They are owed an apology and the Government will give that apology; I give it now on behalf of the Government and I know that the Minister for health will do the same thing when he gives his statement, and I expect that the local health board has, by now, also done that. There is no doubt that the contents of the report are shocking. We as a Government will accept every part of that report and every recommendation. We expect the local health boards to implement those recommendations and we would expect all local health boards in Wales to take account of the report's recommendations in the way that they operate. I note as well that it does say that this not a Mid Staffs situation, and that is important to note, but I do not lessen the gravity of the report's contents, and we as a Government will be moving forward with the recommendations and taking strong action.

Ydw. Mae arnom ni ymddiheuriad iddyn nhw a bydd y Llywodraeth yn rhoi'r ymddiheuriad hwnnw; rwy'n gwneud hynny nawr ar ran y Llywodraeth a gwn y bydd y Gweinidog iechyd yn gwneud yr un peth pan fydd yn rhoi ei ddatganiad, ac rwy'n disgwyl y bydd y bwrdd iechyd lleol, erbyn hyn, wedi gwneud hynny hefyd. Nid oes amheuaeth bod cynnwys yr adroddiad yn frawychus. Byddwn ni fel Llywodraeth yn derbyn pob rhan o'r adroddiad hwnnw a phob argymhelliad. Rydym yn disgwyl i'r byrddau iechyd lleol weithredu'r argymhellion hynny a byddem yn disgwyl i bob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru ystyried argymhellion yr adroddiad yn y ffordd maen nhw'n gweithredu. Rwy'n nodi hefyd ei fod yn dweud nad yw hon yn sefyllfa debyg i'r un yng Nghanol Swydd Stafford, ac mae'n bwysig nodi hynny, ond nid wyf yn bychanu difrifoldeb cynnwys yr adroddiad, a byddwn ni fel Llywodraeth yn symud ymlaen â'r argymhellion ac yn cymryd camau cryf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:38

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The statement that the Minister for health released this morning will be a cause of great concern to people. The last two directors general of the NHS here in Wales have been the former chief executives of Abertawe Bro Morgannwg health board. The statement that the Minister for health himself made was that hospital managers either stood back from or did not understand their responsibilities in ensuring good-quality patient care. How on earth can a chief executive who allowed that level of care and that level of supervision to develop within his health board be fit to be a director general of the Welsh NHS, a direct appointment of your Government?

Bydd y datganiad a gyhoeddwyd gan y Gweinidog iechyd y bore yma yn achosi pryder mawr i bobl. Roedd dau gyfarwyddwr cyffredinol diwethaf y GIG yma yng Nghymru yn gyn-brif weithredwyr bwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg. Y datganiad a wnaeth y Gweinidog iechyd ei hun oedd bod rheolwyr ysbytai naill ai'n sefyll yn ôl o'u cyfrifoldebau neu nid ydynt yn eu deall, o ran sicrhau gofal o ansawdd da i gleifion. Sut ar y dddear all prif weithredwr a ganiataodd y lefel yna o ofal a'r lefel yna o oruchwyliaeth i ddatblygu yn ei fwrdd iechyd fod yn addas i fod yn gyfarwyddwr cyffredinol y GIG yng Nghymru, apwyntiad uniongyrchol gan eich Llywodraeth?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:39

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

There is nobody who is in charge of the NHS in Wales, as director general, who is from ABMU health board at this moment in time. I have to say to the leader of the opposition that he is right to point out the gravity of the report. I remind him, of course, that it was this Government that commissioned this report in the first place. It is not possible for governments to understand what happens on every ward in every hospital at all times, but it is correct that people should judge governments by the response that they give, once failings are identified to them. I believe that the statement that the Minister for health will give in the Chamber this afternoon will address all of those issues to the satisfaction of the people of Wales.

Nid oes unrhyw un sy'n gyfrifol am y GIG yng Nghymru, fel cyfarwyddwr cyffredinol, sy'n dod o fwrdd iechyd PABM ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i mi ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid ei fod yn iawn i dynnu sylw at ddifrifoldeb yr adroddiad. Rwy'n ei atgoffa, wrth gwrs, mai'r Llywodraeth hon gomisiynodd yr adroddiad hwn yn y lle cyntaf. Nid yw'n bosibl i lywodraethau ddeall beth sy'n digwydd ar bob ward ym mhob ysbyty bob amser, ond mae'n iawn y dylai pobl farnu llywodraethau ar sail yr ymateb maen nhw'n ei roi, ar ôl iddynt gael eu hysbysu am fethiannau. Rwy'n credu y bydd y datganiad y bydd y Gweinidog iechyd yn ei wneud yn y Siambr y prynhawn yma yn mynd i'r afael â'r holl faterion hynny i foddhad pobl Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:40

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the point that I made to you was that the last two directors general of your health service, of which you are First Minister, were from this health board, which has been identified as being in failure to deliver quality care and quality medical supervision on its wards and in its hospitals. We have time and again called for a comprehensive Keogh-style inquiry across Wales. I believe that the evidence is stacking up; clinicians believe that evidence is stacking up; patients believe that the evidence is stacking up; and your own appointments of professional people to run the health service in Wales are questionable. Therefore, how can we have any confidence that this is not happening in other hospitals across Wales unless we have that clear independent inquiry that can give us the answers that the clinicians, patients and politicians require to have that confidence?

Brif Weinidog, y pwynt a wneuthum i chi oedd bod dau gyfarwyddwr cyffredinol diwethaf eich gwasanaeth iechyd, yr ydych chi'n Brif Weinidog arno, yn dod o'r bwrdd iechyd hwn, y nodwyd ei fod wedi methu â darparu gofal o ansawdd a goruchwyliaeth feddygol o ansawdd ar ei wardiau ac yn ei ysbysai. Rydym ni wedi galw dro ar ôl tro am ymchwiliad cynhwysfawr o fath Keogh ledled Cymru. Rwyf fi'n credu bod tystiolaeth yn pentyrru; mae clinigwyr yn credu bod tystiolaeth yn pentyrru; mae cleifion yn credu bod tystiolaeth yn pentyrru; ac mae eich penodiadau chi eich hun o bobl broffesiynol i redeg y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn amheus. Felly, sut y gallwn ni fod yn ffyddiog nad yw hyn yn digwydd mewn ysbysai eraill ledled Cymru oni bai ein bod yn cael yr ymchwiliad annibynnol eglur hwnnw sy'n gallu rhoi'r atebion i ni y mae'r clinigwyr, cleifion a gwleidyddion eu hangen i fod â'r hyder hwnnw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The leader of the opposition is going beyond what the review and its report said. The report stated that it did not wish to see resignations or sackings. It is quite clear about that. In fact, it states that the health board should remain in place in order to take through the recommendations that are there. I will not cherry-pick parts of the report for my own purposes. I will—as will this Government—accept all that is in that report. We accept all of the recommendations and we will take action.

Mae arweinydd yr wrthblaid yn mynd y tu hwnt i'r hyn a ddywedodd yr adolygiad a'i adroddiad. Dywedodd yr adroddiad nad oedd yn dymuno gweld ymddiswyddiadau na diswyddiadau. Mae'n gwbl eglur ynglŷn â hynny. Mewn gwirionedd, mae'n nodi y dylai'r bwrdd iechyd barhau i weithredu er mwyn cyflawni'r argymhellion sydd yno. Nid wyf yn dewis darnau penodol o'r adroddiad at fy nibenion fy hun. Rwy'n derbyn—fel y gwnaiff y Llywodraeth hon—popeth sydd yn yr adroddiad hwnnw. Rydym ni'n derbyn pob un o'r argymhellion a byddwn yn cymryd camau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The leader of the opposition refers to a statement. Yes; a written statement has gone out, but the main statement will be made this afternoon in this Chamber before Members, when they will have the opportunity to ask questions of the Minister for health. I can say, without wishing to prejudice what the Minister for health will say, once again, that we will accept the recommendations of this review that we commissioned. The review was commissioned following specific allegations made by an individual. The Minister for health listened and a review was put in place as a result. The review is quite clear in terms of what needs to be done. There are recommendations there for the Welsh Government, and they will be taken forward. There are also recommendations for local health boards, and they will be implemented. We will, of course, ask to be judged on the response that we give to what is—I accept, from his point of view—a report that has elements that are truly shocking.

Mae arweinydd yr wrthblaid yn cyfeirio at ddatganiad. Oes; mae datganiad ysgrifenedig wedi ei gyhoeddi, ond bydd y prif ddatganiad yn cael ei wneud y prynhawn yma yn y Siambr hon gerbron yr Aelodau, pan fydd cyfle iddyn nhw ofyn cwestiynau i'r Gweinidog iechyd. Gallaf ddweud, heb dymuno rhagfarnu'r hyn y bydd y Gweinidog iechyd yn ei ddweud, unwaith eto, y byddwn yn derbyn argymhellion yr adolygiad hwn a gomisiynwyd gennym. Comisiynwyd yr adolygiad yn dilyn honiadau penodol a wnaed gan unigolyn. Gwrandawodd y Gweinidog iechyd a rhoddwyd adolygiad ar waith o ganlyniad. Mae'r adolygiad yn gwbl eglur o ran yr hyn y mae angen ei wneud. Ceir argymhellion yno i Lywodraeth Cymru, a byddant yn cael eu cyflawni. Ceir argymhellion hefyd i fyrdau iechyd lleol, a byddant yn cael eu rhoi ar waith. Byddwn, wrth gwrs, yn gofyn i gael ein barnu ar yr ymateb yr ydym ni'n ei roi i adroddiad—rwy'n derbyn, o'i safbwynt ef—sy'n cynnwys elfennau sy'n wirioneddol frawychus.

13:42

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

Diolch. I note that the Government will be making a statement later into the events around Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, and I also note the publication of one of the independent reviews this morning. Ahead of that, can the First Minister explain why he believes that at least 11 concurrent investigations are preferable to an overarching one?

Diolch. Rwy'n nodi y bydd y Llywodraeth yn gwneud datganiad yn ddiweddarach ar ddiwyddiadau yn ymwneud â Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ac rwyf hefyd yn nodi cyhoeddiad un o'r adolygiadau annibynnol y bore yma. Cyn hynny, a all y Prif Weinidog egluro pam mae'n credu bod o leiaf 11 o ymchwiliadau cydamserol yn well nag un cyffredinol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> I do not know of 11 concurrent investigations particularly of this sort. I think that it is right that, where certain issues are raised, there is a review of this sort. Indeed, the report itself states that there is no requirement for a public inquiry.	Senedd.tv Fideo Video
13:43	Leanne Wood Bywgraffiad Biography There are a number of reviews going on at the same time. There is little doubt that public confidence must be restored here now. One of the recommendations of the 'Trusted to Care' review is for the Welsh Government to institute a further independent review of provision for older people. Is it not in the best interests of patients, and indeed of public confidence, to have a broader process?	Senedd.tv Fideo Video
13:44	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> No. We will follow the recommendations in the report, as I have already indicated. The report itself, again, makes it clear that this is not a Mid Staffs situation. It makes it clear that this is not a case for a further public inquiry. It also says that it is not a case where—if I can put it this way—heads should roll. It makes it very clear that there are actions that must be taken and those actions will be taken.	Senedd.tv Fideo Video
13:44	Leanne Wood Bywgraffiad Biography I specifically raised the issue of a more wide-ranging process because none of the reviews so far has considered what legislative avenues could be explored. There have been allegations of tampering with medical records in this case. Will the First Minister therefore support legislation proposed by my colleague, Jocelyn Davies, for greater medical accountability and the safeguarding of patient records? Jocelyn Davies's proposals come from specific recommendations in the Mid Staffs inquiry. Will the First Minister agree to at least explore this possibility?	Senedd.tv Fideo Video
13:45	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Yes, I think that it is important that people have faith that medical records are accurate and that they are open. Of course, we are more than happy to discuss how that might be done with the party opposite. I do emphasise that, as far as this instance is concerned, we will be taking forward all of the recommendations that are included in that report, although the leader of Plaid Cymru will appreciate that I cannot comment specifically on issues that are in the hands of the police.	Senedd.tv Fideo Video
13:45	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.	Senedd.tv Fideo Video
13:45	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography <i>Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats</i> First Minister, let me start with a quote:	Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf yn gwybod am 11 o ymchwiliadau cydamserol, yn enwedig o'r math hwn. Rwy'n meddwl ei bod yn iawn, lle codir materion penodol, y ceir adolygiad o'r math hwn. Mewn gwirionedd, mae'r adroddiad ei hun yn nodi nad oes angen ymchwiliad cyhoeddus.

Mae nifer o adolygiadau yn cael eu cynnal ar yr un pryd. Nid oes fawr o amheuaeth bod yn rhaid adennill hyder y cyhoedd yma nawr. Un o argymhellion adolygiad 'Trusted to Care' yw i Lywodraeth Cymru sefydlu adolygiad annibynnol pellach o'r ddarpariaeth ar gyfer pobl hŷn. Onid yw er lles gorau cleifion, a hyder y cyhoedd yn wir, i gael proses ehangach?

Nac ydy. Byddwn yn dilyn yr argymhellion yn yr adroddiad, fel yr wyf wedi dweud eisoes. Mae'r adroddiad ei hun, unwaith eto, yn ei gwneud yn eglur nad yw hon yn sefyllfa fel yr un yng Nghanol Swydd Stafford. Mae'n ei gwneud yn eglur nad yw hwn yn achos am ymchwiliad cyhoeddus pellach. Mae hefyd yn dweud nad yw'n achos lle—os caf ei roi fel hyn—y dylai pobl golli eu swyddi. Mae'n ei gwneud yn eglur iawn bod camau y mae'n rhaid eu cymryd a bydd y camau hynny'n cael eu cymryd.

Codais yn benodol y mater o broses fwy eang gan nad oes unrhyw un o'r adolygiadau hyd yn hyn wedi ystyried pa lwybrau deddfwriaethol y gellid eu harchwilio. Cafwyd honiadau o ymyrryd â chofnodion meddygol yn yr achos hwn. A wnaiff y Prif Weinidog gefnogi felly deddfwriaeth a gynigir gan fy nghyd-Aelod, Jocelyn Davies, am fwy o atebolrwydd meddygol a diogelu cofnodion cleifion? Daw cynigion Jocelyn Davies o argymhellion penodol yn ymchwiliad Canol Swydd Stafford. A wnaiff y Prif Weinidog gytuno i archwilio'r posibilrwydd hwn o leiaf?

Gwnaf. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod gan bobl ffydd bod cofnodion meddygol yn gywir a'u bod yn agored. Wrth gwrs, rydym ni'n fwy na pharod i drafod sut y gellid gwneud hynny gyda'r blaid gyferbyn. Rwyf yn pwysleisio, cyn belled ag y mae'r achos hwn yn y cwestiwn, y byddwn yn bwrw ymlaen â phob un o'r argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw, er y bydd arweinydd Plaid Cymru yn gwerthfawrogi na allaf wneud sylwadau penodol ar faterion sydd yn nwylo'r heddlu.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Brif Weinidog, gadewch i mi ddechrau gyda dyfyniad:

'We heard evidence of food remaining uneaten on trays with no assistance on offer, or of patients struggling to feed themselves being helped by other people's visitors.'

That is not a quote from this morning's damning report into Abertawe Bro Morgannwg. It is, in fact, a quote from the Commissioner for Older People in Wales's 'Dignified Care?' report, published three years ago. At that time, your Government promised improvements and action, but the report this morning highlights very similar, shocking failings in the care of vulnerable older people. May I ask you how many more reports will have to be produced for your Government before we see concrete action that stops this shocking failing of older people in hospital?

'Clywsom dystiolaeth am fwyd a oedd heb ei fwyta yn cael ei adael ar hambyrddau heb unrhyw gynigion o gymorth, neu gleifion yn cael trafferth i fwydo'u hunain ac yn cael eu helpu gan ymwelwyr pobl eraill.'

Nid dyfyniad o adroddiad damniol y bore yma ar Abertawe Bro Morgannwg yw hwnna. Dyfyniad ydyw, mewn gwirionedd, o adroddiad 'Gofal gydag Urddas?' Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a gyhoeddwyd tair blynedd yn ôl. Ar y pryd, addawodd eich Llywodraeth welliannau a chamau gweithredu, ond mae'r adroddiad y bore yma yn amlygu methiannau brawychus tebyg iawn yng ngofal pobl hŷn sy'n agored i niwed. A gaf fi ofyn i chi faint mwy o adroddiadau y bydd yn rhaid eu cynhyrchu ar gyfer eich Llywodraeth cyn i ni weld camau pendant sy'n atal y methiant syfrdanol hwn o ran pobl hŷn yn yr ysbyty?

13:46

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I will not argue with what the leader of the Liberal Democrats has highlighted, because I believe that it is important, when a report like this is produced, that there is no attempt to whitewash or, indeed, soft soap when it comes to the issues themselves. The review itself, although conducted into events at ABMU, is relevant across the whole of Wales, and I would expect all LHBs in Wales to conduct themselves according to the recommendations in the report. The Minister for health will, in the course of his statement this afternoon, give Members details of how the recommendations will be followed up in order to make sure that they are implemented.

Ni wnaf ddadlau â'r hyn y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi ei amlygu, gan fy mod yn credu ei fod yn bwysig, pan fydd adroddiad fel hwn yn cael ei gynhyrchu, nad oes unrhyw ymgais i wyngalchu neu, yn wir, ysgafnhau pan ddaw at y materion eu hunain. Mae'r adolygiad ei hun, er iddo gael ei gynnal ar sail digwyddiadau yn PABM, yn berthnasol ar draws Cymru gyfan, a byddwn yn disgwyl i bob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru ymddwyn yn unol â'r argymhellion yn yr adroddiad. Bydd y Gweinidog Iechyd, yn ystod ei ddatganiad y prynhawn yma, yn rhoi manylion i'r Aelodau o sut y bydd yr argymhellion yn cael eu dilyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:47

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

With all due respect, First Minister, your Government's previous Minister for health made exactly the same commitments following the publication of the 'Dignified Care?' report. However, the 'Trusted to Care' report, published today, highlights that there is a disconnect between front-line staff and managers, and that there is confusion over leadership responsibilities and accountabilities. Now, just last year, the Wales Audit Office report produced very similar findings about Betsi Cadwaladr, stating that the health board was not adequately addressing the gap between the ward and the board, and that there was a disconnect between clinical functions and management at hospital sites. When will your Government ensure that the lessons learned at one health board will be learned across the entire Welsh NHS?

Gyda phob dyledus barch, Brif Weinidog, gwnaeth Weinidog Iechyd blaenorol eich Llywodraeth yn union yr un ymrwymadau yn dilyn cyhoeddiad adroddiad 'Gofal gydag Urddas?'. Fodd bynnag, mae'r adroddiad 'Trusted to Care', a gyhoeddwyd heddiw, yn amlygu bod diffyg cysylltiad rhwng aelodau staff rheng flaen a rheolwyr, a bod dryswch ynghylch cyfrifoldebau ac atebolrwydd arweinyddiaeth. Dim ond y llynedd, cynhyrchodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ganfyddiadau tebyg iawn am Betsi Cadwaladr, gan ddweud nad oedd y bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael â'r bwlch rhwng y ward a'r bwrdd yn briodol, a bod diffyg cysylltiad rhwng y swyddogaethau clinigol a rheolwyr yn yr ysbytai. Pryd wnaiff eich Llywodraeth sicrhau y bydd y gwersi a ddysgwyd mewn un bwrdd Iechyd yn cael eu dysgu ar draws y GIG cyfan yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:48

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

That is crucial, although I would urge Members not to think that this is true of all LHBs. Issues have been identified today in ABMU, and they are serious issues. There have been other issues that have been identified in one other LHB in Wales, and changes have been effected since then. I must emphasise once again that, even though this review is a review of events that occurred at two hospitals in ABMU, it would not be correct to say that the problems were endemic throughout both hospitals, but they were serious in some areas, and in some wards of those hospitals. I would therefore expect all LHBs in Wales to follow the recommendations that are in the report, and they will of course be judged according to how they have followed those recommendations.

Mae hynny'n hollbwysig, er y byddwn yn annog yr Aelodau i beidio â meddwl bod hyn yn wir am bob BILL. Nodwyd problemau yn PABM heddiw, ac maen nhw'n broblemau difrifol. Nodwyd problemau eraill mewn un BILL arall yng Nghymru, ac mae newidiadau wedi eu gwneud ers hynny. Mae'n rhaid i mi bwysleisio unwaith eto, er bod yr adolygiad hwn yn adolygiad o ddigwyddiadau a ddigwyddodd mewn dau ysbyty yn PABM, na fyddai'n gywir dweud bod y problemau yn rhemp yn y ddau ysbyty drwyddi draw, ond roedden nhw'n ddifrifol mewn rhai mannau, ac mewn rhai o wardiau'r ysbytai hynny. Byddwn yn disgwyl felly i bob BILL yng Nghymru ddilyn yr argymhellion sydd yn yr adroddiad, a byddant yn cael eu barnu, wrth gwrs, yn ôl sut y byddan nhw wedi dilyn yr argymhellion hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very interested in the First Minister's comments on how LHBs will be judged. Let us be clear that the only people held to account so far for the failings at Abertawe Bro Morgannwg are front-line nursing staff, working in a system that, if you read the report, practically set them up to fail. Now, I am not here to defend individual poor nursing practice, but I am here to hold your Government to account. When are you going to ensure that all local health boards across Wales have the right staff, with the right training, in the right numbers and on the right shifts to stop these things from happening?

Mae gennyf ddiddordeb mawr yn sylwadau'r Prif Weinidog ar sut y bydd BILLau yn cael eu barnu. Gadewch i ni fod yn eglur mai'r unig bobl sydd wedi cael eu dwyn i gyfrif hyd yn hyn am y methiannau yn Abertawe Bro Morgannwg yw aelodau staff nyrsio rheng flaen, yn gweithio mewn system a wnaeth, os darllenwch chi'r adroddiad, eu paratoi mwy neu lai i fethu. Nid wyf i yma i amddiffyn ymarfer nyrsio gwael unigol, ond rwyf yma i ddwyn eich Llywodraeth i gyfrif. Pryd ydych chi'n mynd i sicrhau bod yr aelodau staff cywir, â'r hyfforddiant cywir, yn y niferoedd cywir ac ar y shiftiau cywir yn yr holl fyrddau iechyd lleol ledled Cymru, i atal y pethau hyn rhag digwydd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

These are matters that the local health boards must ensure happen in the future. She asked the question, and it is a fair one, of how Members can be sure that this will happen in the future. Members will know that the Minister for health is considering his response to the health committee in terms of Healthcare Inspectorate Wales, for example, and how that can be strengthened in the future, particularly with regard to inspections. I take the point very much that it is not sufficient for hospitals to take on board these recommendations and implement them, but only in the short term. We understand that there is a need to ensure that the inspection process is sufficiently robust to ensure that the recommendations contained in this report are implemented in the short term, but continue for the future.

Mae'r rhain yn faterion y mae'n rhaid i'r byrddau iechyd lleol sicrhau eu bod yn digwydd yn y dyfodol. Gofynnodd y cwestiwn, ac mae'n un teg, o sut y gall Aelodau fod yn siŵr y bydd hyn yn digwydd yn y dyfodol. Bydd yr Aelodau'n gwybod bod y Gweinidog iechyd yn ystyried ei ymateb i'r pwyllgor iechyd o ran Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, er enghraifft, a sut y gellir ei chryfhau yn y dyfodol, yn enwedig o ran arolygiadau. Rwy'n derbyn yn llwyr y pwynt nad yw'n ddigon i ysbytai dderbyn yr argymhellion hyn a'u rhoi ar waith, ond yn y tymor byr yn unig. Rydym ni'n deall bod angen sicrhau bod y broses arolygu yn ddigon cadarn i wneud yn siŵr bod yr argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn cael eu rhoi ar waith yn y tymor byr, ond yn parhau ar gyfer y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move back to the questions on the paper and question 3 is from Eluned Parrott.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur nawr a daw cwestiwn 3 gan Eluned Parrott.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ardaloedd Menter yn Ne Cymru

Enterprise Zones in South Wales

13:50

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr Ardaloedd Menter yn ne Cymru?
OAQ(4)1655(FM)

3. Will the First Minister provide an update on the progress made by Enterprise Zones in south Wales?
OAQ(4)1655(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:50	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Yes, they are making sound progress. I announced yesterday that just over 5,000 jobs have been supported across our enterprise zones, and we will report against other indicators later this month.	Senedd.tv Fideo Video
13:50	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography Thank you, First Minister. The Welsh Government's longitudinal survey states that only 32% of the businesses in the central Cardiff enterprise zone knew that they were in an enterprise zone, but that a forthcoming marketing campaign will be launched to address that. When will that campaign begin, and what objectives will be set for it?	Senedd.tv Fideo Video
13:51	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> The objective will be, of course, to ensure that more is done to ensure that people are aware of the enterprise zone in terms of the advantages that it brings. However, I believe that it will happen as we see more businesses taking an interest in and moving into the enterprise zone, and that is something that is happening at the moment. We have to ensure as a Government that there is suitable office accommodation to attract key tenants—that is crucial—and I believe that, as we have seen, with the announcements beginning within the Cardiff central enterprise zone, awareness will grow and the success of the zone will grow further.	Senedd.tv Fideo Video
13:51	William Graham Bywgraffiad Biography Thank you, Presiding Officer. I am sure, First Minister, you will agree with me that we welcome the news that Tenneco-Walker is to create 200 jobs in Merthyr just along the A465 from the Ebbw Vale enterprise zone. That particular enterprise zone has been promoted as a potential hub for motor industry manufacturing and research. Could you indicate what progress has been made towards making that a reality?	Senedd.tv Fideo Video
13:52	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Some good work has been done at the Heads of the Valleys enterprise zone, for example, money has been invested at the Rhyd y Blew site. The Member will know that work on the Heads of the Valleys road is under way, and of course we are examining the potential for extending the railway line from Ebbw Vale Parkway into Ebbw Vale itself, which would certainly help in terms of attracting investment. I certainly very much welcome the decision by Tenneco-Walker to build a new manufacturing facility at Dowlais Top with 220 jobs, and I am sure that all Members will welcome that.	Senedd.tv Fideo Video

13:52

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, yn ôl eich adroddiad y mis diwethaf, dim ond un o bob pump o fusnesau yn y parthau menter oedd yn ymwybodol o fenthyciadau ffafriol Cyllid Cymru, ac hefyd y system i gyflwyno band eang dros Gymru gyfan. Yn sgîl hynny, beth ydych wedi ei wneud i ymateb i'r hyn sy'n cael ei ddweud yn yr adroddiad? Yn amlwg, rydym am fod busnesau yn ymwybodol o'r cyfleon hyn.

First Minister, according to your report of last month, only one in five businesses in the enterprise zones were aware of favourable loans available from Finance Wales, and also the broadband roll-out across Wales. In light of that, what have you done to respond to what is said in that report? Clearly, we want businesses to be aware of these opportunities.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Llawer, ac mae hynny'n ymddangos yn y ffaith bod cymaint o swyddi wedi cael eu creu, neu wedi cael eu gwarchod, yn y parthau eu hunain. Fel y dywedais, mae dros 5,000, ac mae hynny'n rhywbeth i'w groesawu.

We have done a lot, and that appears in the fact that so many posts have been created or protected in the zones themselves. As I said, they are in excess of 5,000 and that is something to be welcomed.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Hyfforddiant ar gyfer Pobl ag Anableddau

Training for People with Disabilities

13:53

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu pobl ag anableddau i gael gafael ar hyfforddiant er mwyn cael cyflogaeth? OAQ(4)1660(FM)

4. How is the Welsh Government helping people with disabilities access training in order to gain employment? OAQ(4)1660(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Supporting people to find sustainable employment remains a key priority for us as a Government. We have programme for government commitments extending apprenticeships and providing training opportunities, such as Jobs Growth Wales, and of course we have provided the employment support grant for those affected by the Remploy closures.

Mae cefnogi pobl i ddod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i ni fel Llywodraeth. Mae gennym raglen ar gyfer ymrwymadau llywodraeth sy'n ymestyn prentisiaethau ac yn darparu cyfleoedd hyfforddiant, fel Twf Swyddi Cymru, ac wrth gwrs rydym ni wedi darparu'r grant cymorth cyflogaeth i'r rhai yr effeithiwyd arnynt oherwydd cau Remploy.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that. Evidence rather sadly shows that many employers in Wales still have a negative attitude towards employing people suffering sight loss. In fact, according to research by the Royal National Institute of Blind People Cymru, blind and partially sighted people are more likely to be unemployed than people with other disabilities. Last week, I hosted an event to launch the RNIB's successful Future Insight project, at which my colleague Ken Skates spoke very eloquently. It is aimed at helping young people with sight problems to gain training and helping them into employment. First Minister, what further action is the Welsh Government taking to encourage and raise awareness among employers that sight loss need not be a barrier to employment?

Diolch i chi am hynna. Mae tystiolaeth yn dangos braidd yn anffodus bod llawer o gyflogwyr yng Nghymru yn dal i fod ag agwedd negyddol tuag at gyflogi pobl sydd wedi colli eu golwg. Yn wir, yn ôl gwaith ymchwil gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion Cymru, mae pobl ddall a rhannol ddall yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na phobl ag anableddau eraill. Yr wythnos diwethaf, cynhaliais ddigwyddiad i lansio prosiect llwyddiannus Future Insight yr RNIB, lle siaradodd fy nghyd-Aelod Ken Skates yn huawdl iawn. Ei nod yw helpu pobl ifanc sydd â phroblemau gyda'u golwg i gael hyfforddiant a'u helpu i gael gwaith. Brif Weinidog, pa gamau pellach mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog a chodi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr nad oes angen i golli golwg fod yn rhwystr i gyflogaeth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Indeed. I refer the Member to the eye healthcare delivery plan that was launched in September of last year. That does look at how local government and health boards, working with the third sector, can plan, co-ordinate and deliver services for people in their local communities. To my mind, that also means that they need to ensure that awareness is raised among potential employers of the potential that exists among those who are blind or partially sighted, in terms of what they can offer them as employees. Of course, we have ensured, via the employer support grant, that there is support there for those who were previously Remploy workers. I would agree with what the Member has said in terms of ensuring that local government, local health boards and employers work together to ensure that those who are blind or partially sighted are not put at a disadvantage in the employment market.

Yn wir. Cyfeiriaf yr Aelod at y cynllun cyflawni ar ofal iechyd llygaid a lansiwyd ym mis Medi y llynedd. Mae hwnnw'n ystyried sut y gall llywodraeth leol a byrddau iechyd, gan weithio gyda'r trydydd sector, gynllunio, cydgysylltu a darparu gwasanaethau i bobl yn eu cymunedau lleol. Yn fy marn i, mae hynny'n golygu hefyd bod angen iddyn nhw sicrhau bod ymwybyddiaeth yn cael ei godi ymhlith darpar gyflogwyr o'r potensial sy'n bodoli ymhlith y rhai sy'n ddall neu'n rhannol ddall, o ran yr hyn y gallant ei gynnig iddyn nhw fel gweithwyr. Wrth gwrs, rydym wedi sicrhau, trwy gyfrwng y grant cymorth cyflogwyr, bod cefnogaeth yno i'r rhai a oedd yn weithwyr Remploy cynt. Byddwn yn cytuno â'r hyn y mae'r Aelod wedi ei ddweud o ran sicrhau bod llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyflogwyr yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau nad yw'r rhai sy'n ddall neu'n rhannol ddall yn cael eu rhoi dan anfantais yn y farchnad gyflogaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, despite the fact that there is supposed to be a disability employment advisor in every job centre across Wales, I can advise that it is very difficult for those who are disabled to find training support, either to enter work for the first time or to return to work. Over the border in England, there are nine residential training providers with staff ably trained and knowledgeable on disability issues. However, this facility is simply not available in Wales. Why is that the case and what are you doing as the First Minister to ensure that anybody wanting to return to work, or to start work for the first time, disabled or otherwise, receives the appropriate support from the Welsh Government?

Brif Weinidog, er gwaethaf y ffaith y dylai fod cynghorydd cyflogaeth i'r anabl ym mhob canolfan waith ledled Cymru, gallaf ddweud wrthy ch ei bod yn anodd iawn i'r rhai sy'n anabl ddod o hyd i gefnogaeth hyfforddiant, naill ai i ddechrau gweithio am y tro cyntaf neu i ddychwelyd i'r gwaith. Dros y ffin yn Lloegr, ceir naw darparwr hyfforddiant preswyl ag aelodau staff sydd wedi eu hyfforddi'n fedrus ac sy'n wybodus am faterion anabledd. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleuster hwn ar gael yng Nghymru. Pam mae hynny'n wir a beth ydych chi'n ei wneud fel y Prif Weinidog i sicrhau bod unrhyw un sydd eisiau dychwelyd i'r gwaith, neu ddechrau gweithio am y tro cyntaf, yn anabl neu fel arall, yn derbyn y gefnogaeth briodol gan Lywodraeth Cymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I was not aware that the DWP was a Welsh Government department. As far as I can recall, and most Members, it is run by your party and your Government in London. If there are those in Wales who are put at a disadvantage compared to those in England, it is a matter that I would urge the Member to take up with her colleagues at Westminster.

Nid oeddwn i'n ymwybodol bod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn adran Llywodraeth Cymru. Cyn belled ag y gallaf gofio, a'r rhan fwyaf o Aelodau, fe'i rhedir gan eich plaid chi a'ch Llywodraeth chi yn Llundain. Os oes rhai yng Nghymru sy'n cael eu rhoi dan anfantais o'u cymharu â'r rhai yn Lloegr, mae'n fater y byddwn yn annog yr Aelod i'w godi gyda'i chydweithwyr yn San Steffan.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, what liaison is there between the Welsh Government and trade unions to ensure that public sector organisations in Wales are positively encouraging disabled people to apply for jobs?

Brif Weinidog, pa gysylltiad sy'n bodoli rhwng Llywodraeth Cymru ac undebau llafur i sicrhau bod sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru yn annog pobl anabl yn gadarnhaol i wneud cais am swyddi?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

There is a great deal of engagement between us and trade unions, as the Member might imagine. We work on a number of projects in order to help with training and employment. One example of where that has happened is the ESG. That is support that has been given to workers in Wales. It was not available, sadly, to disabled workers in England. That is something I know that many people in Wales have benefited from.

Ceir llawer iawn o ymgysylltu rhyngom ni ac undebau llafur, fel y gallai'r Aelod ddychmygu. Rydym ni'n gweithio ar nifer o brosiectau er mwyn helpu gyda hyfforddiant a chyflogaeth. Un enghraifft o le mae hynny wedi digwydd yw'r ESG. Cefnogaeth yw honno sydd wedi ei rhoi i weithwyr yng Nghymru. Nid oedd ar gael, yn anffodus, i weithwyr anabl yn Lloegr. Mae hynny'n rhywbeth rwy'n gwybod bod llawer o bobl yng Nghymru wedi elwa arno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Perfformiad Gwael yn GIG Cymru

Poor Performance in the Welsh NHS

13:57

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â pherfformiad gwael yn GIG Cymru? OAQ(4)1647(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

5. Will the First Minister outline the action he is taking to address poor performance in the Welsh NHS? OAQ(4)1647(FM)

13:57

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Performance in the Welsh NHS is improving. There will be occasions when that is not the case, as we have already discussed in this Chamber this afternoon. Where performance is not adequate or not satisfactory then we will take action to remedy the situation.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae perfformiad yn y GIG yng Nghymru yn gwella. Bydd adegau pan nad yw hynny'n wir, fel rydym ni eisoes wedi ei drafod yn y Siambr y prynhawn yma. Pan nad yw perfformiad yn ddigonol neu nad yw'n foddhaol, yna byddwn yn cymryd camau i ddatrys y sefyllfa.

13:57

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, one aspect of poor performance that concerns have been raised about is mortality rates in hospitals. There were concerns raised by Sir Bruce Keogh on this matter in e-mails that were sent between the Welsh Government and him. Why did you try to cover those up?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, un agwedd ar berfformiad gwael y codwyd pryderon amdani yw cyfraddau marwolaeth mewn ysbytai. Codwyd pryderon gan Syr Bruce Keogh ar y mater hwn mewn e-byst a anfonwyd rhwng Llywodraeth Cymru ac yntau. Pam wnaethoch chi geisio cuddio'r rheini?

13:57

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I can assure Members that Ministers had no role in terms of determining whether this information should be released or not, because Ministers never saw the paperwork. What happened was that the Department of Health released all the information before any decision could be taken about any Minister as to whether any exemption should be applied. I have to inform Members that the 'Daily Mail' rang us about this on Friday. It asked us why we did not publish mortality rates, and when we told it that we did and gave it the link to the website where they were published, it refused to take any more calls and wrote the story anyway. Sure enough, the Member fell into the trap of being quoted as part of that story, despite the fact that the story was entirely fallacious and based on very weak grounds.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gallaf sicrhau'r Aelodau nad oedd gan Weinidogion unrhyw swyddogaeth o ran penderfynu a ddylai'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi ai peidio, gan na welodd Gweinidogion y papur. Yr hyn a ddigwyddodd oedd bod yr Adran Iechyd wedi cyhoeddi'r holl wybodaeth cyn y gellid gwneud unrhyw benderfyniad am unrhyw Weinidog ynghylch pa un a ddylid rhoi unrhyw eithriad ar waith ai peidio. Mae'n rhaid i mi hysbysu'r Aelodau bod y 'Daily Mail' wedi ein ffonio am hyn ddydd Gwener. Gofynnodd i ni pam nad oeddem ni'n cyhoeddi cyfraddau marwolaeth, a phan ddywedasom wrtho ein bod ni yn gwneud hynny a rhoi'r ddolen i'r wefan lle cawsant eu cyhoeddi, gwrthododd dderbyn unrhyw alwadau pellach ac ysgrifennodd y stori beth bynnag. Yn sicr ddigon, syrthiodd yr Aelod i'r fagl o gael ei ddyfynnu yn rhan o'r stori honno, er gwaethaf y ffaith fod y stori yn gwbl anghywir ac yn seiliedig ar sail wan iawn.

13:58

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I welcome the fact that health boards, including Cwm Taf Local Health Board, will now have the financial flexibility to plan over a three-year period. Can you outline what you see as the benefits to the south central alliance and to the people in my constituency of that change?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, rwy'n croesawu'r ffaith y bydd gan y byrddau iechyd, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, yr hyblygrwydd ariannol bellach i gynllunio dros gyfnod o dair blynedd. A allwch chi amlinellu beth, yn eich barn chi, yw manteision y newid hwnnw i gynghrair canol de Cymru a'r bobl yn fy etholaeth i?

13:58

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. Before I answer the Member's question, I return to the original question. I should add that, if I remember rightly, the information that the Member earlier referred to was released as a result of a freedom of information request to the Department of Health, which was answered in two hours. That gives you some idea of the level of collusion that took place between the Department of Health, the now wholly politicised Government department, and some sections of the media. To turn to what the Member for Pontypridd has asked me, I believe that it is absolutely right that health boards have greater flexibility. The fact that they will be able to plan their finances over three years, as do many organisations in the public and third sector, will help them to budget and help them to deliver better services for the people they serve.

Gallaf. Cyn i mi ateb cwestiwn yr Aelod, dof yn ôl at y cwestiwn gwreiddiol. Dylwn ychwanegu, os cofiaf yn iawn, bod y wybodaeth y cyfeiriodd yr Aelod ati'n gynharach wedi ei chyhoeddi o ganlyniad i gais rhyddid gwybodaeth i'r Adran Iechyd, a atebwyd mewn dwy awr. Mae hynny'n rhoi rhyw syniad i chi o'r lefel o gydgyllwynio a ddigwyddodd rhwng yr Adran Iechyd, yr adran Lywodraeth sy'n gwbl wleidyddol bellach, a rhai rhannau o'r cyfryngau. I droi at yr hyn y mae'r Aelod dros Bontypridd wedi ei ofyn i mi, rwy'n credu ei bod yn hollol iawn bod gan fyrdau iechyd fwy o hyblygrwydd. Bydd y ffaith y byddant yn gallu cynllunio eu cyllid dros dair blynedd, fel y mae llawer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn ei wneud, yn eu helpu i gyllidebu ac yn eu helpu i ddarparu gwell gwasanaethau i'r bobl maen nhw'n eu gwasanaethu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, yn eich atebion ynghynt y prynhawn yma, rydych wedi sôn am yr ystyriaeth i gryfhau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r arolygiaeth iechyd ar hyn o bryd yn isadran o adran llywodraeth leol eich Llywodraeth chi. Er mwyn cynyddu hyder pobl Cymru yn y broses o arolygu'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, a ydych yn credu ei bod yn bryd eich bod fel Llywodraeth hefyd yn ystyried creu arolygiaeth iechyd sy'n gwbl annibynnol o Lywodraeth?

First Minister, in your earlier responses this afternoon, you have talked about the consideration of strengthening Healthcare Inspectorate Wales. At the moment, the health inspectorate is a sub-section of the local government directorate in your Government. In order to augment the confidence of the people of Wales in the process of inspecting the health service in Wales, do you not believe that it is high time that you as a Government considered creating a totally independent inspectorate?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wel, bydd y Gweinidog, wrth gwrs, yn ymateb i'r pwyllgor ynglŷn â hynny. Mae'n rhaid imi atgoffa Aelodau nad Llywodraeth Cymru wnaeth greu'r sefyllfa sydd gennym ar hyn o bryd—y Llywodraeth yn San Steffan wnaeth hynny—felly nid dewis Llywodraeth Cymru yw'r strwythur presennol. Mae'n bwysig dros ben sicrhau bod y strwythur yn y dyfodol yn un sy'n creu hyder ymhlith pobl Cymru ynglŷn â'r systemau arolygu.

Well, the Minister, of course, will respond to the committee on that. I should remind Members that it is not the Welsh Government that created the situation that we currently have—the Westminster Government did that—so the current structure is not the Welsh Government's choice. It is very important that the future structure is one that creates confidence among the people of Wales in relation to the inspectorate system.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, one of the key passages in the Andrews report is:

'The Review Team does have a concern that the Board over a number of years appears to have been driven mainly by a model of short-term financial planning required by the operational and planning framework processes in place across the NHS in Wales.'

Professor Andrews says:

'The question should be asked about whether such a relentless focus on financial delivery year-on-year prompted by the national system is distracting NHS Boards from a proper focus on quality and patient safety.'

Brif Weinidog, un o'r rhannau allweddol yn adroddiad Andrews yw:

Mae gan Dîm yr Adolygiad bryder ei bod yn ymddangos bod y Bwrdd wedi cael ei sbarduno dros nifer o flynyddoedd yn bennaf gan fodel o gynllunio ariannol tymor byr sy'n ofynnol dan y prosesau fframwaith gweithredol a chynllunio sydd ar waith ar draws y GIG yng Nghymru.

Dywed yr Athro Andrews:

Dylid gofyn y cwestiwn ynghylch a yw pwyslais mor ddi-baid ar ddarparu ariannol o flwyddyn i flwyddyn a gymhellwyd gan y system genedlaethol yn tynnu sylw Byrddau'r GIG oddi ar bwyslais priodol ar ansawdd a diogelwch cleifion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

You will know that a similar concern is also raised in the Francis report on Mid Staffordshire. May I ask you how your Government is addressing that particular concern?

Byddwch yn gwybod y codir pryder tebyg yn adroddiad Francis ar Ganol Swydd Stafford hefyd. A gaf fi ofyn i chi sut mae eich Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r pryder penodol hwnnw?

14:01 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

That is why, of course, we are moving from a one-year budget financial year to a three-year financial year—to ensure that there is more flexibility and to ensure that local health boards are able to plan more long term. That is precisely why we wish to move to that three-year planning framework.

Dyna pam, wrth gwrs, yr ydym ni'n symud o flwyddyn ariannol cyllideb un flwyddyn i flwyddyn ariannol tair blynedd—i sicrhau bod mwy o hyblygrwydd ac i sicrhau y gall byrddau iechyd lleol gynllunio'n fwy hirdymor. Dyna'n union pam yr ydym ni'n dymuno symud i'r fframwaith cynllunio tair blynedd hwnnw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Addysg yn Islwyn

Education in Islwyn

14:01 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
6. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella addysg yn Islwyn? OAQ(4)1652(FM)

6. What action is the Welsh Government taking to improve education in Islwyn? OAQ(4)1652(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:01 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

We are committed to improving education across Wales. We have put in place a range of measures to raise standards, and those measures will benefit learners throughout Wales, including those in Islwyn.

Rydym ni wedi ymrwymo i wella addysg ledled Cymru. Rydym ni wedi rhoi amrywiaeth o fesurau ar waith i godi safonau, a bydd y mesurau hynny o fudd i ddysgwyr ledled Cymru, gan gynnwys y rhai yn Islwyn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:01 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you very much for that answer. I very much welcome the Schools Challenge Cymru funding, which is helping schools such as Blackwood Comprehensive School in my constituency. Sensible reform is built on continuous improvements. What would the First Minister say to those who would like to see radical and unproven changes to education policy in Wales, such as free schools?

Diolch yn fawr iawn am yr ateb yna. Rwy'n croesawu'n fawr y cyllid Her Ysgolion Cymru, sy'n helpu ysgolion fel Ysgol Gyfun y Coed Duon yn fy etholaeth i. Mae diwygio synhwyrol yn seiliedig ar welliannau parhaus. Beth fyddai'r Prif Weinidog yn ei ddweud wrth y rhai a fyddai'n hoffi gweld newidiadau sylfaenol a heb eu profi i bolisi addysg yng Nghymru, fel ysgolion rhydd?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:02 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, we can see what is happening in free schools in England. We can see that the majority of schools have had money siphoned from them in order to pay for a very small number of schools that have been unsuccessful. We saw—. You do not have to take my word for it—you can see the very public battle taking place between the Tories and the Lib Dems, who are in conflict over free schools. They have not worked well, and we know that the majority of children have had funding taken from them in order to pay for a small minority, which sums up, of course, the philosophy of the Conservative party and, sadly, at this moment in time, although I give them credit for their recent conversion, of the Liberal Democrats.

I can say that, as far Schools Challenge Cymru is concerned, this will help to raise standards in many schools across Wales; Blackwood comprehensive is one, of course, in the Member's own constituency. That package of support will ensure that we see greater consistency in terms of educational standards delivery across Wales.

Wel, gallwn weld beth sy'n digwydd mewn ysgolion rhydd yn Lloegr. Gallwn weld bod arian yn cael ei gymryd oddi ar y mwyafrif o ysgolion i dalu am nifer fach iawn o ysgolion sydd wedi bod yn aflwyddiannus. Gwelsom—. Nid oes rhaid i chi gymryd fy ngair i am hynny—gallwch weld y frwydr gyhoeddus iawn sy'n digwydd rhwng y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n gwrthdaro dros ysgolion am ddim. Nid ydyn nhw wedi gweithio'n dda, ac rydym ni'n gwybod y cymerwyd arian oddi ar y rhan fwyaf o blant er mwyn talu am leiafrif bach, sy'n crynhoi, wrth gwrs, athroniaeth y blaid Geidwadol ac, yn anffodus, ar hyn o bryd, er fy mod yn rhoi clod iddyn nhw am eu troedigaeth ddiweddar, y Democratiaid Rhyddfrydol.

Gallaf ddweud, cyn belled ag y mae Her Ysgolion Cymru yn y cwestiwn, y bydd hyn yn helpu i godi safonau mewn llawer o ysgolion ledled Cymru; mae ysgol gyfun y Coed Duon yn un, wrth gwrs, yn etholaeth yr Aelod ei hun. Bydd y pecyn cymorth hwnnw yn sicrhau ein bod yn gweld mwy o gysondeb o ran darparu safonau addysgol ledled Cymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:02	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography First Minister, a Caerphilly council plan to improve education in Islwyn includes the closure of Oakdale and Pontllanfraith comprehensive schools and the building of a new school in Oakdale. In its response to the consultation, Estyn expressed its concern that the council did not make specific reference in its proposal to how it will ensure that disruption to learners is kept to a minimum. First Minister, what assistance can the Welsh Government provide to Caerphilly council to ensure that disruption to pupils' education is minimised in this period of transition?	Senedd.tv Fideo Video
14:03	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Well, I cannot, of course, comment on specific examples because of the role of Welsh Ministers, but it is incumbent on any local authority to ensure that disruption is minimised when a new school is built. Of course, this is a particular issue in Wales because we are building new schools, unlike his party in England.	Senedd.tv Fideo Video
	Gwasanaethau Iechyd	Health Services
14:03	Paul Davies Bywgraffiad Biography <i>7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ad-drefnu gwasanaethau iechyd yng ngorllewin Cymru?</i> OAQ(4)1646(FM)	Senedd.tv Fideo Video <i>7. Will the First Minister make a statement on the reconfiguration of health services in west Wales?</i> OAQ(4)1646(FM)
14:03	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Wel, bydd y newidiadau sy'n cael eu rhoi ar waith bellach gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn sicrhau bod gwasanaethau'n ddiogel, yn gynaliadwy ac yn bodloni safonau cenedlaethol. Bydd hyn yn arwain at lefelau gwell o ofal a chanlyniadau gwell i gleifion.	Senedd.tv Fideo Video Well, the changes now being implemented by Hywel Dda Local Health Board will ensure that services are safe, sustainable and meet national standards. This will lead to improved levels of care and better outcomes for patients.
14:04	Paul Davies Bywgraffiad Biography Brif Weinidog, wrth gwrs, mae modelau gwasanaethau iechyd newydd bellach wedi cael eu cadarnhau gan fwrdd iechyd Hywel Dda, sy'n golygu y bydd gwasanaethau'n diflannu o Sir Benfro. Efallai eich bod wedi gweld dros y penwythnos fod yr A40 wedi'i chau o ganlyniad i ddamwain drasig, a bod pont Cleddau ar gau ar yr un pryd oherwydd gwyntoedd uchel. Roedd hyn, felly, yn golygu bod Sir Benfro wedi'i hynysu oddi wrth weddill gorllewin Cymru. O ystyried amgylchiadau difrifol fel hyn, a sefyllfaoedd fel y rhain, a all y Prif Weinidog ddweud wrthym ba fuddsoddiadau seilwaith y mae Llywodraeth Cymru yn edrych arnynt, o ystyried y bydd bywydau pobl yn cael eu rhoi mewn perygl wrth geisio mynd i ysbyty Glangwili?	Senedd.tv Fideo Video First Minister, of course, new health service models have now been confirmed by the Hywel Dda health board, which mean that services will disappear from Pembrokeshire. You may have seen over the weekend that the A40 was closed as a result of a tragic accident, and that the Cleddau bridge was closed at the same time because of high winds. This meant, therefore, that Pembrokeshire was cut off from the rest of west Wales. Bearing in mind these serious circumstances, and similar situations, can the First Minister tell us what infrastructure investments the Welsh Government is looking at, bearing in mind that people's lives will be put at risk as they try to access Glangwili hospital?

14:04

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wel, mae'n bwysig dros ben, wrth gwrs, sicrhau bod y newidiadau'n saff. Rydym i gyd yn deall hynny ac yn hyderus bod hynny'n digwydd. A gaf ddweud hefyd wrth yr Aelod bod rhaid dweud, o ran y sefyllfa ynglŷn â gofal 24 awr y dydd—gofal argyfwng yn yr ysbyty—y bydd yn cael ei gadw? Gwn fod pryder ymhlith pobl yn sir Benfro bod hynny efallai yn cael ei leihau i 12 awr y dydd, ond nid dyna'r sefyllfa ac nid dyna y mae'r bwrdd iechyd eisiau ei wneud. Hefyd, mae'n rhaid sicrhau, lle mae newidiadau yn cymryd lle, bod y newidiadau yn cymryd lle mewn ffordd sydd o les i bobl sir Benfro, a dyna yn gymwys beth y mae swyddogion y Gweinidog a'r Gweinidog ei hunan yn ei wneud ar hyn o bryd. Rydym i gyd yn deall, wrth gwrs, bod unrhyw newidiadau yn gorfod digwydd mewn ffordd sy'n saff er mwyn, wrth gwrs, sicrhau bod pobl yn cefnogi'r newidiadau.

Well, it is exceptionally important, of course, to ensure that all changes are safe. We understand that and are confident that that is the case. May I also say to the Member that it has to be said, in terms of the position as regards 24-hour care—emergency care in the hospital—that that will be retained? I know that there was concern among the people of Pembrokeshire that that might be reduced to 12 hours a day, but that is not the case and that is not what the board wants to do. Also, we must ensure that, where changes take place, the changes take place in a way that is beneficial to the people of Pembrokeshire, and that is exactly what the Minister's officials and the Minister himself is doing at present. We all understand, of course, that any changes have to be introduced in a way that is safe in order, of course, to ensure that people support those changes.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

With regard to minor injury provision in Tenby, I was given assurances that there would be a full assessment of the pilot scheme before any of the permanent changes were put in place. Can you provide me with an update on that assessment and assurances that the service is now fit for purpose as we enter the tourist season?

O ran y ddarpariaeth mân-anafiadau yn Ninbych y Pysgod, cefais sicrwydd y byddai asesiad llawn o'r cynllun arbrofol yn cael ei gynnal cyn rhoi unrhyw un o'r newidiadau parhaol ar waith. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am yr asesiad hwnnw yn ogystal â sicrwydd bod y gwasanaeth bellach yn addas i'w ddiben wrth i ni gyrraedd y tymor twristiaeth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I understand that the health board intends to commission a summer service in Tenby again this year. It is currently working up a detailed service specification with the Welsh Ambulance Service NHS Trust and with others.

Rwy'n deall bod y bwrdd iechyd yn bwriadu comisiynu gwasanaeth haf yn Ninbych y Pysgod eto eleni. Mae wrthi'n datblygu manyleb gwasanaeth manwl gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a chydag eraill ar hyn o bryd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, derbyniais adroddiad y bore yma gan Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda yn sôn am ymweliadau dirybudd i adrannau damweiniau ag achosion brys. Mae wyth argymhelliad gwbl ymarferol yn yr adroddiad, a gofynnaf ichi ddarllen yr adroddiad. Mae sôn, er enghraifft, bod pobl yn eistedd yn yr adrannau hyn yn disgwyl am wybodaeth ynglŷn â lle mae sesiynau ar gyfer pobl sy'n cael problemau gyda'i golwg yn cael eu cynnal yn yr adran offthalmoleg, ond nid yw'r wybodaeth ar gael. A wnewch chi ddarllen yr adroddiad a cheisio sicrhau bod y wybodaeth sylfaenol honno ar gael ym mhob adran damweiniau ag achosion brys ledled Cymru?

First Minister, this morning I received a report from the Hywel Dda Community Health Council talking about unannounced visits to A&E units. There are eight entirely practical recommendations in this report, and I ask you to read the report. There is mention, for example, that people are sitting in these departments waiting for information as to where sessions for people with impaired vision will be held in the ophthalmology department, but that information is not available. Will you read that report and try to ensure that that basic information is available in every A&E unit throughout Wales?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Gofynnaf i'r Gweinidog iechyd ystyried yr adroddiad hwnnw ac ysgrifennu at yr Aelod gydag ateb.

I will ask the Minister for health to consider that report and to write to the Member with a response.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, can you confirm when the service changes at Withybush and Glangwili hospitals will come into effect? The consultation with staff runs until next Thursday, and local media reports suggest that the changes will be happening on 1 August; I would like to know whether that is correct. However, more critically, can you confirm that all transitional arrangements will be in place before any of the service changes come into effect?

Brif Weinidog, a allwch chi gadarnhau pryd y bydd y newidiadau i wasanaethau yn ysbytai Llwynhelyg a Glangwili yn dod i rym? Mae'r ymgynghoriad gydag aelodau staff yn mynd yn ei flaen tan ddydd lau nesaf, ac mae adroddiadau yn y cyfryngau lleol yn awgrymu y bydd y newidiadau yn digwydd ar 1 Awst; hoffwn wybod a yw hynny'n gywir. Fodd bynnag, yn bwysicach fyth, a allwch chi gadarnhau y bydd yr holl drefniadau pontio ar waith cyn i unrhyw un o'r newidiadau i wasanaethau ddod i rym?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I can confirm that the intention is to put the arrangements in place by August. I can say that officials have met recently with the health board and are satisfied that all transitional arrangements necessary to give effect to these changes are, or will be, in place by August. It is important, of course, to give that assurance to people in the local area.

Gallaf gadarnhau mai'r bwriad yw rhoi'r trefniadau ar waith erbyn mis Awst. Gallaf ddweud bod swyddogion wedi cyfarfod gyda'r bwrdd iechyd yn ddiweddar a'u bod yn fodlon bod, neu y bydd, yr holl drefniadau pontio sy'n angenrheidiol i roi'r newidiadau hyn ar waith wedi eu gwneud erbyn mis Awst. Mae'n bwysig, wrth gwrs, rhoi'r sicrwydd hwnnw i bobl yn yr ardal leol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Busnesau Bach

Small Businesses

14:08

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. Pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i gefnogi busnesau bach? OAQ(4)1654(FM)

8. What steps can the Welsh Government take to support small businesses? OAQ(4)1654(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wel, rydym wedi, wrth gwrs, ymrwymo i greu twf a swyddi ac mae'n allweddol bwysig bod busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru yn cael mynediad at y cymorth gorau. Er enghraifft, yn ddiweddar, bu inni ddatgan cronfa newydd o £7.5 miliwn i fusnesau newydd yn y maes technoleg.

Well, we are committed, of course, to the creation of jobs and growth and it is key that SMEs in Wales have access to the very best support. For example, we recently announced a new fund of £7.5 million for new businesses in the field of technology.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, cefais gyfarfod gyda busnesau a siopau yn nhref farchnad Llanbed yr wythnos diwethaf er mwyn ceisio hybu masnach yn y dref. Mae'n dref sydd wedi wynebu eithafion y problemau ariannol sydd wedi bwrw'r wlad. Mae gan nifer o fusnesau yn y dref honno lawer o ddiddordeb mewn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hybu busnes y tu hwnt i ffiniau'r dref, ond y broblem i dref fel Llanbed—ac mae hwn yn wir am rai trefi eraill hefyd—yw bod y signal ffôn 3G yn ddiffygiol, heb sôn am signal ffôn 4G. Felly, y cwestiwn i chi fel Llywodraeth yw: pa gamau gallwch chi eu cymryd i sicrhau bod hyd yn oed trefi weddol o sylweddol fel Llanbed yn cael yr isafswm o signal 3G ac yna, cyn bo hir, yn symud ymlaen at 4G hefyd?

First Minister, I held a meeting with businesses and shop owners in the market town of Lampeter just last week to try to promote trade in the town. It is a town that has faced the extremes of the financial difficulties that have hit the country. A number of businesses in that town were greatly interested in using social media to promote business outwith the town, but the problem for towns such as Lampeter—it is true of some other towns too—is that the 3G phone signal is deficient, never mind the 4G signal. So, the question for you as a Government is: what steps can you take to ensure that even relatively large towns such as Lampeter have the minimum of a 3G signal and then, before too long, can move on to 4G also?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wel, rhywbeth masnachol, wrth gwrs, i'r cwmnïau ffôn yw hwn, ond mae'n wir i ddweud bod llawer o rannau o Gymru nad ydynt â'r lefel o 'coverage' y byddwn yn ei herfyn ynglŷn â 3G a hyd yn oed 4G hefyd. Fodd bynnag, wrth ddweud hynny, mae'n bwysig i bwysleisio unwaith eto yr hyn sy'n digwydd ynglŷn â Superfast Cymru a'r ffaith y bydd mynediad at fand eang cyflym i'r busnesau hyn. Wrth gwrs, bydd hwn yn eu helpu i hysbysu'u hunain drwy gyfryngau cymdeithasol.

Well, this is a commercial issue, of course, for the phone companies, but it is true to say that a number of areas in Wales do not have the level of coverage that we would expect as regards 3G and even 4G. However, that said, it is important to emphasise once again what is happening in relation to Superfast Cymru and the fact that these businesses will have access to superfast broadband. Of course, this will help them to promote themselves through social media.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, small businesses are, of course, created, in the main, by entrepreneurs. As you will know, the Enterprise and Business Committee's inquiry report into youth entrepreneurship, published in November 2013, a copy of which I have here, contained a number of recommendations for better support of small business start-ups and entrepreneurship in Wales. Some of those recommendations included better incubation for small business start-ups and that you should work more closely with organisations such as the Prince's Trust. Can you tell us one way that your Government's support for young entrepreneurs has improved since the publication of this report in November of last year?

Brif Weinidog, mae busnesau bach, wrth gwrs, yn cael eu creu, yn bennaf, gan entrepreneuriaid. Fel y gwyddoch, roedd adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i entrepreneuriaeth ieuencid, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2013, y mae copi ohono gennyf yma, yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer gwell cefnogaeth i fusnesau bach newydd ac entrepreneuriaeth yng Nghymru. Roedd rhai o'r argymhellion hynny yn cynnwys gwell deori ar gyfer busnesau bach newydd ac y dylech chi weithio'n agosach gyda sefydliadau fel Ymddiriedolaeth y Tywysog. A allwch chi ddweud wrthym am un ffordd y mae cymorth eich Llywodraeth ar gyfer entrepreneuriaid ifanc wedi gwella ers cyhoeddi'r adroddiad hwn ym mis Tachwedd y llynedd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, I would disagree with the Member when he says that small businesses are started by entrepreneurs. All businesses, to my mind, are started by entrepreneurs. Nevertheless, he asked the question, 'What has been done?' We have the youth entrepreneurship scheme, which has been successful in ensuring that young people are able to enter business. We have the extension of the small business rate relief until March of next year. Where it goes from there depends, of course, on funding from the UK Government. We also have the Wales retail relief scheme and the Open for Business scheme. Taken together, this funding provides the ability for young people, including the fund I referred to, that is, the technology start-up fund, to have access to help that will enable them to take their ideas forward to set up new businesses. So, there are a number of funds that have been set up. At least one fund has been set up since that report was published and it adds to the support that was already in place for young entrepreneurs.

Wel, byddwn yn anghytuno gyda'r Aelod pan ei fod yn dweud bod busnesau bach yn cael eu cychwyn gan entrepreneuriaid. Mae pob busnes, yn fy marn i, yn cael ei gychwyn gan entrepreneuriaid. Serch hynny, gofynnodd y cwestiwn, 'Beth sydd wedi cael ei wneud?' Mae'r cynllun entrepreneuriaeth ieuencid gennym, sydd wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau bod pobl ifanc yn gallu ymuno â byd busnes. Mae estyniad y gostyngiad yn y dreth i fusnesau bach gennym tan fis Mawrth y flwyddyn nesaf. Mae lle mae'n mynd o'r fan honno yn dibynnu, wrth gwrs, ar gyllid gan Lywodraeth y DU. Mae gennym hefyd gynllun gostyngiad manwerthu Cymru a'r cynllun Ar Agor am Fusnes. Gyda'i gilydd, mae'r cyllid hwn yn rhoi'r gallu i bobl ifanc, gan gynnwys y gronfa y cyfeiriais ati, hynny yw, y gronfa cychwyn busnes technoleg, i gael gafael ar gymorth a fydd yn eu galluogi i fwrw ymlaen â'u syniadau i sefydlu busnesau newydd. Felly, ceir nifer o gronfeydd sydd wedi eu sefydlu. Mae o leiaf un gronfa wedi ei sefydlu ers cyhoeddi'r adroddiad yna ac mae'n ychwanegu at y gefnogaeth a oedd eisoes ar gael i entrepreneuriaid ifanc.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Twf Swyddi Cymru

Jobs Growth Wales

14:11

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Dwf Swyddi Cymru? OAQ(4)1650(FM)

9. Will the First Minister make a statement on Jobs Growth Wales? OAQ(4)1650(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Jobs Growth Wales is exceeding targets and almost 10,000 young people are benefiting from the opportunities created to date. That, of course, has helped them to avoid long spells of unemployment. Youth unemployment continues to fall faster in Wales than in other parts of the UK, and that programme has played a part in that and that is true whichever measure you use in terms of the Office for National Statistics.	Senedd.tv Fideo Video
14:12	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography As the First Minister knows, Jobs Growth Wales reached its second anniversary last month and it is not just the numbers getting the job opportunities that is very pleasing, it is also the numbers progressing into sustainable employment from Jobs Growth Wales. Does he agree with me that it is now time that the Conservative-Liberal Democrat coalition in London apologises on the fourth anniversary of abolishing the Future Jobs fund?	Senedd.tv Fideo Video
14:12	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> There you are. It is a great shame that young people in England are not able to benefit from the sort of scheme that we have in Wales through Jobs Growth Wales. It is probably the most successful scheme of its kind in Europe. It is a scheme that was brought in not as a replacement for the Future Jobs fund but because the Future Jobs fund was slashed by the UK Government, which shows how little concern it has for young people. Fortunately in Wales we know how to give our young people opportunities, whether it is through Jobs Growth Wales or whether it is through ensuring that they do not pay £18,000 more to go to university than in England. It is a great shame that the UK Government does not have the same regard for the future of this country.	Senedd.tv Fideo Video
14:13	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I only have Mark Isherwood down as to ask a Conservative question this afternoon, not Andrew R.T. Davies. I call Mark Isherwood.	Senedd.tv Fideo Video
14:13	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography Diolch. Thank you very much indeed for calling me. Of course, the Work Programme took that up and we are expecting very encouraging figures to be published shortly for the last year. However, specifically with reference to Jobs Growth Wales, why does the destination data published by the Welsh Government include recycled jobs, as one job opportunity could result in both an early leaver and a completed six-month opportunity showing within, I understand, the figure of 10,000, or almost 10,000, that you referred to?	Senedd.tv Fideo Video

Mae Twf Swyddi Cymru yn rhagori ar dargedau ac mae bron i 10,000 o bobl ifanc yn elwa ar y cyfleoedd a grëwyd hyd yn hyn. Mae hynny, wrth gwrs, wedi eu helpu i osgoi cyfnodau hir o ddiweithdra. Mae diweithdra ymhlith pobl ifanc yn parhau i ostwng yn gyflymach yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU, ac mae'r rhaglen honno wedi chwarae rhan yn hynny ac mae hynny'n wir pa bynnag fesur a ddefnyddiwyd o ran y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Fel y gŵyr y Prif Weinidog, cyrhaeddodd Twf Swyddi Cymru ei ail ben-blwydd y mis diwethaf ac nid dim ond y niferoedd sy'n cael y cyfleoedd gwaith sy'n galonogol iawn, ond hefyd y niferoedd sy'n mynd yn eu blaenau i gyflogaeth gynaliadwy o Dwf Swyddi Cymru. A yw'n cytuno â mi ei bod bellach yn bryd i glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain ymddiheuro a hithau'n bedair blynedd ers diddymu cronfa Swyddi'r Dyfodol?

Dyna chi. Mae'n drueni mawr nad yw pobl ifanc yn Lloegr yn gallu elwa ar y math o gynllun sydd gennym ni yng Nghymru trwy Twf Swyddi Cymru. Mae'n debyg mai dyma'r cynllun mwyaf llwyddiannus o'i fath yn Ewrop. Mae'n gynllun a gyflwynwyd nid i ddisodli cronfa Swyddi'r Dyfodol, ond oherwydd i gronfa Swyddi'r Dyfodol gael ei dileu gan Lywodraeth y DU, sy'n dangos cyn lleied y mae'n ei boeni am bobl ifanc. Yn ffodus yng Nghymru, rydym ni'n gwybod sut i roi cyfleoedd i'n pobl ifanc, boed hynny trwy Twf Swyddi Cymru, neu drwy sicrhau nad ydynt yn talu £18,000 yn fwy i fynd i'r brifysgol nag yn Lloegr. Mae'n drueni mawr nad yw Llywodraeth y DU yn rhoi'r un ystyriaeth i ddyfodol y wlad hon.

Dim ond Mark Isherwood sydd gennyf i lawr i ofyn cwestiwn Ceidwadol y prynhawn yma, nid Andrew R.T. Davies. Galwaf ar Mark Isherwood.

Diolch. Diolch yn fawr iawn am alw arnaf i. Wrth gwrs, aeth y Rhaglen Waith i'r afael â hynny ac rydym ni'n disgwyl i ffigurau calonogol iawn gael eu cyhoeddi yn fuan ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, gan gyfeirio'n benodol at Twf Swyddi Cymru, pam mae'r data cyrchfannau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys swyddi wedi'u hailgylchu, gan y gallai un cyfle gwaith arwain at rywun sy'n gadael yn gynnar a chyfle chwe mis a gwblhawyd ymddangos, rwy'n deall, yn y ffigur o 10,000, neu bron i 10,000, i chi gyfeirio ato?

14:13

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

What is important is that there is a job available for a young person at the end of Jobs Growth Wales. There will be some who will not stay. There will be some who will go on to further or higher education, but we know that the vast majority get the opportunity of a job and are staying in that job, and they are opportunities that would not exist if it was not for Jobs Growth Wales.

Yr hyn sy'n bwysig yw bod swydd ar gael i unigolyn ifanc ar ddiwedd Twf Swyddi Cymru. Bydd rhai na fyddant yn aros. Bydd rhai a fydd yn mynd yn eu blaenau i addysg bellach neu uwch, ond rydym ni'n gwybod bod y mwyafrif llethol yn cael y cyfle o swydd ac yn aros yn y swydd honno, ac mae'r rhain yn gyfleoedd na fyddent yn bodoli oni bai am Twf Swyddi Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:14

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'r Llywodraeth hon, wrth gwrs, fel petai'n gweld Twf Swyddi Cymru fel yr ateb i bopeth sy'n datrys problem diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. Nid yw'r ystadegau yn dweud hynny, wrth gwrs. A wnaiff y Prif Weinidog gytuno â mi nad yw'r cynllun hwn, er ei fod yn gyfraniad pwysig tuag at dacio diweithdra ymhlith pobl ifanc, yn cefnogi'r rheiny sydd bellaf, os liciwch chi, oddi wrth y farchnad waith, sef y rheiny sydd heb gymwysterau o gwbl?

This Government, of course, seems to see Jobs Growth Wales as the panacea that resolves the problem of youth unemployment in Wales. The statistics do not support that, of course. Would the First Minister agree with me that this scheme, although it is an important contribution towards tackling youth unemployment, does not support those who are further removed, if you like, from the labour market—those without any qualifications at all?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:14

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Nid wyf yn credu bod yr Aelod yn iawn i ddweud nad Twf Swyddi Cymru yw'r ffordd i ddatrys diweithdra. Byddwn yn meddwl bod hynny'n ffordd amlwg i ddatrys diweithdra. Fodd bynnag, mae'n wir i ddweud, wrth gwrs, bod rhai heb gymwysterau, ac sydd heb gyflogaeth nac mewn addysg, ac mae'n rhaid gwneud mwy er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael cyfleoedd hefyd. Mae llai o bobl ifanc yn y categori hwnnw yn awr nag oedd flwyddyn neu ddwy yn ôl. Rhaid inni sicrhau ein bod yn gweithio trwy gynlluniau fel Cymunedau'n Gyntaf a chynlluniau eraill er mwyn eu helpu nhw. Mae'n syndod i mi nad yw'r Aelod dros Ynys Môn yn gallu croesawu'r ffaith bod mwy na 9,000 o bobl ifanc wedi cael swyddi achos y cynllun hwn. Mae'n drueni mawr nad oes neb yn gallu dweud bod hynny'n llwyddiant, hyd yn oed y rheini sy'n galw'u hunain yn Blaid Cymru.

Well, I do not believe that the Member is right to say that Jobs Growth Wales is not the way to resolve unemployment. I would have thought that that was an obvious way to resolve unemployment. However, it is true to say, of course, that there are those who do not have qualifications, and are not in employment or in education, and we have to ensure that they are given opportunities as well. There are fewer young people in that category now than there were one or two years ago. We have to ensure that we work through schemes such as Communities First and other schemes in order to help them. It is surprising to me that they Member for Ynys Môn is unable to welcome the fact that more than 9,000 young people have found jobs through this scheme. It is a great shame that no-one can say that that is a success, even those who call themselves Plaid Cymru—The Party of Wales.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:15

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, what percentage of the young people taking up a Jobs Growth Wales placement have been unemployed for more than 12 months at the start of their placement?

Brif Weinidog, pa ganran o'r bobl ifanc sy'n manteisio ar leoliad Twf Swyddi Cymru sydd wedi bod yn ddi-waith am fwy na 12 mis ar ddechrau eu lleoliad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:16

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

She will know that they have to be unemployed for more than six months to take up a placement. She will also know the criteria that exist for those who enter the scheme to be able to do so. We have to remember that this scheme had its origins in the fact that we talked to businesses. This was not a scheme set up by Government in a vacuum. When I spoke to small and medium-sized enterprises, they said to me and others, including Ministers, that the problem they had was that they wished to take on more people but found that they did not have the time or the resources to train them, which is why Jobs Growth Wales was introduced. Working with SMEs, we have been able to provide the expertise that they need, together with the expertise and experience that young people need. I have been to businesses across Wales who said the same thing to me: they are now employing people they would not otherwise have employed, and there are young people now earning a living in a way that would not have been possible for them three or four years ago.

Bydd yn gwybod bod yn rhaid iddynt fod wedi bod yn ddi-waith am fwy na chwe mis i fanteisio ar leoliad. Bydd hi hefyd yn ymwybodol o'r meini prawf sy'n bodoli ar gyfer y rhai sy'n ymuno â'r cynllun er mwyn gallu gwneud hynny. Mae'n rhaid i ni gofio bod gwreiddiau'r cynllun hwn yn y ffaith ein bod wedi siarad â busnesau. Nid oedd hwn yn gynllun a sefydlwyd gan y Llywodraeth mewn gwactod. Pan siaradais i â mentrau bach a chanolig eu maint, dywedasant wrthyf i ac eraill, gan gynnwys Gweinidogion, mai'r broblem oedd ganddynt oedd eu bod yn dymuno cyflogi mwy o bobl ond eu bod yn canfod nad oedd yr amser na'r adnoddau ganddynt i'w hyfforddi, a dyna pam y cyflwynwyd Twf Swyddi Cymru. Gan weithio gyda BBaChau, rydym ni wedi gallu darparu'r arbenigedd sydd ei angen arnynt, ynghyd â'r arbenigedd a'r profiad sydd eu hangen ar bobl ifanc. Rwyf wedi ymweld â busnesau ledled Cymru a ddywedodd yr un peth wrthyf: maen nhw bellach yn cyflogi pobl na fyddent wedi eu cyflogi fel arall, a cheir pobl ifanc sydd bellach yn ennill bywoliaeth mewn ffordd na fyddai wedi bod yn bosibl iddyn nhw dair neu bedair blynedd yn ôl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Business Statement and Announcement

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business

There are two changes to report to this week's business. Immediately after this business statement, the Minister for Health and Social Services will make a statement on the Professor Andrews report on care in the Princess of Wales and Neath Port Talbot hospitals. This will be followed by a statement by the First Minister on recommendation on the siting of the sub-regional neonatal intensive care centre in north Wales. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Mae dau newid i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Yn syth ar ôl y datganiad busnes hwn, bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad ar adroddiad yr Athro Andrews ar ofal yn ysbytai Tywysoges Cymru a Chastell-nedd Port Talbot. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan ddatganiad gan y Prif Weinidog ar argymhelliad ar leoli'r ganolfan gofal dwys newyddenedigol isranbarthol yng ngogledd Cymru. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call for two statements, first on third sector funding. I have been party to at least two committee reports in previous Assemblies that the Welsh Government, in large part, accepted, recognising the need for sustainable funding, for transition funding, and for funding that would protect jobs in the third sector and sustain key programmes. I ask for this in the context of the news that although the charity Family Fund, which, as you are probably aware, gives grants to low income families with disabled children and those with seriously ill children, receive money from all UK Governments—and in April it received money from the England, Scotland and Northern Ireland Governments—it is still not receiving support from the Welsh Government this year, despite 550 applications being made in Wales, and the wider support that the charity provides. Indeed, I believe that it provided face-to-face support to 700 families in Wales last year. In the same context, there was news from Relate Cymru—a relationship counselling and support provider in Wales—that changes to funding mean that it has had a 70% cut in its funding from local authorities, compared with a 26% cut in England. Given the move from grants to contracts, where it was helping thousands of people in Wales, it is now only able to help 36 people.

Secondly and finally, as you are aware, tonight Age Cymru launches its report on poverty in later life, with some frightening examples that have already hit the media today. It said that the situation is preventable if people could be supported to access the welfare benefits and income maximisation support that is available to them out there. For as long as I remember in the Assembly, through many different ways, in my case primarily through fuel poverty, we have been talking about the need to tackle social isolation. Many key programmes have come and gone, such as the rural fuel poverty adviser scheme with the third sector, but we are still hearing that social isolation, particularly among older people, is causing these horrific stories. Could we have a statement telling us when we will finally bring up an integrated all-Wales means to identify the people who need this help, and provide it?

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that the Minister for Communities and Tackling Poverty has been having many discussions with the third sector over sustainable funding. We have done a great deal of work to ensure that that funding is sustainable, but you will know that the significant cuts to the Welsh Government budget from the UK Government have affected the funding that we are able to give to third sector organisations.

In relation to the Age Cymru report, again, I do not think that the Minister will have had the chance to read that yet. I have certainly read what has been in the media today. A great deal of the concerns raised in the report that I have read about in the media are to do with welfare reforms that have been brought forward by your Government in Westminster.

Galwaf am ddau ddatganiad, y cyntaf ar gyllid y trydydd sector. Rwyf wedi bod yn rhan o ddau adroddiad pwyllgor o leiaf mewn Cynulladau blaenorol a dderbyniwyd, i raddau helaeth, gan Lywodraeth Cymru, gan gydnabod yr angen am gyllid cynaliadwy, am gyllid pontio, ac am gyllid a fyddai'n diogelu swyddi yn y trydydd sector a chynnal rhaglenni allweddol. Rwy'n gofyn am hyn yng nghyd-destun y newyddion sy'n nodi, er bod yr elusen Cronfa'r Teulu, sydd, fel y gwyddoch mae'n siŵr, yn rhoi grantiau i deuluoedd ar incwm isel sydd â phlant anabl a'r rhai â phlant sy'n ddifrifol wael, yn derbyn arian gan holl Lywodraethau'r DU—a derbyniodd arian gan Lywodraethau Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ym mis Ebrill—mae'n parhau i fod heb dderbyn cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru eleni, er i 550 o geisiadau gael eu gwneud yng Nghymru, a'r gefnogaeth ehangach y mae'r elusen yn ei darparu. Mewn gwirionedd, rwy'n credu iddi ddarparu cymorth wyneb yn wyneb i 700 o deuluoedd yng Nghymru y llynedd. Yn yr un cyd-destun, cafwyd newyddion gan Relate Cymru—darparwr cwnsela a chymorth perthynas yng Nghymru—bod newidiadau i gyllido yn golygu bod 70% o'i gyllid wedi cael ei dorri gan awdurdodau lleol, o'i gymharu â thoriad o 26% yn Lloegr. O gofio'r newid o grantiau i gontractau, pan yr oedd gynt yn helpu miloedd o bobl yng Nghymru, dim ond 36 o bobl y mae'n gallu eu helpu erbyn hyn.

Yn ail ac yn olaf, fel y gwyddoch, mae Age Cymru yn lansio ei adroddiad ar dlodi yn ddiweddarach mewn bywyd heno, a cheir rhai enghreifftiau brawychus sydd eisoes wedi cyrraedd y cyfryngau heddiw. Dywedodd bod modd atal y sefyllfa pe gellid cefnogi pobl i gael mynediad at y budd-daliadau lles a chymorth mwyafu incwm sydd ar gael iddyn nhw. Am gyhyd ag yr wyf yn cofio yn y Cynulliad, drwy nifer o wahanol ffyrdd, trwy dlodi tanwydd yn bennaf yn fy achos i, rydym ni wedi bod yn siarad am yr angen i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol. Mae llawer o raglenni allweddol wedi mynd a dod, fel y cynllun cynghorydd tlodi tanwydd gwledig gyda'r trydydd sector, ond rydym ni'n dal i glywed bod arwahanrwydd cymdeithasol, yn enwedig ymhlith pobl hŷn, yn achosi'r straeon erchyll hyn. A allem ni gael datganiad yn ein hysbysu pryd y byddwn ni, o'r diwedd, yn cyflwyno ffordd Cymru gyfan integredig o nodi'r bobl sydd angen y cymorth hwn, a'i ddarparu iddynt?

Gwn fod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi wedi bod yn cael llawer o drafodaethau gyda'r trydydd sector ar gyllid cynaliadwy. Rydym ni wedi gwneud llawer iawn o waith i sicrhau bod y cyllid hwnnw'n gynaliadwy, ond byddwch yn gwybod bod y toriadau sylweddol i gyllideb Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU wedi effeithio ar y cyllid y gallwn ei roi i sefydliadau'r trydydd sector.

O ran adroddiad Age Cymru, unwaith eto, nid wyf yn credu y bydd y Gweinidog wedi cael cyfle i ddarllen hwnnw eto. Rwy'n sicr wedi darllen yr hyn sydd wedi bod yn y cyfryngau heddiw. Mae llawer iawn o'r pryderon a godwyd yn yr adroddiad yr wyf i wedi darllen amdanynt yn y cyfryngau yn ymwneud â diwygiadau lles a gyflwynwyd gan eich Llywodraeth chi yn San Steffan.

14:20	Mike Hedges Bywgraffiad Biography Following media reports last week, can I ask that the Minister for Natural Resources and Food make a statement on the success of the pysyllid bug aphalara itadori in dealing with Japanese knotweed?	Yn dilyn adroddiadau yn y cyfryngau yr wythnos diwethaf, a gaf i ofyn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wneud datganiad ar lwyddiant y chwilen lysleuol aphalara itadori o ran ymdrin â llysiau'r dial?	Senedd.tv Fideo Video
14:20	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography I know that the Minister has contributed £50,000 towards the Centre for Agriculture and Biosciences International trial and that the release of the bug into the wild began at two sites in Wales in 2011 on a phased basis. The project is currently in its fourth year of five and involves a great deal of monitoring, sampling, site visits and reporting. Natural control, you will understand, is not a quick fix. I am sure that, as the Minister evaluates the success of the trail, he will update Members.	Gwn fod y Gweinidog wedi cyfrannu £50,000 tuag at brawf rhyngwladol y Ganolfan Amaethyddiaeth a Biowyddorau ac y dechreuwyd rhyddhau'r chwilen i'r gwyllt ar ddau safle yng Nghymru yn 2011 ar sail raddol. Mae'r prosiect yn ei bedwaredd flwyddyn o bump ar hyn o bryd ac yn cynnwys llawer iawn o fonitro, samplo, ymweliadau â safleoedd ac adrodd. Nid yw rheoli naturiol, fel y byddwch yn deall, yn cynnig ateb cyflym. Rwy'n siŵr, wrth i'r Gweinidog werthuso llwyddiant y prawf, y bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.	Senedd.tv Fideo Video
14:21	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography Minister, last week it was announced out of the blue in a written statement that the Welsh Government had half turned on its plans for the closure of junction 41 on the M4. Leaving aside the rights and the wrongs of this, I was dismayed to learn of this in the local newspaper first, particularly as the correspondence quoted a constituency Assembly Member who is clearly in the know. I wrote to the Minister to ask whether the Welsh Government had notified Assembly Members about this and I was told that it was a Neath Port Talbot County Borough Council press release and that it was not issued by the Welsh Government. Can we, therefore, have a statement from the Welsh Government about how it shares its protocols with all Assembly Members, to make sure that local government knows that Assembly Members should be informed first and foremost where issues of their region are concerned? My second question is with regard to the fact that the people who work at the Land Registry in the Swansea area of my region will be taking industrial action this week, because they have not had clarity from the UK Government with regard to office closures, compulsory redundancies and the privatisation of their services. I was wondering whether you could share with us in a statement what action you have taken as a Government to support the action of the Public and Commercial Services Union in the action that it is taking this week.	Weinidog, cyhoeddwyd yn sydyn yr wythnos diwethaf, mewn datganiad ysgrifenedig, bod Llywodraeth Cymru wedi hanner newid ei meddwl am ei chynlluniau i gau cyffordd 41 ar yr M4. Gan adael o'r neilltu yr agweddau cywir ac anghywir ar hyn, roeddwn i'n siomedig o glywed am hyn yn y papur newydd lleol yn gyntaf, yn enwedig gan fod yr ohebiaeth yn dyfynnu Aelod Cynulliad o'r etholaeth sy'n amlwg yn ymwybodol o'r ffeithiau. Ysgrifennais at y Gweinidog i ofyn a oedd Llywodraeth Cymru wedi hysbysu Aelodau'r Cynulliad am hyn a dywedwyd wrthyf mai datganiad i'r wasg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot oedd hwn ac na chafodd ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. A allwn ni, felly, gael datganiad gan Lywodraeth Cymru ar sut y mae'n rhannu ei phrotocolau gyda holl Aelodau'r Cynulliad, er mwyn sicrhau bod llywodraeth leol yn gwybod y dylai Aelodau'r Cynulliad gael eu hysbysu gyntaf ac yn bennaf pan fo materion yn eu rhanbarth yn y cwestiwn? Mae fy ail gwestiwn yn ymwneud â'r ffaith y bydd y bobl sy'n gweithio yn y Gofrestrfa Tir yn ardal Abertawe fy rhanbarth i yn gweithredu'n ddiwydiannol yr wythnos hon, gan nad ydynt wedi cael eglurder gan Lywodraeth y DU o ran cau swyddfeydd, diswyddiadau gorfodol a phreifateiddio eu gwasanaethau. Roeddwn i'n meddwl tybed a allech chi rannu gyda ni mewn datganiad pa gamau yr ydych chi wedi eu cymryd fel Llywodraeth i gefnogi gweithrediad Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol o ran y camau y mae'n eu cymryd yr wythnos hon.	Senedd.tv Fideo Video
14:23	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography I am aware that the Minister for Economy, Science and Transport wrote to Assembly Members on 8 May regarding junction 41 of the M4, enclosing a copy of her letter to the leader of Neath Port Talbot council. You will see that the Minister is absent on Government business today, but I will discuss with her the points you raised. In relation to the action from PCS, again, I will ask the relevant Minister to update you by correspondence as to what action has been taken with the UK Government.	Rwy'n ymwybodol bod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi ysgrifennu at Aelodau'r Cynulliad ar 8 Mai ynghylch cyffordd 41 yr M4, gan amgáu copi o'i llythyr at arweinydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot. Byddwch yn gweld bod y Gweinidog yn absennol ar fusnes y Llywodraeth heddiw, ond byddaf yn trafod gyda hi y pwyntiau a godwyd gennych. O ran y gweithredu gan PCS, unwaith eto, byddaf yn gofyn i'r Gweinidog perthnasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi trwy ohebiaeth ynghylch pa gamau a gymerwyd gyda Llywodraeth y DU.	Senedd.tv Fideo Video

14:23	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography Minister, back in 2009, the Welsh Government published guidance on setting local speed limits on trunk roads. The desk exercise to complete that process should be concluded by December 2014. The guidance quite clearly stated that local people's concerns and views should be taken into account. Could the Minister for transport outline the implementation of that guidance and the steps that have been taken to ensure that local concerns are taken into consideration before the final reports are published in December of this year?	Weinidog, yn ôl yn 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar bennu terfynau cyflymder lleol ar gefnffyrdd. Dylai'r ymarfer desg i gwblhau'r broses honno gael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2014. Nododd y canllawiau'n gwbl eglur y dylai pryderon a safbwyntiau pobl leol gael eu cymryd i ystyriaeth. A allai'r Gweinidog trafnidiaeth amlinellu gweithredu'r canllawiau hynny a'r camau a gymerwyd i sicrhau bod pryderon lleol yn cael eu cymryd i ystyriaeth cyn cyhoeddi'r adroddiadau terfynol ym mis Rhagfyr eleni?	Senedd.tv Fideo Video
14:24	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography Yes. I will ask the Minister for Economy, Science and Transport to give us a written statement on that.	Gallai. Byddaf yn gofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth roi datganiad ysgrifenedig i ni ar hynny.	Senedd.tv Fideo Video
14:24	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography Minister, I would also like a statement from the Minister for natural resources on the vexing subject of Japanese knotweed, following a very informative discussion with the Member for Swansea East after Plenary last week. Can I also ask for second statement and update from the Minister for Natural Resources and Food regarding compensation arrangements for farmers with bovine TB in their stock? I understand that the consultation on a possible transition from market valuations to tabular valuations has recently been completed and is causing a great deal of concern in the farming community. Change is inevitable; farmers know that, but they need reassurances from the Minister that their concerns have been listened to during the consultation process and that those farmers suffering a loss of a large number of animals will not be penalised for keeping high-value stock.	Weinidog, hoffwn gael datganiad hefyd gan y Gweinidog cyfoeth naturiol ar bwnc sy'n peri gofid, sef llysiau'r dial, yn dilyn trafodaeth llawn gwybodaeth gyda'r Aelod dros Ddwyrain Abertawe ar ôl y Cyfarfod Llawn yr wythnos diwethaf. A gaf i hefyd ofyn am ail ddatganiad a'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ynghylch trefniadau iawndal i ffermwyr â TB gwartheg yn eu stoc? Rwy'n deall bod yr ymgynghoriad ar y cyfnod pontio posibl o brisiadau'r farchnad i brisiadau tabl wedi cael ei gwblhau yn ddiweddar a'i fod yn achosi llawer iawn o bryder yn y gymuned ffermio. Mae newid yn anochel; mae ffermwyr yn gwybod hynny, ond mae angen sicrwydd arnynt gan y Gweinidog y gwrandawyd ar eu pryderon yn ystod y broses ymgynghori ac na fydd y ffermwyr hynny sy'n dioddef colled o nifer fawr o anifeiliaid yn cael eu cosbi am gadw stoc gwerth uchel.	Senedd.tv Fideo Video
14:25	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography Well, you will have heard my answer to Mike Hedges, and I am sure that the Minister will furnish us with a statement after he has had a chance to evaluate the project and the success, or not, of it. In relation to your question about a statement on bovine TB and farmers' compensation, the time to bring a statement forward will be once the Minister has had a chance to look at the consultation responses.	Wel, byddwch wedi clywed fy ateb i Mike Hedges, ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn rhoi datganiad i ni ar ôl iddo gael cyfle i werthuso'r prosiect a pha un a ydyw wedi bod yn llwyddiant ai peidio. O ran eich cwestiwn am ddatganiad ar TB mewn gwartheg ac iawndal i ffermwyr, yr amser i wneud datganiad fydd ar ôl i'r Gweinidog gael cyfle i edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad.	Senedd.tv Fideo Video
14:25	Mick Antoniw Bywgraffiad Biography Minister, you will be aware of the recent Welsh Women's Aid report on restrictions on legal aid to victims of domestic violence. I wonder whether you would consider making time for a statement on the impact of the UK Government's legal aid restrictions on the victims of domestic violence in Wales.	Weinidog, byddwch yn ymwybodol o adroddiad diweddar Cymorth i Fenywod Cymru ar gyfyngiadau ar gymorth cyfreithiol i ddioddefwyr trais yn y cartref. Tybed a fydddech chi'n ystyried neilltuo amser ar gyfer datganiad ar effaith cyfyngiadau cymorth cyfreithiol Llywodraeth y DU ar ddioddefwyr trais yn y cartref yng Nghymru.	Senedd.tv Fideo Video

14:26

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not think that it would be appropriate for me to make a written statement on that because, obviously, legal aid is a reserved issue; it is not a devolved matter. However, I am aware of the recent report by Welsh Women's Aid, which clearly reports on shortfalls in the training of gatekeepers, for instance, to assess women for legal aid, and my officials are asking Welsh Women's Aid for information on this. I will write to the Minister for the Courts and Legal Aid to raise these specific concerns and I will let Members know of the response I receive.

Nid wyf yn credu y byddai'n briodol i mi wneud datganiad ysgrifenedig ar hynny oherwydd, yn amlwg, mae cymorth cyfreithiol yn fater a gadwyd yn ôl; nid yw'n fater sydd wedi ei ddatganoli. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol o'r adroddiad diweddar gan Gymorth i Fenywod Cymru, sy'n adrodd yn eglur ar ddiffygion o ran hyfforddi porthgeidwaid, er enghraifft, er mwyn asesu menywod ar gyfer cymorth cyfreithiol, ac mae fy swyddogion yn gofyn i Gymorth i Fenywod Cymru am wybodaeth ynglŷn â hyn. Byddaf yn ysgrifennu at y Gweinidog dros y Llysoedd a Chymorth Cyfreithiol i godi'r pryderon penodol hyn, a byddaf yn hysbysu'r Aelodau am yr ymateb y byddaf yn ei dderbyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:26

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, a oes modd i'r Llywodraeth gynnal dadl yn y Siambr hon ac i arwain trafodaeth gyhoeddus yn ystod y flwyddyn hon ar natur darlledu gwasanaeth cyhoeddus? Mae gofyniad ar Ofcom i gynnal adolygiad pob pum mlynedd o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac mae'r adolygiad hwnnw i ddigwydd eleni. Felly, bydd Ofcom yn arwain trafodaeth ynglŷn â darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ac yn Lloegr, a thrwy'r Deyrnas Gyfunol, a dweud y gwir. Fodd bynnag, mae cyd-destun arbennig o Gymreig i hyn erbyn hyn gan fod comisiwn Silk wedi argymhell datganoli S4C a chan fod trafodaeth ynglŷn â materion megis y gwasanaeth newyddion ar Radio Cymru ac arian parhaol ar gyfer S4C a sut y bydd hwnnw'n cael ei gynnal fel ein bod yn cael rhaglenni llwyddiannus megis 'Y Gwyll/Hinterland'. Mae angen trafodaeth genedlaethol, sydd ar goll ar hyn o bryd, oherwydd, er bod llawer o ddiddordeb yma, yn San Steffan, lle mae'r cyfrifoldeb, mae llai o ddiddordeb ymysg llawer o Aelodau, ac mae rhai agweddau arbennig o Gymreig a Chymraeg o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu colli. Felly, byddai'n braf cael datganiad neu ddadl gan y Llywodraeth i arwain y drafodaeth gyhoeddus y byddwn ni i gyd yn gallu cyfrannu ati.

Minister, could the Government hold a debate in the Chamber and lead a public debate during this year on the nature of public service broadcasting? There is a requirement on Ofcom to hold a review every five years of public service broadcasting, and that review is to take place this year. Therefore, Ofcom will lead a debate on public broadcasting in Wales and in England, as well as throughout the UK, if truth be told. However, there is a particularly Welsh context to this now as the Silk commission has recommended devolving S4C and as there is now a debate on issues such as the news service on Radio Cymru and continuous funding for S4C and how that is to be sustained so that we get successful programming such as 'Y Gwyll/Hinterland'. I think that we need a national debate, which is not taking place at present because, although there is a great deal of interest here, in Westminster, where the responsibility lies, there is less interest among many Members, and certain particularly Welsh aspects of public service broadcasting are lost. So, it would be good to have a statement or a debate in Government time to lead that public debate that we could all participate in.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:27

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I think that you raise a very important point. It is something of great interest to people, and the Minister will be happy to make a statement or have a debate in due course.

Ie, rwy'n meddwl eich bod yn codi pwynt pwysig iawn. Mae'n rhywbeth sydd o ddiddordeb mawr i bobl, a bydd y Gweinidog yn hapus i wneud datganiad neu gael dadl maes o law.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:28

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, six years after the National Institute for Health and Clinical Excellence issued clinical guidance on nuchal scanning, I am sure that you will be delighted to know that Betsi Cadwaladr University Local Health Board is now offering nuchal scanning to pregnant women. That started on 28 April. However, there are other regions in Wales that are not yet offering that service, and I wonder whether the Minister for Health and Social Services can update us on when other health boards will be offering it. I am delighted that there has been progress on this matter, and I am very grateful to the Minister for his support on it. It is important, of course, also that general practitioners are aware that this service is now being offered, because there will need to be some sort of continuing professional development or further information provided to GPs so that they can make their patients aware that these services are now available.

Weinidog, chwe blynedd ar ôl i'r Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol gyhoeddi canllawiau clinigol ar sganio gwegilog, rwy'n siŵr y byddwch chi'n falch iawn o wybod bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr bellach yn cynnig sganio gwegilog i fenywod beichiog. Dechreuodd hynny ar 28 Ebrill. Fodd bynnag, ceir rhanbarthau eraill yng Nghymru nad ydynt yn cynnig y gwasanaeth hwnnw eto, ac rwy'n meddwl tybed a all y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynghylch pryd y bydd byrddau iechyd eraill yn ei gynnig. Rwy'n falch iawn y bu cynnydd ar y mater hwn, ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am ei gefnogaeth arno. Mae hefyd yn bwysig, wrth gwrs, bod meddygon teulu yn ymwybodol bod y gwasanaeth hwn yn cael ei gynnig bellach, gan y bydd angen rhyw fath o ddatblygiad proffesiynol parhaus neu ddarparu gwybodaeth bellach i feddygon teulu fel y gallant sicrhau bod eu cleifion yn ymwybodol bod y gwasanaethau hyn ar gael bellach.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:29

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, thank you. It is welcome news that Betsi Cadwaladr University Local Health Board is now offering this type of scanning. I think that you make a very important point about general practitioners being aware of the facility. The Minister for Health and Social Services is happy to update us via a written statement.

Ydw, diolch. Mae'n newyddion da bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnig y math hwn o sganio bellach. Rwy'n credu eich bod yn gwneud pwynt pwysig iawn ynghylch sicrhau bod meddygon teulu yn ymwybodol o'r cyfleuster. Mae'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni trwy ddatganiad ysgrifenedig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:29

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Leader of the house, is it possible to have a statement from the Minister for Health and Social Services on maternity services? Today, NICE has put a report out on the ability of expectant mothers to have a choice on where they have their baby, whether that be at home or in a hospital in either a consultant-led or midwife-led setting. That seems to have got quite a lot of attention on an England basis, but those recommendations, as I understand it, obviously transfer to Wales as well, and I would be grateful if we could have that statement from the Minister to indicate what the provision is like here in Wales. Is there any need to address any shortcomings, or are we actually overcommitting to certain resources so that there is better community provision here in Wales, as opposed to other parts of the United Kingdom? So, I would be grateful if that statement could be forthcoming from the Minister.

Arweinydd y tŷ, a yw'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar wasanaethau mamolaeth? Heddiw, mae NICE wedi cyhoeddi adroddiad ar allu mamau beichiog i gael dewis o ran ble maen nhw'n cael eu babi, boed hynny yn y cartref neu mewn ysbyty naill ai mewn lleoliad dan arweiniad bydwraig neu dan arweiniad ymgynghorydd. Mae'n ymddangos bod hynny wedi cael cryn dipyn o sylw yn Lloegr, ond mae'r argymhellion hynny, yn ôl yr hyn a ddeallaf, yn amlwg yn trosglwyddo i Gymru hefyd, a byddwn yn ddiolchgar pe gallem gael datganiad gan y Gweinidog i ddangos y sefyllfa o ran y ddarpariaeth yma yng Nghymru. A oes angen mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion, neu a ydym ni mewn gwirionedd yn ymrwymo'n ormodol i rai adnoddau fel bod darpariaeth gymunedol well yma yng Nghymru, yn hytrach na rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig? Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog wneud y datganiad hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Also, is it possible that the Minister for Economy, Science and Transport would be forthcoming with a statement in relation to closed-circuit television cameras at railway stations? I did raise this with the Minister in questions some time ago, and she did say that she would look into it and report back. I will stand to be corrected, but I have checked with my office and we do not seem to have had any comeback from the Minister on this issue. There is an issue about the compliance of CCTV cameras for court cases, as to whether the quality of the film is good enough to be used in court, and so I would be grateful if the Minister would follow up on her assurances that she was going to make enquiries and report back on this particular matter.

Hefyd, a fyddai'n bosibl i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gyflwyno datganiad ar gamerâu teledu cylch cyfyng mewn gorsafoedd rheilffordd? Codais hyn gyda'r Gweinidog mewn cwestiynau beth amser yn ôl, a dywedodd y byddai'n ymchwilio i'r mater ac yn adrodd yn ôl. Rwy'n hapus i gael fy nghywiro, ond rwyf wedi gwirio gyda fy swyddfa ac nid yw'n ymddangos ein bod wedi cael unrhyw ymateb gan y Gweinidog ar y mater hwn. Mae cwestiwn yn codi ynghylch cydymffurfiaid camerâu teledu cylch cyfyng ar gyfer achosion llys, ynghylch pa un a yw ansawdd y ffilm yn ddigon da i'w defnyddio yn y llys, ac felly byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Gweinidog yn cadw ei haddewid ei bod yn mynd i wneud ymholiadau ac adrodd yn ôl ar y mater penodol hwn.

14:30 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Yes, both Ministers are happy to provide written statements.

Ydynt, mae'r ddau Weinidog yn hapus i ddarparu datganiadau ysgrifenedig.

14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

14:31 **Datganiad: Adroddiad yr Athro Andrews ar Ofal yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Statement: The Professor Andrews Report on Care in the Princess of Wales and Neath Port Talbot Hospitals

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

I have today published the Professor June Andrews and Mark Butler review into the care of older people at the Princess of Wales and Neath Port Talbot hospitals. I have also published a written statement in advance of this afternoon's discussion.

Heddiw cyhoeddais adolygiad yr Athro June Andrews a Mark Butler o ofal pobl hŷn yn ysbytai Tywysoges Cymru a Chastell-nedd Port Talbot. Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig hefyd cyn y drafodaeth y prynhawn yma.

This is a difficult day for anyone who is concerned with the care of older people at these two hospitals. The report makes hard reading for anyone in the Welsh NHS, for the thousands of dedicated people who work every day to provide compassionate care to vulnerable and dependent older people, and, especially, for those who rely upon the receipt of care of exactly that sort. The team of people who prepared today's report describe themselves as being shocked and dismayed at some of what they discovered. Members will, I am sure, share that reaction.

Mae hwn yn ddiwrnod anodd i unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am bobl hŷn yn y ddau ysbyty hyn. Mae'r adroddiad yn anodd ei ddarllen i unrhyw un yn y GIG yng Nghymru, i'r miloedd o bobl ymroddedig sy'n gweithio bob dydd i ddarparu gofal tosturiol i bobl hŷn sy'n agored i niwed ac yn ddibynnol, ac, yn arbennig, i bobl sy'n dibynnu ar dderbyn y math hwnnw o ofal. Mae'r tîm o bobl a baratodd adroddiad heddiw'n dweud eu bod wedi'u synnu a'u siomi ynghylch rhai o'r pethau y gwnaethant eu darganfod. Bydd yr Aelodau, rwyf yn siŵr, yn rhannu'r ymateb hwnnw.

The times in which we live have devalued the currency of a public apology, but, as the Minister responsible for health services in Wales, I want to put on record my own unreserved apology to those individuals, and their families, whose care has fallen short of the standard that they had a right to expect when being looked after in the Welsh NHS.

Mae'r cyfnod yr ydym yn byw ynddo wedi dibrisio ymddiheuriadau cyhoeddus, ond, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am wasanaethau iechyd yng Nghymru, hoffwn roi ar gofnod fy ymddiheuriad diamod i'r unigolion hynny, a'u teuluoedd, sydd wedi cael gofal o safon is nag yr oedd ganddynt hawl i'w ddisgwyl wrth dderbyn gofal yn y GIG yng Nghymru.

Ni ddylai diffygion fel y rhai yr ydym wedi darllen amdanynt yn yr adroddiad fod wedi cael eu caniatáu i ddigwydd o gwbl. Rwy'n benderfynol na fydd dim byd arall o'r fath yn cael ei oddef eto yn y ddau ysbyty hyn, yn y bwrdd iechyd hwn, nac, yn wir, yn unman arall yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r Athro Andrews a Mr Butler wedi gwneud 18 o argymhellion yn eu hadroddiad er mwyn sicrhau bod y methiannau a welodd ei thîm yn cael eu nodi a'u datrys. Mae pedwar o'r rhain yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru a bydd pob un yn cael ei dderbyn.

The lapses of the kind we read in this report should never have been allowed to take place. I am determined that nothing of this sort will be tolerated in these two hospitals, in this health board or, indeed, anywhere else in Wales in the future. Professor Andrews and Mr Butler make 18 recommendations in their report to ensure that the failings the team identified are recorded and rectified. Four of these are responsibilities that fall to the Welsh Government, and each of them will be accepted.

Some 14 recommendations fall to the responsibility of the local health board. Professor Andrews and Mr Butler made it clear that they have specifically considered the ability of that board and its senior staff to discharge the responsibilities that have been set out in their report. Their conclusion is unambiguous and unequivocal. They have the commitment and the capacity to do so.

Mae'r oddeutu 14 o'r argymhellion yn gyfrifoldeb ar y bwrdd iechyd lleol. Gwnaeth yr Athro Andrews a Mr Butler hi'n glir eu bod wedi ystyried yn benodol allu'r bwrdd a'i staff uwch i gyflawni'r cyfrifoldebau sydd wedi eu hamlinellu yn eu hadroddiad. Mae eu casgliad yn ddiamwys ac yn ddigamsyniol. Mae'r ymrwymiad a'r gallu ganddynt i wneud hynny.

The report's authors emphasise the need for their observations and their conclusions to be taken as a whole. I believe that that is both wise and necessary advice. We cannot pick and choose from this report. We must take all of it together, no matter how difficult the message or unpalatable the content.

While the report is focused on two hospitals, it inevitably and directly gives rise to questions about the care of older people more widely.

Mae fy natganiad ysgrifenedig y bore yma yn disgrifio'r camau a fydd yn cael eu cymryd gan fwrdd iechyd prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, a Llywodraeth Cymru, i fynd i'r afael â chanfyddiadau ac argymhellion penodol y tîm adolygu. Fodd bynnag, rwy'n glir fy marn nad adroddiad i'r bwrdd iechyd yn unig yw hwn, ond adroddiad i'r holl wasanaeth iechyd yng Nghymru. Rwyf wedi ysgrifennu heddiw at gadeirydd pob bwrdd iechyd a phob ymddiriedolaeth NHS yng Nghymru yn gofyn iddynt drafod yr adroddiad hwn ar lefel bwrdd ac i sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu sy'n codi o'r adroddiad yn cael eu nodi a'u rhoi ar waith ar frys.

In the immediate term, however, I believe that action must be taken to address four areas where the report demonstrated that the direct care of elderly patients was compromised: in the delivery of medication; in the provision of hydration; in the over-reliance of night-time sedation; and in basic continence care. I require an immediate assurance that these failures are not more widespread in the hospital care of older people across Wales. Llywydd, let me be clear that I do not begin from the premise that such failure is endemic in our hospitals. Nevertheless, as from today, I will give health boards and NHS trusts in Wales a four-week period to absorb the findings of the report and to satisfy themselves that such departures from basic professional standards are not present in their organisations.

Immediately after that, each district general hospital in Wales will be visited by a small group of independent experts, overseen from outside Wales by Sir Ian Carruthers and Professor Andrews. They will carry out spot checks on the care of older people, concentrating on these four areas, and they will report their findings directly to me. In the six months after these ministerial spot checks, Healthcare Inspectorate Wales will carry out, and report rapidly on a new and additional programme of unannounced follow-up dignity and essential care inspections. There can be no excuse for, or acceptance of, care which falls below such fundamental standards.

Mae awduron yr adroddiad yn pwysleisio'r ffaith bod angen ystyried eu sylwadau a'u casgliadau yn eu cyfanrwydd. Credaf fod hynny'n gyngor doeth ac angenrheidiol. Ni allwn ddewis a dethol o'r adroddiad hwn. Rhaid inni gymryd popeth gyda'i gilydd, waeth pa mor anodd yw'r neges a pha mor annymunol yw'r cynnwys.

Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar ddau ysbyty, mae'n anochel ac yn uniongyrchol yn codi cwestiynau am ofal pobl hŷn yn fwy cyffredinol.

My written statement this morning describes the actions that will be taken by Abertawe Bro Morgannwg university health board and the Welsh Government to address the review team's specific findings and recommendations. However, the report is, in my clear view, not just a report for the health board, but a report for the whole of the Welsh NHS. I have today written to the chair of each health board and NHS trust in Wales setting out my requirement that this report is discussed at board level and to ensure that any necessary actions flowing from it are urgently identified and taken.

Yn y tymor byr, fodd bynnag, rwyf yn credu bod yn rhaid cymryd camau i ymdrin â phedwar maes lle dangosodd yr adroddiad fod gofal uniongyrchol i gleifion oedranus yn cael ei beryglu: darparu meddyginiaeth; darparu dŵr yfed; gorddibyniaeth ar dawelyddion dros nos; a gofal ymataliaeth sylfaenol. Rwyf yn mynnu sicrwydd ar unwaith nad yw'r methiannau hyn yn fwy cyffredin wrth roi gofal i bobl hŷn mewn ysbytai ledled Cymru. Lywydd, gadewch imi fod yn glir nad fy man cychwyn yw bod methiant o'r fath yn endemig yn ein hysbytai. Er hynny, o heddiw ymlaen, rwyf yn rhoi pedair wythnos i fyrdau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru dreulio canfyddiadau'r adroddiad a'u bodloni eu hunain nad yw gwyriadau o'r fath oddi wrth safonau proffesiynol sylfaenol yn digwydd yn eu sefydliadau.

Yn syth wedyn, bydd pob ysbyty cyffredinol dosbarth yng Nghymru'n cael ymweliad gan grŵp bach o arbenigwyr annibynnol, dan oruchwyliaeth o'r tu allan i Gymru gan Syr Ian Carruthers a'r Athro Andrews. Byddant yn cynnal archwiliadau ar hap ar ofal i bobl hŷn, gan ganolbwyntio ar y pedwar maes hyn, a byddant yn adrodd am eu canfyddiadau'n uniongyrchol i mi. Yn ystod y chwe mis ar ôl yr hap archwiliadau gweinidogol hyn, bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru'n cynnal rhaglen newydd ac ychwanegol o arolygiadau dilynol dirybudd ar urddas a gofal hanfodol, ac yn adrodd arnynt yn gyflym. Ni all fod unrhyw esgus dros ofal o safon is na'r safonau sylfaenol hyn, ac ni ellir derbyn hynny.

I said earlier that Professor Andrews and Mr Butler emphasise the need for this report to be read and accepted as a whole. Let me identify three very important points that are made emphatically in its pages. First, it is absolutely and repeatedly clear that the position at these hospitals is not today, and never has been, the same or similar to that experienced at the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust in England. This report puts that accusation to rest. Secondly, the report addresses the issue of a public inquiry. Its own conclusion is that the call for a public inquiry is based on the misleading impression given that a vast number of people have been adversely affected by the quality of care of Princess of Wales and Neath Port Talbot hospitals. Having studied the report in detail, I am absolutely sure that the rigour of its insights and the clarity of its conclusions justify its commission. In less than six months, we have a set of specific actions to address the problems identified; a public inquiry could never have responded in such a timely and decisive manner.

Finally, the report focuses on what it calls the 'debilitating public campaign against the hospitals' and the impact that this has had on staff and services. The review team put on record the extent to which they were struck by the fact that the vast majority of the public and NHS staff wish to be proud of health services in Bridgend and Neath Port Talbot. While most people with a complaint to make did so in order to bring about improvement for the future, the report notes a litigious and vexatious minority, animated by what it calls 'a noisy determination to pursue the hospital' and interested only in 'compensation, dismissal... and criminal prosecution.'

Llywydd, let me end by quoting further from the concluding section of the report, which sets out a challenge for us all, including those of us who are members of this Chamber. This is what it says:

'There is...no question that where issues of serious concern are raised there should be appropriate mechanisms for investigation and resolution. However the collective responsibility of those inside the system, those charged with regulation and the public should...not be to catch out and blame, but to identify, correct, prevent and resolve issues constructively, so that the way hospitals work and services are provided improves.'

Llywydd, that is exactly how the NHS in Wales will go about the urgent business of learning the lessons and taking forward the actions that this report demands.

Dywedais yn gynharach fod yr Athro Andrews a Mr Butler yn pwysleisio'r angen i ddarllen a derbyn yr adroddiad hwn yn ei gyfanrwydd. Gadewch imi nodi tri phwynt pwysig iawn sy'n cael eu gwneud yn gwbl bendant yn ei dudalennau. Yn gyntaf, mae'n ei gwneud yn gwbl glir dro ar ôl tro nad yw'r sefyllfa yn yr ysbytai hyn heddiw, ac nad yw erioed wedi bod, yr un fath nac yn debyg i'r hyn a welwyd yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford yn Lloegr. Mae'r adroddiad hwn yn cau pen y mwddwl ar y cyhuddiad hwnnw. Yn ail, mae'r adroddiad yn ymdrin â chynnal ymchwiliad cyhoeddus. Mae'n dod i'r casgliad bod yr alwad am ymchwiliad cyhoeddus yn seiliedig ar yr argraff gamarweiniol a roddwyd bod ansawdd y gofal yn ysbytai Tywysoges Cymru a Chastell-nedd Port Talbot wedi effeithio'n andwyol ar nifer fawr iawn o bobl. Ar ôl astudio'r adroddiad yn fanwl, rwyf yn gwbl sicr bod cyfiawnhad dros ei gomisiynu oherwydd ei fod mor drylwyr ei dreiddgarwch ac mor glir ei gasgliadau. Mewn llai na chwe mis, mae gennym gyfres o gamau gweithredu penodol i ymdrin â'r problemau a nodwyd; ni allai ymchwiliad cyhoeddus byth fod wedi ymateb mewn modd mor amserol a phendant.

Yn olaf, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr hyn y mae'n ei alw'n 'ymgyrch gyhoeddus wanychol yn erbyn yr ysbytai' a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar staff a gwasanaethau. Nododd tîm yr adolygiad eu bod wedi eu taro gan y ffaith bod ar fwyafrif helaeth y cyhoedd a staff y GIG eisiau bod yn falch o wasanaethau iechyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot. Er bod y rhan fwyaf o bobl â chŵyn i'w gwneud wedi gwneud hynny er mwyn sicrhau y bydd pethau'n gwella yn y dyfodol, mae'r adroddiad yn nodi bod lleiafrif cyfreithgar a blinderus, sydd wedi'u cynhyrfu gan yr hyn y mae'n ei alw'n 'benderfyniad swmlyd i erlid yr ysbyty' ac mai'r unig beth y mae ganddynt ddiddordeb ynddo yw 'iawndal, diswyddo ... ac erlyn troseddol.'

Llywydd, gadewch imi ddirwyn i ben drwy ddyfynnu ymhellach o adran olaf yr adroddiad, sy'n nodi her i bob un ohonom, gan gynnwys y rhai ohonom sy'n aelodau o'r Siambr hon. Dyma'r hyn y mae'n ei ddweud:

Nid oes amheuaeth, lle caiff materion o bryder difrifol eu codi, y dylai fod mecanweithiau priodol ar gyfer ymchwilio iddynt a'u datrys. Fodd bynnag, yn hytrach na dal allan a bwrw bai, dylai fod yn gyfrifoldeb ar y cyd ar y rhai sydd y tu mewn i'r system, y rhai sy'n gyfrifol am reoleiddio a'r cyhoedd i adnabod, unioni, atal a datrys materion yn adeiladol, fel bod y ffordd y mae ysbytai'n gweithio a'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu yn gwella.

Llywydd, dyna'n union sut y bydd y GIG yng Nghymru'n mynd ati i wneud y gwaith pwysig o ddysgu'r gwersi a bwrw ymlaen â'r camau gweithredu y mae'r adroddiad hwn yn eu mynnu.

14:40

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I call the opposition spokesperson, Darren Millar.

Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Darren Millar.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Presiding Officer, and thank you, Minister, for your statement. There is no doubt whatsoever in my mind that this is one of the most horrific and appalling reports that I have ever read about patient care in the Welsh NHS. What concerns me, Minister, is that there are loud echoes in this report of subjects, topics and standards of care that have been in previous reports that this Assembly has considered, such as the dignity in care report, which was published by the older people's commissioner for Wales in 2011 and, indeed, the governance arrangements of the Betsi Cadwaladr university health board, which were considered by the Wales Audit Office and Healthcare Inspectorate Wales in their joint report in July 2013.

Frankly, Minister, simply saying 'sorry' is not going to heal the wounds that this report has exposed. What people—patients and their families—want to see arising from this report is an assurance that this sort of experience that people have been through in these two hospitals will never happen or be tolerated again in the Welsh NHS.

It is very concerning, Minister, to read in the report about the financial pressures that could have led to a greater focus on finances rather than quality and patient safety. I want to know, Minister, what you are going to do, not just in terms of a three-year financial regime in which you have already told us you will hold people's feet to the fire for delivery against that, but what you are going to do on a week-by-week and a month-by-month basis, as a Welsh Government, to ensure that patients always come first in the Welsh NHS, not finances. What are you going to do to ensure that the accountability arrangements within that health board stand up to proper scrutiny, so that people will not be confused in terms of who is responsible for what, as the report says that they were on the wards and among the staff groups that were spoken to by the report's authors? Minister, rather than having a go at some of the patients and their families in organisations such as the ABMU victim support group, what are you going to do to embrace them and to look them in the eye? Rather than issue an unreserved apology in this Chamber, will you personally speak to them and apologise to them individually for the appalling care that they and their relatives have received?

We need to see action to ensure that these things will not happen again. I am not sure, Minister, that giving four weeks' worth of notice to health boards before inspections take place on wards is frankly sufficient action at this particular point in time. I appreciate that you are going to follow up on the recommendations in the report, but I am not sure that that immediate action, frankly, is quite the sort of action that we are looking for.

Diolch, Lywydd, a diolch i chi, Weinidog, am eich datganiad. Nid oes mymryn o amheuaeth yn fy meddwl i nad dyma un o'r adroddiadau mwyaf erchyll a dychrynlyd yr wyf erioed wedi'i ddarllen am ofal cleifion yn y GIG yng Nghymru. Yr hyn sy'n fy mhoeni, Weinidog, yw bod adleisiau uchel yn yr adroddiad hwn o bynciau, testunau a safonau gofal a fu mewn adroddiadau blaenorol y mae'r Cynulliad hwn wedi'u hystyried, megis yr adroddiad urddas mewn gofal, a gyhoeddwyd gan gomisiynydd pobl hŷn Cymru yn 2011 ac, yn wir, drefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a ystyriwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn eu hadroddiad ar y cyd ym mis Gorffennaf 2013.

A dweud y gwir, Weinidog, nid yw dweud 'mae'n ddrwg gen i' yn mynd i iacháu'r clwyfau y mae'r adroddiad hwn wedi'u datgelu. Yr hyn y mae ar bobl eisiau ei weld yn deillio o'r adroddiad hwn—yn gleifion a'u teuluoedd—yw sicrwydd na fydd y math hwn o brofiad y mae pobl wedi ei gael yn y ddau ysbyty hyn byth yn digwydd nac yn cael ei oddef eto yn y GIG yng Nghymru.

Mae'n destun gofid mawr, Weinidog, darllen yn yr adroddiad am y pwysau ariannol a allai fod wedi arwain at fwy o bwyslais ar gyllid yn hytrach nag ar ansawdd ac ar ddiogelwch y cleifion. Hoffwn wybod, Weinidog, beth yr ydych yn mynd i'w wneud, nid dim ond o ran cyfundrefn ariannol tair blynedd lle'r ydych eisoes wedi dweud wrthym y byddwch yn dal traed pobl at y tân o ran cyflawni yn erbyn hynny, ond beth yr ydych yn mynd i'w wneud o wythnos i wythnos ac o fis i fis, yn Llywodraeth Cymru, i sicrhau mai cleifion sydd bob amser yn dod gyntaf yn y GIG yng Nghymru, ac nid arian. Beth ydych chi'n mynd i'w wneud i sicrhau bod y trefniadau atebolrwydd o fewn y bwrdd iechyd hwnnw'n gallu gwrthsefyll craffu priodol, fel na chaiff pobl eu drysu o ran pwy sy'n gyfrifol am beth, fel y dywed yr adroddiad sy'n digwydd ar y wardiau ac ymhlith y grwpiau staff y siaradodd awduron yr adroddiad â hwy? Weinidog, yn hytrach na beio rhai o'r cleifion a'u teuluoedd mewn sefydliadau megis grŵp cymorth i ddioddefwyr PABM, beth ydych chi'n mynd i'w wneud i'w coffleidio ac i edrych ym myw eu llygaid? Yn hytrach na rhoi ymddiheuriad diamod yn y Siambr hon, a wnewch chi siarad yn bersonol â hwy ac ymddiheuro iddynt yn unigol am y gofal echrydus y maent hwy a'u perthnasau wedi'i dderbyn?

Mae angen inni weld camau'n cael eu cymryd i sicrhau na fydd y pethau hyn yn digwydd eto. Nid wyf yn siŵr, Weinidog, fod rhoi pedair wythnos o rybudd i fyrdau iechyd cyn cynnal arolygiadau ar wardiau, a dweud y gwir, yn gam digonol ar yr adeg hon. Gwn y byddwch yn gwneud gwaith dilynol ar yr argymhellion yn yr adroddiad, ond nid wyf yn siŵr ai gweithredu ar unwaith o'r math hwnnw, a dweud y gwir, yw'r math o weithredu yr ydym yn ei erfyn.

What people in this Chamber and people around Wales want to see are assurances that these problems are not just confined to older people's care; assurances that these are not problems that are just confined to these two hospitals or, indeed, just to this particular health board, but that all of the hospitals across this country, in every discipline in which care is delivered, are safe and that there are proper governance arrangements in place so that you can pick these matters up when things go wrong and put them right.

I am not going to call for heads to roll on this particular occasion. However, I would like just one explanation from you, Minister, as to why it was, when the report into the Betsi Cadwaladr university health board was published, given the findings that have emerged today and given that your Welsh Government officials and you knew already that this was a mounting crisis and knew that there was a package of evidence mounting in that health board, why on earth would you choose the chief executive of the ABMU health board to try to help the health board in north Wales that was struggling with its governance to put matters right?

You might not think that this is a Mid Staffs crisis. I do not think that the report's authors can conclude that given the very narrow focus of their work, frankly. However, I have this one final thing to say, Minister. If it looks like, smells like and moves like a Mid Staffs crisis, it is time for a major inquiry into care standards in the Welsh NHS, and I would urge you, once again, to reconsider the position of the Welsh Government on this matter and to commission a much wider piece of work into care standards in the Welsh NHS, in order that the people of Wales and the patients of Wales can get the assurances that they need.

Yr hyn y mae pobl yn y Siambr hon a phobl ledled Cymru am ei weld yw sicrwydd nad dim ond mewn gofal i bobl hŷn y mae'r problemau hyn; sicrwydd nad yw'r rhain yn broblemau sydd wedi'u cyfyngu i'r ddau ystyby hyn yn unig nac, yn wir, i'r bwrdd iechyd penodol hwn yn unig, ond bod yr holl ystybai ledled y wlad hon, ym mhob disgyblaeth sy'n darparu gofal, yn ddiogel, a bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith er mwyn ichi allu adnabod y materion hyn pan aiff rhywbeth o chwith ac unioni pethau.

Nid wyf am alw am i neb golli ei swydd y tro hwn. Fodd bynnag, hoffwn un esboniad gennych, Weinidog, ynglŷn â pham, pan gyhoeddwyd yr adroddiad ar fwrdd iechyd prifysgol Betsi Cadwaladr, ac ystyried y canfyddiadau sydd wedi dod i'r amlwg heddiw ac o gofio bod swyddogion Llywodraeth Cymru a chithau'n gwybod eisoes fod hwn yn argyfwng cynyddol ac yn gwybod bod pecyn o dystiolaeth yn tyfu yn y bwrdd iechyd, pam ar y ddaear y bydddech yn dewis prif weithredwr bwrdd iechyd PABM i geisio helpu'r bwrdd iechyd yn y gogledd a oedd yn cael trafferth o ran llywodraethu i unioni pethau?

Efallai nad ydych yn meddwl bod hwn yn argyfwng fel un Canol Swydd Stafford. Nid wyf yn credu y gall awduron yr adroddiad ddod i'r casgliad hwnnw ac ystyried ffocws cul iawn eu gwaith, a dweud y gwir. Fodd bynnag, mae gennyf un peth olaf i'w ddweud, Weinidog. Os yw'n edrych, yn arogl ac yn symud fel argyfwng Canol Swydd Stafford, mae'n bryd cynnal ymchwiliad mawr i safonau gofal yn y GIG yng Nghymru, a byddwn yn eich annog, unwaith eto, i ailystyried safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn a chomisynu darn ehangach o lawer o waith ar safonau gofal yn y GIG yng Nghymru, er mwyn gallu rhoi i bobl Cymru a chleifion Cymru y sicrwydd sydd ei angen arnynt.

14:45

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Llywydd, the health spokesperson of the main opposition party has a particular responsibility in this Chamber. Again, this afternoon, what we have heard from him are important points that he has made, which were then clouded and lost in the sort of hyperbolic approach that he characteristically brings to these matters. Let me try to deal with the serious points that he made, because they were serious, and they deserve a serious answer.

He began by saying that it ought to be of concern to us all that points made in this report find their echo in earlier reports that those of us who are interested in these topics have read here in Wales. He is absolutely right about that and it is a real matter of concern to me that issues, for example, to do with board governance, which were made very powerfully in the Betsi Cadwaladr case, reappear in this report. This afternoon, the organisation responsible for senior management in the Welsh NHS has put out its statement in response to this review. It commits its members absolutely not just to learning the lessons, but to implementing the lessons of this review and those others that have gone before it.

Lywydd, mae gan lefarydd iechyd y brif wrthblaid gyfrifoldeb penodol yn y Siambr hon. Unwaith eto, y prynhawn yma, mae'r hyn yr ydym wedi'i glywed ganddo'n bwyntiau pwysig, ond cawsant eu cymylu a'u colli yn y math o ymagwedd hyperbolig y mae'n nodweddiadol yn ei defnyddio wrth ymdrin â'r materion hyn. Gadewch imi geisio ymdrin â'r pwyntiau difrifol a wnaeth, oherwydd roeddent yn ddifrifol, ac maent yn haeddu ateb difrifol.

Dechreuodd drwy ddweud y dylai fod yn destun pryder i bob un ohonom fod pwyntiau a wnaethpwyd yn yr adroddiad hwn yn adleisio rhai mewn adroddiadau cynharach y bydd y rhai ohonom sydd â diddordeb yn y pynciau hyn wedi'u darllen yma yng Nghymru. Mae'n hollol gywir yn hynny o beth ac mae'n destun pryder gwirioneddol imi fod materion, er enghraifft, yn ymwneud â llywodraethu'r byrddau, a wnaethpwyd yn rymus iawn yn achos Betsi Cadwaladr, yn ailymddangos yn yr adroddiad hwn. Y prynhawn yma, mae'r sefydliad sy'n gyfrifol am uwch reolwyr yn y GIG yng Nghymru wedi rhyddhau ei ddatganiad yn ymateb i'r adolygiad hwn. Mae'n rhwymo ei aelodau'n llwyr nid yn unig i ddysgu'r gwersi, ond i roi gwersi'r adolygiad hwn, a'r rhai eraill a'i rhagflaenodd, ar waith.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thought that Darren Millar used a phrase that many of us would do well to use in responding to this review when he talked about the importance of healing the wounds that are there to be seen in pages of this review and, sometimes, between the service and the public that it serves in this part of Wales. We will not do that by using some of the other language that he used, but the point that he made there was an important one.

On financial pressures, I think that the report is clear. What it says is that during a period in which the board has had to attempt to introduce strategic change, while having to conform to a statutory obligation to bring in its budget on an annual basis, those two things have been in conflict with one another. This is exactly the debate that we have had in this Chamber; it is why we have changed the regime. That is what that part of the report is all about.

I noticed that Darren Millar said that he did not call for heads to roll. Let me read out section 5.1 of the report's conclusions, because it reinforces the point that he made there, but it makes a wider point too, which I want to repeat in the Chamber:

'The Review Team is concerned that this Report may be seen by some, and be reported by others, as evidence of failure and incompetence which should result in a search for "the guilty" and for "heads to roll". This is the current bullying language frequently used to vilify those with responsibility for services and care in the NHS and other public services.'

I am determined that we will not use that language when we talk about our NHS.

Finally, on the last point, when things went so badly wrong in what Darren Millar had to say, I repeated twice in my statement what the report says in its opening pages and, again, in its conclusion, which is that this is a report that must be taken as a whole. You cannot pick the bits of it that happen to chime with the beliefs that you had already and then endorse those and reject those parts of the report that do not happen to fall in with your agenda. The report is absolutely clear. The team said that, wherever it went, the question posed to it had been boiled down by the media, by the public and by the staff to: 'Is this another Mid Staffordshire?' They say as explicitly as you can get, 'It is not'. I do not think that there is any room for others to try to unpick that because they happened already, before they ever looked inside its covers, to have a view that they had already formed. That is no use to anyone. I am reporting what the report says. If you accept parts of it, you have to accept it all. That, I think, is the point that opposition party members here really need to fix their minds upon.

Roeddwn yn meddwl bod Darren Millar wedi defnyddio ymadrodd y byddai'n dda i lawer ohonom ei ddefnyddio wrth ymateb i'r adolygiad hwn pan soniodd am bwysigrwydd iacháu'r clwyfau sydd yno i'w gweld ar dudalennau'r adolygiad hwn ac, weithiau, rhwng y gwasanaeth a'r cyhoedd y mae'n ei wasanaethu yn y rhan hon o Gymru. Ni wnawn hynny drwy ddefnyddio rhywfaint o'r iaith arall a ddefnyddiodd, ond roedd y pwynt a wnaeth yno'n un pwysig.

O ran pwysau ariannol, rwyf yn meddwl bod yr adroddiad yn glir. Yr hyn y mae'n ei ddweud yw, yn ystod cyfnod pan fu'n rhaid i'r bwrdd geisio cyflwyno newid strategol, a chydymffurfio ar yr un pryd â rhwymedigaeth statudol i gadw at ei gyllideb bob blwyddyn, fod y ddau beth hyn wedi gwrthdaro â'i gilydd. Dyma'r union ddatl yr ydym wedi'i chael yn y Siambr hon; dyna pam yr ydym wedi newid y drefn. Dyna beth sydd dan sylw yn y rhan honno o'r adroddiad.

Rwyf yn sylwi bod Darren Millar wedi dweud nad oedd yn galw am i neb golli ei swydd. Gadewch imi ddarllen adran 5.1 o gasgliadau'r adroddiad, oherwydd mae'n atgyfnerthu'r pwynt a wnaeth yno, ond mae'n gwneud pwynt ehangach hefyd, pwynt yr hoffwn ei ailadrodd yn y Siambr:

Mae'r Tîm Adolygu'n pryderu y gallai rhai pobl weld yr Adroddiad hwn, ac y gallai eraill adrodd amdano, fel tystiolaeth o fethiant ac anallu a ddylai arwain at chwilio am "bobl euog" a ddylai "golli eu swyddi". Dyma'r iaith fwlio a ddefnyddir yn aml ar hyn o bryd i ladd ar bobl sydd â chyfrifoldeb am wasanaethau a gofal yn y GIG a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Rwyf yn benderfynol na fyddwn yn defnyddio'r math hwnnw o iaith wrth sôn am ein GIG.

Yn olaf, ar y pwynt olaf, pan aeth pethau gymaint o chwith yn yr hyn a oedd gan Darren Millar i'w ddweud, ailadroddais ddwywaith yn fy natganiad yr hyn y mae'r adroddiad yn ei ddweud yn y tudalennau agoriadol ac, unwaith eto, yn y diwedd glo, sef bod hwn yn adroddiad y mae'n rhaid ei gymryd yn ei gyfanrwydd. Ni allwch ddewis y rhannau ohono sy'n digwydd cyd-daro â'r hyn yr oeddech eisoes yn ei gredu a chymeradwyo'r rheini a gwrthod y rhannau hynny o'r adroddiad nad ydynt yn digwydd cyd-fynd â'ch agenda. Mae'r adroddiad yn gwbl glir. Dywedodd y tîm fod y cwestiwn a ofynnwyd iddo, ym mhobman yr oedd yn mynd, yn cael ei ferwi i lawr gan y cyfryngau, gan y cyhoedd a'r staff i: 'Ai achos arall fel Canol Swydd Stafford yw hwn?' Dywedant mor glir ag y bo modd, 'Nage'. Nid wyf yn credu bod lle i eraill geisio dadansoddi hynny oherwydd eu bod eisoes wedi llunio barn, cyn iddynt hyd yn oed edrych rhwng y cloriau. Nid yw hynny'n ddefnyddiol i neb. Rwyf yn adrodd yr hyn y mae'r adroddiad yn ei ddweud. Os ydych yn derbyn rhannau ohono, rhaid ichi dderbyn y cyfan. Dyna, yn fy marn i, yw'r pwynt y mae gwir angen i aelodau'r wrthblaid yma feddwl amdano.

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'r adroddiad sydd o'n blaenau y prynhawn yma yn adroddiad sy'n adlewyrchiad difrifol iawn, fel yr ydych wedi ei gydnabod, o wasanaeth yn nwy o'n hysbytai yng Nghymru—gwasanaeth ag agweddau difrifol iawn o ofal am y bobl fwyaf bregus yn yr ysbytai hynny. Rwy'n falch, yn eich datganiad, eich bod wedi cydnabod y gallai'r sefyllfa fod cynddrwg, o bosib, mewn ysbytai eraill yng Nghymru. Mae'n bwysig eich bod yn cymryd y camau iawn i sicrhau bod y gwasanaeth yn gwella ym mwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg, ond hefyd eich bod yn ymgymryd â gwaith i edrych i weld a yw'r gwasanaeth a'r gofal cynddrwg o fewn gwasanaethau eraill. Yr ydych wedi gosod gofyniad penodol ar Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i ymgymryd â gwaith ychwanegol yn yr ysbytai a'r byrddau iechyd eraill, yn ogystal ag Abertawe Bro Morgannwg. Rydym yn ymwybodol bod adnoddau'r arolygiaeth iechyd yn 'stretched' nawr; felly, a allwch chi gadarnhau i ni y prynhawn yma y byddwch yn rhyddhau mwy o adnoddau i'r arolygiaeth iechyd er mwyn iddi ymgymryd â'r gwaith ychwanegol yr ydych nawr yn gofyn iddi ei wneud?

Mae'r adroddiad yn cyfeirio tipyn at yr angen, ac yn amlygu'r diffyg lefelau staffio priodol yn y gwasanaethau yn y ddwy ysbyty hyn. Nid yw'n dod lawr o blaid isafswm lefel staffio, ond mae'n sôn yn benodol iawn am bwysigrwydd staffio ward yn unol ag anghenion y cleifion ar y ward honno ar unrhyw amser penodol. Wythnos diwethaf, fe wnaeth NICE gyhoeddi canllawiau drafft ar lefelau staffio nysio priodol ar wardiau. Mae'n bosib nad ydych wedi cael cyfle i edrych ar y rheini hyd yn hyn. Maen nhw allan am ymgynghoriad ar hyn o bryd, ond rwy'n credu ei fod yn bwysig ein bod yn cael cydnabyddiaeth oddi wrthych chi eich bod chi'n derbyn bod angen lefelau staffio priodol ar bob un ward yng Nghymru, p'un ai ydych chi'n derbyn yr egwyddor o isafswm staffio neu beidio, a'ch bod chi'n mynd i edrych ar weithredu'r canllawiau NICE hynny er mwyn gosod y sylfaen honno.

Finally, Minister, there is a minimum level of care that our patients deserve in every hospital in Wales, with that level of care, at the very basic level, on feeding, hygiene, hydration, medication and continence issues. Do you believe that it is time for us to have a common understanding of that minimum level of care, below which we should have zero tolerance if we fall, and if any of our hospitals fall below that level of care?

The report before us this afternoon is a report that is a very serious reflection, as you have acknowledged, of the service provided in two of our hospitals in Wales—services that have very serious implications in terms of the care of the most vulnerable people in those hospitals. I am pleased that, in your statement, you have recognised that the situation could be as bad, possibly, at other hospitals in Wales. It is important that you take the necessary steps to ensure that the service improves in the Abertawe Bro Morgannwg health board, but that you also undertake work to look at whether the service and the care are equally bad elsewhere. You have placed a specific requirement on Healthcare Inspectorate Wales to undertake additional work in hospitals and in the other health boards, in addition to Abertawe Bro Morgannwg. We are aware that the resources of the health inspectorate are now stretched; therefore, can you confirm to us this afternoon that you will release greater resources to the inspectorate for it to undertake the additional work that you are now asking it to undertake?

The report refers a great deal to the need, and it highlights the problems in terms of appropriate staffing levels in services in both of these hospitals. It does not come down in favour of a minimum staffing level, but it does specifically mention the importance of staffing wards in relation to the needs of the patients on that ward at any particular time. Last week, NICE published draft guidelines on the appropriate staffing levels for nurses on wards. It is possible that you have not had an opportunity to look at them to date. They are out to consultation at present, but it is important that we are given the recognition from you that you accept that appropriate staffing levels are required on every ward in Wales, whether you accept the principle of a minimum staffing level or not, and that you will look at taking action on those NICE guidelines so that that foundation is in place.

Yn olaf, Weinidog, mae lefel ofynnol o ofal y mae ein cleifion yn ei haeddu ym mhob ysbyty yng Nghymru, ac mae'r lefel honno o ofal, ar y lefel sylfaenol iawn, yn ymwneud â bwydo, hylendid, hydradu, meddyginiaeth ac ymataliaeth. A ydych yn credu ei bod yn bryd inni gael dealltwriaeth gyffredin o'r lefel ofynnol honno o ofal, ac y dylem ddefnyddio polisi dim goddefgarwch os ydym ni, neu unrhyw un o'n hysbytai, yn cwmpo o dan y lefel honno o ofal?

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

A gaf i ddweud gair o ddiolch i Elin Jones am yr hyn y mae wedi ei ddweud y prynhawn yma, a'r hyn ddywedodd hi wrth agor ei datganiad am beth yr ydym yn mynd i'w wneud i sicrhau, ledled Cymru, na fydd y pethau rydym wedi darllen amdanynt yn nhudalennau'r adroddiad hwn yn digwydd yn lleoedd eraill?

May I thank Elin Jones for her words this afternoon, and what she said at the beginning of her statement about what we are going to do to ensure, across Wales, that what we have read about in the pages of this report will not be repeated elsewhere?

She is right to raise the issue of resources for HCW. She will know, from being a member of the health committee, that the resources that HCW lacked were not financial resources, but staffing resources and its ability to mobilise sufficient expertise in some of the areas where it needed to do that. I will be responding next week to the committee's report, but I can say this afternoon that a substantial recruiting exercise has gone on by HCW in order to make sure that it has those staffing resources in place with the relevant expertise, to discharge its responsibilities, and we will be drawing on that as part of the work that I have set in train today.

She made some important points that arise from the NICE draft guidance that was published at the weekend. May I just say this? I will return to that point in one moment, but one of the things that I found difficult in reading this report was that some of the things that were done or not done on some wards and during some shifts at the Princess of Wales Hospital did not rely on the numbers of staff. They did not rely on the training of staff. They relied on the most basic understanding of what one human being, responsible for the care of somebody else, ought never to have left undone. So, I take the points that she made; they are important points. We have the acuity tool, which has been developed here in Wales by our chief nursing officer, and that work has been influential in NICE's thinking, in the report that it has published, and we will take its recommendations and the acuity tool work that Professor Jean White has undertaken and apply them, not just in the Princess of Wales Hospital, but elsewhere. However, it is not the whole answer to what went wrong there, because—she raised the point herself in her final remarks—there remains a basic minimum level of care that, no matter what the other circumstances might be, those working at that face-to-face level should be obliged to provide. It is there in the older persons' commissioner's report. You can find out what that ought to be already; our job is to make sure that it is actually happening on the wards here in Wales.

Mae hi'n iawn i grybwyll adnoddau i Gomisiwn Iechyd Cymru. Bydd yn gwybod, o fod yn aelod o'r pwyllgor iechyd, nad diffyg adnoddau ariannol oedd yn y Comisiwn, ond diffyg adnoddau staffio a'r gallu i roi digon o arbenigedd ar waith yn rhai o'r meysydd lle'r oedd ei angen arnynt. Byddaf yn ymateb yr wythnos nesaf i adroddiad y pwyllgor, ond gallaf ddweud y prynhawn yma fod y Comisiwn wedi cynnal ymarfer recriwtio sylweddol er mwyn gwneud yn siŵr bod yr adnoddau staffio hynny ar gael iddo ynghyd â'r arbenigedd perthnasol, i gyflawni ei gyfrifoldebau, a byddwn yn manteisio ar hynny fel rhan o'r gwaith yr wyf wedi'i ddechrau heddiw.

Gwnaeth rai pwyntiau pwysig sy'n codi o ganllawiau drafft NICE a gyhoeddwyd dros y penwythnos. A gaf fi ddweud hyn? Dychwelaf at y pwynt hwnnw mewn munud, ond un o'r pethau a oedd yn anodd imi wrth ddarllen yr adroddiad hwn oedd nad oedd rhai o'r pethau a oedd yn cael eu gwneud neu nad oeddent yn cael eu gwneud ar rai wardiau ac yn ystod rhai shifftiau yn Ysbyty Tywysoges Cymru'n dibynnu ar nifer y staff. Nid oeddent yn dibynnu ar hyfforddiant y staff. Roeddent yn dibynnu ar ddealltwriaeth sylfaenol iawn o'r hyn na ddylai'r un bod dynol sy'n gyfrifol am ofalu am rywun arall byth ei adael heb ei wneud. Felly, rwyf yn derbyn y pwyntiau a wnaethpwyd ganddi; maent yn bwyntiau pwysig. Mae gennym yr offeryn aciwtedd, a ddatblygwyd yma yng Nghymru gan ein prif swyddog nyrsio, ac mae'r gwaith hwnnw wedi dylanwadu ar feddylfryd NICE, yn yr adroddiad y mae wedi'i gyhoeddi, a byddwn yn cymryd ei argymhellion a'r gwaith â'r offeryn aciwtedd y mae'r Athro Jean White wedi ei wneud ac yn eu defnyddio, nid dim ond yn Ysbyty Tywysoges Cymru, ond mewn mannau eraill. Fodd bynnag, nid dyna'r ateb cyfan i'r hyn a aeth o chwith yno, oherwydd—a chododd y pwynt ei hunan wrth ddirwyn i ben—mae lefel ofynnol sylfaenol o ofal o hyd, ac ni waeth pa amgylchiadau eraill a all fod, dylai fod yn ofynnol i bobl sy'n gweithio ar y lefel wyneb-yn-wyneb honno ei darparu. Mae yno yn adroddiad y comisiynydd pobl hŷn. Gallwch gael gwybod beth ddylai hynny fod yn barod; ein gwaith ni yw gwneud yn siŵr bod hynny'n digwydd mewn gwirionedd ar y wardiau yma yng Nghymru.

14:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Kirsty Williams.

Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:57 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for his statement today. Could I pick up where the Minister just left off? As a result of the 'Dignity in Care?' report by the older persons' commissioner, the Welsh Government prioritised its new delivery framework. For the years 2011 through to 2012, dignity in care was to be prioritised. The Minister at the time said that the NHS must deliver on this. Why do you suspect that, despite the promises made at ministerial level, the introduction of the new NHS delivery framework and the prioritisation of dignity, the care that we see highlighted in the report today happened?

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. A gaf fi ddechrau lle mae'r Gweinidog newydd offen? O ganlyniad i'r adroddiad 'Urddas mewn Gofal?' gan y comisiynydd pobl hŷn, blaenoriaethodd Llywodraeth Cymru ei fframwaith cyflenwi newydd. Ar gyfer y blynyddoedd 2011 hyd at 2012, byddai urddas mewn gofal yn cael blaenoriaeth. Dywedodd y Gweinidog ar y pryd fod yn rhaid i'r GIG gyflawni yn hyn o beth. Pam ydych chi'n meddwl, er gwaethaf yr addewidion a wnaed ar lefel weinidogol, y ffaith bod fframwaith cyflenwi newydd y GIG wedi'i gyflwyno a bod urddas wedi'i flaenoriaethu, fod y gofal y tynnir sylw ato yn yr adroddiad heddiw wedi digwydd?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Again, as a result of the 'Dignity in Care?' report, the Government announced that every NHS organisation had to produce an action plan to address the concerns raised by the older persons' commissioner. The implementation of those action plans was being actively monitored by the Welsh Government. Could you tell the Chamber today who was doing that monitoring? To whom was that monitoring reported? Did you, as the Minister for health, or did the previous Minister for health, receive the monitoring reports on dignity, and will you publish any documentation relating to those reports on Abertawe Bro Morgannwg?

Again, as a result of 'Dignity and Care?', the Government launched its nutrition care pathway to ensure that food and fluid charts were introduced across the NHS. As a part of the pathway, there was compulsory staff training. Could you confirm that all staff at the Princess of Wales Hospital and the Neath Port Talbot Hospital were subject to that compulsory staff training within 12 months of their appointment to those hospitals?

Healthcare Inspectorate Wales began conducting unannounced dignity spot checks in December 2011. Some were, indeed, carried out in 2012 at Abertawe Bro Morgannwg. Did those spot checks alert your Government to any concerns relating to dignity at these two hospitals?

Given that the First Minister stated earlier in questions that it was family concerns being raised that led to the Welsh Government commissioning this report, what does that tell you, Minister, about the performance of the community health councils and Healthcare Inspectorate Wales in this regard? Surely it should not be left to the relatives of patients alone to bring these concerns out into the open. What will you be doing to review the structures and performance of our monitoring and inspection systems as a result of this report?

I appreciate that the report goes on to say that they have every faith that the current board of Abertawe Bro Morgannwg can react and implement the changes outlined. However, paragraph 3.23 of the report says:

'However the Review Team thinks that there is a danger of complacency at Board level if ordinary good care is reported to the Board as if it is exceptional. A fierce level of attention and focus must be kept in ABMU on avoidable tragedies in the system, however minor or infrequent they may be.'

Could you outline what steps the Welsh Government will take to monitor the performance of Abertawe Bro Morgannwg in implementing the recommendations in this report?

You said in your statement that you were particularly concerned—and so am I—about the failures in proper administration of medicines. That is one of the most shocking aspects of the care highlighted today: medicines being signed for that had not been taken, as well as issues around capacity and consent. Page 17 of the report says:

Unwaith eto, o ganlyniad i'r adroddiad 'Urddas mewn Gofal?', cyhoeddodd y Llywodraeth fod yn rhaid i bob sefydliad GIG lunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan y comisiynydd pobl hŷn. Roedd gweithrediad y cynlluniau gweithredu hynny'n cael ei fonitro'n weithredol gan Lywodraeth Cymru. A allech ddweud wrth y Siambr heddiw pwy oedd yn gwneud y gwaith monitro hwnnw? I bwy oedd y monitro'n cael ei adrodd? Ai chi, y Gweinidog Iechyd, neu'r Gweinidog Iechyd blaenorol, a gafodd yr adroddiadau monitro ar urddas, ac a fyddwch yn cyhoeddi unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'r adroddiadau hynny ar Abertawe Bro Morgannwg?

Unwaith eto, o ganlyniad i 'Urddas a Gofal?', lansiodd y Llywodraeth ei llwybr gofal maetheg i sicrhau bod siartiau bwyd a hylif yn cael eu cyflwyno ar draws y GIG. Fel rhan o'r llwybr, roedd hyfforddiant staff yn orfodol. A allwch gadarnhau bod yr holl staff yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot wedi cael yr hyfforddiant staff gorfodol hwnnw o fewn 12 mis o gael eu penodi yn yr ysbytai hynny?

Dechreuodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gynnal archwiliadau urddas dirybudd ym mis Rhagfyr 2011. Yn wir, cynhaliwyd rhai yn 2012 yn Abertawe Bro Morgannwg. A dynnodd yr archwiliadau dirybudd hynny sylw eich Llywodraeth at unrhyw bryderon yn ymwneud ag urddas yn y ddau ysbyty hyn?

Ac ystyried bod y Prif Weinidog wedi dweud yn gynharach mewn cwestiynau mai yn sgil pryderon a godwyd gan deuluoedd y comisiynydd Llywodraeth Cymru'r adroddiad hwn, beth y mae hynny'n ei ddweud wrthy, Weinidog, am berfformiad y cynghorau iechyd cymuned ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn hyn o beth? Siawns nad perthnasau cleifion yn unig ddylai orfod dod â'r pryderon hyn i'r amlwg. Beth fyddwch chi'n ei wneud i adolygu strwythurau a pherfformiad ein systemau archwilio a monitro yn sgil yr adroddiad hwn?

Gwn fod yr adroddiad yn mynd ymlaen i ddweud bod ganddynt bob ffydd y gall bwrdd presennol Abertawe Bro Morgannwg ymateb, a gweithredu'r newidiadau a amlinellwyd. Fodd bynnag, mae paragraff 3.23 yr adroddiad yn dweud:

Fodd bynnag, mae'r Tîm Adolygu'n credu bod perygl o laesu dwylo ar lefel y Bwrdd os caiff gofal da arferol ei adrodd i'r Bwrdd fel pe bai'n eithriadol. Rhaid cadw lefel ffyrnig o sylw a phwyslais yn PABM o ran trasiedïau y gellid eu hosgoi yn y system, waeth pa mor fach ydynt na pha mor anaml y maent yn digwydd.

A allwch amlinellu pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fonitro perfformiad Abertawe Bro Morgannwg o ran rhoi'r argymhellion yn yr adroddiad hwn ar waith?

Dywedasoch yn eich datganiad eich bod yn arbennig o bryderus—rwyf finnau hefyd—am y methiannau o ran rhoi meddyginiaethau'n briodol. Dyna un o'r agweddau mwyaf syfrdanol ar y gofal a amlygwyd heddiw: llofnodi ar gyfer meddyginiaethau na chawsant eu cymryd, yn ogystal â materion yn ymwneud â galluedd a chaniatâd. Mae tudalen 17 yr adroddiad yn dweud:

'The Review Team offered practical advice and support to staff, but three months into the Review a ward visit resulted in the Team again witnessing this completely unacceptable and dangerous practice',

even when that behaviour had been previously pointed out. What confidence can we have that there will be real change in the culture around medicines management in this organisation?

Finally, paragraph 3.45 of the report says that:

'The Review Team were also concerned that lapses in care were largely blamed on poor "nursing" standards alone, as opposed to management standards or other clinical standards that are shared responsibilities with other members of the team.'

The only people to be held to account for poor care in these hospitals are seven front-line nursing staff. Are you content that they alone should take the rap for what has happened at these hospitals? What can you do to ensure that there is cultural change among all professionals and management to avoid these situations continuing and happening again?

Cynigiodd y Tim Adolygu gyngor a chymorth ymarferol i staff, ond dri mis ar ôl dechrau'r Adolygiad tra oedd y Tim yn ymweld â ward gwelodd yr arfer cwbl annerbyniol a pheryglus hwn unwaith eto,

hyd yn oed ar ôl i'r ymddygiad hwnnw gael ei nodi'n flaenorol. Pa ffydd y gallwn ei chael y bydd newid gwirioneddol yn y diwylliant o ran rheoli meddyginiaethau yn y sefydliad hwn?

Yn olaf, mae paragraff 3.45 yr adroddiad yn dweud:

Roedd y Tim Adolygu hefyd yn pryderu bod diffygion mewn gofal yn cael eu beio i raddau helaeth ar safonau "nyrsio" gwael yn unig, yn hytrach na safonau rheoli neu safonau clinigol eraill sy'n gyfrifoldebau a rennir ag aelodau eraill y tim.

Yr unig bobl sy'n cael eu dwyn i gyfrif am ofal gwael yn yr ysbytai hyn yw saith aelod o staff nyrsio rheng flaen. A ydych yn fodlon y dylent hwy gymryd y bai i gyd am yr hyn sydd wedi digwydd yn yr ysbytai hyn? Beth y gallwch ei wneud i sicrhau y ceir newid diwylliant ymhlith yr holl weithwyr proffesiynol a'r rheolwyr er mwyn sicrhau na fydd y sefyllfaoedd hyn yn parhau nac yn digwydd eto?

15:03

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you for those questions. Kirsty Williams opened by asking how what has happened at these hospitals could have been allowed to happen. I think she partly provided the answer to her own question in the very last things that she said, because I think that, when you read the report, it offers a number of explanations as to why things had gone wrong, and one of them is to be very clear that this was not simply a failure of front-line nursing staff. In relation to medicines management, for example, while nurses were the individuals who placed medicines in front of elderly people, often with dementia, and then signed to say that that medicine had been taken when in fact all that had happened was that it had been delivered to them, that failure was known by doctors, who did not intervene to stop it from happening, it was known to pharmacists, who did not intervene to stop it happening, and it was known to management as well. It was a cultural failure across a whole range of individuals and responsibilities, and not simply, as she said, to be placed at the door of one particular group within that board's operation. They go on to say that part of the reason why that may have occurred is because of an overly inward looking series of appointments made by the board. Fresh eyes and the disinfectant that sunlight brings had been insufficiently shone on what went on in the hospital. One of the reasons why I think we can have some optimism for things being done better is that there is to be a new chief nursing officer, the report says. By themselves they are obviously not going to put everything right, but they are new and they are from outside Wales and they will bring a fresh set of experiences and eyes to what went on, and the report commends the fact that that is going to happen.

Diolch am y cwestiynau hynny. Dechreuodd Kirsty Williams drwy ofyn sut y gellid bod wedi caniatáu i'r hyn sydd wedi digwydd yn yr ysbytai hyn ddigwydd. Rwyf yn meddwl ei bod wedi ateb ei chwestiwn ei hun yn rhannol yn y pethau olaf a ddywedodd, oherwydd rwyf yn meddwl, pan ddarllenwch yr adroddiad, ei fod yn cynnig nifer o esboniadau ynghylch pam yr aeth pethau o chwith, ac un ohonynt yw bod yn glir iawn nad dim ond methiant ymhlith staff nyrsio rheng flaen oedd hyn. O ran rheoli meddyginiaethau, er enghraifft, er mai nyrsys oedd y rhai a oedd yn gosod meddyginiaethau o flaen pobl oedranus, yn aml â dementia, ac yna'n llofnodi i ddweud mai'r beth y feddyginiaeth wedi ei chymryd pan mai'r unig beth a oedd wedi digwydd mewn gwirionedd oedd ei bod wedi ei chyflwyno iddynt, roedd meddygon yn gwybod am y methiant hwnnw, ac ni wnaethant ymyrryd i'w atal rhag digwydd, roedd fferyllwyr yn gwybod amdano, ac ni wnaethant ymyrryd i'w atal rhag digwydd, ac roedd y rheolwyr yn gwybod amdano hefyd. Roedd yn fethiant diwylliannol ar draws ystod eang o unigolion a chyfrifoldebau, ac fel y dywedodd hi, ni ddylid gosod hyn wrth ddrws un grŵp penodol o fewn gweithrediad y bwrdd hwnnw. Maent yn mynd ymlaen i ddweud mai rhan o'r rheswm pam y gallai hynny fod wedi digwydd yw oherwydd cyfres rhy fewnblyg o benodiadau a wnaethpwyd gan y bwrdd. Nid oedd digon o lygaid ffres na diheintydd golau'r haul wedi gweld yr hyn a oedd yn digwydd yn yr ysbyty. Un o'r rhesymau pam yr wyf yn meddwl y gallwn fod yn eithaf gobeithiol y caiff pethau eu gwneud yn well yw y bydd prif swyddog nyrsio newydd yn cael ei benodi, yn ôl yr adroddiad. Yn amlwg nid yw'n mynd i gywiro popeth ar ei ben ei hun, ond mae'n newydd ac mae'n dod o'r tu allan i Gymru a bydd yn dod â set newydd o brofiadau a llygaid i'r hyn a ddigwyddodd, ac mae'r adroddiad yn canmol y ffaith y bydd hynny'n digwydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Some of the questions that Kirsty Williams poses to me are surely questions that are properly put to the senior staff of the health board itself. They are the people responsible for ensuring that the training of their staff in detailed parts of the nutrition care pathway is carried out. It is very important that, this afternoon, we do not fail to be clear that the health board itself has a whole series of very important responsibilities that it must discharge. Kirsty asked how we will know whether they are doing that. One of the reasons why I think the report is so helpful is that, as well as the 14 recommendations that it makes for action by the local health board, it provides a timetable with milestones against which those recommendations are expected to be discharged. They happen at the three-month stage, they happen at the six-month stage and they happen at the 12-month stage. That will allow us, as Government, to make sure that we are able to hold the health board directly and specifically to account for discharging those responsibilities and those recommendations which the report so clearly sets out.

Mae rhai o'r cwestiynau y mae Kirsty Williams yn eu gofyn imi'n gwestiynau y dyldid yn briodol eu gofyn i uwch staff y bwrdd iechyd ei hun. Nhw yw'r bobl sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu staff yn cael hyfforddiant mewn rhannau manwl o'r llwybr gofal maetheg. Mae'n bwysig iawn, y prynhawn yma, nad ydym yn methu â bod yn glir bod gan y bwrdd iechyd ei hun gyfres gyfan o gyfrifoldebau pwysig iawn y mae'n rhaid iddo eu cyflawni. Gofynnodd Kirsty sut y byddwn yn gwybod a ydynt yn gwneud hynny. Un o'r rhesymau pam yr wyf yn credu bod yr adroddiad mor ddefnyddiol yw ei fod, yn ogystal â'r 14 o argymhellion sydd ynddo ar gyfer gweithredu gan y bwrdd iechyd lleol, yn cynnig amserlen â cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r argymhellion hynny. Maent yn digwydd bob yn dri mis, maent yn digwydd bob yn chwe mis ac maent yn digwydd bob yn 12 mis. Bydd hynny'n caniatáu i ni, fel Llywodraeth, sicrhau ein bod yn gallu dwyn y bwrdd iechyd yn uniongyrchol ac yn benodol i gyfrif am gyflawni'r cyfrifoldebau hynny a'r argymhellion hynny y mae'r adroddiad yn eu nodi mor glir.

15:07

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for his statement this afternoon and his written statement this morning. I also thank colleagues who have already spoken and asked questions because they have asked very pertinent questions. With regard to the hospitals referred to in this report—my constituents go to both and are served by both. Therefore, what you have said already about the hard-hitting aspects of the report and the concerns it raises will, in fact, impinge upon my constituents—very much so.

In light of some of the points that are being made, clearly, you have just highlighted that there are responsibilities upon the board, but in relation to additional continuing professional development, additional training of staff and perhaps the additional staff required to allow people to go to train in the first place, will you be looking at additional resources to support those activities, particularly taking account of workforce planning? I met Professor Andrews this morning and one of the points she highlighted was the need to build team cohesiveness on the hospital wards so that they all take a collective responsibility and it is done from the ground up, not from the top down.

There is clearly a need, as you said, to change the culture, but also to employ efforts into that role at that bottom level. What guidance will the Welsh Government be giving to health boards on workforce planning to effect the right skills, the right combination of knowledge, and the right people in the right places, as has been said?

Also, Minister, I am very conscious of the efforts that are being made. The report does identify those efforts that have already been made, but it highlights the fact that more needs to be done more quickly—and I think that is the crucial element—to reassure my constituents that, in fact, these issues are being addressed quite urgently by the health board.

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma ac am ei ddatganiad ysgrifenedig y bore yma. Diolch hefyd i gydweithwyr sydd eisoes wedi siarad a gofyn cwestiynau oherwydd maent wedi gofyn cwestiynau perthnasol iawn. O ran yr ysbytai y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn—mae fy etholwyr yn mynd i'r ddau, ac yn cael eu gwasanaethu gan y ddau. Felly, bydd yr hyn yr ydych eisoes wedi'i ddweud am yr agweddau caled ar yr adroddiad a'r pryderon y mae'n eu codi, mewn gwirionedd, yn effeithio ar fy etholwyr—yn fawr iawn.

Yng ngoleuni rhai o'r pwyntiau sy'n cael eu gwneud, yn amlwg, rydych newydd bwysleisio bod cyfrifoldebau gan y bwrdd, ond o ran datblygiad proffesiynol parhaus ychwanegol, hyfforddiant ychwanegol i staff ac efallai'r staff ychwanegol sydd eu hangen i alluogi pobl i fynd i gael hyfforddiant yn y lle cyntaf, a fyddwch yn edrych ar adnoddau ychwanegol i gefnogi'r gweithgareddau hynny, yn enwedig ac ystyried cynllunio'r gweithlu? Cwrddais â'r Athro Andrews y bore yma ac un o'r pwyntiau y tynnodd sylw atynt oedd bod angen meithrin cydlynad y tîm ar wardiau ysbytai er mwyn iddynt i gyd gymryd cyfrifoldeb ar y cyd a gwneud hynny o'r gwaelod i fyny, nid o'r brig i lawr.

Mae'n amlwg, fel y dywedasoch, fod angen newid diwylliant, ond hefyd wneud ymdrechion yn y swyddogaeth honno ar y lefel isaf. Pa ganllawiau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu rhoi i fyrdau iechyd ar gynllunio'r gweithlu i sicrhau y ceir y sgiliau iawn, y cyfuniad iawn o wybodaeth, a'r bobl iawn yn y lleoedd iawn, fel y dywedwyd?

Hefyd, Weinidog, rwyf yn ymwybodol iawn o'r ymdrechion sy'n cael eu gwneud. Mae'r adroddiad yn nodi'r ymdrechion hynny sydd eisoes wedi eu gwneud, ond mae'n tynnu sylw at y ffaith bod angen gwneud mwy yn gynt—ac rwyf yn credu mai dyna'r elfen allweddol—er mwyn sicrhau fy etholwyr fod y bwrdd iechyd yn wir yn ymdrin ar fyrder â'r materion hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think it is also fair to say that the report highlights mixed aspects. I have seen in the report that it highlights outstanding work by nurses, but also highlights the poor standards that the review team saw. So, the focus, undoubtedly and understandably, will be on the negative aspects, but that is going to demoralise a lot of the good working staff in the hospitals. What actions will the Welsh Government take to ensure that the morale of those staff is supported so that we can continue working on those things? You mentioned that the review was:

'struck by the fact that the vast majority of the public and NHS staff wish to be proud of health services in Bridgend and Neath Port Talbot.'

Well, that is true; I am a member of the public in Neath Port Talbot and I want to be proud of my health service. Demoralisation is impacting on that, so we need to address demoralisation, particularly as many of those staff live in the communities that they are actually serving. So, it is critical to address those things.

Particularly in relation to this issue, I want to ask whether the report—I could not work it out clearly from the report—has been able to identify whether there are clear distinctions between the two hospitals or whether it is a systemic issue across the picture, so that we can look at whether the issues are to be addressed as a systemic issue or whether they are to be addressed as being ward specific, perhaps even site specific, so that we can get those organised as well.

Finally, on the reference to Healthcare Inspectorate Wales that you make, I appreciate the point. You talked about the additional resources and staffing that HIW is taking on as a response to our report. However, in your statement, you have actually said that there is an additional workload to that. Will you, therefore, be looking at whether that work that it is doing to employ people will meet that additional workload and additional programme that you are asking it to take on board?

Rwyf yn credu ei bod hefyd yn deg dweud bod yr adroddiad yn tynnu sylw at agweddau cymysg. Rwyf wedi gweld bod yr adroddiad yn tynnu sylw at waith rhagorol gan nyrsys, ond mae hefyd yn tynnu sylw at y safonau gwael a welwyd gan dîm yr adolygiad. Felly, bydd y sylw, yn ddi-os ac yn ddealladwy, ar yr agweddau negyddol, ond bydd hynny'n digalonni llawer o'r staff sy'n gwneud gwaith da yn yr ysbytai. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod morâl y staff hynny'n cael ei gefnogi fel y gallwn barhau i weithio ar y pethau hynny? Dywedasoch fod yr adolygiad:

'wedi eu taro gan y ffaith bod ar fwyafrif helaeth y cyhoedd a staff y GIG eisiau bod yn falch o wasanaethau iechyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot.'

Wel, mae hynny'n wir; rwyf finnau'n aelod o'r cyhoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot ac mae arnaf eisiau bod yn falch o'm gwasanaeth iechyd. Mae digalondid yn effeithio ar hynny, felly mae angen inni roi sylw i ddigalondid, yn enwedig gan fod llawer o'r staff hynny'n byw yn yr union gymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Felly, mae'n hollbwysig rhoi sylw i'r pethau hynny.

O ran y mater hwn yn benodol, hoffwn ofyn a yw'r adroddiad—ni allwn ddiarnad hyn yn glir o'r adroddiad—wedi gallu nodi a oes gwahaniaethau clir rhwng y ddau ysbyty ynteu a yw'n fater systemig ym mhobman, er mwyn inni allu ceisio gweld a ddylid ymdrin â'r materion fel mater systemig ynteu a ddylid ymdrin â hwy fel rhai sy'n benodol i wardiau, neu efallai hyd yn oed yn benodol i safleoedd, fel y gallwn roi trefn ar y rheini hefyd.

Yn olaf, ynglŷn â'ch cyfeiriad at Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, rwyf yn gwerthfawrogi'r pwynt. Soniasoch am yr adnoddau a'r staff ychwanegol y mae AGIC yn eu derbyn yn sgîl ein hadroddiad. Fodd bynnag, yn eich datganiad, rydych wedi dweud mewn gwirionedd fod llwyth gwaith ychwanegol i hynny. A fyddwch, felly, yn ceisio gweld a fydd y gwaith hwnnw y mae'n ei wneud i gyflogi pobl yn bodloni'r llwyth gwaith ychwanegol a'r rhaglen ychwanegol yr ydych yn gofyn iddynt eu hysgwyddo?

15:11

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

David Rees makes a very important first point, and he does so from the position of being someone who directly represents individuals affected by the services provided at these two hospitals. They are, both of them, as the report says, local hospitals providing local services. The people who work there are people who live in those communities—they are providing services for their friends, for their neighbours and, often, for members of their own families. So, it is extremely important that we do what we can to keep the morale of those people as high as it can be in these difficult circumstances. There is a job of work for the Government in that, but it is far, far wider than that.

Mae David Rees yn gwneud pwynt cyntaf pwysig iawn, ac mae'n gwneud hynny fel rhywun sy'n cynrychioli unigolion y mae'r gwasanaethau a ddarperir yn y ddau ysbyty'n effeithio arnynt yn uniongyrchol. Mae'r ddau, fel y dywed yr adroddiad, yn ysbytai lleol sy'n darparu gwasanaethau lleol. Mae'r bobl sy'n gweithio yno'n bobl sy'n byw yn y cymunedau hynny—maent yn darparu gwasanaethau i'w ffrindiau, i'w cymdogion ac, yn aml, i aelodau o'u teuluoedd eu hunain. Felly, mae'n hynod bwysig ein bod yn gwneud ein gorau glas i gadw morâl y bobl hynny cystal â phosibl o dan yr amgylchiadau anodd hyn. Mae gwaith i'r Llywodraeth ei wneud yn hynny o beth, ond mae'n llawer, llawer ehangach na hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Anybody in this Chamber, and beyond, who comments on it and makes public pronouncements about it, needs to bear that in mind, because the report does say that, on the same day that Professor Andrews was in the Princess of Wales Hospital seeing examples of the sort that concern us so much, she saw examples of outstanding care being provided by nurses in that hospital—by individuals, as she says, operating:

‘at the top of their game’.

We want those people in that hospital tomorrow in a frame of mind where they can go on doing exactly that.

David Rees alludes to what I think is one of the most vivid paragraphs in the report, where the authors describe the busyness, at ward level, of all sorts of individuals busily going about their work, but in an atomised sort of way—not, apparently, as part of a multidisciplinary team working together cohesively and collectively to provide the care that was needed. Harnessing the efforts of all of those individuals from all of those different disciplines, so that they amount to more than the sum of just the individual parts, is, I think, one of the key proposals in the recommendations. The Welsh Government can help to support that. In the end, it is people at ward level themselves who have some responsibility to make that happen, and to make it happen more quickly than it has happened in the past.

Does the report make distinctions between the two sites? Its recommendations are for the whole of the ABMU area. I think that, when you read it, you can see that it is clear that some things of concern happen more in some places than others. However, it is a report for the whole of ABMU, and, as I said earlier, I think that, in important ways, it is a report for the whole of the Welsh NHS.

We will help HIW to carry out the extra work that we are giving it. It will need to prioritise that work. I am determined that this will be done.

Mae angen i unrhyw un yn y Siambr hon, a thu hwnt, sy'n gwneud sylwadau amdano ac yn gwneud datganiadau cyhoeddus amdano, gofio hynny, oherwydd mae'r adroddiad yn dweud bod yr Athro Andrews, ar yr un diwrnod ag y bu yn Ysbyty Tywysoges Cymru a gweld enghreifftiau o'r math sy'n peri cymaint o bryder inni, wedi gweld enghreifftiau o ofal rhagorol yn cael ei ddarparu gan nyrsys yn yr ysbyty hwnnw—gan unigolion, fel y dywed, a oedd yn gweithredu:

ar eu gorau.

Rydym am i'r bobl hynny fod yn yr ysbyty hwnnw yfory â meddylfryd lle y gallant barhau i wneud yr union beth hwnnw.

Mae David Rees yn cyfeirio at un o'r paragraffau mwyaf byw yn yr adroddiad, yn fy nhyb i, lle mae'r awduron yn disgrifio'r prysurdeb, ar lefel ward, lle mae pob math o unigolion yn brysur wrth eu gwaith, ond mewn ffordd ddarniog—nid, mae'n debyg, fel rhan o dîm amlddisgyblaethol yn cydweithio'n gydlynol ac ar y cyd i ddarparu'r gofal yr oedd ei angen. Rwyf yn meddwl mai un o gynigion allweddol yr argymhellion yw y dylid harneisio ymdrechion yr holl unigolion hynny o'r holl wahanol ddisgyblaethau hynny, er mwyn sicrhau eu bod yn fwy na swm y rhannau unigol. Gall Llywodraeth Cymru helpu i gefnogi hynny. Yn y pen draw, mae rhywfaint o gyfrifoldeb ar y bobl ar lefel wardiau eu hunain i sicrhau bod hynny'n digwydd, ac i wneud iddo ddigwydd yn gynt nag y mae wedi digwydd yn y gorffennol.

A yw'r adroddiad yn gwahaniaethu rhwng y ddau safle? Mae ei argymhellion yn ymwneud ag ardal gyfan PABM. Credaf y gallwch weld, o'i ddarllen, ei fod yn glir bod rhai pethau sy'n peri pryder yn digwydd yn amlach mewn rhai mannau nag eraill. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn ymwneud â PABM gyfan, ac, fel y dywedais yn gynharach, rwyf yn meddwl ei fod, mewn ffyrdd pwysig, yn adroddiad ar gyfer yr holl GIG yng Nghymru.

Byddwn yn helpu i AGIC i wneud y gwaith ychwanegol yr ydym yn ei roi iddynt. Bydd angen iddynt flaenoriaethu'r gwaith hwnnw. Rwyf yn benderfynol y caiff hyn ei wneud.

15:14

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

We have had one speaker from each party now, with very detailed questioning and detailed answers. I still have a number of speakers, so may I now request that Members stick to questions? I call on Suzy Davies.

Rydym wedi cael un siaradwr o bob plaid yn awr, a holi manwl iawn ac atebion manwl. Mae gennyf nifer o siaradwyr o hyd, felly a gaf fi yn awr ofyn i'r Aelodau gadw at gwestiynau? Galwaf ar Suzy Davies.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Lywydd. I had some points that I wanted to make, but, in view of the Presiding Officer's request, I will just ask my questions. Can you tell me, Minister, whether you know of different failures regarding the care of the elderly in other hospitals, not just in ABMU, but across Wales, which may not be caught by the recommendations of this report? You mentioned in your statement that you do not come at this from the point of view that there is an endemic problem, but it is also pretty clear that you do not know whether there is an endemic problem. If, as the report says, the review aims to identify and resolve issues constructively, what is it about the disconnect between clinical and management in this board that is replicated elsewhere, and why was that not addressed earlier? I do not believe that a four-week, finger-jabbing exercise at this stage does anything apart from underline the fact that you do not know whether there are problems elsewhere.

On the report's observation that the level of care expected by the public can be unrealistic, are you content with the observation that standards of care would be better at home? If so, what standards of care do you insist upon in hospitals, and how are those standards implemented?

Finally, while I agree that the public does wish to be proud of health services in Bridgend and Port Talbot, I agree with David Rees that there is not a concern that every single member of staff in these hospitals is a problem. You say that you are very keen to adopt the whole report—and you repeated that a number of times—so do you think that it is appropriate to characterise widespread concern based on the testimony of a number of individuals but more widely experienced as noisy determination to pursue the hospital compensation, dismissals, and criminal prosecution? If you ask for a review into two hospitals, you will hear only from two hospitals and about two hospitals. We, as regional Members, have alerted you to complaints regarding other parts of ABMU. Lost lives are a bit more important than lost face, Minister, so can you tell me whether you are confident that my constituents will feel as strongly as you do that this board is able to fix its own mess?

Diolch, Lywydd. Roedd gennyf rai pwyntiau yr oeddwn am eu gwneud, ond, ac ystyried cais y Llywydd, rwyf am gadw at ofyn fy nghwestiynau. A allwch ddweud wrthyf, Weinidog, a ydych yn gwybod am fethiannau gwahanol o ran gofal i'r henoed mewn ysbytai eraill, nid dim ond yn PABM, ond ledled Cymru, nad yw argymhellion yr adroddiad hwn o reidrwydd yn eu cwmparu? Dywedasochn yn eich datganiad nad ydych yn ystyried bod problem endemig yn hyn o beth, ond mae hefyd yn eithaf clir nad ydych yn gwybod a oes problem endemig. Os yw'r adolygiad, fel y dywed yr adroddiad, yn ceisio nodi a datrys materion yn adeiladol, pa ran o'r diffyg cysylltiad rhwng gwaith clinigol a gwaith rheoli yn y bwrdd hwn sy'n cael ei ailadrodd mewn mannau eraill, a pham na chafodd hynny sylw'n gynharach? Nid wyf yn credu bod pedair wythnos o bwyntio bys ar hyn o bryd yn gwneud dim ond tanlinellu'r ffaith nad ydych yn gwybod a oes problemau mewn mannau eraill.

O ran sylw'r adroddiad y gall lefel y gofal a ddisgwylir gan y cyhoedd fod yn afrealistig, a ydych yn fodlon â'r sylw y byddai safonau gofal yn well gartref? Os ydych, pa safonau gofal ydych chi'n eu mynnu mewn ysbytai, a sut y mae'r safonau hynny'n cael eu rhoi ar waith?

Yn olaf, er fy mod yn cytuno bod ar y cyhoedd eisiau bod yn falch o wasanaethau iechyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Phort Talbot, rwyf yn cytuno â David Rees nad oes pryder bod pob un o'r staff yn yr ysbytai hyn yn broblem. Rydych yn dweud eich bod yn awyddus iawn i fabwysiadu'r adroddiad cyfan—ac ailadroddasoch hynny nifer o weithiau—felly a ydych yn credu ei bod yn briodol nodweddu pryder eang ar sail tystiolaeth nifer o unigolion, er mai'r profiad mwy eang yw penderfyniad swmlyd i erlid ysbytai i gael iawndal, diswyddiadau, ac erlyniadau troseddol? Os gofynnwch am adolygiad o ddau ysbyty, cewch glywed gan ddau ysbyty ac am ddau ysbyty'n unig. Rydym ni, fel Aelodau rhanbarthol, wedi tynnu eich sylw at gwynion ynglŷn â rhannau eraill o PABM. Mae colli bywydau ychydig yn bwysicach na cholli wyneb, Weinidog, felly a allwch ddweud wrthyf a ydych yn hyderus y bydd fy etholwyr yn teimlo'r un mor gryf â chi y gall y bwrdd hwn lanhau ei lanast ei hun?

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am sorry that Suzy Davies thinks that this is an occasion to ask questions that she knows perfectly well are not proper questions to ask. The constant wish to ask me to prove a negative really is not worthy of the issues that this report gives rise to. Let me pick the one question that I believe it is possible to answer in a sensible way—
[Interruption.]

Mae'n ddrwg gennyf fod Suzy Davies yn credu bod hwn yn achlysur i ofyn cwestiynau y mae'n gwybod yn iawn nad ydynt yn gwestiynau priodol i'w gofyn. Nid yw'r dymuniad cyson hwn i ofyn imi brofi peth negyddol yn deilwng o'r materion y mae'r adroddiad hwn yn eu codi. Gadewch imi ddewis yr un cwestiwn yr wyf yn credu ei bod yn bosibl ei ateb mewn modd synhwyrol—[Torri ar draws.]

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Order. I am sorry to stop you, Minister, but we have Members who are hoping to contribute to this debate and, if they would listen to the questions, we might avoid duplication. Minister, please continue.

Trefn. Mae'n ddrwg gennyf am roi taw arnoch, Weinidog, ond mae gennym Aelodau sy'n gobeithio cyfrannu at y ddadl hon a, phe baent yn gwrandao ar y cwestiynau, efallai y gallem osgoi dyblygu. Weinidog, ewch yn eich blaen os gwelwch yn dda.

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Llywydd. I will answer the one question that Suzy Davies posed that I believe it is possible to give a sensible answer to this afternoon. She points to the part of the report that talks about patient expectations regarding what care in hospital would be like. She makes the very straightforward point that some aspects of life in hospital will not be as comfortable for patients as life in their own homes. She said that, if you want to have a good night's sleep, she would not try to have it in a hospital bed. If exercise is important to you, you are more likely to be able to have it in your own time and in your own way if you are at home than if you are in a hospital. When I spoke to Professor Andrews this morning, she made some points that, while not directly in the report, concern the wider care of elderly people with dementia. I believe that it was Darren Millar who pointed earlier to the way in which that number is likely to—or, rather, is going to—rise in the NHS. Professor Andrews was very clear that we have to move services in a way that ensures that people at that time of life and with that condition are looked after at home far more than they are now and that we do not regard hospitals as the default location for their care to be provided.

Diolch, Lywydd. Byddaf yn ateb yr un cwestiwn a ofynnodd Suzy Davies yr wyf yn credu ei bod yn bosibl rhoi ateb synhwylol iddo y prynhawn yma. Mae hi'n cyfeirio at y rhan o'r adroddiad sy'n sôn am ddisgwyliadau cleifion ynghylch sut beth fyddai gofal yn yr ysbyty. Mae'n gwneud y pwynt syml iawn na fydd rhai agweddau ar fyw yn yr ysbyty mor gyfforddus i gleifion â byw yn eu cartrefi eu hunain. Dywedodd, pe bai arnoch eisiau noson dda o gwsgr, na fyddai hi'n ceisio ei chael mewn gwely ysbyty. Os yw ymarfer corff yn bwysig ichi, rydych yn fwy tebygol o allu ei wneud yn eich amser eich hun ac yn eich ffordd eich hun os ydych gartref nag os ydych mewn ysbyty. Pan siaradais â'r Athro Andrews y bore yma, gwnaeth rai pwyntiau, er nad ydynt yn uniongyrchol yn yr adroddiad, sy'n ymwneud â gofal ehangach i bobl oeddrannus â dementia. Credaf mai Darren Millar a nododd yn gynharach sut y mae'r nifer hwnnw'n debygol o gynyddu—neu, yn hytrach, yn mynd i gynyddu—yn y GIG. Roedd yr Athro Andrews yn glir iawn fod yn rhaid inni symud gwasanaethau mewn ffordd sy'n sicrhau bod pobl ar yr adeg honno yn eu bywydau ac sy'n dioddef o'r cyflwr hwnnw'n cael gofal yn eu cartrefi'n llawer mwy nag y maent ar hyn o bryd ac nad ydym yn ystyried mai ysbytai yw'r lle diodyn i ddarparu gofal iddynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This report provides a shocking catalogue of poor standards within this particular health board. I wanted to start, Minister, by asking whether you will distance yourself from the comments that have been made in this report in claiming that some people have acted in a vexatious way in bringing attention to these concerns. At the end of the day, Minister, the only reason that this report has been written is because of some of the families who have had to become campaigners because of the issues that they have faced. They do not want to criticise; they want to have answers from you as a Government.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu catalog cywilyddus o safonau gwael yn y bwrdd iechyd penodol hwn. Roeddwn am ddechrau, Weinidog, drwy ofyn a wnewch ymbellhau oddi wrth y sylwadau a wnaethpwyd yn yr adroddiad hwn sy'n honni bod rhai pobl wedi gweithredu mewn ffordd flinderus wrth dynnu sylw at y pryderon hyn. Ar ddiwedd y dydd, Weinidog, yr unig reswm y cafodd yr adroddiad hwn ei ysgrifennu yw oherwydd rhai o'r teuluoedd sydd wedi gorfod bod yn ymgrychwr oherwydd y materion y maent wedi eu hwynebu. Nid oes arnynt eisiau beirniadu; mae arnynt eisiau cael atebion gennych chi fel Llywodraeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Secondly, Minister, none of us wants to be here today to criticise hard-working nurses and doctors, as you say. Hard-working nurses and doctors who speak to me want these problems to be eradicated so that they can work in a safe and happy environment. None of us take any pride in standing here today with the national press attention upon us saying how despicable the actions are within this particular health board. Can you tell us how this health board will go about making these changes, considering that time after time after time it has been notified of these problems, yet nothing seems to change? How can you assure us and, more importantly, assure the families of patients who have died how things will change systematically? What are the key measurable targets that you will be putting in place, such as the SMART targets that have been put in place elsewhere?

Yn ail, Weinidog, nid oes ar yr un ohonom eisiau bod yma heddiw i feirniadu nyrsys a meddygon sy'n gweithio'n galed, fel y dywedwch. Mae'r nyrsys a'r meddygon sy'n gweithio'n galed ac sy'n siarad â mi yn awyddus i gael gwared ar y problemau hyn fel y gallant weithio mewn amgylchedd diogel a hapus. Nid oes yr un ohonom yn ymfalchio wrth sefyll yma heddiw â sylw'r wasg genedlaethol arnom yn dweud pa mor ffaidd yw'r gweithredu yn y bwrdd iechyd penodol hwn. A allwch ddweud wrthym sut y bydd y bwrdd iechyd hwn yn mynd ati i wneud y newidiadau hyn, ac ystyried ei fod, dro ar ôl tro ar ôl tro, wedi cael gwybod am y problemau hyn, ond nad yw fel petai dim byd wedi newid? Sut y gallwch ein sicrhau ni ac, yn bwysicach, sicrhau teuluoedd cleifion sydd wedi marw y bydd pethau'n newid yn systematig? Beth yw'r targedau mesuradwy allweddol y byddwch yn eu rhoi ar waith, megis y targedau CAMPUS sydd wedi cael eu rhoi ar waith mewn mannau eraill?

My final question to you, Minister, as others have asked many eloquent and passionate questions here today, is how can you stand here today and tell us that this is not a Mid Staffs situation? Hydration problems, problems with doctored notes—how can you know without a systematic inquiry into what is happening that it is not a Mid Staffs situation? None of us want that but we do not know here today that that is not the case in ABMU.

Fy nghwestiwn olaf ichi, Weinidog, gan fod eraill wedi gofyn llawer o gwestiynau huawdl ac angerddol yma heddiw, yw sut y gallwch sefyll yma heddiw a dweud wrthym nad yw hon yn sefyllfa debyg i Ganol Swydd Stafford? Problemau dŵr yfed, problemau â nodiadau wedi'u doctora—sut y gallwch wybod heb ymchwiliad systematig i'r hyn sy'n digwydd nad yw'n sefyllfa debyg i Ganol Swydd Stafford? Nid oes ar yr un ohonom eisiau hynny ond nid ydym yn gwybod yma heddiw nad yw hynny'n wir am PABM.

15:21

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I repeat what I said, and I said it twice in my statement, which is that it really is not for Members to come here this afternoon, pick those parts of the report that happen to coincide with the views that they had already and then try to dismiss those parts of the report that do not happen to suit their view of the world. It is not for me to disassociate myself from the views that the team report. Those are the team members' views. They are telling you, they are telling me and they are telling anybody else who chooses to read it in an open-minded way what they found. The words that they use about the people who they met they are fully entitled to use. How do I know that it is not a Mid Staffs situation? I have explained to the Chamber already that this was a team that was absolutely and consistently faced with that question. It followed the team right through its inquiry. It followed the team with every different interest group with which it came into contact. So, it addresses it. It addresses it in as an upfront a way as it could. You may not like its answer but its answer is absolutely clear. Was this another Mid-Staffordshire? No, it is not.

Ailadroddaf yr hyn a ddywedais, ac fe'i dywedais ddwywaith yn fy natganiad, sef nad lle Aelodau mewn gwirionedd yw dod yma y prynhawn yma, dewis a dethol y rhannau hynny o'r adroddiad sy'n digwydd cyd-fynd â'r farn a oedd ganddynt yn barod ac yna geisio diystyru'r rhannau hynny o'r adroddiad nad ydynt yn digwydd cyd-fynd â'u barn am y byd. Nid fy lle i yw fy natgysylltu fy hun oddi wrth y farn yn adroddiad y tîm. Dyna farn aelodau'r tîm. Maent yn dweud wrthyh chi, maent yn dweud wrthyf fi, ac maent yn dweud wrth unrhyw un arall sy'n dewis ei ddarllen â meddwl agored yr hyn y daethant o hyd iddo. Mae ganddynt berffaith hawl i ddefnyddio'r geiriau y maent yn eu defnyddio am y bobl y cyfarfuont â hwy. Sut wyf fi'n gwybod nad yw'n sefyllfa debyg i Ganol Swydd Stafford? Rwyf eisoes wedi egluro i'r Siambr fod hwn yn dîm a wynebodd y cwestiwn hwnnw'n llwyr ac yn gyson. Dilynodd y tîm drwy gydol ei ymchwiliad. Dilynodd y tîm gyda phob grŵp buddiant gwahanol y daeth i gysylltiad â hwy. Felly, mae'n ymdrin â hynny. Mae'n ymdrin â hynny mewn ffordd mor uniongyrchol ag y gallai. Efallai nad ydych yn hoffi ei ateb ond mae ei ateb yn gwbl glir. A oedd hwn yn achos arall fel Canol Swydd Stafford? Nac oedd.

15:23

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, following the dignity in care report, every NHS organisation has an action plan. The Minister for health told us at the time that implementation should be actively monitored by the Welsh Government. Who was to do the monitoring and to whom was it reported, and will you publish the documentation relating to ABMU? Can you give us any guarantees that this report will be any different?

Weinidog, yn sgil yr adroddiad urddas mewn gofal, mae gan bob sefydliad GIG gynllun gweithredu. Dywedodd y Gweinidog iechyd wrthym ar y pryd y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i fonitro gweithrediad y cynlluniau hyn. Pwy oedd yn mynd i wneud y gwaith monitro ac i bwy yr adroddwyd amdano, ac a fyddwch yn cyhoeddi'r dogfennau sy'n ymwneud â PABM? A allwch roi unrhyw sicrwydd inni y bydd yr adroddiad hwn yn wahanol yn unrhyw ffordd?

15:23

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank Peter Black for that question. It picks up on something that Kirsty Williams asked and I apologise that I did not respond to it in my answer to her. The oversight of those action plans are the shared responsibility of the chief nursing officer and the chief medical officer. They take a direct interest in that. Their conclusions are reported on in a whole series of different ways, in which they make their views known both to this Assembly and to the wider public of Wales. I am not immediately aware of whether there is separate documentation that has not already found itself in the public domain that relates to Abertawe Bro Morgannwg. I am happy to establish whether that is the fact and whether it ought to be published.

Diolch i Peter Black am y cwestiwn hwnnw. Mae'n crybwyll rhywbeth y gofynnodd Kirsty Williams amdano ac ymddiheuraf nad ymatebais iddo yn fy ateb iddi hi. Mae'r prif swyddog nyrsio a'r prif swyddog meddygol yn rhannu cyfrifoldeb am oruchwylio'r cynlluniau gweithredu hyn. Maent yn cymryd diddordeb uniongyrchol yn hynny. Adroddir am eu casgliadau mewn cyfres o wahanol ffyrdd, lle maent yn dweud wrth y Cynulliad hwn beth yw eu barn ac wrth y cyhoedd yn ehangach yng Nghymru. Nid wyf yn gwybod ar hyn o bryd a oes dogfennau ar wahân nad ydynt wedi dod i lygad y cyhoedd sy'n ymwneud ag Abertawe Bro Morgannwg. Rwyf yn hapus i ganfod a yw hynny'n wir ac a ddylid ei gyhoeddi.

15:24

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I just want to make two points today, really. These two hospitals also serve my local constituents and I know that because, last year, as many Members in the Chamber know, I was hospitalised in both of those hospitals. I want to place my thanks on record to the staff who gave me the best care that I could possibly have had. I also want to be proud of my local hospital and I am living proof that we can be proud of much of the care that goes on in those hospitals, as evidenced by this report, which says that

Weinidog, dim ond dau bwynt yr hoffwn eu codi heddiw, mewn gwirionedd. Mae'r ddau ysbyty hyn hefyd yn gwasanaethu fy etholwyr lleol innau a gwn hynny oherwydd, y llynedd, fel y mae llawer o Aelodau yn y Siambr yn gwybod, bûm yn glaf yn y ddau ysbyty hynny. Hoffwn gofnodi fy nioch i'r staff a roddodd y gofal gorau y gallwn fod wedi ei gael imi. Mae arnaf finnu hefyd eisiau bod yn falch o'm hysbyty lleol ac rwyf yn tystio i'r ffaith y gallwn fod yn falch o lawer o'r gofal sy'n digwydd yn yr ysbytai hynny, fel y dengys yr adroddiad hwn, sy'n dweud

'There are examples of exemplary practice throughout both hospitals.'

The second point I want to make comes from my professional experience about complaints systems. If a complaints system or an investigatory system is based on the practice of a blame culture, so that it is there to root out and blame individuals for things that have gone wrong, then it fails and you have systemic problems throughout that organisation. If, on the other hand, as is suggested very succinctly by the report—indeed, Minister, you have read the paragraph out at least once this afternoon—that that system is there to identify, correct, prevent and resolve issues that arise from those complaints and other methods of finding out that there have been difficulties, you will have a system of accountability, a system of improvement, a system that bolsters morale, and a system that prevents blame and encourages good morale throughout the hospital. It will also give swift resolution to the people who are experiencing difficulties, because, let us face it, all public services have members of the public who have not had the best service that they can have. I have long experience of that, not in the health service, but in other public services. Those people want resolution for themselves. However, in my experience, what at least 90% of them want—which I know from many statistics gained over the years and from my current caseload—is for what happened to them not to happen to anyone else, and to be assured that the system will be corrected and improved. So, Minister, what can we do to bolster morale? I know that you have answered it once already, but I do not think that it can be said often enough. Secondly, how can we ensure that ABMU does not have a defensive and blame-laden complaints system, but instead has an open, honest and swift system that encourages best practice and rewards excellent practice?

Ceir enghreifftiau o arfer rhagorol ar draws y ddau ysbyty.

Mae'r ail bwynt yr wyf am ei wneud yn deillio o'm profiad proffesiynol o systemau cwynion. Os yw system gwynion neu system ymchwilio'n seiliedig ar ddiwylliant o fwrw bai, a'i bod yno i ddod o hyd i unigolion a bwrw bai arnynt pan aiff rhywbeth o chwith, yna mae'n methu ac mae gennych broblemau systemig ar draws y sefydliad hwnnw. Os yw'r system honno, ar y llaw arall, fel yr awgrym yn gryno iawn yn yr adroddiad—yn wir, Weinidog, rydych wedi darllen y paragraff inni o leiaf unwaith y prynhawn yma—yno i adnabod, unioni, atal a datrys materion sy'n codi o'r cwynion hynny a dulliau eraill o gael gwybod y bu anawsterau, bydd gennych system o atebolrwydd, system o wella, system sy'n hybu morâl, a system sy'n atal bai ac yn annog morâl da ledled yr ysbyty. Bydd hefyd yn rhoi atebion cyflym i bobl sy'n cael anawsterau, oherwydd, a dweud y gwir, mae gan bob gwasanaeth cyhoeddus aelodau o'r cyhoedd nad ydynt wedi cael y gwasanaeth gorau y gallent ei gael. Mae gennyf brofiad hir o hynny, nid yn y gwasanaeth iechyd, ond mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae ar y bobl hynny eisiau atebion drostynt eu hunain. Fodd bynnag, yn fy mhrofiad i, yr hyn sydd ei eisiau ar o leiaf 90% ohonynt—rwyf yn gwybod hynny o lawer o ystadegau a gafwyd dros y blynyddoedd ac o'm llwyth achosion ar hyn o bryd—yw i'r hyn a ddigwyddodd iddynt beidio â digwydd i neb arall, a chael sicrwydd y caiff y system ei hunioni a'i gwella. Felly, Weinidog, beth allwn ni ei wneud i hybu morâl? Gwn eich bod wedi ateb hyn unwaith yn barod, ond nid wyf yn meddwl y gellir ei ddweud yn ddigon aml. Yn ail, sut y gallwn ni sicrhau nad oes gan PABM system gwynion amddiffynnol sy'n seiliedig ar fwrw bai, ond yn hytrach system agored, onest a chyflym sy'n annog arfer gorau ac yn gwobrwyo arfer rhagorol?

15:26

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Julie James for those questions. One of the ways in which we are able to assist the morale of those people who provide the sort of services that she described in her opening remarks is by making sure that they know just how much the work that they do is appreciated by members of the public, even in the most difficult circumstances. It is not an afternoon particularly for dwelling on these things, but at the Princess of Wales Hospital, they have operated the Prime Minister's friends and family test for more than the period of the last six months. Their latest figures show that 91% of over 700 people who have filled in that test say that they would be extremely likely to recommend the care that they have received at that hospital to their family and friends. We need to make sure that the people who have heard all the sad and bad things that we have had to talk about this afternoon hear about those good things and just how much they are appreciated, if we are to sustain morale.

One of the report's four main commissions was to look at the complaints system. It says that strenuous efforts are being made by the local health board to clear backlogs of complaints, but it also says—it is a telling sentence, I think—that the current complaints process seems to prevent rather than promote human engagement.

Diolch i Julie James am y cwestiynau hynny. Un o'r ffyrdd y gallwn gynorthwyo morâl y bobl hynny sy'n darparu'r math o wasanaethau a ddisgrifiodd yn ei sylwadau agoriadol yw drwy wneud yn siŵr eu bod yn gwybod yn union faint y mae aelodau'r cyhoedd yn gwerthfawrogi'r gwaith y maent yn ei wneud, hyd yn oed dan yr amgylchiadau anoddaf. Nid yw'n brynhawn i fyfyrïo gormod ar y pethau hyn, ond yn Ysbyty Tywysoges Cymru, maent yn defnyddio prawf ffrindiau a theulu'r Prif Weinidog y DU ers mwy na'r chwe mis diwethaf. Mae eu ffigurau diweddaraf yn dangos bod 91% o dros 700 o bobl sydd wedi llenwi'r prawf hwnnw'n dweud y byddent yn hynod debygol o argymhell y gofai y maent wedi'i gael yn yr ysbyty hwnnw i'w teulu a'u ffrindiau. Mae angen inni sicrhau bod y bobl sydd wedi clywed yr holl bethau trist a drwg yr ydym wedi gorfod siarad amdanynt y prynhawn yma'n clywed am y pethau da hynny a faint yn union y maent yn cael eu gwerthfawrogi, os ydym am gynnal morâl.

Un o bedwar prif gomisiwn yr adroddiad oedd edrych ar y system gwynion. Mae'n dweud bod y bwrdd iechyd lleol yn gwneud ymdrechion egniol i glirio'r cwynion sydd wedi cronni, ond mae'n dweud hefyd—mae'n frawddeg ddadlennol, yn fy marn i—ei bod yn ymddangos bod y broses gwyno bresennol yn atal yn hytrach nag yn hybu ymgysylltiad dynol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I very much agree with what Julie James said that almost everybody in the Welsh NHS who has a complaint or a cause for concern raises it because they want a human response to their human predicament, and they want some sense from that that if things have gone wrong in their care, the lessons will be learnt from that to try to make sure that those things do not happen to others.

Cytunaf yn gryf â'r hyn a ddywedodd Julie James fod bron pawb yn y GIG yng Nghymru sydd â chŵyn neu bryder yn ei chodi oherwydd bod arnynt eisiau ymateb dynol i'w trafferthion dynol, ac, os oes pethau wedi mynd o chwith â'u gofal, mae arnynt eisiau teimlo y caiff gwersi eu dysgu o hynny i geisio gwneud yn siŵr nad yw'r pethau hynny'n digwydd i bobl eraill.

15:28

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you for your statement today. I, too, join the sentiments that have been expressed around the Chamber in terms of praising certain aspects of the Welsh NHS, particularly certain aspects of the Princess of Wales Hospital. Today, my son is sitting three GCSE exams in his school, and if it was not for the magnificence and brilliance of the Princess of Wales Hospital in 2003, I would be visiting his grave. That is a fact. Sadly, I do visit my father's grave because of the tragedy that befell him when he was treated in the Princess of Wales Hospital in September 2008, which I have discussed with the Minister and with previous Ministers. So, I come to this objectively because I want to see an improvement in the services provided at the Princess of Wales Hospital, and so that people do not experience the tragedy that my family has been through.

Reading this report, it is a litany of catastrophes, catastrophes that have happened to many people, people who have championed these causes and tried to alert the authorities, whether it be the health board or Governments here and various Ministers for health, to the problems that have befallen Princess of Wales Hospital and hospitals under the responsibility of Abertawe Bro Morgannwg health board.

What I would ask of you, Minister, is two things. First, will you allow Professor Andrews to come before Assembly Members—as your predecessor, Edwina Hart, used to when she was Minister for health, when such reports were commissioned—so that Assembly Members can question her directly on this report and seek more background information on some of the conclusions that she has brought forward. I would be grateful for an unequivocal 'yes' or 'no'. It is within your gift to do that, and I think that that would be very welcome.

Secondly, I do think that it is important, following on from the question of the First Minister, that you address the issue about the chief executives of Abertawe Bro Morgannwg—the last two chief executives—who became directors general of the health service here in Wales. The report touches on how hospital managers either stood back or did not understand their responsibilities. It talks about the board and the fact that it did not have robust processes in place to identify lapses in care and standards.

Weinidog, diolch am eich datganiad heddiw. Rwyf finnau, hefyd, yn rhannu'r teimladau a fynegwyd o amgylch y Siambr o ran canmol rhai agweddau ar y GIG yng Nghymru, yn enwedig rhai agweddau ar Ysbyty Tywysoges Cymru. Heddiw, mae fy mab yn sefyll tri arholiad TGAU yn ei ysgol, ac oni bai am wychder a disgleirdeb Ysbyty Tywysoges Cymru yn 2003, byddwn yn ymweld â'i fedd. Mae hynny'n ffaith. Yn anffodus, rwyf yn ymweld â bedd fy nhad oherwydd y drasiedi a ddigwyddodd iddo pan gafodd ei drin yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym mis Medi 2008, sy'n rhywbeth yr wyf wedi'i drafod â'r Gweinidog a chyda Gweinidogion blaenorol. Felly, rwyf yn dod at hyn yn wrthrychol gan fy mod am weld y gwasanaethau a ddarperir yn Ysbyty Tywysoges Cymru'n gwella, ac fel na fydd pobl yn profi trasiedi fel yr un a ddigwyddodd i'm teulu i.

O ddarllen yr adroddiad hwn, mae'n litani o drychinebau, trychinebau sydd wedi digwydd i lawer o bobl, pobl sydd wedi hyrwyddo'r achosion hyn ac wedi ceisio rhoi gwybod i'r awdurdodau, boed y bwrdd iechyd neu Lywodraethau yma a gwahanol Weinidogion iechyd, am y problemau a ddaeth i ran Ysbyty Tywysoges Cymru ac ysbytai o dan adain bwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg.

Hoffwn ofyn dau beth ichi, Weinidog. Yn gyntaf, a wnewch chi ganiatáu i'r Athro Andrews ddod gerbron Aelodau'r Cynulliad—fel y byddai eich rhagflaenydd, Edwina Hart, yn arfer ei wneud pan oedd yn Weinidog iechyd, pan gâi adroddiadau o'r fath eu comisiynu—er mwyn i Aelodau'r Cynulliad ei holi'n uniongyrchol am yr adroddiad hwn a cheisio cael mwy o wybodaeth gefndir am rai o'r casgliadau y mae hi wedi'u cyflwyno. Byddai'n dda gennyf gael 'gwnaf neu 'na wna' diamwys. Mae o fewn eich gallu i wneud hynny, ac rwyf yn meddwl y byddai croeso mawr i hynny.

Yn ail, credaf ei bod yn bwysig, a dilyn cwestiwn y Prif Weinidog, eich bod yn ymdrin â'r mater ynghylch prif weithredwyr Abertawe Bro Morgannwg—y ddau brif weithredwr diwethaf—a ddaeth yn gyfarwyddwyr cyffredinol y gwasanaeth iechyd yma yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn sôn am y ffordd yr oedd rheolwyr yr ysbytai naill ai'n sefyll yn ôl neu wedi methu â deall eu cyfrifoldebau. Mae'n sôn am y bwrdd a'r ffaith nad oedd ganddo brosesau cadarn ar waith i ddod o hyd i fethiannau o ran gofal a safonau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

These were the senior executives who presided over these lapses of care and standards in Abertawe Bro Morgannwg, and then proceeded to head up, at an executive level, the Welsh NHS. So, how can we have confidence that other parts of the Welsh NHS are not having the same issues, when we hear about the issues coming out of Betsi Cadwaladr LHB and when we hear about the issues coming out of the university hospital here in Cardiff? We need those reassurances, and I implore you to commission that all-encompassing, independent and clinician-led report that will address those concerns, Minister.

Dyma'r uwch swyddogion gweithredol a oedd yn llywyddu dros y methiannau hyn o ran gofal a safonau yn Abertawe Bro Morgannwg, ac a fu wedyn yn benaethiaid ar y GIG yng Nghymru, ar lefel weithredol. Felly, sut y gallwn fod yn hyderus nad yw rhannau eraill o'r GIG yng Nghymru'n wynebu'r un materion, pan glywn am y materion sy'n deillio o fwrdd iechyd lleol Betsi Cadwaladr a phan glywn am y materion sy'n deillio o'r ysbyty athrofaol yma yng Nghaerdydd? Mae arnom angen y sicrwydd hwnnw, ac rwyf yn erfyn arnoch i gomisiynu'r adroddiad hollgynhwysfawr annibynnol hwnnw dan arweiniad clinigwyr a fydd yn ymdrin â'r pryderon hynny, Weinidog.

15:31

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Andrew Davies for the way he began. I know that he has taken a close and constructive interest in the improvement in services at the Princess of Wales Hospital, and has done so over a period of time, and without doing it in a publicity-chasing sort of way. I have allowed Professor Andrews to meet Assembly Members right through today, and I have been very happy for her to do so.

I do not follow him in ad hominem attacks on individuals who no longer work for the NHS and who are unable to answer for themselves. I do not think that that is part of a constructive recipe for making things better in the future.

On the business of an inquiry, I think that this review absolutely justifies the way that we have gone about responding to concerns. It was focused, it was quick to act, it was purposeful, it was motivated by the search for improvement rather than the allocation of blame, and, in less than six months, we will have moved from identifying the issue to putting it right. The sort of inquiry that he calls for week after week, in this Chamber, would have had none of those characteristics, and would have left the position in the Princess of Wales Hospital as it should not be allowed to continue for many, many, many months to come.

Diolch i Andrew Davies am y ffordd y dechreuodd. Gwn ei fod wedi dangos diddordeb mawr ac adeiladol yng ngwella gwasanaethau Ysbyty Tywysoges Cymru, a'i fod wedi gwneud hynny dros gyfnod o amser, a heb wneud hynny mewn ffordd sy'n ceisio cyhoeddusrwydd. Rwyf wedi caniatáu i'r Athro Andrews gwrdd ag Aelodau'r Cynulliad gydol heddiw, ac rwyf wedi bod yn hapus iawn iddi wneud hynny.

Nid wyf yn ymuno ag ef yn ei ymosodiadau ad hominem ar unigolion nad ydynt mwyach yn gweithio i'r GIG ac nad ydynt yn gallu ateb drostynt eu hunain. Nid wyf yn credu bod hynny'n rhan o rysâit adeiladol ar gyfer gwella pethau yn y dyfodol.

Ynglŷn ag ymchwiliad, rwyf yn meddwl bod yr adolygiad hwn yn cyfiawnhau'n llwyr y ffordd yr ydym wedi mynd ati i ymateb i bryderon. Roedd pwyslais penodol iddo, roedd yn gweithredu'n gyflym, roedd yn bwrpasol, roedd yn seiliedig ar chwilio am welliannau yn hytrach na bwrw bai, ac, mewn llai na chwe mis, byddwn wedi symud o ddod o hyd i'r broblem i unioni pethau. Ni fyddai'r math o ymchwiliad y mae ef yn galw amdano wythnos ar ôl wythnos, yn y Siambr hon, wedi rhannu'r un o'r nodweddion hynny, a byddai wedi gadael y sefyllfa yn Ysbyty Tywysoges Cymru fel na ddylid gadael iddi barhau am fisoedd lawer iawn, iawn, iawn i ddod.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:33

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

There are no more speakers. Thank you, Minister.

Nid oes rhagor o siaradwyr. Diolch, Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:33

Datganiad: Argymhelliad ar Leoli'r Ganolfan Isranbarthol ar gyfer Gofal Newyddenedigol Dwys yng Ngogledd Cymru

Carwyn Jones [Bywgraffiad Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Ar 12 Tachwedd y llynedd, cyhoeddais fy mwriad i sefydlu panel annibynnol i weithio gyda Choleg Brenhinol Pediatreg a Gofal Plant, a gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i lunio argymhellion ar leoliad canolfan gofal dwys is-ranbarthol i fabanod newydd-anedig yn y gogledd, neu, yn gryno, SuRNICC.

Statement: Recommendation on the Siting of the Sub-Regional Neonatal Intensive Care Centre (SuRNICC) in North Wales

On 12 November 2013, I announced my intention to establish an independent panel to work with the Royal College of Paediatrics and Child Health and with Betsi Cadwaladr University Health Board to develop recommendations on the location of a sub-regional neonatal intensive care centre for north Wales, or SuRNICC for short.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Roedd y penderfyniad i sefydlu'r ganolfan hon yn seiliedig ar y cyngor clinigol a gafodd ei roi gan y coleg brenhinol, yn rhan o'i adolygiad o wasanaethau i fabanod newydd-anedig yn y gogledd. Byddai'r ganolfan yn darparu gofal i bob plentyn newydd-anedig yn y gogledd, heblaw'r rhai mwyaf sâl. Mae'r coleg brenhinol wedi cadarnhau y dylai'r ganolfan gael ei lleoli yn un o safleoedd y ddau ysbyty aciwt yn y gogledd, sef Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Wrecsam Maelor.

As advised in my written statement in January, Sonia Mills, an experienced former NHS chief executive, led this work. I would like to thank her and the panel for their work in what is a very complex and emotive area. The panel, and the clinician from the royal college, presented their recommendations to me in early April, and I have taken some time to reflect upon and digest those recommendations and, indeed, their implications, in discussion with the Minister for Health and Social Services and the Chief Medical Officer for Wales.

Llywydd, I can say that I am now accepting the independent panel's recommendation on the siting of the SuRNICC at Ysbyty Glan Clwyd. However, I recognise the challenges and risks that the panel highlighted in its report, and these will need to be addressed by the health board before the development of the SuRNICC can go ahead at Ysbyty Glan Clwyd. The panel commented on the great loyalty and commitment of the staff working in both neonatal units, so I know that there will be disappointment for some about this recommendation. However, fundamentally, this is about providing the best possible standards of care and clinical outcomes for mothers and babies across the north as a whole.

The panel met with a range of organisations and individuals, including clinicians, patient user groups, Assembly Members and the community health council. It held two stakeholder events in Abergele and Wrexham and engaged with the health board to seek views and share its thinking about the proposed SuRNICC. It set out clear criteria for choosing the right site. In many of these areas, for example, safety, patient experience, training and staff education, there was not much to choose between the two sites. However, when the panel looked at access, particularly for those living in the west, and for those in the most deprived communities, Ysbyty Glan Clwyd emerged as the better option. Where people live, the rural nature of the north-west, the transport system and access to private and public transport, and people's personal and financial positions are important considerations when making decisions about service provision—we must plan our health services to best meet the needs of all. It is for these reasons that the panel recommends Ysbyty Glan Clwyd as the best location for the SuRNICC.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:36.

The decision to establish this centre was based on the clinical advice provided by the Royal College, as part of its review of neonatal services in North Wales. It would provide care for all but the very sickest of babies within north Wales. The royal college confirmed it should be at one of the two acute hospital sites in north Wales, namely Ysbyty Glan Clwyd and Wrexham Maelor Hospital.

Fel y nodwyd yn fy natganiad ysgrifenedig ym mis Ionawr, Sonia Mills, un o gyn brif weithredwyr profiadol y GIG, a fu'n arwain y gwaith hwn. Hoffwn ddiolch iddi hi a'r panel am eu gwaith mewn maes sy'n un cymhleth ac emosiynol iawn. Cyflwynodd y panel, a'r clinigydd o'r coleg brenhinol, eu hargymhellion imi yn gynnar ym mis Ebrill, ac rwyf wedi cymryd rhywfaint o amser i fyfrio ar yr argymhellion hynny a'u treulio ac, yn wir, eu goblygiadau, drwy drafod â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Swyddog Meddygol Cymru.

Llywydd, gallaf ddweud fy mod yn awr yn derbyn argymhelliad y panel annibynnol ar leoli'r SuRNICC yn Ysbyty Glan Clwyd. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod yr heriau a'r risgiau a nodwyd gan y panel yn ei adroddiad, a bydd angen i'r bwrdd iechyd roi sylw i'r rhain cyn y gellir bwrw ymlaen â datblygu'r SuRNICC yn Ysbyty Glan Clwyd. Cyfeiriodd y panel at deyrngarwch ac ymrwymiad mawr y staff sy'n gweithio yn y ddwy uned newyddenedigol, felly rwyf yn gwybod y bydd yr argymhelliad hwn yn siomi rhai. Ond, yn y bôn, mae hyn yn fater o ddarparu'r safonau gofal a'r canlyniadau clinigol gorau posibl i famau a babanod ar draws y gogledd i gyd.

Cyfarfu'r panel ag amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion, gan gynnwys clinigwyr, grwpiau defnyddwyr cleifion, Aelodau'r Cynulliad a'r cyngor iechyd cymuned. Cynhaliodd ddau ddiwyddiad i randdeiliaid yn Abergele a Wrecsam ac ymgysylltu â'r bwrdd iechyd i geisio barn a rhannu ei syniadau am y SuRNICC arfaethedig. Nododd feini prawf clir ar gyfer dewis y safle cywir. Mewn llawer o'r meysydd hyn, er enghraifft, diogelwch, profiad y claf, hyfforddiant ac addysgu staff, nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng y ddau safle. Fodd bynnag, pan edrychodd y panel ar hygyrchedd, yn enwedig i'r bobl sy'n byw yn y gorllewin, ac i'r bobl sydd yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, daeth i'r amlwg mai Ysbyty Glan Clwyd oedd yr opsiwn gorau. Mae ble y mae pobl yn byw, natur wledig y gogledd-orllewin, y system drafnidiaeth a mynediad at drafnidiaeth breifat a chyhoeddus, a sefyllfaedd personol ac ariannol pobl i gyd yn ystyriaethau pwysig wrth wneud penderfyniadau am ddarparu gwasanaethau—rhaid inni gynllunio ein gwasanaethau iechyd i ddiwallu anghenion pawb yn y ffordd orau bosibl. Am y rhesymau hyn, mae'r panel yn argymhell mai Ysbyty Glan Clwyd yw'r lleoliad gorau ar gyfer y SuRNICC.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:36.

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

In terms of access and travel times, the panel found little difference for those women of child-bearing age who live within 45 minutes by car from the Wrexham Maelor and the Glan Clwyd sites. However, choosing Ysbyty Glan Clwyd as the preferred site will result in 17,500 fewer women potentially having a journey of more than an hour to reach the new SuRNICC. The clear issue is unacceptably long journey times for those living in the far west, where there is no alternative provision.

Deprivation and the lifestyles associated with socioeconomic deprivation have a particular and demonstrable impact on maternal health and pregnancy outcomes. Information provided to the panel showed that the highest number of low birth-weight babies are born in Denbighshire. Conwy and Denbighshire also have the highest percentage of people living in the most deprived areas. The greater the deprivation, the higher the probability of poorer health, which makes it more important to have access to high-quality antenatal and obstetric care. For these reasons again, the panel recommends Ysbyty Glan Clwyd as the best location for the SuRNICC. There are a number of issues, however, which fall to the health board to address before the development of the SuRNICC can go ahead at Ysbyty Glan Clwyd. These are fundamental issues that go to the heart of ensuring safe and sustainable, high-quality care for premature and sick newborn babies in the north.

Fel rwyf eisoes wedi dweud, bydd yn gryn her i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ei wasanaethau yn cydymffurfio â safonau ac arferion gwaith y coleg brenhinol. Mater i'r Deyrnas Unedig gyfan, ac nid i Gymru yn unig, yw recriwtio staff meddygol a nyrsio arbenigol a llunio rotas. Mae'n rhaid gwneud hyn i gydymffurfio â safonau gofal a sicrhau bod staff yn meithrin ac yn cadw arbenigedd. Bydd yn rhaid i'r bwrdd iechyd ddangos bod modd recriwtio a chadw digon o staff clinigol medrus i arwain a staffio gwasanaethau obstetreg a gwasanaethau i fabanod newydd-anedig ar draws y gogledd, gan gynnwys y ganolfan gofal dwys is-ranbarthol i fabanod newydd-anedig, sef y SuRNICC.

Mae'n rhaid i'r bwrdd wneud hynny yng nghyd-destun datblygu cynlluniau cadarn ar gyfer dyfodol gwasanaethau arbenigol mewn ysbytai ar draws y gogledd, gan gynnwys sut mae'n bwriadu defnyddio ei dri ysbyty cyffredinol dosbarth. Ar yr un pryd, bydd yn dechrau symud mwy o ofal i mewn i'r gymuned yn agosach at gartrefi'r cleifion. Mae'n rhaid hefyd i'r bwrdd iechyd baratoi achos busnes cadarn i ategu'r buddsoddi cyfalaf y mae arno ei angen i ddatblygu'r uned newydd.

I believe that the panel's advice to be robust and well balanced. It will require the health board's commitment to long-term sustainable services. It will also require the continued commitment of the dedicated staff across the whole of the north and it will require our commitment to communicate this decision positively to the population of the north. Like all parents, we want and expect to access and receive the best neonatal services possible. Working together, we can help to improve outcomes for our sickest babies and children.

O ran hygyrchedd ac amserau teithio, ni chanfu'r panel fawr o wahaniaeth i'r menywod hynny o oedran cael plant sy'n byw o fewn 45 munud mewn car i safleoedd Maelor Wrexham a Glan Clwyd. Fodd bynnag, bydd dewis Ysbyty Glan Clwyd yn safle a ffefrir yn golygu y gallai 17,500 yn llai o fenywod o bosibl wynebu taith o fwy nag awr i gyrraedd y SuRNICC newydd. Y mater clir sydd dan sylw yw amseroedd teithio annerbyniol o hir i'r bobl sy'n byw yn y gorllewin pell, lle nad oes darpariaeth arall.

Mae amddifadedd a'r ffyrdd o fyw sy'n gysylltiedig ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn cael effaith benodol ac amlwg ar ganlyniadau iechyd a beichiogrwydd y fam. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd i'r panel yn dangos bod y nifer uchaf o fabanod â phwysau geni isel yn cael eu geni yn Sir Ddinbych. Conwy a Sir Ddinbych hefyd sydd â'r ganran uchaf o bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mwyaf yn y byd yw'r amddifadedd, uchaf yn y byd yw'r tebygolrwydd o iechyd gwaeth, sy'n ei gwneud yn bwysicach cael mynediad at ofal cyn-genï ac obstetrig o ansawdd uchel. Am y rhesymau hyn unwaith eto, mae'r panel yn argymhell Ysbyty Glan Clwyd fel y lleoliad gorau ar gyfer y SuRNICC. Mae nifer o faterion, fodd bynnag, i'r bwrdd iechyd roi sylw iddynt cyn y gellir dechrau datblygu'r SuRNICC yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae'r rhain yn faterion sylfaenol sy'n mynd at wraidd sicrhau gofal diogel a chynaliadwy o ansawdd uchel i fabanod newydd-anedig cynamserol a sâl yn y gogledd.

As I have said, there are clear challenges for the health board to ensure its services comply with royal college standards and working practices. The recruitment of medical and specialist nursing staff, and the configuration of rotas to comply with care standards and ensure that staff develop and maintain expertise, is an issue not just in north Wales, but one for the whole of the UK. The health board will have to demonstrate that it is possible to recruit and retain sufficient numbers of highly skilled clinicians to lead and staff neonatal and obstetric services across north Wales, including the new sub-regional neonatal intensive care centre, or SuRNICC.

It must do so in the context of developing robust plans for the future of specialist hospital services across north Wales, including how it intends to deploy its three district general hospitals, while also moving more care into the community, closer to patients' homes. The health board must also prepare a robust business case to support the capital investment needed to develop the new unit.

Credaf fod cyngor y panel yn gadarn a chytbwys. Bydd yn galw am ymrwymiad gan y bwrdd iechyd i wasanaethau cynaliadwy hirdymor. Bydd hefyd yn galw am ymrwymiad parhaus y staff ymroddedig ar draws y gogledd ac yn galw am ein hymrwymiad ni i gyfleu'r penderfyniad hwn yn gadarnhaol i boblogaeth y gogledd. Fel pob rhiant, rydym yn dymuno ac yn disgwyl gallu cael y gwasanaethau newyddenedigol gorau posibl. Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn helpu i wella canlyniadau i'n babanod a'n plant mwyaf sâl.

Thank you, First Minister, for your statement. It will come as no surprise to you, given that my constituency is served by Glan Clwyd Hospital, that I am welcoming your statement today not just for my own constituents, but for those across north Wales who this hospital will serve. Glan Clwyd was always going to be the right location for the sub-regional centre, given the geography of north Wales, given the accommodation that is available in Tŷ Croeso: Dawn Elizabeth House, and given the opportunities that there are to address some of the depravation issues in Conwy, Denbighshire and further along the north Wales coast. I would like to put on record my thanks to those dedicated and hard-working teams of staff in both Glan Clwyd and Wrexham Maelor hospitals for their patience. They have had to wait a long time for this decision to be announced. That has been a long time of uncertainty and it has taken its toll on them, having been concerned about the future, but I am sure that bringing an end to that uncertainty today, with your announcement, will be welcome, although, of course, some people will consider it to have been a blow, particularly if they were hoping that this centre might be located in Wrexham.

I think, First Minister, that there are just two questions I would like to ask you about the statement that you have made. May I ask whether you will be giving any additional resources to Betsi Cadwaladr University Local Health Board to support it in the establishment of the new centre? Will there be a new capital requirement on the Glan Clwyd Hospital site in Bodelwyddan? If so, what sort of resources is the Welsh Government hoping to be able to invest in that scheme?

May I also ask for a timetable for the implementation of the new programme to establish the SuRNICC, as you called it earlier? You will be aware that there are issues around staffing and recruitment that need to be addressed by the health board, but it would be helpful to know what sort of timetable you expect those to be addressed by, to give some confidence to mums-to-be across the region who may need to use the services of this new centre in the future.

Thirdly, First Minister, would you be prepared to provide a statement of update for Assembly Members, in the near future, if you do not have a timetable to hand, in which you can tell us what the milestones will be for the establishment of this brand-new facility in north Wales?

I reiterate that I welcome this statement. I believe that it will provide better, high-quality care for those that need to use the services in this new facility in the future, and I am delighted that it is going to be located in Bodelwyddan.

Diolch, Brif Weinidog, am eich datganiad. Ni fydd yn syndod ichi, o gofio bod Ysbyty Glan Clwyd yn gwasanaethu fy etholaeth, fy mod yn croesawu eich datganiad heddiw, nid yn unig ar gyfer fy etholwyr fy hun, ond ar gyfer y rhai ledled y gogledd y bydd yr ysbyty hwn yn eu gwasanaethu. Roedd yn amlwg mai Glan Clwyd oedd y lleoliad iawn ar gyfer y ganolfan isranbarthol, oherwydd daearyddiaeth y gogledd, oherwydd y llety sydd ar gael yn Nhŷ Croeso: Dawn Elizabeth House, ac oherwydd y cyfleoedd sydd i ymdrin â rhai o'r materion ynglŷn ag amddifadedd yng Nghonwy, Sir Ddinbych ac ymhellach ar hyd arfordir y gogledd. Hoffwn gofnodi fy nioch i'r timau staff ymroddedig a gweithgar hynny yn ysbytai Glan Clwyd a Maelor Wrecsam am eu hamynedd. Maent wedi gorfod aros yn hir am gyhoeddi'r penderfyniad hwn. Mae wedi bod yn gyfnod hir o ansicrwydd ac mae wedi bod yn anodd iddynt, gan eu bod yn bryderus am y dyfodol, ond rwyf yn siŵr y byddant yn croesawu diwedd yr ansicrwydd hwnnw heddiw, gyda'ch cyhoeddiad, er, wrth gwrs, y bydd rhai pobl yn ei ystyried yn ergyd, yn enwedig os oeddent yn gobeithio y câi'r ganolfan hon ei lleoli yn Wrecsam.

Rwyf yn meddwl, Brif Weinidog, nad oes ond dau gwestiwn yr hoffwn eu gofyn ichi am y datganiad yr ydych wedi'i wneud. A gaf fi ofyn a fyddwch yn rhoi unrhyw adnoddau ychwanegol i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i'w gynorthwyo i sefydlu'r ganolfan newydd? A fydd angen cyfalaf newydd ar safle Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan? Os felly, pa fath o adnoddau y mae Llywodraeth Cymru'n gobeithio gallu eu buddsoddi yn y cynllun?

A gaf fi hefyd ofyn am amserlen ar gyfer gweithredu'r rhaglen newydd i sefydlu'r SuRNICC, fel y galwasoch hi'n gynharach? Byddwch yn ymwybodol bod materion sy'n ymwneud â staffio a recriwtio y mae angen i'r bwrdd iechyd ymdrin â hwy, ond byddai'n ddefnyddiol gwybod o fewn pa fath o amserlen yr ydych yn disgwyl iddynt gael sylw, er mwyn rhoi rhywfaint o hyder i ddarpar famau ar draws y rhanbarth y gallai fod angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau'r ganolfan newydd hon yn y dyfodol.

Yn drydydd, Brif Weinidog, a fydddech yn fodlon gwneud datganiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad, yn y dyfodol agos, os nad oes gennych amserlen wrth law, lle gallech ddweud wrthym beth fydd y cerrig milltir ar gyfer sefydlu'r cyfleuster newydd sbon hwn yn y gogledd?

Dywedaf unwaith eto fy mod yn croesawu'r datganiad hwn. Credaf y bydd yn darparu gofal gwell, o ansawdd uchel i'r bobl y mae angen iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau yn y cyfleuster newydd hwn yn y dyfodol, ac rwyf wrth fy modd y caiff ei leoli ym Modelwyddan.

I thank the Member for his questions. There were three questions. The first question was in terms of funding. The indicative capital funding requirement is around £10 million. Those costs are initial estimates based on a new-build option, rather than refurbishment. They will, of course, need to be tested further as part of the next stage of the business case process.

There is no timetable in terms of dates, but I can inform Members what the next steps will be. The health board will now need to submit both outline and full business cases for the SuRNICC to the Minister for Health and Social Services. I should add that my direct involvement will now come to an end. My involvement, of course, came about because of the conflict that existed with the previous Minister for health and her position as Assembly Member for Wrexham. The Minister for Health and Social Services is in agreement with the decision that I have taken and he will now look to implement the decision that I have made. I am sure that he will keep Members informed as major milestones such as the submission, for example, of the business case and its consideration are made in due course.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiynau. Roedd tri chwestiwn. Roedd y cwestiwn cyntaf yn ymwneud â chyllid. Oddeutu £10 miliwn o gyllid cyfalaf dangosol sy'n ofynnol. Amcangyfrifon cychwynnol yw'r costau hynny, yn seiliedig ar opsiwn adeiladu o'r newydd, yn hytrach nag adnewyddu. Wrth gwrs, bydd angen eu profi ymhellach fel rhan o gam nesaf proses yr achos busnes.

Nid oes amserlen o ran dyddiadau, ond gallaf roi gwybod i'r Aelodau beth fydd y camau nesaf. Bydd angen i'r bwrdd iechyd yn awr gyflwyno achosion busnes amlinellol a llawn ar gyfer y SuRNICC i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylwn ychwanegu y byddaf yn peidio ag ymwneud yn uniongyrchol â hyn yn awr. Y rheswm dros fy ymwneud, wrth gwrs, oedd y gwrthdaro a oedd yn bodoli o ran y Gweinidog iechyd blaenorol a'i swydd fel Aelod Cynulliad Wrecsam. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cytuno â'r penderfyniad yr wyf wedi'i wneud ac mae bellach yn bwriadu rhoi ar waith y penderfyniad yr wyf wedi'i wneud. Rwyf yn siŵr y bydd yn rhoi gwybod i'r Aelodau wrth inni gyrraedd cerrig milltir pwysig maes o law megis cyflwyno'r achos busnes, er enghraifft, a'i ystyried.

May I also say 'thank you' to the First Minister in the first instance for taking this emotive and very important subject over? May I also pay my tribute and my thanks to Sonia Mills for the way in which she shared, or she allowed me—. Both Darren and I have worked quite closely on this, so it comes as no surprise to you that I was nodding as Darren Millar put his questions to you, as they are the ones that I wanted to ask you as well. It is about the resources to the health board. Betsi has recently had a new chair and a new vice-chair, and a new chief executive is to start on 1 July. All of these are very competent and very capable people but, nevertheless, they will take time to bed in to the situation. [Laughter.] I know that people are laughing about that; I am yet to find out whether that is it, but I have it on good authority that they are. I wonder what more the Welsh Government will now do, with the recommendation that you have just announced, which is that the centre will be at Glan Clwyd, to ensure that you will be able to support those people. Like Darren Millar, I too want to pay tribute to the staff of both centres. It has been some 10 years that we have had this to-ing and fro-ing and some uncertainty, which will have had an effect on recruitment. However, now is the time to say 'thank you' on behalf of all those people across north Wales who now know that their babies will be treated in the country in which they were born.

A gaf fi hefyd ddweud 'diolch' i'r Prif Weinidog yn y lle cyntaf am gymryd yr awenau o ran y pwnc emosiynol a phwysig iawn hwn? Hoffwn hefyd dalu teyrnged a dweud diolch wrth Sonia Mills am y ffordd y mae hi wedi rhannu, neu wedi caniatáu imi—. Mae Darren a minnau wedi gweithio'n eithaf agos ar hyn, felly nid yw'n syndod ichi fy mod yn amneidio wrth i Darren Millar ofyn ei gwestiynau ichi, oherwydd dyna'r rhai yr oeddwn innau am eu gofyn ichi. Mae'n ymwneud â'r adnoddau i'r bwrdd iechyd. Yn ddiweddar mae Betsi wedi cael cadeirydd newydd ac is-gadeirydd newydd, a bydd prif weithredwr newydd yn dechrau ar 1 Gorffennaf. Mae'r rhain i gyd yn bobl gymwys iawn a galluog iawn, ond, serch hynny, bydd angen amser iddynt i ymgyswrtu â'r sefyllfa. [Chwerthin.] Gwn fod pobl yn chwerthin am hynny; nid wyf wedi cael gwybod eto ai dyna yw'r sefyllfa, ond rwyf wedi cael gwybod o ffynhonnell dda eu bod. Tybed beth arall y bydd Llywodraeth Cymru'n ei wneud yn awr, gyda'r argymhellad yr ydych newydd ei gyhoeddi, sef y bydd y ganolfan yng Nglan Clwyd, i sicrhau y gallwch gefnogi'r bobl hynny? Rwyf finnau, fel Darren Millar, am dalu teyrnged i staff y ddwy ganolfan. Mae'r mynd a'r dod hwn a rhywfaint o ansicrwydd wedi bod yn digwydd ers rhyw 10 mlynedd, a bydd wedi effeithio ar recriwtio. Fodd bynnag, yn awr yw'r amser i ddweud 'diolch' ar ran yr holl bobl hynny ledled y gogledd sydd bellach yn gwybod y caiff eu babanod eu trin yn y wlad lle cawsant eu geni.

15:46

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

May I thank the Member for the Vale of Clwyd for her comments? Of course, it is right to say that this decision has taken some time. It was essential that that happened in terms of the report being produced and proper consideration being given to the report, as it was, by me and, indeed, the Minister for Health and Social Services. The next step is to make sure, now that the decision is made, that work proceeds as swiftly as possible towards the local health board coming forward with the outline business case so that this can now be taken forward.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod dros Ddyffryn Clwyd am ei sylwadau? Wrth gwrs, mae'n deg dweud bod y penderfyniad hwn wedi cymryd cryn amser. Roedd yn hanfodol bod hynny'n digwydd o ran llunio'r adroddiad a rhoi ystyriaeth briodol i'r adroddiad, fel ag yr oedd, gennyf fi ac, yn wir, gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Y cam nesaf yw gwneud yn siŵr, yn awr bod y penderfyniad wedi'i wneud, fod y bwrdd iechyd lleol yn bwrw ymlaen cyn gynted ag y bo modd â'r gwaith o gyflwyno'r achos busnes amlinellol fel y gellir symud ymlaen â hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:46

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Brif Weinidog, am eich datganiad y prynhawn yma. A gaf innau hefyd ategu eich diolch chi i'r coleg brenhinol am ei waith? Fe wnes i, fel y gwnaeth nifer ohonom, gyfrannu fy safbwyntiau tuag at ei ystyriaethau. Hoffwn hefyd groesawu'r penderfyniad ar leoliad, er efallai o reidrwydd nad yw'n gyhoeddiad ei fod yn mynd i ddigwydd, oherwydd mae nifer o ffactorau yr ydych wedi eu rhestru sydd angen eu hateb cyn i hynny ddigwydd.

Thank you, First Minister, for your statement this afternoon. May I also endorse your thanks to the royal college for its work? I, like many of us, contributed my views to its considerations. I would also like to welcome the decision on the location, although it is not an announcement that it is sure to happen, because there are a number of factors that you have listed this afternoon that will need to be resolved before that actually happens.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y gwir amdani yw, wrth gwrs, na ddylem fod yn y sefyllfa hon o gwbl, na ddylem, Brif Weinidog? Ni ddylai gwasanaethau gofal dwys i fabanod newydd-anedig fod wedi eu ffeindio eu hunain yn y cyflwr a oedd yn gofyn ystyried symud y gwasanaeth allan o ogledd Cymru yn y lle cyntaf. O ran y ffaith bod hynny wedi digwydd ar eich 'watch' chi, rwy'n siŵr bod hynny'n gymaint o destun siom i chi ag yw e i nifer ohonom. Mi ddylai'r Llywodraeth, yn fy marn i, fod wedi camu mewn llawer ynghynt, yn lle eistedd ar eich dwylo am ryw ddwy flynedd tra bod y bwrdd iechyd yn rhedeg ymgynghoriad nad oedd, mewn gwirionedd, wedi gwrando ar safbwyntiau nifer o glinigwyr, gwleidyddion a'r cyhoedd. Efallai bod yr amser wedi dod i chi gyfaddef mai oherwydd yr adwaith cyhoeddus yr ydych chi, mewn gwirionedd, wedi camu mewn i'r sefyllfa yma.

However, the truth is that we should not have found ourselves in this situation in the first place, should we, First Minister? The intensive neonatal services should not have found themselves in the condition that led to a consideration of moving the service out of north Wales in the first place. On the fact that that happened on your watch, I am sure that that is as much of a disappointment to you as it is to the rest of us. The Government, in my view, should have stepped in at a far earlier stage, rather than sitting on its hands for two years while the health board was running a consultation that, in reality, did not listen to the views of many clinicians, politicians or members of the public. Perhaps the time has come for you to admit that it is because of the public reaction that you have now had to step in to this situation.

Rhaid talu teyrnged yn hynny o beth i'r ymgyrchu sydd wedi digwydd yn y gogledd er mwyn cynnal elfen o'r gwasanaeth yng ngogledd Cymru, ac i'r grwpiau amrywiol sydd wedi bod yn ymgyrchu—y rhieni a'r cyhoedd—ac hefyd i'r 'Daily Post' am ei rôl yn hyrwyddo'r ymgyrch dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r ddwy flynedd hynny wedi bod yn niweidiol i'r gwasanaeth yn sicr. Nid wyf yn meddwl bod unrhyw un yn amau hynny. Mae wedi bod yn niweidiol i'r bwrdd iechyd ac y mae hefyd wedi bod yn niweidiol i ganfyddiad pobl o'r gwasanaeth iechyd yng ngogledd Cymru. Byddwn yn gofyn i chi ymddiheuro am beidio camu mewn ynghynt, a byddwn yn ddiolchgar i chi achub ar y cyfle i wneud hynny. Mae'n ddiddorol onid yw hi, eich bod yn defnyddio'r ddadl pellter fan hyn y prynhawn yma—[Torri ar draws.] Nid ydych wedi clywed y sylw, efallai—

We must pay tribute in that regard to the campaigning that has taken place in north Wales to retain an element of the service in north Wales, and to the various groups that have been campaigning—the parents and the public—and also the 'Daily Post' for the role it played in promoting the campaign over the past two years. These two years have been damaging to the service, without doubt. I do not think that anyone could doubt that. It has been damaging to the health board and damaging to people's perceptions of the health service in north Wales. I would ask you to apologise for not stepping in at an earlier stage, and I would be grateful if you would take the opportunity to do that this afternoon. It is interesting, is it not, that you used the argument about distance travelled this afternoon—[Interruption.] You did not hear that comment perhaps—

15:49

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I rarely hear comments made from a sedentary position. I advise other Members to observe that rule.

Anaml y byddaf yn clywed sylwadau a wnaethpwyd ar eich eistedd. Rwyf yn cynghori Aelodau eraill i gadw at y rheol honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch. Yr ydych chi'n defnyddio, yn iawn hefyd, y ddadl pellter fel un o gonglfeini'r ddadl dros leoli'r gwasanaeth hwn yn Ysbyty Glan Clwyd. Ble oeddech chi pan oeddem yn defnyddio yn union yr un ddadl wrth ddadlau yn erbyn symud y gwasanaeth i Arrowe Park yn y lle cyntaf? Yr un ddadl yw hi ac yr oedd Plaid Cymru yn gwneud y ddadl honno ddwy flynedd yn ôl. Felly, rydym yn falch nawr o leiaf yr ydych yn cytuno â ni ar y mater hwnnw. Dywedais ar y dechrau nid yw'r datganiad yn dweud bydd y ganolfan yn dod i Ysbyty Glan Clwyd achos yr ydych wedi gosod caveats. Eich dymuniad chi yw y bydd yn dod. Yr ydych yn sôn am recriwtio staff meddygol ac arbenigol. Wel, wrth gwrs, mae'r sefyllfa honno wedi gwaethygu yn yr amser yr ydych chi wedi ei gymryd i gamu mewn. Yr ydych yn dweud yn eich datganiad hefyd bod angen am gynlluniau ehangach i ddiwygio gwasanaethau arbenigol yn ysbytai'r gogledd; iawn, ond, efallai y gallwch ymhelaethu ychydig wrth ymateb i fi yn awr ynglŷn â beth yn union rydych chi'n ei feddwl wrth hynny.

O ran yr achos busnes, wrth gwrs, mae angen achos busnes ar gyfer canolfan o'r fath. Roeddwn i hefyd yn mynd i ofyn pa gefnogaeth bydd y Llywodraeth yn ei rhoi i'r bwrdd iechyd yn y gogledd, er mwyn cyflawni hyn cyn gynted ag sy'n bosib. Dywedoch chi mewn ymateb i lefarydd y Ceidwadwyr y bydd yn costio £10 miliwn; efallai y bydddech yn fodlon ymhelaethu a yw'r arian hwnnw i gyd yn dod oddi wrth y Llywodraeth, neu a ydych chi'n disgwyl bod elfen o hwnnw'n dod oddi wrth y bwrdd iechyd.

Arhoswn i glywed manylion yr amserlen gan y Gweinidog pan fydd honno yn ei lle. Efallai y gallwch chi ymhelaethu ychydig hefyd ynglŷn ag unrhyw fuddsoddiad ehangach rydych chi'n ei ragweld mewn gwasanaethau perthnasol eraill, oherwydd, eto, rwy'n dod yn ôl at drafnidiaeth. Mae trafnidiaeth cleifion wedi bod yn un o'r pynciau llosg yng nghwrs y drafodaeth hon, boed yn Arrowe Park, Wrexham Maelor, neu yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae problemau trafnidiaeth yn dal i fodoli o safbwynt yr A55, a hefyd o ran trafnidiaeth gyhoeddus, a byddwn yn licio gweld y Llywodraeth yn edrych ar hwn fel rhan o becyn ehangach, efallai, o wasanaethau cysylltiol.

Yn olaf, byddwn yn licio clywed gennych chi, Brif Weinidog, pa wersi rydych chi'n credu y mae'r Llywodraeth wedi eu dysgu o'r bennod hon a pha sicrwydd, efallai, y gallwch ei roi y bydd y Llywodraeth yn osgoi'r fath sefyllfa gyda newidiadau i wasanaethau eraill yn y dyfodol.

Diolch. You quite rightly used distance travelled as one of the cornerstones of the argument for locating this service at Ysbyty Glan Clwyd. Where were you when we were making exactly the same point in terms of arguing against moving the service to Arrowe Park in the first place? This is exactly the same argument and Plaid Cymru was making that point two years ago. So, we are very pleased now that at least you have come to agree with us on that particular point. I said at the outset that the statement does not say that this centre will actually come to Ysbyty Glan Clwyd because you have set some caveats. It is your intention that it will come. You talk about the recruitment of medical and specialist staff. Well, of course, that situation has worsened in the time that you have taken to actually step in. You also say in your statement that there is a need for broader plans in order to review specialist services in north Wales hospitals; fine, but perhaps you can expand upon that in your response to me as to what exactly you mean by that.

In terms of the business case, of course, there needs to be a business case for such a centre. I was also going to ask what support the Government will provide to the health board in north Wales, in order to achieve this as soon as possible. You said in response to the Conservative spokesperson that it will cost £10 million; perhaps you would be willing to expand on whether all of that funding is to come from the Government, or whether you expect an element of that to come from the health board.

We will wait to hear details of the timetable by the Minister when it is in place. Perhaps you could also expand a little on any wider investment that you anticipate in other relevant services, because, again, I return to the issue of transport. Patient transport has been one of the hot potatoes in the course of this discussion, whether in Arrowe Park, Wrexham Maelor, or in Glan Clwyd Hospital. Transport problems still remain in terms of the A55, and also in terms of public transport, and I would like to see the Government looking at this as part of a wider package, perhaps, of integrated services.

Finally, I would like to hear from you, First Minister, what lessons you believe that the Government has learned from this chapter and what assurances, perhaps, you can give that the Government will avoid such a situation with changes to other services in the future.

Fe hoffwn i ddweud fy mod wedi cael fy siomi gan lefarydd Plaid Cymru, ond roedd ei berfformiad y tro hwn yn well, rwy'n credu, na'i berfformiad y tro diwethaf. I droi rhywbeth dylai—. Roedd hyd yn oed Darren Millar, sydd ddim yn ffrind i'r Llywodraeth—. I droi rhywbeth a ddylai fod i'w groesawu i mewn i rywbeth sy'n wael, mae hwnnw'n eithaf perfformiad. Mae'n rhaid inni gofio taw ei sefyllfa ef oedd y dylai pethau sefyll fel y maen nhw heb unrhyw dystiolaeth o gwbl—dim. Nid oedd am wrando ar dystiolaeth arbenigwyr. Nid oedd ef yn mo'yn gwneud hynny o gwbl. Dyna i gyd roedd ef mo'yn ei wneud oedd sicrhau bod gwasanaethau'n sefyll yng Nghymru o achos y ffaith y dylent sefyll yng Nghymru—dim ots am ddiogelwch.

Nid felly oedd ein barn ni fel Llywodraeth. Roeddem ni mo'yn sicrhau bod tystiolaeth feddygol gennym er mwyn sicrhau ein bod yn gallu sefydlu'r ganolfan hon, a nod y Llywodraeth yw sefydlu'r ganolfan hon yn Ysbyty Glan Clwyd. Fodd bynnag, rydym yn mynd i wneud hynny ar ôl derbyn tystiolaeth feddygol ac wrth weithio gyda'r coleg brenhinol mewn ffordd nad oedd ei blaid ef eisiau gwneud. Dyna'r ffordd synhwyrdd o wneud pethau er lles pobl y gogledd.

Fe ofynnodd ef rai cwestiynau. O ran yr arian cyfalaf—£10 miliwn yw'r ffigur ar hyn o bryd—byddwn yn edrych yn awr i'r ysbyty i ystyried yr achos busnes er mwyn inni ystyried faint o arian sydd ei eisiau, felly, i sicrhau bod y ganolfan hon yn dod i Ysbyty Glan Clwyd.

Ynglŷn â thrafnidiaeth, mae'n gwneud pwynt teg. Nid yw ein sefyllfa ar dtrafnidiaeth yn ddigonol ar hyn o bryd a bydd gwaith yn cael ei wneud o ran ein gwaith ni a'r bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod y dtrafnidiaeth mewn lle i bobl sydd eisiau defnyddio'r gwasanaethau a fydd yn y SuRNICC newydd. Fodd bynnag, mae'n rhaid imi ddweud, mae bron pawb yn y Siambr hon wedi croesawu'r penderfyniad sydd wedi cael ei wneud. Mae'n rhaid imi atgoffa'r Aelod os nad oeddwn i a'r Llywodraeth wedi cymryd rhan yn hwn, ni fyddai SuRNICC o gwbl yn y gogledd. O achos y ffaith ein bod wedi cymryd y penderfyniad i roi cyfle i feddygon i roi tystiolaeth i Lywodraeth er mwyn sicrhau bod canolfan ar gael a oedd yn saff, dyna pam rydym yn y sefyllfa hon heddiw a pham y mae'r datganiad hwn yn gallu cael ei wneud. Dyna'r ffordd i'w wneud ac nid jest dweud, 'Mae'n rhaid inni gadw gwasanaethau o achos y ffaith bod yn rhaid eu cael nhw yng Nghymru'. Mae hynny'n bwysig, ond mae hefyd yn bwysig i sicrhau bod y gwasanaethau'n saff, a dyna beth yr ydym wedi ei wneud—o achos y ffaith bod yr adroddiad hwn wedi cael ei gynnal a hefyd ein bod wedi gallu gwneud y penderfyniad ar sail tystiolaeth feddygol er lles pobl y gogledd.

I would like to say that I have been disappointed by the Plaid Cymru spokesperson, but his performance this time was, I think, better than his performance last time around. To turn something that—. Even Darren Millar, who is not a friend of the Government—. To turn something that should be welcomed into something that is bad is, again, quite a performance. We must remember that his position was that things should stand as they are without any evidence at all—none. He did not want to listen to the evidence of experts. He did not want to do that at all. All he wanted to do was to ensure that services stayed in Wales because of the fact that they should stay in Wales—safety did not matter.

That was not our opinion as a Government. We wanted to ensure that we had the medical evidence to ensure that we could establish this centre, and the Government's aim is to establish this centre at Glan Clwyd Hospital. However, we are going to do so after receiving medical evidence and working with the royal college in a way that his party did not want to do. That is the sensible way of doing things for the good of the people of north Wales.

He asked some questions. In terms of the capital funding—£ 10 million is the figure at the moment—we are now looking to the hospital to examine the business case for us to consider how much money is needed, therefore, to ensure that this centre comes to Glan Clwyd Hospital.

In terms of transport, he makes a fair point. The situation in terms of transport is not adequate at present and work will be done in terms of our work and the health board's work in order to ensure that the transport is in place for people who want to use the services that will be in the new SuRNICC. However, I have to say that nearly everyone in the Chamber has welcomed the decision that has been made. I must remind the Member that unless the Government and I had played a part in this, there would be no SuRNICC at all in north Wales. Given the fact that we have taken the decision to allow doctors to give evidence to the Government to ensure that a centre was available that was safe, that is why we are in this position today and why this statement can be made today. That is the way to do it and not just say, 'We have to keep services because we must have them in Wales'. That is important, but it is also important to ensure that the services are safe, and that is what we have done—because of the fact that this report has been carried out and also that we have been able to make the decision on the basis of medical evidence for the benefit of the people of north Wales.

Diolch, Brif Weinidog, am y datganiad. Fel y mae'ch datganiad yn ei ddweud, pa bynnag opsiwn a fyddai'n cael ei ddewis, mae'n debyg byddai rhai pobl yn cael eu siomi. Nid wyf yn mynd i wneud sylw ar y lleoliad ei hun. Fodd bynnag, roedd yr astudiaeth, o ran y coleg brenhinol, yn sôn am greu'r uned arbenigol hwn yn y gogledd, ond hefyd bod hynny'n cynnwys trosglwyddo gwasanaeth uwch-obstetrig. Felly, a gaf ofyn ichi a yw'r adroddiad hwn heddiw hefyd yn creu sefyllfa lle bydd y gwasanaeth uwch-obstetrig yn cael ei drosglwyddo o Wrecsam i Glan Clwyd?

Rwyf hefyd yn meddwl bod Llyr Gruffydd wedi gwneud pwynt dilys. Mae problem ynglŷn â'r bwrdd iechyd, o achos ei gyfrifoldeb oedd gwneud yn siŵr bod lefelau staffio o ran doctoriaid a nyrsys o fewn yr unedau yn Wrecsam a Glan Clwyd yn y 10 mlynedd blaenorol yn ddigonol. Felly, y bwrdd wnaeth greu'r sefyllfa yn y lle cyntaf. Rwy'n meddwl mai dyna'r pwynt oedd yn cael ei wneud, ac rwy'n gofyn i chi ein sicrhau'r prynhawn yma, o ystyried bod achos busnes i'w wneud gan y bwrdd iechyd a bod yr adroddiad gan y coleg brenhinol hefyd yn sôn am y ffaith bod yn rhaid recriwtio pump neu chwech o arbenigwyr a hefyd nyrsys a staff ychwanegol i'r uned hon cyn iddi gael ei chreu. A yw'r bwrdd iechyd wedi cymryd unrhyw gamau, o ystyried bod y lefelau staffio o fewn yr unedau ar hyn o bryd yn annigonol, i recriwtio staff yn y cyfamser?

Rwyf hefyd yn meddwl, cyn inni symud ymlaen, fod yn rhaid i chi ddweud wrth y bwrdd iechyd bod y polisi recriwtio a staffio o fewn yr uned hon yn ofynnol fel rhan o'r achos busnes. Mae tueddiad gan y bwrdd iechyd yn y gogledd i ofyn i'r Llywodraeth am arian ac, ar ôl hynny, i greu problemau o ran staffio. Yr hyn nad wyf i eisiau gweld ydy, o ystyried eich bod chi'n dweud mai lefelau diogelwch o fewn yr unedau hyn sy'n bwysig, ein bod yn derbyn sefyllfa lle mae'r bwrdd iechyd yn creu'r uned hon yng Nglan Clwyd ac eto bod y lefelau staffio'r un â'r rhai sydd wedi cael eu gweld yn hanesyddol yn y gogledd. Yn y pen draw, os nad ydym yn cael unrhyw fath o welliant o ran y gwasanaeth yn y gogledd ar ôl hyn, cam gwag ydy hwn heddiw.

Felly, rwy'n gobeithio bod hyn yn newyddion da. Rwy'n gobeithio hefyd bydd y Llywodraeth yn dweud wrth y bwrdd iechyd ein bod yn disgwyl y bydd y cynllun busnes yn cynnwys cynllun o ran staffio a fydd ar gael erbyn hyn a hyn, ac yn y cyfamser rwy'n credu bod yn rhaid inni ofyn am reolaeth a llywodraethu o ran y cytundeb. Mae'r adroddiad yn dweud bod yn rhaid cael perthynas gwell hefyd efo'r rhwydwaith newydd-anedig yn swydd Caer a glannau Merswy. Nid yw'r datganiad hwn na'r adroddiad ar hyn o bryd yn dweud wrthym fod y gyfundrefn honno wedi cael ei sefydlu gan y bwrdd iechyd.

Thank you, First Minister, for the statement. As your statement says, whatever option that was chosen, some people would be disappointed. I am not going to comment on the location itself. However, the study, in terms of the royal college, talks about the creation of this specialist unit in north Wales, but also that that includes the transfer of higher obstetric services. So, may I ask you whether this report today also creates a situation where higher obstetric services are transferred from Wrexham to Glan Clwyd?

I also think that Llyr Gruffydd has made a valid point. There is a problem in terms of the health board, because it was the board's responsibility to make sure that staffing levels in terms of doctors and nurses within the units in Wrexham and Glan Clwyd in the previous 10 years were adequate. Therefore, it was the board that created this situation in the first place. I think that that is the point that was being made, and I am asking you to give us an assurance this afternoon, bearing in mind that a business case is to be made by the health board and that the report by the royal college also mentions the fact that it is necessary to recruit five or six specialists and also additional nurses and staff for this unit before it is created. Has the health board taken any steps, given that the staffing levels within the units at present are inadequate, to recruit staff in the meantime?

I also think, before we move forward, that you need to tell the health board that the recruitment and staffing policy within this unit is required as part of the business case. There is a tendency by the health board in north Wales to ask the Government for money and, after that, to create problems in terms of staffing. What I do not want to see, bearing in mind that you said that it is the safety levels within these units that are important, is that we accept a situation where the health board creates this unit at Glan Clwyd and yet the staffing levels reflect the historic levels in north Wales. At the end of the day, if we do not have any sort of improvement in terms of the service in north Wales following this, this will have been a mistake today.

So, I hope that this is good news. I also hope that the Government will inform the health board that we expect the business case to include a staffing plan that will be available by a certain date, and in the meantime I think that we have to ask about the governance and management of the agreement. The report states that there must be a better relationship with the neonatal network in Cheshire and Merseyside. Neither the statement nor the report at this stage tells us that that regime has been established by the health board.

A gaf i ddweud wrth yr Aelod yn blwmp ac yn blaen yr ydym ni'n erfyn gweld y SuRNICC yn cael ei adeiladu ac yn cael ei staffio? Nid wyf yn dweud bod hyn yn rhywbeth rhwydd i'w wneud. Rydym ni'n gwybod bod yna broblemau dros Ewrop ynglŷn â recriwtio staff. Fodd bynnag, rydym ni'n gwybod ei fod yn rhwyddach i dynnu staff i ganolfannau arbenigol, achos y ffaith eu bod nhw'n mo'yn mynd i leoedd lle maen nhw'n gallu gweld y byddent yn gallu gweithredu gwasanaethau o'r safon uchaf. Hefyd, mae'r rheini sydd yn cael eu hyfforddi yn gallu mynd i gael eu hyfforddi mewn canolfan arbenigol, sydd yn rhoi cyfle iddyn nhw i gael eu hyfforddi yn y ffordd fwyaf eang. Dyna pam, wrth gwrs, mae'n hollbwysig i gael y ganolfan hon yn y gogledd.

I ateb yr hyn roedd yr Aelod yn ei ofyn, sef a fyddwn i'n mo'yn gweld sefyllfa lle byddai'r adeilad hwnnw ond yn adeilad gwag, yr ateb yw 'na'. Mae'n bwysig dros ben bod y bwrdd iechyd yn sicrhau ei fod yn gweithio gyda ni er mwyn sicrhau ein bod ni'n tynnu staff i mewn i'r ganolfan newydd. Rwy'n credu y bydd yn rhwyddach i wneud hynny o achos y ffaith y bydd y ganolfan nawr yn gallu rhoi gwasanaethau arbenigol ar lefel na fyddai wedi bodoli o dan y cynlluniau a oedd yna o'r blaen.

May I say frankly to the Member that we expect to see the SuRNICC being built and staffed? I am not saying that this is an easy thing to do. We know that there are problems across Europe regarding the recruitment of staff. However, we know that it is easier to attract staff to specialist centres, because of the fact that they want to go to places where they can see that they would be able to implement services of the highest quality. Also, those who are being trained can go to be trained in a specialist centre, which gives them an opportunity to be trained in the broadest possible way. That is why, of course, it is critical to have this centre in north Wales.

To answer what the Member was asking, which is whether I would want to see a situation where that building was just an empty building, the answer is 'no'. It is very important that the health board ensures that it works with us to ensure that we attract staff into the new centre. I think that it will be easier to do that because of the fact that the centre will now be able to provide specialist services at a level that would not have existed under the previous plans.

First Minister, I welcome this statement, and I am very pleased that the neonatal centre will be located at Glan Clwyd, but you will recall that in 2005, after the 'Designed for Life' review led by the Labour Minister Dr Brian Gibbons, there was a similar recommendation that was never delivered upon in Glan Clwyd. Therefore, when my colleagues across north Wales expressed some concern about the delivery of this, rather than the decision making, it is because they have been there before, they have seen that failure to deliver and they are concerned that this is spin rather than substance.

That having been said, I am very pleased that you have committed the £9.2 million, which I think it is, that it will cost to build the centre, subject to the business case being provided by Betsi Cadwaladr LHB. One of the matters identified in the review as a risk was the fact that the deanery is removing the level 1 training for neonatology from Glan Clwyd Hospital, which means that it will be very difficult for—. Currently, it is a training site, and I wondered what steps your Minister for health has taken to speak to the deanery to see whether links could be built across the north-west into Liverpool and Manchester so that there could be a north-west linkage in terms of training, which may well help to attract staff into the unit?

Brif Weinidog, rwyf yn croesawu'r datganiad hwn, ac rwyf yn falch iawn y bydd y ganolfan newyddenedigol wedi'i lleoli yng Nglan Clwyd, ond byddwch yn cofio, yn 2005, ar ôl yr adolygiad 'Cynllun Oes' dan arweiniad y Gweinidog Llafur Dr Brian Gibbons, y gwnaethpwyd argymhelliad tebyg na chafodd byth ei wireddu yng Nglan Clwyd. Felly, pan leisiodd fy nghydwethwyr ar draws y gogledd rywfaint o bryder ynghylch cyflawni hyn, yn hytrach na'r broses o wneud penderfyniadau, y rheswm am hynny oedd eu bod wedi bod yno o'r blaen, eu bod wedi gweld y methiant hwnnw i gyflawni a'u bod yn pryderu mai sbin yw hyn yn hytrach na sylwedd.

Wedi dweud hynny, rwyf yn falch iawn eich bod wedi ymrwymo i roi'r £9.2 miliwn—rwyf yn credu bod hynny'n gywir—y bydd yn ei gostio i adeiladu'r ganolfan, yn amodol ar ddarparu'r achos busnes gan BILI Betsi Cadwaladr. Un o'r materion y nodwyd ei fod yn risg yn yr adolygiad oedd y ffaith bod y ddeoniaeth yn tynnu'r hyfforddiant lefel 1 ar gyfer neonatoleg o Ysbyty Glan Clwyd, sy'n golygu y bydd yn anodd iawn i—. Ar hyn o bryd, mae'n safle hyfforddi, ac roeddwn yn meddwl tybed pa gamau y mae eich Gweinidog iechyd wedi eu cymryd i siarad â'r ddeoniaeth i weld a ellid creu cysylltiadau ar draws y gogledd-orllewin i Lerpwl a Manceinion fel y gallai fod cysylltiad gogledd-orllewin o ran hyfforddiant, a allai fod o gymorth i ddenu staff i'r uned?

Secondly, one of the other risks identified by the review was that there may be a lack of buy-in from local politicians because there were, perhaps, conflicts between the Labour Member for the Vale of Clwyd and that for Wrexham that resulted in the first centre not being built. I do not know; I was not in the Assembly then. However, I am delighted that there is buy-in from your Minister for local government and communities because that has been identified as a risk factor, and it is of concern. As Llyr Huws Gruffydd has pointed out already, travel times and the rurality of the area that these three district hospitals served were points that were made time and again by many of us in the review, and at the time of the review. I am grateful to see that the weightings in the review changed once equity and deprivation had been taken into account. That may be something that you will want to look at during future reviews to ensure that services are not affected, or that you get the right outcome right from the start.

Yn ail, un o'r risgiau eraill a nodwyd yn yr adolygiad oedd y gallai fod yn anodd argyhoeddi gwleidyddion lleol oherwydd gwrthdaro, efallai, rhwng yr Aelod Llafur dros Ddyffryn Clwyd ac aelod Wrecsam a oedd yn golygu na chafodd y ganolfan gyntaf ei hadeiladu. Nid wyf yn gwybod; nid oeddwn yn y Cynulliad bryd hynny. Fodd bynnag, rwyf yn falch iawn fod eich Gweinidog llywodraeth leol a chymunedau wedi ymrwymo i hyn oherwydd nodwyd bod hynny'n ffactor risg, ac mae'n destun pryder. Fel y mae Llyr Huws Gruffydd eisoes wedi'i nodi, roedd amseroedd teithio a natur wledig yr ardal yr oedd y tri ysbyty dosbarth hyn yn ei gwasanaethu'n bwyntiau a wnaethpwyd dro ar ôl tro gan lawer ohonom yn yr adolygiad, ac adeg yr adolygiad. Mae'n dda gennyf weld bod y pwysiau yn yr adolygiad wedi newid ar ôl i ecwiti ac amddifadedd gael eu hystyried. Gallai hynny fod yn rhywbeth yr hoffech edrych arno yn ystod adolygiadau yn y dyfodol er mwyn sicrhau nad yw'n effeithio ar wasanaethau, neu eich bod yn cael y canlyniad iawn o'r cychwyn cyntaf.

16:02

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I am not sure what the Member was asking, if I am honest. It does tell us something that when I refer to the north-west, I mean Wales. When she talks about the north-west, she means England. It gives us some idea of her thinking in terms of the Anglocentricity of her politics, but there we are; that is for another day, I suspect. I can assure her that there was no dispute between the Assembly Member for Wrexham and the Assembly Member for the Vale of Clwyd in 2005 because the Assembly Member for Wrexham was not here in 2005, and therefore would not have been involved in any kind of dispute over where any centre should be put. She cannot, on the one hand, welcome the statement and then claim that it is spin in the same breath. This is a statement that I would have hoped that she would have followed her colleague, Darren Millar, in welcoming. Sadly, that was not to be the case. Nevertheless, despite the fact that it is difficult to give her answers, because there were not really any questions there, I can say to her, of course, that we will now look towards—we will now establish—a centre in the north that would not have been established without this review having taken place.

Wel, nid wyf yn siŵr beth yr oedd yr Aelod yn ei ofyn, a dweud y gwir. Mae'n dweud rhywbeth wrthym, pan wyf i'n cyfeirio at y gogledd-orllewin, rwyf yn golygu Cymru. Pan fo hi'n sôn am y gogledd-orllewin, mae hi'n golygu Lloegr. Mae'n rhoi rhyw syniad o'i meddylfryd o ran Eingl-ganologrwydd ei gwleidyddiaeth, ond dyna ni; mae hynny'n rhywbeth ar gyfer diwrnod arall, rwyf yn meddwl. Gallaf ei sicrhau nad oedd unrhyw anghydfod rhwng yr Aelod Cynulliad dros Wrecsam a'r Aelod Cynulliad dros Ddyffryn Clwyd yn 2005 gan nad oedd yr Aelod Cynulliad dros Wrecsam yma yn 2005, ac ni fyddai felly wedi bod yn rhan o unrhyw fath o anghydfod ynghylch ble y dyliid rhoi unrhyw ganolfan. Ni all hi groesawu'r datganiad ar y naill law, ac wedyn honni ei fod yn sbin yn yr un anadl. Byddwn wedi gobeithio y byddai wedi dilyn ei chydweithiwr, Darren Millar, a chroesawu'r datganiad hwn. Yn anffodus, ni wnaeth hynny. Serch hynny, er gwaethaf y ffaith ei bod yn anodd rhoi atebion iddi, gan nad oedd unrhyw gwestiynau yno mewn gwirionedd, gallaf ddweud wrthi, wrth gws, y byddwn yn awr yn edrych tuag at—byddwn yn awr yn sefydlu—canolfan yn y gogledd na fyddai wedi cael ei sefydlu oni bai bod yr adolygiad hwn wedi digwydd.

16:03

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I will just ask a single question, as someone whose children were born at Wrexham Maelor Hospital—the last two by emergency Caesarean. The main concerns raised with me have arisen around matters that I also heard about in a radio programme yesterday, which relate to the importance of bonding in the early days and weeks of a new child's life, where the mother may herself be incapacitated because of trauma during the birth, or related medical conditions, and the risk of being in a separate location to the child. What provision will be put in place to minimise circumstances in which that new mother, and the father and the broader family, may struggle to be with the child in the early days and weeks of its life?

Rwyf am ofyn un cwestiwn yn unig, fel rhywun y cafodd ei blant eu geni yn Ysbyty Maelor Wrecsam—y ddau ddiwethaf drwy lawdriniaeth Gesaraidd argyfwng. Mae'r prif bryderon a godwyd gyda mi wedi codi ynghylch materion y clywais amdanynt hefyd mewn rhaglen radio ddoe, sy'n ymwneud â phwysigrwydd bondio yn nyddiau ac wythnosau cynnar bywyd plentyn newydd, lle gall y fam ei hun fod yn analluog oherwydd trawma yn ystod yr enedigaeth, neu gyflyrau meddygol cysylltiedig, a'r risg o fod mewn lleoliad ar wahân i'r plentyn. Pa ddarpariaeth a roddir ar waith i leihau'r amgylchiadau lle gall fod yn anodd i'r fam newydd honno, a'r tad a'r teulu ehangach, fod gyda'r plentyn yn nyddiau ac wythnosau cynnar ei fywyd?

16:03

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

As someone who spent days—if not weeks—in an incubator after being born, I suspect that that may be one of the reasons, then, why I am as I am. However, I take the point; those early days are so important. I understand that. It is absolutely crucial that, where a family is a long way from home when a baby is born, they are able, of course, to spend as much time as possible in those early days with that baby. I would hope—this depends very much, of course, on the medical advice in a particular circumstance—that mothers are able to be discharged, possibly to another hospital closer to home, as quickly as is safely possible. However, the Member is right to say that, on those occasions when a family may be some way from home when a baby is born, facilities will have to be put in place to ensure that they are able to stay together as much as possible in those early days.

Fel rhywun a dreuliodd ddyddiau—os nad wythnosau—mewn deorydd ar ôl cael ei eni, efallai mai dyna un o'r rhesymau, felly, pam yr wyf fel yr wyf. Fodd bynnag, rwyf yn derbyn y pwynt hwnnw; mae'r dyddiau cynnar hynny mor bwysig. Rwyf yn deall hynny. Mae'n gwbl hanfodol, os yw teulu'n bell oddi cartref pan gaiff baban ei eni, eu bod yn gallu, wrth gwrs, treulio cymaint o amser ag y bo modd yn y dyddiau cynnar hynny gyda'r baban hwnnw. Byddwn yn gobeithio—mae hyn yn dibynnu'n fawr iawn, wrth gwrs, ar gyngor meddygol dan amgylchiadau penodol—fod mamau'n gallu cael eu rhyddhau, efallai i ysbyty arall yn agosach at eu cartref, cyn gynted ag y mae hynny'n ddiogel bosibl. Fodd bynnag, mae'r Aelod yn iawn i ddweud, ar yr achlysuron hynny pan allai teulu fod gryn bellter o'u cartref pan gaiff baban ei eni, y bydd yn rhaid sicrhau bod cyfleusterau ar gael i sicrhau y gallant aros gyda'i gilydd cymaint ag y bo modd yn y dyddiau cynnar hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:04

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister.

Diolch, Brif Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:05

Datganiad: Gweithio mewn Partneriaeth gyda Chymdeithasau Tai

Regeneration

This statement updates Members on a range of activities delivered in partnership by this Government and housing associations across Wales. Partnership working is vital to achieve the right housing outcomes for people in Wales, and co-production and co-regulation are key to the successful delivery of housing and housing-related support services.

I want to reflect briefly on the key partnership achievements to date. In only two years of this administration, 4,474 additional affordable housing units were delivered across Wales—60% of the target previously set for this term of Government. Maintaining a social housing grant programme is central to the delivery of affordable housing, and this programme also underpins the ability of housing associations to deliver on affordable housing without capital subsidy, which accounts for almost half of their activity in this area.

Statement: Partnership Working with Housing Associations

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and

Mae'r datganiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar ystod o weithgareddau a ddarperir mewn partneriaeth gan y Llywodraeth hon a chymdeithasau tai ledled Cymru. Mae gwaith partneriaeth yn hanfodol i gyflawni'r canlyniadau cywir i bobl yng Nghymru o ran tai, ac mae cyd-gynhyrchu a chyd-reoleiddio yn allweddol i lwyddiant gwasanaethau tai a gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai.

Rwyf am fyfyrion gwyno ar y llwyddiannau allweddol a gyflawnwyd trwy waith partneriaeth hyd yn hyn. Mewn dim ond dwy flynedd o'r weinyddiaeth hon, mae 4,474 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol wedi cael eu darparu ar draws Cymru—60% o'r targed a osodwyd yn flaenorol ar gyfer tymor y Llywodraeth hon. Mae rhaglen grantiau tai cymdeithasol yn ganolog i ddarparu tai fforddiadwy, ac mae'r rhaglen hon hefyd yn ategu gallu cymdeithasau tai i gyflawni tai fforddiadwy heb gymhorthdal cyfalaf, sy'n cyfrif am bron i hanner eu gweithgarwch yn y maes hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have launched the housing finance grant, working in collaboration with housing associations, and this has secured £125 million of private investment and will deliver more than 1,000 affordable homes for rent. This landmark funding mechanism is a first for Wales and is unique to the UK in context. Sixty per cent of social housing in Wales—that is nearly 134,000 homes—meets the Welsh housing quality standard. The housing association sector's achievement in this regard is even higher, at 75%. This means that thousands of our poorest families now live in safe and secure homes. Housing associations are key economic players in Wales, not only as landlords and developers, but in their wider role as investors in the regeneration of local communities. Housing-led regeneration is a key element of our three-year funding stream of £100 million for the 'Vibrant and Viable Places' framework. Through the Supporting People programme, I am investing over £134 million to help over 70,000 people to remain in their own homes. Housing associations are pivotal to the programme, as they provide houses, temporary supported housing, and tenancy support to many vulnerable people across Wales.

The housing supply compact is an investment in affordable housing that improves people's lives and stimulates the economy. It will help to tackle poverty, achieve educational attainment, improve health outcomes, and support jobs and growth for the people of Wales. I want all involved to do as much as they can, and, with this in mind, I have already revised the target to 10,000 additional affordable homes for this term of Government. To support this increased target, I have put in place a delivery pact between Welsh Government and Community Housing Cymru that clearly sets out the commitments for both parties. These commitments are centred on funding and innovation in funding, sustainable rents, best use of public land, standards, co-regulation, planning, community benefits and, of course, delivery of affordable housing.

I have asked my officials, in conjunction with the housing sector, to examine and test how the social housing grant programme can deliver more. While being very clear about our commitment to social housing, the housing finance grant is just the beginning of our search for alternative innovative solutions to support housing associations to deliver more housing, and I have approved a number of innovative pilot schemes that will allow housing associations to look at different ways of using their capital grant and test the best use of existing affordable housing assets and land.

The new policy for social rents is a policy framework that will apply to all social landlords, including housing associations, and it consistently reflects variations in the type, size, quality and location of each landlord's housing stock. This policy has been developed alongside housing associations to ensure that it is financially sustainable while ensuring rents are affordable for the people of Wales.

Rwyf wedi lansio'r grant cyllid tai, gan gydweithredu â chymdeithasau tai, ac mae hyn wedi sicrhau £125 miliwn o fuddsoddiad preifat a bydd yn darparu mwy na 1,000 o gartrefi fforddiadwy i'w rhentu. Mae'r mecanwaith ariannu blaengar hwn yn garreg filltir i Gymru ac mae'n unigryw i'r DU yn y cyd-destun. Mae chwe deg y cant o dai cymdeithasol yng Nghymru—sef bron i 134,000 o gartrefi—yn bodloni safon ansawdd tai Cymru. Mae'r hyn a gyflawnwyd gan y sector cymdeithasau tai yn hyn o beth hyd yn oed yn uwch, sef 75%. Mae hyn yn golygu bod miloedd o'n teuluoedd tlotaf yn awr yn byw mewn cartrefi diogel a sicr. Mae cymdeithasau tai yn chwaraewyr economaidd allweddol yng Nghymru, nid yn unig fel landlordiaid a datblygwyr, ond yn eu rôl ehangach fel buddsoddwyr yn y gwaith o adfywio cymunedau lleol. Mae adfywio a arweinir gan dai yn elfen allweddol o'n ffrwd ariannu tair blynedd o £100 miliwn ar gyfer y fframwaith 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'. Drwy'r rhaglen Cefnogi Pobl, rwy'n buddsoddi dros £134 miliwn i helpu dros 70,000 o bobl i aros yn eu cartrefi eu hunain. Mae cymdeithasau tai yn ganolog i'r rhaglen, gan eu bod yn darparu tai, tai â chymorth dros dro, a chefnogaeth tenantiaeth i lawer o bobl sy'n agored i niwed ledled Cymru.

Mae'r compact cyflenwad tai yn fuddsoddiad mewn tai fforddiadwy sy'n gwella bywydau pobl ac yn ysgogi'r economi. Bydd yn helpu i drechu tlodi, yn cyflawni cyrhaeddiad addysgol, yn gwella canlyniadau iechyd, ac yn cefnogi swyddi a thwf ar gyfer pobl Cymru. Rwyf am i bawb sy'n gysylltiedig wneud cymaint ag y gallant, a chyda hyn mewn golwg, rwyf eisoes wedi diwygio'r targed i 10,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol ar gyfer tymor y Llywodraeth hon. Er mwyn cefnogi'r targed uwch, rwyf wedi sefydlu cytundeb cyflwyno rhwng Llywodraeth Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru sy'n nodi'n glir yr hyn y mae'r ddau barti'n ymrwymo iddo. Mae'r ymrwymiadau hyn yn canolbwyntio ar gyllid ac arloesedd mewn cyllid, rhenti cynaliadwy, defnydd gorau o dir cyhoeddus, safonau, cyd-reoleiddio, cynllunio, buddiannau cymunedol ac, wrth gwrs, darparu tai fforddiadwy.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion, ar y cyd â'r sector tai, archwilio a phrofi sut y gall y rhaglen grantiau tai cymdeithasol gyflawni mwy. Er ein bod yn glir iawn ynglŷn â'n hymrwymiad i dai cymdeithasol, nid yw'r grant cyllid tai yn ddim ond cam cyntaf ein cais am atebion arloesol eraill i gynorthwyo cymdeithasau tai i ddarparu mwy o dai, ac rwyf wedi cymeradwyo nifer o gynlluniau peilot arloesol a fydd yn caniatáu i gymdeithasau tai edrych ar wahanol ffyrdd o ddefnyddio eu grant cyfalaf a phrofi'r defnydd gorau o asedau tir a thai fforddiadwy sydd eisoes yn bodoli.

Mae'r polisi newydd ar gyfer rhenti cymdeithasol yn fframwaith polisi a fydd yn berthnasol i bob landlord cymdeithasol, gan gynnwys cymdeithasau tai, ac mae'n adlewyrchu'n gyson yr amrywiadau o ran math, maint, ansawdd a lleoliad stoc dai pob landlord. Mae'r polisi hwn wedi cael ei ddatblygu ochr yn ochr â chymdeithasau tai i sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn sicrhau bod rhenti'n fforddiadwy i bobl Cymru.

I have a team of officials working specifically to improve the use of publicly-owned land to support the building of new homes. During the first two years of this administration, 907 affordable homes were delivered on public sector land. This is pleasing, but there is much more work to do, and there is much more potential here, and I have asked for more work to be done with both internal and external partners.

I have already set up a review group to look at the design quality requirements of new homes to ensure the standards endorsed by Welsh Government are fit for purpose. I am looking for this review to inform me of a fair and equitable balance between the quest for quality, the benefits to society and the public purse, alongside the delivery of more homes for people in need.

Our new risk-based approach to regulation reaffirms our commitment to the principles of co-regulation and relationship management. We have reviewed the regulatory approach and process and revised it to ensure we can maintain the lender's and sector's confidence in regulation.

I want to improve governance in housing associations. While there are examples of excellence, there has always been evidence to suggest a lack of willingness in some organisations. In response, I am developing, in partnership with the sector, a package to improve governance, which includes CHC developing a code of governance for the sector, fixed terms for board members, greater diversity on boards—particularly in relation to achieving gender equality in board membership—and associations being able to pay board members.

The aim of my 'Positive Planning' proposals is to see planning becoming an enabler of appropriate development that supports national, local and community objectives. As lead developers of affordable housing in Wales it is critical that we secure a robust operating environment for housing associations via the mechanisms we have in our control.

Of course, housing investment supports job opportunities and growth across Wales, and I want to ensure that all housing associations, regardless of size or location, look for every opportunity to achieve positive outcomes for their communities to ensure that we maximise local community benefit. Capturing these outcomes is vital and I have asked already for housing associations to ensure we evidence the achievements consistently. As this is such an important part of the work we do, I will monitor participation before deciding whether to include grant and funding clauses where necessary.

Mae gennyf dim o swyddogion sy'n gweithio'n benodol i wella'r defnydd o dir cyhoeddus i gefnogi'r gwaith o adeiladu cartrefi newydd. Yn ystod dwy flynedd gyntaf y weinyddiaeth hon, cafodd 907 o dai fforddiadwy eu darparu ar dir y sector cyhoeddus. Mae hyn yn beth da, ond mae llawer mwy o waith i'w wneud, ac mae llawer mwy o botensial yma, ac rwyf wedi gofyn am i fwy o waith gael ei wneud gyda phartneriaid mewnol ac allanol.

Rwyf eisoes wedi sefydlu grŵp adolygu i edrych ar ofynion ansawdd dylunio cartrefi newydd er mwyn sicrhau bod y safonau a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn addas at y diben. Rwy'n disgwyl i'r adolygiad hwn roi gwybodaeth imi am gydbwysedd teg a chyfartal rhwng yr ymdrech i sicrhau ansawdd, y manteision i gymdeithas a'r pwr cyhoeddus, ochr yn ochr â darparu mwy o gartrefi i bobl mewn angen.

Mae ein dull newydd o reoleiddio seiliedig ar risg yn ailddatgan ein hymrwymiad i'r egwyddorion o gyd-reoleiddio a rheoli cysylltiadau. Rydym wedi adolygu'r dull a'r broses reoleiddio ac wedi'u diwygio i sicrhau y gallwn gynnal hyder y sector a benthydwyr yn y drefn reoleiddio.

Rwyf am wella'r drefn lywodraethu mewn cymdeithasau tai. Er bod enghreifftiau o ragoriaeth i'w gweld, mae tystiolaeth wedi bod bob amser i awgrymu diffyg parodrwydd ymhlith rhai sefydliadau. Mewn ymateb, rwyf yn datblygu pecyn i wella llywodraethu, mewn partneriaeth â'r sector, gan gynnwys cod llywodraethu ar gyfer y sector wedi'i ddatblygu gan Gartrefi Cymunedol Cymru, telerau penodedig ar gyfer aelodau byrddau, mwy o amrywiaeth ar fyrddau—yn enwedig o safbwynt cyflawni cydraddoldeb rhwng y rhywiau ymhlith aelodau byrddau—a chymdeithasau yn gallu talu aelodau byrddau.

Nod fy nghynigion 'Cynllunio Cadarnhaol' yw gweld y broses gynllunio'n dod i alluogi datblygiadau priodol sy'n cefnogi amcanion cenedlaethol, lleol a chymunedol. Fel datblygwyr arweiniol tai fforddiadwy yng Nghymru, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau amgylchedd gweithredu cadarn ar gyfer cymdeithasau tai drwy'r mecanweithiau sydd dan ein rheolaeth.

Wrth gwrs, mae buddsoddiad mewn tai yn cefnogi cyfleoedd gwaith a thwf ar draws Cymru, ac rwyf am sicrhau bod yr holl gymdeithasau tai, waeth beth fo'u maint neu eu lleoliad, yn chwilio am bob cyfle i gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer eu cymunedau i sicrhau ein bod yn cynyddu i'r eithaf y budd i'r gymuned leol. Mae'n hanfodol ein bod yn gwireddu'r canlyniadau hyn ac rwyf eisoes wedi gofyn i gymdeithasau tai sicrhau ein bod yn dangos tystiolaeth yn gyson o'r hyn a gyflawnir. Gan fod hyn yn rhan mor bwysig o'r gwaith yr ydym yn ei wneud, byddaf yn monitro cyfranogiad cyn penderfynu a ddylid cynnwys cymalau grantiau a chyllid lle bo angen.

The Welsh Government, local authorities and housing associations have been working collaboratively to reduce the impact of the UK Government's welfare reform agenda on some of the poorest and most vulnerable communities in Wales. This essential partnership work across a range of factors has maximised our ability to provide crucial help. As I have said repeatedly, the bedroom tax is bringing unnecessary hardship to many tenants while at the same time creating significant problems for landlords.

Of course, partnership working with housing associations supports wider services and housing-related support. An example of this is the vital role housing associations have to play in supporting local authorities to prevent and relieve homelessness. I have reflected this in my Housing (Wales) Bill and have already highlighted where collaboration works best and how we can strengthen the impact of housing associations on homelessness prevention in future.

Housing associations, through both their development and landlord activities, already have programmes to support digital inclusion, training and apprenticeships, employment, and schemes that directly tackle poverty. However, I am confident that, working in partnership, we can all do more. Continuing this partnership approach is vital to ensure this is kept high on the agenda, is steeped in collaboration and co-operation, and is a success. We have lots of good work to build on, and continuing to work in a way that rises to challenges presented to us not only by difficult economic circumstances but also unfair UK Government policies such as welfare reform. Partnership working will continue to be central to my approach and that of colleagues across Government and the work of housing associations across Wales.

Mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai wedi bod yn gweithio ar y cyd i leihau effaith agenda Llywodraeth y DU o ran diwygio'r gyfundrefn les ar rai o'r cymunedau tlotaf a mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Mae'r gwaith partneriaeth hanfodol hwn ar draws ystod o ffactorau wedi cynyddu i'r eithaf ein gallu i ddarparu cymorth hanfodol. Fel yr wyf wedi'i ddweud dro ar ôl tro, mae'r dreth ystafell wely yn dod â chaledi diangen i lawer o denantiaid ac ar yr un pryd yn creu problemau sylweddol i landlordiaid.

Wrth gwrs, mae gwaith partneriaeth gyda chymdeithasau tai yn cefnogi gwasanaethau ehangach a'r cymorth sy'n gysylltiedig â thai. Un enghraifft o hyn yw'r rhan hanfodol sydd gan gymdeithasau tai i'w chwarae o ran cefnogi awdurdodau lleol i atal a lliniaru digartrefedd. Rwyf wedi adlewyrchu hyn yn y fy Mil Tai (Cymru) ac eisoes wedi amlygu lle y mae cydweithio'n gweithio orau a sut y gallwn gryfhau effaith cymdeithasau tai o ran atal digartrefedd yn dyfodol.

Mae gan gymdeithasau tai, trwy eu gwaith datblygu a'u gweithgareddau fel landlord, raglenni eisoes i gefnogi cynhwysiant digidol, hyfforddiant a phrentisiaethau, cyflogaeth, a chynlluniau sy'n mynd ati'n uniongyrchol i drechu tloedi. Fodd bynnag, rwy'n hyderus y gallwn ni i gyd, o weithio mewn partneriaeth, wneud mwy. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau'r dull hwn o weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei gadw'n uchel ar yr agenda, yn cael ei drwytho mewn cydweithrediad a chydweithio, ac yn llwyddiant. Mae gennym lawer o waith da i adeiladu arno, a rhaid parhau i weithio mewn ffordd sy'n wynebu heriau a gyflwynir inni gan amgylchiadau economaidd anodd, ond hefyd gan bolisiau annheg Llywodraeth y DU, megis diwygio'r gyfundrefn les. Bydd gwaith partneriaeth yn parhau i fod yn ganolog i'm dull gweithredu i ac i ddull gweithredu cydweithwyr ar draws y Llywodraeth a gwaith cymdeithasau tai ledled Cymru.

16:13

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, housing and housing supply are key to health and wellbeing for all people in all circumstances. We support the continuing support for Supporting People, but how can you ensure that this is focused in all circumstances on outcomes rather than processes? I am conscious that the Welsh Government now attaches to the funding qualifying criteria that can see providers penalised if they are delivering excellent outcomes but not necessarily complying with all those criteria.

One thing I did not see mentioned—. There were lots of references to affordable housing, but I would welcome your definition of affordable housing. I trust that includes intermediate rent, which was not specifically referenced, and therefore I would welcome comments on the Welsh housing partnership, which included four housing associations. Of course, Cymdeithas Tai Clwyd is now merged with Cymdeithas Tai Eryri into Grŵp Cynefin. What stage have we reached, and how many units are being delivered? Similarly, alongside that, with regard to the Welsh Government's own Rent First scheme, is that still operating in practice? If so, how many units is that delivering?

Yn amlwg, mae tai a chyflenwad tai yn allweddol i iechyd a lles pawb ym mhob amgylchiad. Rydym yn cefnogi'r gefnogaeth barhaus ar gyfer Cefnogi Pobl, ond sut gallwch chi sicrhau bod hyn yn canolbwyntio ym mhob sefyllfa ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau? Rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru bellach yn cysylltu meini prawf cymhwysio wrth gyllid a all weld darparwyr yn cael eu cosbi os ydynt yn cyflawni canlyniadau rhagorol ond nid o reidrwydd yn cydymffurfio â'r holl feini prawf hynny.

Un peth na welais yn cael ei grybwyll—. Roedd llawer o gyfeiriadau at dai fforddiadwy, ond byddwn yn croesawu eich diffiniad o dai fforddiadwy. Hyderaf ei fod yn cynnwys rhentu canolradd, nad oedd cyfeiriad ato'n benodol, ac felly byddwn yn croesawu sylwadau ar bartneriaeth tai Cymru, a oedd yn cynnwys pedair cymdeithas dai. Wrth gwrs, mae Cymdeithas Tai Clwyd yn awr yn wedi uno gyda Chymdeithas Tai Eryri i greu Grŵp Cynefin. Pa gam yr ydym ni wedi'i gyrraedd, a faint o unedau sy'n cael eu darparu? Yn yr un modd, ochr yn ochr â hynny, o ran cynllun Rhent yn Gyntaf Llywodraeth Cymru ei hun, a yw hwnnw'n dal i weithredu yn ymarferol? Os felly, faint o unedau y mae'n eu darparu?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

You mentioned both the Welsh housing quality standard and community benefits. The two are keenly tied together. As you know, the WHQS was always meant to be about a lot more than bricks and mortar; it was about helping to generate jobs and training, environmental improvements, residential empowerment, high-quality services for tenants and increased pride in the community. In that context, what role do you consider, if any—I believe very strongly there is a role—for housing associations in general and transfer associations such as Cartrefi Conwy and Cartrefi Cymunedol Gwynedd to work with the stock retention authorities? They could identify and cost the works required, not only to bring the housing up to the required standard and maintain it to that standard, but to deliver the wider community benefits that it is already supposed to be about. The three local authorities originally identified as not having business plans by your predecessor are, in some cases, now proposing to deliver the standard with little or no borrowing whatsoever, while those that have achieved it have had to borrow significantly.

The housing finance grant is a good little scheme, formally and annually from Welsh Government. Yes, it will help deliver a block of houses, but do you agree that it is not something that can continuously be repeated because of the impact on housing association balance sheets? It gears housing association balance sheets, which is why a revenue approach was taken. Will you tell us a little bit more now, or make a pledge to do so in the future, about the innovative pilot schemes that you referred to, knowing that this is not a scheme that can continue to be repeated because of the balance sheet-gearing issues raised by the sector itself?

You mentioned welfare reform a number of times. I wonder, more broadly, what discussions you are having with local authorities in the context of working with housing associations. Only three in Wales applied for the additional funding for discretionary housing payments to help tenants, particularly disabled tenants living in adapted accommodation or those dependent on local support networks. Nineteen have not applied for extra funding. Only nine out of 22 had used even half of their allocations after seven months of the financial year, despite the guidance telling them to prioritise those groups. When the data on housing association tenants are affected, that must come from the housing associations themselves.

We have heard wide reporting in Wales. Two weeks ago a former Assembly Member, our colleague Glyn Davies, was in the Westminster Hall debate on housing benefit in Wales. He highlighted good success in his council and paid tribute to the council and local housing association for managing the system in a way that did not lead to evictions and arrears. We also read horror stories about some housing associations in Wales that have apparently not done that groundwork and therefore have a situation that should not be arising—people in adapted accommodation falling into arrears that should not be there.

Fe wnaethoch sôn am safon ansawdd tai Cymru a budd y gymuned. Mae cysylltiad agos iawn rhwng y ddau beth. Fel y gwyddoch, bwriadwyd erioed i safon ansawdd tai Cymru ymwneud â llawer mwy na brics a morter; roedd yn ymwneud â helpu i greu swyddi a hyfforddiant, a gwelliannau amgylcheddol, grymuso preswylwyr, sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i denantiaid ac ennyn mwy o falchder yn y gymuned. Yn y cyd-destun hwnnw, pa rôl ydych chi'n ei hystyried sydd gan gymdeithasau tai yn gyffredinol a chymdeithasau trosglwyddo fel Cartrefi Conwy a Chartrefi Cymunedol Gwynedd, os o gwbl—rwyf i'n credu'n gryf iawn bod ganddynt rôl—i weithio gyda'r awdurdodau cadw stoc? Gallent nodi a chostio'r gwaith y mae ei angen i ddod â'r tai i'r safon ofynnol a'u cynnal i'r safon honno, ond hefyd er mwyn cyflawni budd ehangach i'r gymuned y dylai eisoes fod yn ei ddarparu. Mae'r tri awdurdod lleol y nododd eich rhagflaenydd yn wreiddiol nad oedd ganddynt gynlluniau busnes, mewn rhai achosion, nawr yn bwriadu cyflwyno'r safon heb fenthycia fawr ddim os o gwbl, tra bod y rhai sydd wedi ei gyflawni wedi gorfod benthycia'n sylweddol.

Mae'r grant cyllid tai yn gynllun bach da, yn ffurfiol ac yn flynyddol, gan Lywodraeth Cymru. Bydd, fe fydd yn helpu i sicrhau bloc o dai, ond a ydych yn cytuno nad yw'n rhywbeth y gellir ei ailadrodd yn dro ar ôl tro oherwydd yr effaith ar fantolenni cymdeithasau tai? Mae'n gerio mantolenni cymdeithasau tai, a dyna pam y dilynwyd dull refferiw. A wnewch chi ddweud wrthym ychydig yn fwy nawr, neu wneud addewid i wneud hynny yn y dyfodol, am y cynlluniau peilot arloesol y gwnaethoch gyfeirio atynt, gan wybod nad yw hwn yn gynllun y gellir parhau i'w ailadrodd oherwydd y materion gerio mantolenni a godwyd gan y sector ei hun?

Fe wnaethoch sôn nifer o weithiau am ddiwygio'r gyfundrefn les. Tybed, yn fwy cyffredinol, pa drafodaethau yr ydych chi'n eu cael gydag awdurdodau lleol yng nghydestun gweithio gyda chymdeithasau tai. Dim ond tri yng Nghymru wnaeth gais am yr arian ychwanegol ar gyfer taliadau tai yn ôl disgrisiwn i helpu tenantiaid, yn enwedig tenantiaid anabl sy'n byw mewn llety wedi'i addasu neu'r rhai sy'n dibynnu ar rwydweithiau cymorth lleol. Mae pedwar ar bymtheg heb wneud cais am gyllid ychwanegol. Dim ond naw o'r 22 oedd wedi defnyddio hyd yn oed hanner eu dyraniadau ar ôl saith mis o'r flwyddyn ariannol, er gwaethaf y cyfarwyddyd yn dweud wrthynt am roi blaenoriaeth i'r grwpiau hynny. Pan fydd y data ar denantiaid cymdeithasau tai yn cael eu heffeithio, rhaid i hynny ddod gan y cymdeithasau tai eu hunain.

Rydym wedi clywed adroddiadau eang yng Nghymru. Bythefnos yn ôl roedd cyn Aelod o'r Cynulliad, ein cydweithiwr Glyn Davies, yn y ddadl yn Neuadd San Steffan ar fudd-dal tai yng Nghymru. Tynnodd sylw at lwyddiant da yn ei gyngor a thalodd deyrnged i'r cyngor a chymdeithasau tai lleol am reoli'r system mewn modd nad oedd yn arwain at ôl-ddyledion a throi tenantiaid o'u tai. Rydym hefyd yn darllen straeon erchyll am rai cymdeithasau tai yng Nghymru sydd yn ôl pob golwg heb wneud y gwaith caib a rhaw ac felly mewn sefyllfa na ddylai fod yn codi—pobl mewn llety wedi'i addasu'n mynd i ddyled na ddylai ddiwydd.

In terms of anti-social behaviour, which you did not reference it on this occasion, not so long ago you led a Government debate on the anti-social behaviour policy review that had been commissioned by the Welsh Government. It stated that Welsh social landlords considered that the most effective measures to tackle anti-social behaviour were the use and extension of introductory and starter tenancies. Also, it was stated that Assembly Members should have the opportunity to consider whether to introduce the power for housing associations to extend starter tenancies for inclusion in the proposed renting homes Bill.

You may not want to commit to what exactly you are going to say now, but will you be responding affirmatively to the recommendation in that report, which was commissioned by the Welsh Government itself?

Finally, in terms of the area that is most important in this context, the supply of social homes for rent, I note from the Welsh Government's StatsWales figures that for the four years following the recession in the early 1990s over 10,000 new social rental houses were built in Wales, but in the four years up to last December, following the recession of 2008 to 2010, just over 3,000 were built. That excludes the first quarter of this year, but National House-Building Council figures say that new home registrations fell again in Wales during the first quarter of this year, but not around the rest of the UK.

Given that we are seeing perhaps only a 30% supply post-recession, compared with the previous recession, given that social housing is key to wider regeneration, health and wellbeing and given that social housing is not intermediate rent, low-cost home ownership or, more broadly, affordable housing, how is the Welsh Government going to monitor, and deliver on, the actual supply of social housing, given that the social housing grant, in absolute terms, is only half of what it was at the time of devolution—which, in absolute terms, is only some quarter of what it was at the time of devolution?

O ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, na wnaethoch chi gyfeirio ato ar yr achlysur hwn, fe wnaethoch arwain dadl y Llywodraeth yn gymharol ddiweddar ar yr adolygiad polisi a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd yn dweud bod landlordiaid cymdeithasol Cymru o'r farn mai'r camau mwyaf effeithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol oedd defnyddio ac ymestyn tenantiaethau rhagarweiniol a chychwynnol. Yn ogystal, nodwyd y dylai Aelodau'r Cynulliad gael y cyfle i ystyried a ddylid cyflwyno pŵer i gymdeithasau tai ymestyn tenantiaethau cychwynnol er mwyn cynnwys hynny yn y Bil rhentu cartrefi arfaethedig.

Efallai na fyddwch am ymrwymo nawr i nodi beth yn union yr ydych yn mynd i'w ddweud, ond a fyddwch yn ymateb yn gadarnhaol i'r argymhelliad yn yr adroddiad hwnnw, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ei hun?

Yn olaf, o ran y maes sydd fwyaf pwysig yn y cyd-destun hwn, cyflenwad tai cymdeithasol i'w rhentu, sylwaf o ffigurau StatsCymru Llywodraeth Cymru ar gyfer y pedair blynedd yn dilyn y dirwasgiad yn y 1990au cynnar fod dros 10,000 o dai rhent cymdeithasol newydd wedi cael eu hadeiladu yng Nghymru, ond mai ychydig dros 3,000 a gafodd eu hadeiladu yn y pedair blynedd hyd at fis Rhagfyr diwethaf, yn dilyn y dirwasgiad rhwng 2008 a 2010. Nid yw hynny'n cynnwys chwarter cyntaf y flwyddyn hon, ond mae ffigurau'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai yn dweud bod cofrestriadau cartrefi newydd wedi gostwng eto yng Nghymru yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn hon, ond nid ar draws gweddill y DU.

O gofio ein bod yn gweld cyflenwad o ddim ond 30% o bosibl ar ôl y dirwasgiad, o'i gymharu â'r dirwasgiad blaenorol, o ystyried bod tai cymdeithasol yn allweddol i adfywiad ehangach, iechyd a lles ac o ystyried nad tai rhent canolradd, perchnogaeth cartref cost-isel nac, yn fwy cyffredinol, tai fforddiadwy yw tai cymdeithasol, sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i fonitro, a chyflawni, cyflenwad gwirioneddol o dai cymdeithasol, o gofio bod y grant tai cymdeithasol, mewn termau absoliwt, ddim ond hanner yr hyn a oedd ar adeg datganoli—sydd, mewn termau absoliwt, ddim ond rhyw chwarter o'r hyn yr oedd ar adeg datganoli?

16:20

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That was a catalogue of questions, Deputy Presiding Officer, and I will do my best to answer as many as I possibly can. I thank Mark Isherwood for his recognition that the target for affordable homes in Wales has been increased from 7,500 to a more ambitious target of 10,000 in this Assembly term. This recognises the demand factor and the relationship with housing associations, where we make the policy but the delivery is done on the ground with housing associations, and I thank them for that.

He asked me for the definition of affordable housing. Well, let me tell the Member that it is very different from the English version of affordable homes: in Wales, they are affordable, whereas in England, they are driven by local market rents. An affordable home in Westminster would certainly not be considered affordable by most people, and that is why we are taking a very different stance with what happens in Wales.

Rydym wedi cael catalog o gwestiynau, Ddirprwy Lywydd, a byddaf yn gwneud fy ngorau i ateb cymaint ag y gallaf. Diolch i Mark Isherwood am gydnabod bod y targed ar gyfer tai fforddiadwy yng Nghymru wedi cynyddu o 7,500 i darged mwy uchelgeisiol o 10,000 yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Mae hyn yn cydnabod y ffactor galw a'r berthynas â chymdeithasau tai, lle'r ydym ni'n llunio'r polisi ond bod cymdeithasau tai'n ei roi ar waith ar lawr gwlad, ac rwy'n diolch iddynt am hynny.

Gofynnodd i mi am y diffiniad o dai fforddiadwy. Wel, gadewch imi ddweud wrth yr Aelod ei fod yn wahanol iawn i fersiwn Lloegr o gartrefi fforddiadwy: yng Nghymru, maen nhw'n fforddiadwy, ond yn Lloegr, maent yn cael eu gyrru gan renti'r farchnad leol. Ni fyddai cartref fforddiadwy yn San Steffan yn sicr yn cael ei ystyried yn fforddiadwy gan y rhan fwyaf o bobl, a dyna pam yr ydym yn cymryd safiad gwahanol iawn gyda'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Member alludes to the WHQS and the achievability of that, and how that will be financed in working with stock-retention authorities. Of course, I share his ambition about co-production and partnership working between the private sector, the third sector and organisations. I welcome examples of where local authorities can, and do, work with housing associations in terms of delivery, and this could be an option around the WHQS as well. However, I reassure the Member that I have a complete suite of applications and business plans from all authorities, which have been passed in terms of the way that they will deliver their business plans around WHQS, including the three that he mentioned—Swansea, Wrexham and Flintshire.

Innovation finance is something that Jane Hutt and I are working very hard on, with the team across the Welsh Government looking, with external support, to see what more we can get for the amount of funding that we have, whether that is revenue or capital. The revenue schemes that the Member mentioned, in terms of the grant, will deliver many houses. However, again, it is always determined on the amount of money available to the Welsh Government. Again, I would welcome the Member's comments at a different point in time on whether he will be lobbying his party to release more funding for the operation in Wales to continue to invest in our housing stock.

The Member then moved on to discretionary housing payments. We have had many debates, and I think that the fundamental point here is that I fundamentally disagree with the Member with regard to the bedroom tax. He works on the premise that DHP may be the solution to mitigate the bedroom tax. The fact is that it does not; actually, it makes it worse. A short-term fix for a long-term problem is being developed by the UK party. The fact is that DHP is being asked to respond to a significant reduction in funding for people to stay in their own home. I use the word 'home' very strongly because the fact is that people are being displaced, and the DHP process is a very short-term fix for individuals. I remind the Member that all local authorities bar one spent the full amount of DHP—all bar one. One authority, I think, was around 98%, but all of the remaining authorities spent the full amount of DHP finance.

The Member asked for a statement on anti-social behaviour. I am happy to bring back a further statement at the appropriate time on anti-social behaviour and the renting homes Bill, in which I know that many Members will have an interest in terms of moving forward.

Mae'r Aelod yn cyfeirio at Safon Ansawdd Tai Cymru a sut y gellir cyflawni hynny, a sut y bydd yn cael ei ariannu wrth weithio gydag awdurdodau cadw stoc. Wrth gwrs, rwy'n rhannu ei uchelgais y gall y sector preifat, y trydydd sector a sefydliadau cyd-gynhyrchu a gweithio mewn partneriaeth. Rwy'n croesawu enghreifftiau o lle y gall, a lle y mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda chymdeithasau tai, a gallai hyn fod yn opsiwn ynghylch Safon Ansawdd Tai Cymru hefyd. Fodd bynnag, rwy'n sicrhau'r Aelod bod gennyf gyfres gyflawn o geisiadau a chynlluniau busnes gan bob awdurdod, sydd wedi cael eu pasio o ran y ffordd y byddant yn cyflawni eu cynlluniau busnes o gwmpas Safon Ansawdd Tai Cymru, gan gynnwys y tri a grybwyllodd—Abertawe, Wrecsam a Sir y Fflint.

Mae cyllid arloesi yn rhywbeth y mae Jane Hutt a minnau yn gweithio'n galed iawn arno, gyda'r tîm ar draws Llywodraeth Cymru yn edrych, gyda chefnogaeth allanol, i weld beth arall y gallwn ei gael am y swm o arian sydd gennym, boed hynny yn refeniw neu gyfalaf. Bydd y cynlluniau refeniw a grybwyllwyd gan yr Aelod, o ran y grant, yn darparu llawer o dai. Fodd bynnag, eto, mae'n dibynnu bob amser ar faint o arian sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Unwaith eto, byddwn yn croesawu sylwadau'r Aelod ar adeg wahanol a fydd yn lobio ei blaid i ryddhau mwy o gyllid ar gyfer y gweithredu yng Nghymru er mwyn parhau i fuddsoddi yn ein stoc tai.

Yna symudodd yr Aelod ymlaen at daliadau tai yn ôl disgrisiwn. Rydym wedi cael llawer o ddadleuon, ac rwy'n credu mai'r pwynt sylfaenol yma yw fy mod yn anghytuno'n sylfaenol â'r Aelod o ran y dreth ystafell wely. Mae'n gweithio ar y sail mai'r taliadau tai yn ôl disgrisiwn o bosibl yw'r ateb i liniaru'r dreth ystafell wely. Y ffaith yw nad yw'n gwneud hynny; mewn gwirionedd, mae'n ei gwneud yn waeth. Mae'r blaid yn y DU yn datblygu ateb tymor byr ar gyfer problem hirdymor. Y ffaith yw y gofynnir i'r taliad ymateb i ostyngiad sylweddol yn y cyllid sy'n galluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain. Defnyddiaf y gair 'cartref' yn gryf iawn oherwydd mai'r ffaith yw bod pobl yn cael eu symud o'u cartrefi, ac ateb tymor byr iawn ar gyfer unigolion yw proses y taliadau yn ôl disgrisiwn. Hoffwn atgoffa'r Aelod bod pob awdurdod lleol ac eithrio un wedi gwario swm llawn y taliadau yn ôl disgrisiwn—pob un ac eithrio un. Roedd un awdurdod, rwy'n meddwl, wedi gwario tua 98%, ond mae pob awdurdod sy'n weddill wedi gwario swm llawn cyllid y taliadau tai yn ôl disgrisiwn.

Gofynnodd yr Aelod am ddatganiad ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rwy'n hapus i ddod â datganiad ychwanegol ar yr adeg briodol ar ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r Bil rhentu cartrefi, maes rwy'n gwybod y bydd llawer o Aelodau â diddordeb ynddo o ran symud ymlaen.

His final point was around the issue of building more homes in Wales, whether they are affordable or social housing. There is no benefit, I remind the Member, of talking the Welsh construction industry down. The fact of the matter is that it is doing very well. I met the Home Builders Federation only last week and some 10 significant building companies came to talk to me in Wales, and theirs was a very different message from that which the Member portrays and that which his party portrays in Westminster. The fact is that it is doing well in Wales, supported by the Welsh Government. Partnerships including housing associations and the private sector have a part to play in the supply of all tenures of housing across Wales.

Roedd ei bwynt olaf yn ymwneud ag adeiladu mwy o gartrefi yng Nghymru, p'un a ydynt yn dai fforddiadwy neu'n dai cymdeithasol. Nid oes unrhyw fudd, rwy'n atgoffa'r Aelod, mewn dibrisio diwydiant adeiladu Cymru. Y ffaith amdani yw ei fod yn gwneud yn dda iawn. Cyfarfûm â'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi yr wythnos diwethaf, a daeth tua 10 o gwmnïau adeiladu sylweddol i siarad â mi yng Nghymru, ac roedd eu neges nhw yn wahanol iawn i'r hyn y mae'r Aelod yn ei bortreadu ac y mae ei blaid yn ei bortreadu yn San Steffan. Y ffaith yw ei fod yn gwneud yn dda yng Nghymru, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae gan bartneriaethau gan gynnwys cymdeithasau tai a'r sector preifat ran i'w chwarae wrth gyflenwi pob math o ddeiliadaeth tai ar draws Cymru.

16:25

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your statement, Minister. It is very long and therefore I have a series of questions. I hope that you will be patient, Deputy Presiding Officer, and that the Minister has enough paper today to record his answers.

Diolch ichi am eich datganiad, Weinidog. Mae'n hir iawn ac felly mae gennyf gyfres o gwestiynau. Rwy'n gobeithio y byddwch yn amyneddgar, Ddirprwy Lywydd, a bod gan y Gweinidog ddigon o bapur heddiw i gofnodi ei atebion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Minister and Members will know that I am a strong advocate of working closely with our housing associations, as they are an effective and willing partner and a sector of professionals happy to explore new ideas and motivated to deliver. So, Minister, you are in a very fortunate position. You mentioned the housing finance grant and the securing of £125 million of private investment; could you tell us how long is the Welsh Government's commitment and what is the annual cost of that? Will you publish details from within your budget regarding how much is designated for long-term commitment to debt of third parties beyond the term of this Government?

Bydd y Gweinidog a'r Aelodau yn gwybod fy mod yn eiriolwr cryf dros weithio'n agos â'n cymdeithasau tai, gan eu bod yn bartner effeithiol a pharod ac yn sector o weithwyr proffesiynol sy'n hapus i archwilio syniadau newydd, â'r cymhelliant i gyflawni. Felly, Weinidog, rydych mewn sefyllfa ffodus iawn. Fe wnaethoch sôn am y grant cyllid tai a sicrhau £125 miliwn o fuddsoddiad preifat; a allech ddweud wrthym pa mor hir yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru a beth yw cost flynyddol hynny? A wnewch chi gyhoeddi manylion o'ch cyllideb ynglŷn â faint sy'n cael ei ddynodi ar gyfer ymrwymiad hirdymor i ddyled trydydd partïon y tu hwnt i dymor y Llywodraeth hon?

You mentioned the Welsh housing quality standard, and I am very pleased with the progress that has been made on that. When do you expect that to be at 100%?

Fe wnaethoch sôn am safon ansawdd tai Cymru, ac rwy'n falch iawn o'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn hynny o beth. Pryd rydych chi'n disgwyl i hynny fod yn 100%?

On the Supporting People programme, I am very pleased with the protection negotiated by us and the Liberal Democrats during the last budget so that the cut that you intended to make was buffered somewhat. When will we see the evaluation of the programme schemes?

O ran y rhaglen Cefnogi Pobl, rwy'n falch iawn o'r camau diogelu y llwyddom ni a'r Democratiaid Rhyddfrydol i'w sicrhau yn ystod y trafodaethau ynglŷn â'r gyllideb ddiwethaf, er mwyn lliniaru rhywfaint ar y toriad yr oeddech wedi bwriadu ei wneud. Pryd byddwn ni'n gweld y cynlluniau rhaglen yn cael eu gwerthuso?

I am very pleased to hear that you have a housing supply pact; within that, on funding and innovation, you say that you are examining and testing the way in which the social housing grant can deliver more. When will you have something to tell us on that?

Rwy'n falch iawn o glywed bod gennych chi gytundeb ynglŷn â chyflenwad tai; o fewn hynny, o ran cyllid ac arloesedd, rydych yn dweud eich bod yn archwilio a phrofi'r ffordd y gall y grant tai cymdeithasol gyflawni mwy. Pryd y bydd gennych chi rywbeth i'w ddweud wrthym am hynny?

You mentioned rent policy; would you be able to tell us what that rent policy is? On land, you say that more needs to be done, so perhaps you could outline the barriers that have prevented more public land from being available for affordable housing. On standards, you mentioned a review of the design quality requirements; when will you be able to tell us what the new DQR will be?

Fe wnaethoch sôn am bolisi rhent; a fydddech chi'n gallu dweud wrthym beth yw'r polisi rhent? O ran tir, rydych yn dweud bod angen gwneud mwy, felly efallai y gallech amlinellu'r rhwystrau sydd wedi atal mwy o dir cyhoeddus rhag bod ar gael ar gyfer tai fforddiadwy. O ran safonau, fe wnaethoch sôn am adolygiad o'r gofynion ansawdd dylunio; pryd y byddwch yn gallu dweud wrthym beth fydd y gofynion newydd?

On regulation, you know that I am very disappointed regarding the way in which your regulation function has now been delivered. The interim review made for very sad reading, I thought. Minister, I can see you shaking your head, but I read it and I thought that it made for sad reading. So, what shortcomings within the Welsh Government that were outlined in that report have you addressed?

I very much welcome your mentioning the ability to pay board members, and I look forward to seeing that development. On planning, you said that you need to secure a robust operating environment, so how will you deliver what you say we need? On community benefits, when will you decide whether grant funding streams will include a requirement for community outcomes?

My last question is on welfare reform. The bedroom tax is shamefully making our social housing sector unaffordable for many people, and I did not think that that was ever a position we would find ourselves in—a social housing sector that is unaffordable for tenants. When will you consider the development of a national strategy to ensure that tenants know that they can appeal and that they will be helped to do so? Appealing against the bedroom tax—and most tenants who appeal win their appeal—is the very best way, going forward, to support tenants and undermine this cruel policy.

O ran rheoleiddio, byddwch yn gwybod fy mod yn siomedig iawn ynglŷn â'r ffordd y mae eich swyddogaeth reoleiddio wedi cael ei chyflawni. Roedd yr adolygiad interim yn ddogfen drist i'w darllen, yn fy marn i. Weinidog, gallaf eich gweld yn ysgwyd eich pen, ond fe wnes ei darllen ac roeddwn i'n meddwl ei bod yn ddogfen drist. Felly, pa ddiffygion o fewn Llywodraeth Cymru a amlinellwyd yn yr adroddiad hwnnw yr ydych chi wedi mynd i'r afael â nhw?

Rwy'n croesawu'n fawr eich bod wedi sôn am y gallu i dalu i aelodau byrddau, ac edrychaf ymlaen at weld y datblygiad hwnnw. O ran cynllunio, dywedoch y bydd angen i chi sicrhau amgylchedd gweithredu cadarn, felly sut y byddwch yn cyflawni'r hyn yr ydych chi ei ddweud y mae ei angen arnom? O ran budd i'r gymuned, pryd y byddwch yn penderfynu a fydd ffrydiau cyllid grant yn cynnwys gofyniad i sicrhau canlyniadau cymunedol?

Mae fy nghwestiwn olaf yn ymwneud â diwygio'r gyfundrefn les. Mae'r dreth ystafell wely, yn warthus, yn gwneud ein sector tai cymdeithasol yn amhosibl i lawer o bobl ei fforddio, ac nid oeddwn yn meddwl y byddem fyth yn ein cael ein hunain yn y sefyllfa honno—sector tai cymdeithasol na all tenantiaid ei fforddio. Pryd y byddwch yn ystyried datblygu strategaeth genedlaethol i sicrhau bod tenantiaid yn gwybod y gallant apelio ac y byddant yn cael eu helpu i wneud hynny? Apelio yn erbyn y dreth ystafell wely—ac mae'r rhan fwyaf o denantiaid sy'n apelio yn ennill eu hapêl—yw'r ffordd orau un, wrth symud ymlaen, i gefnogi tenantiaid a thanseilio'r polisi creulon hwn.

16:29 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for those many questions. I will try to respond to them as fully as I possibly can. First of all, the housing finance grant is a grant system that is operating as a result of the Finance Minister funding part of it and my department funding part of a £4 million revenue spend profile. I will have to get further details on the end process for the Member and I will make sure that I drop the Member a note on that. However, it is proving to be a very positive programme, unique to Wales as I said, and something that we would look to replicate or enhance given the finances available because it did work very well. I expect the quality housing standard to be complete by 2020 for the remaining stock that is in place.

The Member reflects on the discussions surrounding the Supporting People programme during the budget negotiations. Again, I welcome the Member's contribution in the Supporting People programme because it is recognised across this Cabinet how important the work of the Supporting People programme is in supporting people in our communities right across the length and breadth of Wales. However, I will say that Supporting People needs to be focused on giving the ability to enhance people's lives, making sure that it works and is delivering what it should be delivering. I know that the Member would support the fact that we have to make sure that the funding that is available gets to the right people to deliver on the ground. This is something that I am asking my teams currently to assess in order to make sure that we are confident that that is happening across all of the collaboration committees.

Diolch i'r Aelod am y cwestiynau niferus hynny. Byddaf yn ceisio ymateb iddynt mor llawn ag y gallaf. Yn gyntaf oll, mae'r grant cyllid tai yn system grant sy'n cael ei gweithredu trwy i'r Gweinidog Cyllid ariannu rhan ohono a thrwy i'm hadran i ariannu rhan o broffil gwariant refeniw o £4 miliwn. Bydd yn rhaid imi gael rhagor o fanylion am y broses derfynol i'r Aelod a byddaf yn gwneud yn siŵr fy mod yn anfon nodyn at yr Aelod ar hynny. Fodd bynnag, mae'n profi i fod yn rhaglen gadarnhaol iawn, sy'n unigryw i Gymru fel y dywedais, ac yn rhywbeth y byddem yn ceisio ei hailadrodd neu ei gwella o ystyried y cyllid sydd ar gael gan ei bod yn gweithio'n dda iawn. Rwy'n disgwyl i'r safon ansawdd tai gael ei chwblhau erbyn 2020 ar gyfer y stoc sy'n weddill.

Mae'r Aelod yn myfyrio ynghylch y trafodaethau o amgylch y rhaglen Cefnogi Pobl yn ystod y trafodaethau ar y gyllideb. Unwaith eto, rwy'n croesawu cyfraniad yr Aelod yn y rhaglen Cefnogi Pobl oherwydd bod pawb ar draws y Cabinet hwn yn cydnabod pa mor bwysig yw gwaith y rhaglen Cefnogi Pobl o ran cynorthwyo pobl yn ein cymunedau ar hyd a lled Cymru. Fodd bynnag, rwyf am ddweud bod angen i'r rhaglen Cefnogi Pobl ganolbwyntio ar roi'r gallu i wella bywydau pobl, gan wneud yn siŵr ei bod yn gweithio ac yn cyflawni'r hyn y dylai ei gyflawni. Gwn y byddai'r Aelod yn cefnogi'r ffaith bod yn rhaid inni wneud yn siŵr bod yr arian sydd ar gael yn cyrraedd y bobl iawn er mwyn cyflawni ar lawr gwlad. Dyma rywbeth yr wyf yn gofyn i'm timau ei asesu ar hyn o bryd er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn hyderus bod hyn yn digwydd ar draws pob un o'r pwyllgorau cydweithredu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Returning to the issues relating to the housing grant, the housing finance innovation team works between finance and me. The Finance Minister is speaking at a conference on Thursday, I believe, about bringing partners together and looking at what is a non-traditional way of funding properties across Wales. The housing finance grant is one of them, but there are many other methods as well. I suppose that leads quite nicely into your question about land use and the problems surrounding that. We have done some work around viability of land and generally the issue is the viability of land and where it is in parts of Wales. The M4 corridor and the A55 corridor seem to very prosperous areas for people and developers to move into, but when you start to move up into the Valleys areas of Wales the viability of the land means that it becomes more difficult for investment and for companies to start developing. So, we are looking with them at what land we could use and whether it could be the catalyst for various different models. We are also looking at whether it is an upfront cost that the Government would bear or whether it is a long-term payback where land is gifted, effectively. These are all solutions that the innovation team is looking at.

I am awaiting the first draft report on the development quality requirements. The person who was chairing the work on the DQR report had a baby on Wednesday evening, so, there is a slight technical hitch in terms of delivering the report, but may I congratulate Sophie Howe on the birth of her new baby daughter, Belle? However, I look forward to the DQR report.

I listened carefully to the Member and I do not share her view that it was sad reading. It was a very informative report. What I have asked my team to do is undertake a review on regulation. I have met the regulation team to ensure that what we sought to deliver with the sector, which was supported by the sector, is being delivered. I assume that I share some of the Member's concerns about how that is happening on the ground. I can give the Member reassurance that I am looking at that very carefully but I would not, perhaps, paint such a dark picture as the one that she painted when she made her contribution.

There are a further two points, I think. First, on the assessment of community benefits, I am working with several Ministers on what exactly housing associations can deliver. We know that they deliver so much more than homes for communities. We are trying to ensure that now there is a recording mechanism and we are doing some work with an organisation—the organisation's name will come to me in a second—making sure that it can record this better and ensure that work around the Lift programme that my colleague, Jeff Cuthbert, is working on can deliver on the ground. We are working with the Chartered Institute of Housing—and thank you to the Finance Minister for reminding me of the organisation's name.

Gan ddychwelyd at y materion yn ymwneud â'r grant tai, mae'r tîm arloesi ym maes cyllid tai yn gweithio rhyngof i a chyllid. Mae'r Gweinidog Cyllid yn siarad mewn cynhadledd ddydd lau, rwy'n credu, am ddod â phartneriaid at ei gilydd ac edrych ar ffordd nad yw'n ffordd draddodiadol o gyllido eiddo ar draws Cymru. Mae'r grant cyllid tai yn un ohonynt, ond mae llawer o ddulliau eraill yn ogystal. Mae'n debyg bod hynny'n arwain yn bur dda at eich cwestiwn am ddefnydd tir a'r problemau o gwmpas hynny. Rydym wedi gwneud rhywfaint o waith ynghylch hyfywedd tir ac yn gyffredinol hyfywedd tir a lle y mae mewn rhannau o Gymru yw'r broblem. Mae coridor yr M4 a choridor yr A55 yn ymddangos yn ardaloedd llewyrchus iawn i bobl a datblygwyr symud i mewn iddynt, ond pan fyddwch yn dechrau symud i fyny i ardaloedd y Cymoedd mae hyfywedd y tir yn golygu ei bod yn fwy anodd buddsoddi ac yn fwy anodd i gwmnïau dechrau datblygu. Felly, rydym yn edrych gyda nhw ar ba dir y gallen ei ddefnyddio ac a allai fod yn gatalydd ar gyfer gwahanol fodelau. Rydym hefyd yn ystyried a yw'n gost ymlaen llaw y byddai'r Llywodraeth yn ei thalu ynteu a yw'n rhywbeth a fyddai'n ad-dalu yn y tymor hir lle mae tir yn cael ei roi, i bob pwrpas. Mae'r rhain i gyd yn atebion y mae'r tîm arloesi yn edrych arnynt.

Rwy'n disgwyl am yr adroddiad drafft cyntaf ar y gofynion ansawdd datblygu. Cafodd y sawl a oedd yn cadeirio'r gwaith ar yr adroddiad fabi nos Fercher, felly, mae anhawster technegol bychan o ran cyflwyno'r adroddiad, ond a gaf fi longyfarch Sophie Howe ar enedigaeth ei merch fach newydd, Belle? Fodd bynnag, edrychaf ymlaen at yr adroddiad ar y gofynion ansawdd datblygu.

Gwrandewais yn ofalus ar yr Aelod ac nid wyf yn rhannu ei barn ei bod yn ddogfen drist i'w ddarllen. Roedd yn adroddiad llawn gwybodaeth. Yr hyn yr wyf wedi gofyn i'm tîm ei wneud yw cynnal adolygiad ar reoleiddio. Rwyf wedi cyfarfod â'r tîm rheoleiddio i sicrhau bod yr hyn yr oeddem yn ceisio ei gyflawni gyda'r sector, a gefnogwyd gan y sector, yn cael ei gyflawni. Rwy'n tybio fy mod yn rhannu rhai o bryderon yr Aelod ynglŷn â sut mae hynny'n digwydd ar lawr gwlad. Gallaf roi sicrwydd i'r Aelod fy mod yn edrych ar hynny'n ofalus iawn, ond ni fyddwn, efallai, yn paentio darlun mor dywyll â'r un a baentiodd hi pan wnaeth ei chyfraniad.

Mae dau bwynt arall, rwy'n meddwl. Yn gyntaf, ran yr asesiad o fanteision cymunedol, rwy'n gweithio gyda nifer o Weinidogion ar beth yn union y gall cymdeithasau tai ei ddarparu. Rydym yn gwybod eu bod yn darparu cymaint mwy na chartrefi ar gyfer cymunedau. Rydym yn ceisio sicrhau nawr bod gennym fecanwaith cofnodi ac rydym yn gwneud rhywfaint o waith gyda sefydliad—fe ddaw enw'r sefydliad imi mewn eiliad—i wneud yn siŵr ei fod yn gallu cofnodi hyn yn well a sicrhau bod y gwaith o gwmpas y rhaglen Lift y mae fy nghydweithiwr, Jeff Cuthbert, yn gweithio arni yn gallu cyflawni ar lawr gwlad. Rydym yn gweithio gyda'r Sefydliad Tai Siartredig—a ddiolch i'r Gweinidog Cyllid am fy atgoffa o enw'r sefydliad.

My final point, which relates to a very important one that the Member raised, is on welfare reform and bedroom tax. We certainly share the view that the bedroom tax is not only bad for Wales but bad for the UK as a whole, and that tenants are being affected by it. I said only last week that I am constantly writing to Lord Freud about advertising how the process could be disseminated better to people across our communities about what the appeals services and advice services are. Community Housing Cymru and local authorities are already starting to work with tenants as part of a process where there may be under threat of losing their property. It is something that I will give further consideration to. As we share that view, the best thing for the bedroom tax is for it to be abolished completely.

Mae fy mhwynt olaf, sy'n ymwneud ag un pwysig iawn a godwyd gan yr Aelod, ar ddiwygio'r gyfundrefn les a'r dreth ystafell wely. Rydym yn sicr yn rhannu'r farn bod y dreth ystafell wely yn ddrwg i Gymru, ond hefyd yn ddrwg i'r DU yn ei chyfanrwydd, a bod tenantiaid yn cael eu heffeithio ganddi. Dywedais yr wythnos diwethaf fy mod yn ysgrifennu'n gyson at yr Arglwydd Freud ynghylch hysbysebu a sut y gallai gwybodaeth am y broses gael ei lledaenu'n well i bobl ar draws ein cymunedau o ran y gwasanaethau apelïadau a'r gwasanaethau cynghori. Mae Cartrefi Cymunedol Cymru ac awdurdodau lleol eisoes yn dechrau gweithio gyda thenantiaid fel rhan o broses lle y gallant fod o dan fygythiad o golli eu heiddo. Mae'n rhywbeth y byddaf yn rhoi rhagor o ystyriaeth iddo. Gan ein bod yn rhannu'r farn honno, y peth gorau ar gyfer y dreth ystafell wely yw iddi gael ei diddymu'n gyfan gwbl.

16:35 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for his statement and congratulate him on the initiatives he is taking to improve the supply of affordable housing. I want to draw his attention to the situation in Cardiff, where there are approximately 10,000 people on the common waiting list, between the housing associations and the council housing waiting lists. Over 700 new applications are received each month, and only 1,500 or so council and housing association properties become available for letting each year. It is a very difficult situation, so I know he has an uphill battle to help provide the amount of housing for rent that is needed.

He said a bit about the alternative innovative schemes that will support housing associations to deliver more affordable housing. He also mentioned some pilot schemes that he has agreed. I wonder whether he could expand on that.

The other point that I wanted to make briefly is that I welcome very much what he said about improving the governance of housing associations, particularly the emphasis on having more diverse bodies. Could he provide information about how many women chair the boards of housing associations or are registered social landlords at the moment? What are his views on overlapping membership of boards and whether that is acceptable? I also had some issues about anti-social behaviour, but perhaps those are better looked at in the renting homes Bill.

Rwy'n diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad ac yn ei longyfarch ar y mentrau y mae'n eu cynnal i wella'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Rwyf am dynnu ei sylw at y sefyllfa yng Nghaerdydd, lle mae tua 10,000 o bobl ar y rhestr aros gyffredin, rhwng rhestrau aros y cymdeithasau tai a'r cyngor. Mae dros 700 o geisiadau newydd yn cael eu derbyn bob mis, a dim ond oddeutu 1,500 o dai cyngor a chymdeithasau tai sy'n dod ar gael i'w gosod bob blwyddyn. Mae'n sefyllfa anodd iawn, felly rwy'n gwybod bod ganddo frwydr galed i helpu i ddarparu'r nifer o dai i'w rhentu sydd eu hangen.

Dyweddodd ychydig am y cynlluniau arloesol eraill a fydd yn cynorthwyo cymdeithasau tai i ddarparu mwy o dai fforddiadwy. Mae hefyd wedi sôn am rai cynlluniau peilot y mae wedi cytuno iddynt. Tybed a allai ymhelaethu ar hynny?

Y pwynt arall yr oeddwn am ei wneud yn gryno yw fy mod yn croesawu'n fawr yr hyn a ddywedodd am wella trefniadau llywodraethu cymdeithasau tai, yn enwedig y pwyslais ar gael cyrff â mwy o amrywiaeth. A allai ddarparu gwybodaeth am faint o fenywod sy'n cadeirio byrddau cymdeithasau tai neu sy'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar hyn o bryd? Beth yw ei farn am bobl sy'n aelodau o fwy nag un bwrdd ac a yw hynny'n dderbyniol? Roedd gennyf rai pwyntiau ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd, ond efallai ei bod yn well edrych ar y rheini yn y Bil rhentu cartrefi.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:37 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for her precise questions, and I am grateful for her recognition of the increased target from 7,500 to 10,000 affordable homes. It is very clear that there is a shortage of homes across all of our communities, and this puts the importance of the local development plan process into context in ensuring that we get that right for our communities, planning ahead to understand the need-based assessment for homes across Wales. I know that Cardiff is working very hard to make sure that it completes that process.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiynau manwl, ac rwy'n ddiolchgar iddi am gydnabod bod y targed wedi cynyddu o 7,500 i 10,000 o gartrefi fforddiadwy. Mae'n amlwg iawn bod prinder cartrefi ar draws ein cymunedau i gyd, ac mae hyn yn rhoi pwysigrwydd proses y cynllun datblygu lleol mewn cyd-destun o ran sicrhau ein bod yn cael hwnnw'n iawn ar gyfer ein cymunedau, gan gynllunio ymlaen llaw i ddeall yr asesiad ar sail angen ar gyfer cartrefi ledled Cymru. Gwn fod Caerdydd yn gweithio'n galed iawn i wneud yn siŵr ei bod yn cwblhau'r broses honno.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Regarding some of the innovation programmes, including the finance grant, we are trying to theme these across the whole department, so that any financial interventions we make have an impact on the housing initiative. 'Vibrant and Viable Places' is one example where we have applied the theme around increasing the housing supply, so that may be above shops or in communities to enhance and regenerate an area, but it also provides a housing solution. This is just one way that we are pursuing to enhance supply.

I thank the Member again for her support and commitment in terms of board diversity. I will make public the letters that I wrote to housing associations with regard to my request for them to seek to ensure that they work very carefully and closely with me to provide gender balance across their board membership, including issues related to fixed-term board membership. It is going well, and I can say that housing associations are being really responsive to this. There will always be one or two that do not seek to engage in full, but I have made it clear to my department that if we cannot agree board diversity and several other elements of change in the governance of a board, then our relationship will probably cease in future in terms of financing from this Welsh Government.

O ran rhai o'r rhaglenni arloesi, gan gynnwys y grant cyllid, rydym yn ceisio creu thema ar draws yr adran gyfan, fel bod unrhyw ymyriadau ariannol yr ydym yn eu gwneud yn cael effaith ar y fenter tai. Mae 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' yn un enghraifft lle'r ydym wedi defnyddio'r thema o amgylch cynyddu'r cyflenwad tai. Gallai hynny fod uwchben siopau neu mewn cymunedau i wella ac adfywio ardal, ond mae hefyd yn darparu ateb o safbwynt tai. Dyma un ffordd yn unig yr ydym yn mynd ar ei thrywydd i gynyddu'r cyflenwad.

Diolch i'r Aelod eto am ei chefnogaeth a'i hymrwymiad o ran amrywiaeth y byrddau. Byddaf yn gwneud yn gyhoeddus y llythyrau a ysgrifennais at gymdeithasau tai o ran fy nghais iddynt geisio sicrhau eu bod yn gweithio'n ofalus iawn ac yn agos gyda mi i ofalu bod cydbwysedd rhwng y rhywiau ar draws aelodaeth eu byrddau, gan gynnwys materion yn ymwneud ag aelodaeth am gyfnod penodol. Mae'n mynd yn dda, a gallaf ddweud bod cymdeithasau tai yn ymateb yn dda i hyn. Bydd bob amser un neu ddau nad ydynt yn ceisio ymgysylltu'n llawn, ond rwyf wedi ei gwneud yn glir i'm hadran y bydd ein perthynas yn dod i ben yn y dyfodol, mae'n debyg, o ran arian gan Lywodraeth Cymru, os na allwn gytuno ynghylch amrywiaeth y bwrdd a nifer o elfennau eraill o newid trefniadau llywodraethu'r bwrdd.

16:39

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have four quick points to make because Jocelyn took most of my questions. In relation to the Supporting People programme, Minister, as Jocelyn said, the Liberal Democrats and Plaid had more money put into that. That was for one year only. When we did that, we were told that there was restructuring going on that would hopefully produce savings so that you would be able to cope within the budget allocated to it. Would it be possible to have a statement at some stage detailing exactly how Supporting People is being restructured to deliver those savings and what the impact of that is going to be?

In relation to housing supply, a key part of housing supply, particularly in terms of the affordable sector, is how many new-build homes we can build in the private sector. There is a knock-on effect; if you build private sector homes, you get new-build homes through planning agreements et cetera. Clearly, we are lagging behind England in terms of new-build homes in the private sector. I was wondering what plans you have to try to redress that.

In relation to land, you will know that when the Finance Committee did its report on asset management, it identified a lack of joined-up thinking across the Welsh Government in terms of making sure that land was available for housing. I was wondering how that is being addressed now that that report has had time to be digested by the Welsh Government.

Mae gennyf bedwar pwynt cyflym i'w gwneud oherwydd bod Jocelyn wedi cymryd y rhan fwyaf o'm cwestiynau. O ran y rhaglen Cefnogi Pobl, fel y dywedodd Jocelyn, Weinidog, sicrhodd y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid fod mwy o arian wedi ei roi i mewn i hynny. Roedd hynny am flwyddyn yn unig. Pan wnaethom ni hynny, dywedwyd wrthym bod ailstrwythuro ar y gweill a fyddai, gobeithio, yn arwain at arbed arian fel y byddech yn gallu ymdopi o fewn y gyllideb a ddyrannwyd. A fyddai'n bosibl cael datganiad ar ryw adeg yn manylu ar sut yn union y mae Cefnogi Pobl yn cael ei ailstrwythuro er mwyn arbed yr arian hwnnw a beth yw effaith hynny yn mynd i fod?

O ran cyflenwad tai, rhan allweddol o gyflenwad tai, yn enwedig o ran y sector fforddiadwy, yw faint o gartrefi y gallwn ni eu hadeiladu o'r newydd yn y sector preifat. Ceir sgil effaith i hynny; os ydych yn adeiladu cartrefi sector preifat, rydych yn cael cartrefi wedi'u hadeiladu o'r newydd trwy gytundebau cynllunio ac ati. Yn amlwg, rydym yn llusgo y tu ôl i Loegr o ran adeiladu cartrefi o'r newydd yn y sector preifat. Tybed pa gynlluniau sydd gennych i geisio gwneud iawn am hynny?

O safbwynt tir, byddwch yn gwybod bod y Pwyllgor Cyllid, yn ei adroddiad ar reoli asedau, wedi nodi nad oedd dull cydgysylltiedig o feddwl ar draws Llywodraeth Cymru o ran gwneud yn siŵr bod tir ar gael ar gyfer tai. Tybed sut y rhoddir sylw i hynny erbyn hyn gan fod Llywodraeth Cymru wedi cael amser i ystyried yr adroddiad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Finally, in relation to discretionary housing payments, you will know, Minister, that, in my short debate, I raised the issue of local authorities treating disability living allowance and child benefit as income when they came to assess DHPs. I was wondering if you have had any communication with local authorities about that particular issue and what was being done to put that right.

Yn olaf, o ran taliadau tai yn ôl disgrisiwn, byddwch yn gwybod, Weinidog, fy mod yn fy nadl fer wedi codi'r ffaith fod awdurdodau lleol yn trin lwfans byw i'r anabl a budd-daliadau plant fel incwm wrth asesu taliadau tai yn ôl disgrisiwn. Tybed a ydych wedi cyfathrebu o gwbl gydag awdurdodau lleol ynghylch y mater penodol hwnnw a'r hyn a oedd yn cael ei wneud i unioni hynny?

16:41

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for his questions. May I pick up first of all on the issue of Supporting People? We are reviewing, as I said to Jocelyn Davies, the process of Supporting People. I welcome your support for my department in terms of ensuring that I give a strong budget position, but that does not go without a caveat that we should make sure that the effectiveness of the budget is working properly. One example would be the section 108 homelessness grant. We are making a condition in the housing Bill that will have an effect on homelessness. There will be a prevention agenda, so it will be a higher cost upfront but, in the longer term, we should have a cost saving. So, that will have an impact on our Bill. I am doing some work around domestic violence in terms of the housing agenda as well, in collaboration with the Minister for local government, which will have an impact on all services, looking to get better value for less, effectively.

In terms of the private sector and the ability for growth, I will be appointing shortly a housing supply co-ordinator, who will work with the private sector to look at the interface between builders, developers, local authorities, housing associations and Government, to see how that operates. This was a recommendation from the housing supply task force, and I will be appointing to that post very shortly.

On the final point on DHP, I will have to check with my private office to see if we have had any correspondence around it. I recognise the point that the Member raises and I will follow that up to ensure that we have some correspondence that I can share with the Member at the appropriate point.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiynau. A gaf fi ymdrin yn gyntaf â mater Cefnogi Pobl? Rydym yn adolygu proses Cefnogi Pobl, fel y dywedais wrth Jocelyn Davies. Croesawaf eich cefnogaeth i'm hadran o ran sicrhau fy mod yn rhoi sefyllfa gref i'r gyllideb, ond ceir cafeat hefyd y dylem wneud yn siŵr bod effeithiolrwydd y gyllideb yn gweithio'n iawn. Un enghraifft fyddai grant digartrefedd adran 108. Rydym yn cynnwys amod yn y Bil tai a fydd yn cael effaith ar ddigartrefedd. Ceir agenda ataliol, felly bydd y gost yn uwch ymlaen llaw, ond, yn y tymor hwy, dylem fod yn arbed costau. Felly, bydd hynny'n cael effaith ar ein Bil. Rwy'n gwneud rhywfaint o waith yn ymwneud â thrais domestig o ran yr agenda tai yn ogystal, ar y cyd â'r Gweinidog llywodraeth leol, a bydd hynny'n cael effaith ar y gwasanaethau i gyd, gan geisio cael gwell gwerth am lai o arian, i bob pwrpas.

O ran y sector preifat a'r gallu i sicrhau twf, byddaf yn penodi cydgysylltydd cyflenwad tai cyn bo hir, a fydd yn gweithio gyda'r sector preifat i edrych ar y rhyngwyneb rhwng adeiladwyr, datblygwyr, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a'r Llywodraeth, i weld sut mae hynny'n gweithredu. Roedd hwn yn argymhellid gan y tasglu cyflenwad tai, a byddaf yn penodi i'r swydd honno yn fuan iawn.

O ran y pwynt olaf ar daliadau tai yn ôl disgrisiwn, bydd yn rhaid imi holi fy swyddfa breifat i weld a ydym wedi cael unrhyw ohebiaeth yn ei gylch. Rwy'n cydnabod y pwynt y mae'r Aelod yn ei godi ac af ar drywydd hynny er mwyn sicrhau ein bod yn cael rhywfaint o ohebiaeth y gallaf ei rhannu â'r Aelod ar yr adeg briodol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:42

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, may I, like many have done, thank you for your statement? I also want to say 'thank you' for the first implementation stage of the Domestic Fire Safety (Wales) Measure 2011, which came into force on 1 May. Thank you very much for that, and I look forward to 1 January 2016.

You have previously said that you will not fund housing authorities unless they have some sort of policy that will protect people who suffer domestic violence. I wonder whether you could give a brief outline, or perhaps come back to us with another statement, of what the situation is within local authorities and housing associations within Wales on that particular point.

Weinidog, a gaf fi, fel y mae llawer wedi ei wneud, ddiolch i chi am eich datganiad? Rwyf hefyd am ddweud 'diolch' am gam gweithredu cyntaf Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, a ddaeth i rym ar 1 Mai. Diolch yn fawr iawn am hynny, ac edrychaf ymlaen at 1 Ionawr, 2016.

Rydych wedi dweud o'r blaen na fyddwch yn ariannu awdurdodau tai, oni bai bod ganddynt ryw fath o bolisi a fydd yn diogelu pobl sy'n dioddef trais domestig. Tybed a allech roi amlinellid byr, neu efallai ddod yn ôl atom gyda datganiad arall, o beth yw'r sefyllfa o fewn awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yng Nghymru ar y pwynt penodol hwnnw?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

You will never get away with a housing debate without Ann Jones raising the issue of sprinklers. Again, I congratulate her on her tenacity in continuing with this approach to ensure that we deliver. Of course, the first part of the regulations are in place and we are already—this will hopefully be welcomed by the Member—introducing a pilot scheme to ensure that we can start delivering some of these pre regulation, to prove the technology and to give confidence to the sector that it can do that. I would also encourage local housing associations and local housing authorities who are building new properties already to take this very seriously. There is no reason why they could not be introduced at this stage, pre regulation, and I would look forward to supporting those proposals.

Ni allech fyth gael dadl ynglŷn â thai heb i Ann Jones godi systemau chwistrellu. Unwaith eto, rwy'n ei llongyfarch ar ei dycnwch i barhau â'r ymagwedd hon er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni. Wrth gwrs, mae rhan gyntaf y rheoliadau ar waith, ac rydym eisoes—gobeithio y bydd yn cael ei groesawu gan yr Aelod—yn cyflwyno cynllun peilot er mwyn sicrhau y gallwn ddechrau cyflawni rhai o'r rhain cyn rheoleiddio, i brofi'r dechnoleg ac i roi hyder i'r sector y gall wneud hynny. Byddwn hefyd yn annog cymdeithasau tai lleol ac awdurdodau tai lleol sydd eisoes yn adeiladu tai newydd i gymryd hyn o ddifrif. Nid oes unrhyw reswm pam na ellid eu cyflwyno ar hyn o bryd, cyn rheoleiddio, a byddwn yn edrych ymlaen at gefnogi'r cynigion hynny.

The Member rightly raises the issue that was brought to her attention, probably through the media last week, around domestic violence policy. I am very passionate about ensuring that we have a safe place to live. We know that for people who are suffering domestic violence, in general terms, the most dangerous place for them to be is in the home. The fact is that some housing associations do not have a domestic violence policy. I have written to them all and I will share that letter with Members; I will place it in the library to ensure that there is transparency around that. However, I expect them to have, and introduce, a domestic violence policy and an anti-social behaviour policy, with a domestic violence policy for tenants and for workplace-based incidents. If they do not have that policy in place, I am certain that our relationship in terms of financing will end. I am sure that, as it happens, most housing associations are being very positive in the way that they are adopting this new approach, and I welcome that proposal.

Mae'r Aelod, yn briodol, yn codi'r mater a ddygwyd i'w sylw, yn ôl pob tebyg trwy'r cyfryngau yr wythnos diwethaf, o ran polisi trais domestig. Rwy'n frwd iawn ynglŷn â sicrhau bod gennym le diogel i fyw ynddo. Rydym yn gwybod mai'r lle mwyaf peryglus i bobl sy'n dioddef trais domestig fod ynddo, yn gyffredinol, yw'r cartref. Y ffaith yw bod rhai cymdeithasau tai heb bolisi trais domestig. Rwyf wedi ysgrifennu at bob un ohonynt a byddaf yn rhannu'r llythyr hwnnw gydag Aelodau; byddaf yn ei roi yn y llyfrgell i sicrhau bod tryloywder yn hynny o beth. Fodd bynnag, rwy'n disgwyl iddynt gael, a chyflwyno, polisi trais domestig a pholisi ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyda pholisi trais domestig ar gyfer tenantiaid ac ar gyfer digwyddiadau yn y gweithle. Os nad yw'r polisi hwnnw ar waith ganddynt, rwy'n sicr y bydd ein perthynas o ran ariannu yn dod i ben. Rwy'n siŵr, fel y mae'n digwydd, bod y rhan fwyaf o gymdeithasau tai yn gadarnhaol iawn yn y ffordd y maent yn mabwysiadu'r dull newydd hwn, a chroesawaf y cynnig hwnnw.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister.

Diolch ichi, Weinidog.

Datganiad: Strategaeth Ddŵr i Gymru**Statement: The Water Strategy for Wales**Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Natural Resources and Food, Alun Davies.

Galwaf ar y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd, Alun Davies.

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. At the beginning of April this year, I published our water strategy for Wales for consultation. This document sets out the Welsh Government's proposals for the future direction of water management in Wales and how we plan to ensure a sustainable, safe and affordable water supply for households and businesses into the future. The importance of this strategy is clear: water is one of our greatest natural assets, providing the basis for much of our economic development and supporting Wales's diverse wildlife, as well as playing a vital role in supporting the health and wellbeing of everyone who lives, works and visits here.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Ar ddechrau mis Ebrill eleni, cyhoeddais ein strategaeth ddŵr ar gyfer Cymru er mwyn ymgynghori yn ei chylch. Mae'r ddogfen hon yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfeiriad o ran rheoli ddŵr yng Nghymru yn y dyfodol a sut yr ydym yn bwriadu sicrhau cyflenwad ddŵr cynaliadwy, diogel a fforddiadwy ar gyfer cartrefi a busnesau yn y dyfodol. Mae pwysigrwydd y strategaeth hon yn glir; ddŵr yw un o'n hasedau naturiol mwyaf, ac mae'n darparu'r sylfaen ar gyfer llawer o'n datblygiad economaidd a chefnogi bywyd gwyllt amrywiol Cymru, yn ogystal â chwarae rôl hanfodol o ran cefnogi iechyd a lles pawb sy'n byw ac yn gweithio yma ac yn ymweld â'r wlad.

Our water resources are coming under increased pressure as a consequence of climate change, a growing population and increased consumption. Figures show that, on average, we are all now using nearly 50% more water per person than we were 25 years ago. We need to ensure that our approach to water management responds to these challenges so that we can ensure a sustainable and resilient supply of water that will support communities and green growth. This strategy sets out how we intend to do that and is aligned with key priority areas for action, namely driving green growth, using resources efficiently, enhancing resilience and diversity and tackling poverty.

Developing a more integrated approach to managing our water resources, reflecting our wider approach to natural resource management, is at the heart of our approach. Ensuring that we carefully manage and plan the interrelationships between water, land and other natural resources is the key to ensuring sustainable management of our water resources, which, in turn, will help to meet the needs of the environment, business and communities. This is a long-term agenda. The actions we take now will help to ensure lasting improvements over the longer term, and we have a number of challenging issues to address and decisions to make.

We need to ensure that we have sustainable water resources, and we are committed to bringing exempt abstractions into the licensing system as well as reviewing the current abstraction licensing system, which has recently been subject to consultation. We will need to assess, in the light of this consultation, whether we need to progress with a fundamental reform of the abstraction licensing system. Major sources of pollution have been brought under control. The challenge now for us is to deal with the many minor sources of pollution that will cumulatively have a major impact on our water environment and biodiversity. In order to do this, it is vital that we work with land owners and managers to develop a common understanding of how improved land management practices can protect and improve water quality. We will be investigating how general binding rules could be best used in Wales to tackle minor sources of pollution.

We need to ensure a long-term planning approach to water services. We already have long-term planning for water resources and will be working with the water companies and regulators to develop a similar approach for waste water and sewerage. We need to have a better understanding of attitudes to water and the most effective ways of reducing consumption. We propose to work with water companies and other interested parties to investigate public attitudes to the use and value of water in Wales, as well as consulting on how we can reduce both domestic and business consumption and the role that water metering will be able to play in achieving this.

Mae ein hadnoddau dŵr yn dod o dan bwysau cynyddol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, cynnydd yn y boblogaeth a'r ffaith bod pobl yn defnyddio mwy o ddŵr. Mae'r ffigurau'n dangos ein bod i gyd bellach, ar gyfartaledd, yn defnyddio bron i 50% yn fwy o ddŵr y person nag yr oeddem 25 mlynedd yn ôl. Mae angen inni sicrhau bod ein dull o reoli dŵr yn ymateb i'r heriau hyn er mwyn inni allu sicrhau cyflenwad cynaliadwy a chydnerth o ddŵr a fydd yn cefnogi cymunedau a thwf gwyrdd. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut yr ydym yn bwriadu gwneud hynny ac yn cyd-fynd â meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithredu, sef sbarduno twf gwyrdd, defnyddio adnoddau'n effeithlon, gwella cydnerthedd ac amrywiaeth a threchu tlodi.

Mae'r angen i ddatblygu dull mwy integredig o reoli ein hadnoddau dŵr, gan adlewyrchu ein dull ehangach o reoli adnoddau naturiol, wrth wraidd ein dull o weithredu. Sicrhau ein bod yn rheoli a chynllunio'n ofalus y gydberthynas rhwng dŵr, tir ac adnoddau naturiol eraill yw'r allwedd i sicrhau y caiff ein hadnoddau dŵr eu rheoli'n gynaliadwy. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu i ddiwallu anghenion yr amgylchedd, busnes a chymunedau. Mae hon yn agenda hirdymor. Bydd y camau a gymerwn yn awr yn helpu i sicrhau gwelliannau hirhoedlog yn y tymor hwy, ac mae gennym nifer o faterion heriol i fynd i'r afael â nhw a phenderfyniadau i'w gwneud.

Mae angen inni sicrhau bod gennym adnoddau dŵr cynaliadwy, ac rydym wedi ymrwymo i ddod ag achosion eithriadig o dynnu dŵr yn rhan o'r system drwyddedu yn ogystal ag adolygu'r system drwyddedu bresennol ar gyfer tynnu dŵr, sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad yn ddiweddar. Bydd angen i ni asesu, yng ngoleuni'r ymgynghoriad hwn, a oes angen inni symud ymlaen i ddiwygio'n sylfaenol y system drwyddedu ar gyfer tynnu dŵr. Mae prif ffynonellau llygredd wedi cael eu dwyn o dan reolaeth. Yr her inni nawr yw delio â'r nifer o fân ffynonellau llygredd a fydd gyda'i gilydd yn cael effaith fawr ar ein hamgylchedd dŵr a bioamrywiaeth. Er mwyn gwneud hyn, mae'n hanfodol ein bod yn gweithio gyda pherchnogion tir a rheolwyr i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o sut y gellir diogelu a gwella ansawdd dŵr yn sgil gwell arferion rheoli tir. Byddwn yn ymchwilio i'r ffordd orau o ddefnyddio rheolau gorfodol cyffredinol yng Nghymru i fynd i'r afael â mân ffynonellau o lygredd.

Mae angen inni sicrhau bod gwasanaethau dŵr yn cael eu cynllunio yn yr hirdymor. Mae gennym eisoes gynlluniau tymor hir ar gyfer adnoddau dŵr a byddwn yn gweithio gyda'r cwmnïau dŵr a rheoleiddwyr i ddatblygu dull gwaith tebyg ar gyfer dŵr gwastraff a charthffosiaeth. Mae angen inni ddod i ddeall yn well beth yw agweddau pobl tuag at ddŵr a'r ffyrdd mwyaf effeithiol o'u hannog i ddefnyddio llai. Rydym yn bwriadu gweithio gyda chwmnïau dŵr a phartion eraill â budd i ymchwilio i agweddau'r cyhoedd tuag at ddefnydd a gwerth dŵr yng Nghymru, yn ogystal ag ymgynghori ar sut y gallwn leihau defnydd domestig a busnes a'r rôl y bydd mesuryddion dŵr yn gallu ei chwarae wrth gyflawni hyn.

Tackling poverty is a key priority for this Government, and we are already taking steps through our social tariff guidance to ensure support for the most vulnerable customers. We will monitor and review the effectiveness of our approaches to water affordability. Recent flooding incidents have highlighted the importance of adequate drainage for both waste water and surface water. Reduced surface water flooding and diffuse pollution will improve water quality and increase resilience, and reduced run-off to sewers provides additional capacity without expensive engineering work, as well as improving the environment. We will consult on national standards for sustainable drainage systems for new developments, as well as seeking ways to encourage the use of these systems to deal with capacity problems in developed areas.

In order to deliver this challenging agenda, we need to ensure that we have the right tools. It has always been my view that this Assembly should be responsible for all aspects of water and sewerage policy in Wales and this strategy underpins that view. I welcome the Silk commission's recommendations in relation to water and sewerage. To progress this issue, we intend to undertake a review of the practical implications of aligning the regulatory boundaries for water and sewage with the geographical border between England and Wales.

We cannot do this alone and we need to work together with everyone who has an interest in water to move towards a common goal. The consultation on this strategy is an important part of that process.

Deputy Presiding Officer, I look forward to receiving views today and through the formal consultation process.

Mae trechu tlodi yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon, ac rydym eisoes yn cymryd camau drwy ein canllaw tariffau cymdeithasol i sicrhau cefnogaeth ar gyfer y cwsmeriaid mwyaf agored i niwedd. Byddwn yn monitro ac yn adolygu pa mor effeithiol yw ein hagweddau at fforddiadwyedd dŵr. Mae digwyddiadau llifogydd diweddar wedi tynnu sylw at bwysigrwydd draenio digonol ar gyfer dŵr gwastraff a dŵr wyneb. Bydd llai o lifogydd dŵr wyneb a llygredd gwasgaredig yn gwella ansawdd dŵr ac yn gwneud y system yn gadarnach, ac mae llai o ddŵr ffo i garthffosydd yn darparu capasiti ychwanegol heb waith peirianyddol drud, yn ogystal â gwella'r amgylchedd. Byddwn yn ymgynghori ar safonau cenedlaethol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd, yn ogystal â chwilio am ffyrdd i annog pobl i ddefnyddio'r systemau hyn er mwyn ymdrin â phroblemau capasiti mewn ardaloedd datblygedig.

Er mwyn cyflawni'r agenda heriol hon, mae angen inni sicrhau bod gennym yr offer cywir. Fy marn i bob amser oedd y dylai'r Cynulliad hwn fod yn gyfrifol am bob agwedd ar bolisi dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru ac mae'r strategaeth hon yn ategu'r farn honno. Rwy'n croesawu argymhellion y comisiwn Silk mewn cysylltiad â dŵr a charthffosiaeth. Er mwyn symud y mater hwn ymlaen, rydym yn bwriadu cynnal adolygiad o oblygiadau ymarferol sicrhau bod y ffiniau rheoleiddio ar gyfer dŵr a charthffosiaeth yn cyd-fynd â'r ffin ddaearyddol rhwng Cymru a Lloegr.

Ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain ac mae angen i ni gydweithio â phawb sydd â budd mewn dŵr er mwyn symud tuag at nod cyffredin. Mae'r ymgynghoriad ar y strategaeth hon yn rhan bwysig o'r broses honno.

Ddirprwy Lywydd, rwy'n edrych ymlaen at dderbyn safbwyntiau heddiw a thrwy'r broses ymgynghori ffurfiol.

16:50

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This country is abundantly blessed with some of the finest, purest water resources that you will find anywhere on the planet. Public consensus and expectation is that we will not have a problem in sourcing and managing our water supplies in the future. Some might say that we are too blessed, sometimes, and that our cup, too readily, overflows. I know that in my own constituency, one constituent e-mailed me at 6.00 a.m. on Sunday morning to tell me that Clywedog damn was over-tipping. He has a concern because, last May, he lost 11 acres of spring barley to flooding.

I think that there is a round consensus in this Chamber that the National Assembly should have direct control of water resources and sewerage that are aligned with the national boundary, and as Silk suggested, it improves accountability and coherence; it just makes sense that this anomaly is rectified. From what you said, Minister, pre the publication of Silk part 2, there were challenges to delivering this objective that needed to be overcome with the UK Government. Could you perhaps tell us what negotiations you have had since Silk part 2, and whether any progress has been made?

Mae'r wlad hon wedi'i bendithio'n llawn â rhai o'r adnoddau dŵr puraf, gorau y byddwch yn eu canfod unrhyw le ar y blaned. Y consensws a'r disgwyliad cyhoeddus yw na fydd gennym broblem o ran dod o hyd i gyflenwadau dŵr a'u rheoli yn y dyfodol. Efallai y bydd rhai yn dweud ein bod wedi ein bendithio'n ormodol, weithiau, a bod ein cwpan yn gorlifo, yn rhy rhwydd. Rwy'n gwybod yn fy etholaeth i, bod un etholwr wedi anfon e-bost ataf am 6.00 o'r gloch ar fore Sul i ddweud wrthyf fod argae Clywedog yn gorlifo. Mae ganddo bryder oherwydd ei fod wedi colli 11 erw o haidd gwanwyn i lifogydd fis Mai diwethaf.

Credaf fod consensws cyffredinol yn y Siambr hon y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol reoli'n uniongyrchol yr adnoddau dŵr a charthffosiaeth sy'n cyd-fynd â'r ffin genedlaethol, ac fel yr awgrymodd Silk, mae'n gwneud y drefn yn un fwy atebol a chydlynol; mae'n gwneud synnwyr bod yr anghysondeb hwn yn cael ei gywiro. O'r hyn yr ydych wedi'i ddweud, Weinidog, cyn cyhoeddi rhan 2 Silk, roedd angen goresgyn rhai heriau, a oedd yn ein rhwystro rhag cyflawni'r amcan hwn, gyda Llywodraeth y DU. A allech efallai ddweud wrthym pa drafodaethau yr ydych wedi eu cael ers rhan 2 Silk, ac a lwyddwyd i symud ymlaen o gwbl?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I will say that, having spoken to some aspects of the water industry about the new strategic plan, they like many aspects of it, particularly in relation to overall environmental catchment management; however, there is disappointment that you are not going to follow Scotland and England's market reforms. The UK Government's Water Bill, currently passing through Parliament, will fundamentally benefit consumers through more innovation, more competition and lower prices. If there is a strong emphasis in the consultation that you should reconsider and re-evaluate your policy stance, will you listen and give careful consideration to those views?

I think that it is absolutely right to say, at this point in time, that the economic value and potential of Welsh Water is unknown and, therefore, we need to put in place a process or mechanism that will aid us in trying to quantify that resource. I know that the Government wishes to introduce a payment to an ecosystem services market to help gauge the economic value of water in Wales. There was a study into the feasibility of this and it was due to be completed in spring 2014, so, may I ask what progress has been made on that study? Has it been completed and, if not, when will it be finished and published?

I think that you are right to focus, in the strategy, on the wider community benefits that water resources bring. I am a huge supporter of the Montgomeryshire canal and I am pleased at the amount of restoration work that has taken place there over recent years, which has been a huge success for the local economy. However, there are instances, as we have seen in Cardiff North, where companies owning reservoirs have held communities to ransom and have treated local authorities and elected representatives with complete disregard. How will the strategy enable and empower communities to protect these important assets?

In relation to metering, I know that in a question response that you gave me a few weeks ago you were quick to stress that this was a holistic strategy and that metering was just one aspect that the media had decided to cherry pick. However, I think that I can understand why. It obviously has a direct impact on people's lives in Wales. I am not against the proposal, as it offers an opportunity for consumers to be in greater control of how much water they use and the costs that they will ultimately incur. However, those on low incomes and small businesses might be concerned about compulsory metering and, as a Government, I think that you need to be sensitive to that.

May I push you again on what discussions you have had with the industry on this issue? What would the estimated cost envelope look like if you did decide to go ahead with a national roll-out? What timescales are involved and what technology will you be looking at? I assume that that technology will be futureproofed.

Byddaf yn dweud, ar ôl siarad â rhai agweddau ar y diwydiant dŵr am y cynllun strategol newydd, maent yn hoffi sawl agwedd arno, yn enwedig mewn o ran rheoli dalgylchoedd amgylcheddol cyffredinol; fodd bynnag, ceir siom nad ydych yn mynd i ddilyn yr Alban a Lloegr o ran diwygiadau i'r farchnad. Bydd Bil Dŵr Llywodraeth y DU, sydd ar hyn o bryd yn pasio drwy'r Senedd, yn sylfaenol fanteisiol i ddefnyddwyr trwy gyfrwng mwy o arloesi, mwy o gystadleuaeth a phrisiau is. Os oes pwyslais cryf yn yr ymgynghoriad y dylech ailystyried ac ailwerthuso eich safiad polisi, a fyddwch yn gwrando ac yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r safbwyntiau hynny?

Rwy'n meddwl ei bod yn gwbl gywir i ddweud, ar hyn o bryd, nad ydym yn gwybod beth yw gwerth economaidd a photensial Dŵr Cymru ac, felly, mae angen i ni sefydlu proses neu ddull a fydd yn ein cynorthwyo i geisio mesur yr adnodd hwnnw. Gwn fod y Llywodraeth yn dymuno cyflwyno taliad i farchnad gwasanaethau ecosystem i helpu i fesur gwerth economaidd dŵr yng Nghymru. Cynhaliwyd astudiaeth i ymarferoldeb hyn ac roedd i fod i gael ei chwblhau yng ngwanwyn 2014, felly, a gaf fi ofyn beth sydd wedi'i gyflawni o ran yr astudiaeth honno? A yw wedi ei chwblhau ac, os na, pryd y bydd yn cael ei gorffen a'i chyhoeddi?

Rwy'n meddwl eich bod yn iawn i ganolbwyntio, yn y strategaeth, ar y buddion ehangach i'r gymuned a ddaw gydag adnoddau dŵr. Rwy'n gefnogwr brwd o gamlas Sir Drefaldwyn ac rwy'n falch o'r holl waith adfer sydd wedi digwydd yno dros y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi bod yn llwyddiant enfawr i'r economi leol. Fodd bynnag, ceir achosion, fel y gwelsom yng Ngogledd Caerdydd, lle y mae cwmnïau sy'n berchen ar gronfeydd wedi dal cymunedau yn wystlon ac wedi diystyru awdurdodau lleol a chynrychiolwyr etholedig yn llwyr. Sut y bydd y strategaeth yn galluogi ac yn grymuso cymunedau i ddiogelu'r asedau pwysig hyn?

O safbwynt mesuryddion, rwy'n gwybod eich bod wedi pwysleisio'n gyflym mewn ymateb i gwestiwn a ofynnais ychydig wythnosau yn ôl, bod hon yn strategaeth gyfannol ac nad oedd mesuryddion ond yn un agwedd yr oedd y cyfryngau wedi penderfynu ei dewis a'i dethol. Fodd bynnag, rwy'n meddwl y gallaf ddeall pam. Mae'n amlwg yn cael effaith uniongyrchol ar fywydau pobl yng Nghymru. Nid wyf yn erbyn y cynnig, gan ei fod yn cynnig cyfle i ddefnyddwyr fod â mwy o reolaeth dros faint o ddŵr y maent yn ei ddefnyddio a'r costau yn y pen draw. Fodd bynnag, gallai pobl ar incwm isel a busnesau bach fod yn bryderus ynghylch mesuryddion gorfodol ac, fel Llywodraeth, credaf fod angen i chi fod yn sensitif i hynny.

A gaf fi bwysu arnoch eto i ddweud pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r diwydiant ar y mater hwn? Sut byddai'r amlen gost amcangyfrifedig yn edrych pe byddech yn penderfynu bwrw ymlaen i'w cyflwyno'n genedlaethol? Beth yw'r amserlenni a pha dechnoleg fyddwch chi'n ei hystyried? Rwy'n cymryd yn ganiataol y bydd y dechnoleg yn cael ei diogelu at y dyfodol.

I am grateful to the Conservative spokesperson for his positive approach to this process. May I say in response to his points on Silk that I very much welcome the Conservatives' support for this change to our settlement? I think that when I was discussing attitudes within the UK Government, I was actually referring to the Wales Office, rather than other aspects of the United Kingdom Government. Certainly, the conversations that I have had with the Department for Environment, Food and Rural Affairs with a view to ensuring that the geographical border is the border that we recognise for these matters have all been very positive, and I look forward to continuing those conversations and achieving the best outcome for Wales and for Welsh consumers, which I believe will be a full implementation of the Silk recommendations in this regard.

In terms of the reforms that are currently a part of the Water Bill process that has been promoted through the United Kingdom Parliament, may I say this: the reforms that will be put in place are, in my view, untested and not appropriate for Wales? However, I will be listening, I will be watching and I will be looking, and if I see, at any point in the future, that there may be benefits for Wales in adopting any parts of that reform process, then I will be happy to do so. Members will be aware that the legislation does provide powers for this Government and Welsh Ministers to be able to deliver those reforms in Wales, so we will have the powers to make the necessary changes to the market for water in the future, if we believe that that is in the best interests of Welsh businesses and Welsh customers.

In terms of the payment for ecosystem services, I have seen a first draft of the report that the Conservative spokesperson referred to. I am currently reviewing that with my officials, but I will give you an undertaking that it will be published as soon as is practical, and it will certainly be published this term, before the summer recess.

In terms of other matters, I recognise why the Member seeks to press me harder on metering, and I hope that Members will forgive me for being coy on this matter. However, this is subject to consultation at the moment, and I do not wish to become involved in too detailed a discussion on these matters until we are in a position to take a decision on it. However, may I say this: if we do go ahead with a metering programme for Wales, I give an undertaking that we will be working with water companies, regulators and the Consumer Council for Water to develop options for metering all supplies that will ensure that it is both proportionate and fair? We will ensure that householders' financial and medical circumstances are taken into account, and we will ensure that such a system is introduced in a way that minimises disruption to people. However, at the moment, we are undertaking discussions on these matters; we have not yet reached any conclusion to those discussions, and we are not yet in a position to take any decisions on these matters.

Rwy'n ddiolchgar i lefarydd y Ceidwadwyr am ei agwedd gadarnhaol at y broses hon. A gaf fi ddweud mewn ymateb i'w bwyntiau ynglŷn â Silk fy mod yn croesawu cefnogaeth y Ceidwadwyr i'r newid hwn i'n setliad yn fawr? Pan oeddwn yn trafod agweddau o fewn Llywodraeth y DU, rwy'n credu fy mod yn cyfeirio mewn gwirionedd at Swyddfa Cymru, yn hytrach nag agweddau eraill o Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn sicr, mae'r sgysiau yr wyf wedi'u cael gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig gyda golwg ar sicrhau mai'r ffin ddaearyddol yw'r ffin yr ydym yn ei chydabod yn achos y materion hyn i gyd wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac rwy'n edrych ymlaen at barhau'r sgysiau hynny a chyflawni'r canlyniad gorau i Gymru ac i ddefnyddwyr Cymru sef, yn fy marn i, gweithredu argymhellion Silk yn llawn yn hyn o beth.

O ran y diwygiadau sy'n rhan o broses y Bil Dŵr sydd wedi cael ei hyrwyddo trwy Senedd y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, a gaf fi ddweud hyn: mae'r diwygiadau a fydd yn cael eu rhoi ar waith, yn fy marn i, heb eu profi ac nid ydynt yn briodol i Gymru? Fodd bynnag, byddaf yn gwrandao, byddaf yn gwylio a byddaf yn edrych, ac os byddaf yn gweld, ar unrhyw adeg yn y dyfodol, y gallai fod manteision i Gymru trwy fabwysiadu unrhyw rannau o'r broses ddiwygio honno, yna byddaf yn hapus i wneud hynny. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y ddeddfwriaeth yn darparu pwerau i'r Llywodraeth hon a Gweinidogion Cymru allu cyflwyno'r diwygiadau hynny yng Nghymru, felly bydd gennym y pwerau i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r farchnad ar gyfer dŵr yn y dyfodol, os ydym yn credu bod hynny er lles busnesau Cymru a chwsmeriaid Cymru.

O ran y taliad am wasanaethau ecosystem, rwyf wedi gweld drafft cyntaf yr adroddiad y cyfeiriodd lefarydd y Ceidwadwyr ato. Ar hyn o bryd rwy'n adolygu hwnnw gyda'm swyddogion, ond byddaf yn rhoi addewid i chi y bydd yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a bydd yn sicr yn cael ei gyhoeddi y tymor hwn, cyn toriad yr haf.

O ran materion eraill, rwy'n cydnabod pam y mae'r Aelod yn ceisio pwysu'n galetach arnaf ynglŷn â gosod mesuryddion, ac rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n maddau imi am fod yn swil ar y mater hwn. Fodd bynnag, mae hyn yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, ac nid wyf yn dymuno cymryd rhan mewn trafodaeth rhy fanwl ar y materion hyn hyd nes y byddwn mewn sefyllfa i wneud penderfyniad. Fodd bynnag, a gaf i ddweud hyn: os ydym yn bwrw ymlaen â rhaglen i osod mesuryddion ledled Cymru, rwy'n rhoi addewid y byddwn yn gweithio gyda chwmnïau dŵr, rheoleiddwyr a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr i ddatblygu opsiynau ar gyfer gosod mesuryddion ar yr holl gyflenwadau a fydd yn sicrhau bod y broses yn gymesur ac yn deg. Byddwn yn sicrhau bod amgylchiadau ariannol a meddygol deiliaid tai yn cael eu hystyried, a byddwn yn sicrhau bod system o'r fath yn cael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n tarfu cyn lleied â phosibl ar bobl. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, rydym yn cynnal trafodaethau ar y materion hyn; nid yw'r trafodaethau hynny wedi dod i unrhyw gasgliad hyd yma, ac nid ydym eto mewn sefyllfa i wneud unrhyw benderfyniadau ar y materion hyn.

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad? Yn amlwg, rwy'n croesawu'r ffaith bod strategaeth ddŵr gynhwysfawr i Gymru yn cael ei datblygu gan Lywodraeth Cymru, oherwydd mae angen i ni edrych yn integredig ar reolaeth ddŵr yng Nghymru am lawer o resymau sydd yn y datganiad ac sydd yn y strategaeth sy'n cael ei hymgyngori arni ar hyn o bryd, wrth gwrs. Mae'r ymgyngoriad yn fyw wrth i ni siarad, ac, felly, nid wyf yn siŵr beth yw'r cymhelliad am y datganiad hwn heddiw, ond yn sicr mae yna gyfeiriad at ambell i beth y liciwn i bigo i fyny arnynt. Ni wnaf i ailadrodd rhai o'r cwestiynau sydd eisoes wedi cael eu gofyn.

Mae un cwestiwn gennyf i am y cyfeiriad rydych chi'n ei wneud at 'abstraction' ddŵr. Rydych yn dweud efallai y bydd angen adolygiad sylfaenol ar y system drwyddedu 'abstraction' yng Nghymru. A gaf i ofyn a oes gennych chi syniad, oherwydd mae'r ymgyngoriad hwn wedi cau ers mis Mawrth, pryd fyddwch chi'n dod i benderfyniad a oes angen adolygiad o'r fath? Gan fod cyfle i ofyn, a ydych chi hefyd yn cytuno y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru wahaniaethu rhwng 'abstraction' ar gyfer ynni hydro, lle mae 100% o'r ddŵr yn cael ei ddychwelyd i afonydd, nentydd neu beth bynnag, a mathau eraill o 'abstraction'? Byddai ddiddordeb gennyf glywed eich barn chi ynglŷn â hynny.

Rwyf hefyd yn croesawu'n fawr yr awgrym bod ymgyngori yn mynd i fod—neu'r cyhoeddiad bod ymgyngori yn mynd i fod—ar safonau cenedlaethol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy. Mae nifer ohonom yn y fan hon yn y Siambr wedi cyfeirio at enghreifftiau clodwiw iawn mewn gwahanol rannau o Gymru, a byddwn yn gobeithio'n fawr fod y Llywodraeth yn awyddus i hynny gael ei efelychu ar draws Cymru. Rwyf hefyd yn croesawu, yn naturiol, eich bod yn ategu'r angen i ddatganoli pob agwedd ar bolisi ddŵr a charthffosiaeth i Gymru, oherwydd pan gyflwynodd Llafur y setliad datganoli gwreiddiol, wrth gwrs, dadleuodd Plaid Cymru yn gryf o blaid datganoli pob cyfrifoldeb dros ddŵr. Rwyf yn falch bod Llafur, erbyn hyn, yn cytuno â ni ac eich bod wedi datgan hynny yn eich tystiolaeth i Silk. Mae setliad presennol yn creu dryswch ac ansicrwydd—nid oes amheuaeth o hynny. Roeddwn yn siomedig, serch hynny, pan roddodd Plaid Cymru welliannau i'r Bil Dŵr yn San Steffan na chawsom gefnogaeth Aelodau Seneddol Llafur i gyflawni'r bwriad y mae Llywodraeth Llafur Cymru yn dweud ei bod am ei gyflawni.

Rwyf yn croesawu'r adolygiad yr ydych yn cyfeirio ato o oblygiadau ymarferol uno'r ffiniau rheoliadol a'r ffiniau daearyddol ar gyfer cyfrifoldebau dros ddŵr, oherwydd, yn fy marn i, nid yw'r setliad neu'r drefn fel y mae yn gwneud synnwyr. Rydym yn sôn am reoleiddio ar hyd y ffin ddaearyddol mewn cymaint o feysydd eraill nad wyf i, mewn gwirionedd, yn gweld y dylai ddŵr fod yn wahanol. Fodd bynnag, rydych yn dweud, fel rhan o'r broses honno, eich bod chi angen i bawb sydd â diddordeb mewn ddŵr i weithio gyda'i gilydd i symud tuag at hynny. Wel, wrth gwrs, yr eliffant yn yr ystafell yw Llywodraeth San Steffan, am wn i. Rydych eisoes wedi cyfeirio at rai trafodaethau yr ydych wedi eu cael. Efallai fydddech hefyd yn gallu trafod ymhellach gydag Aelodau Seneddol Llafur.

May I thank the Minister for his statement? Clearly, I welcome the fact that there is a comprehensive water strategy for Wales being developed by the Welsh Government, because we need to look in an integrated manner at water management in Wales for many of the reasons contained within the statement and within the strategy that is being consulted upon at present, of course. The consultation is live as we speak, and, therefore, I am not sure what the motive is behind this statement today, but there are references to a few things that I would like to pick up on. I will not reiterate some of the questions that have already been asked.

I have one question on the reference that you make to water abstraction. You mentioned that there may be a need for a fundamental review of the licensing system for abstraction in Wales. May I ask whether you have any idea, because this consultation has closed since March, as to when you will come to a decision on whether you need such a review? As there is an opportunity to ask, do you also agree that Natural Resources Wales should differentiate between abstraction for hydro energy, where 100% of the water is returned to our rivers, streams and so on, and other types of abstraction? I would be interested to hear your view on that.

I also warmly welcome the suggestion that there will be consultation—or the announcement that there will be consultation—on national standards for sustainable drainage systems. Many of us here in the Chamber have referred to very laudable examples in different parts of Wales, and I would very much hope that the Government would be eager for that to be replicated across Wales. I also, naturally, welcome the fact that you endorse the need to devolve all aspects of the water and sewage policy to Wales, because when Labour introduced the original devolution settlement, of course, Plaid Cymru argued strongly in favour of devolving all responsibility for water. I am pleased that Labour has now come to agree with us and that you have stated that in your evidence to Silk. The current settlement creates confusion and uncertainty—there is no doubt about that. I was disappointed, however, that, when Plaid Cymru tabled amendments to the Water Bill in Westminster, we did not get the support of Labour Members of Parliament to achieve the objective that the Labour Welsh Government says that it wants to achieve.

I welcome the review that you referred to of the practical implications of merging the regulatory boundaries and the geographical boundaries when it comes to responsibilities for water, because, in my opinion, the current regime does not make any sense. We are talking about regulating along the geographical boundary in so many other areas that I do not really see that water should be different. However, you say that, as part of that process, you need everyone who has an interest in water to collaborate in order to move towards that aim. Well, of course, the elephant in the room is the Westminster Government, I suppose. You have already mentioned some discussions that you have had. Perhaps you could also discuss that further with Labour Members of Parliament.

Cyfeiriodd llefarydd y Ceidwadwyr at y ffaith ein bod yn gyfoethog o ran dŵr, ac rydym yn gymharol gyfoethog, o'i gymharu â gwledydd eraill, ond efallai nad ydym cweit mor gyfoethog ac yr ydym yn ei feddwl weithiau. Mae'r pwynt yn cael ei wneud yn gyson ynglŷn â lefel y defnydd o ddŵr, sydd wedi ei gynyddu. Mae eto yn y datganiad heddiw. Bydd argaeledd dŵr yn mynd yn fwy pwysig wrth i ni weld rhai o'r canlyniadau newid hinsawdd, wrth gwrs, a mwy o sychder yn y dyfodol. Yn amlwg, rwyf yn croesawu strategaethau i leihau defnydd o ddŵr fel un rhan o'r 'approach' at ddatrys hynny, ond liciwn wybod hefyd os yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i gynyddu capasiti storio dŵr yng Nghymru, naill ai drwy godi cronfeydd newydd neu drwy gynyddu capasiti cronfeydd presennol.

The Conservative spokesperson referred to the fact that we are rich in water, and we are rich, compared to other countries, but perhaps not quite as rich as we may assume. The point is regularly made about the level of water usage, which has increased. That is referred to in the statement today. The availability of water will become more important as we see some of the impacts of climate change, of course, and greater drought in future. Clearly, I welcome strategies to reduce water usage as one part of the approach to solving that, but I would like to know whether the Welsh Government has given any consideration to increasing the capacity for water storage in Wales, either through building new reservoirs or through increasing the capacity of existing reservoirs.

17:03

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Liciwn i ddechrau drwy eich croesawu'n ôl atom yn y bae. Gwn eich bod wedi dioddef o salwch yn ddiweddar, ac rwy'n credu bod pawb ar draws y Siambr yn falch iawn o'ch gweld yn ôl yn eich lle.

I would like to start by welcoming you back here to the bay. I know that you have been ill recently, and I think that everyone across the Chamber is very pleased to see you back in your place.

Pan ydych yn sôn am ganllawiau NRW ar 'abstraction', byddwn yn cytuno gyda chi bod gwahaniaeth rhwng y fath o 'abstraction' sydd yn cael ei defnyddio ar gyfer ynni hydro ac ar gyfer mathau eraill o ddefnydd o ddŵr. Rydych yn ymwybodol bod NRW wedi newid ei ganllawiau ar gyfer datblygu hydro yn ddiweddar, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n gyfforddus iawn gyda sut y mae NRW wedi bod yn symud i sicrhau bod gan bobl gyfle i gael y fath o drwydded sydd ei hangen er mwyn datblygu cynlluniau hydro. Felly, rwy'n gobeithio bod y polisi'n symud yn y cyfeiriad y mae Aelod eisiau ei weld.

When you talk about NRW's guidance on abstraction, I would agree with you that there is a difference between the kind of abstraction that is used for hydropower and for other types of water usage. You are aware that NRW has changed its guidelines for hydro developments recently, during the past year. I am comfortable with the way in which NRW has moved to ensure that people have an opportunity to get the kind of licence they need to develop hydro schemes. So, I hope that that policy moves in the direction that the Member wants to see.

Rwy'n falch bod cytundeb ar broses Silk. Byddwn yn dweud cwpl o bethau wrth yr Aelod wrth gytuno â chraidd ei bwynt. Yn gyntaf, peidiwch â bod â chymaint o obsesiwn gyda Llywodraeth San Steffan—meddyliwch yn fwy am yr hyn yr ydym yn gallu ei wneud yn y fan hon yng Nghymru, fel Llywodraeth Cymru, ac fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda phobl Cymru. Gwn fod gennych ryw fath o obsesiwn gyda San Steffan, ond byddwn yn awgrymu eich bod efallai'n symud i ffwrdd o hynny. Hefyd, ar y pryd, peidiwch â chwarae 'games' gyda'r broses ddatganoli. Os ydych o ddifrif obeutu datganoli, ac os ydych o ddifrif obeutu a'r broses o ddeddfu i sicrhau ein bod yn newid y setliad sydd gennym, peidiwch â chwarae â gwelliannau i Filiau sy'n gwneud rhywbeth arall. Meddyliwch obeutu'r impact ar Gymru, ar y bobl sy'n gweithio yn y sector, ac ar y bobl sy'n dibynnu ar y gwasanaethau sydd gennym. Os gwnewch hynny, a chymryd y broses hon o ddifrif, mi fyddwch yn cytuno â'r hyn yr ydym wedi bod yn ei ddweud yn y fan hon: cael y cytundeb gwleidyddol sydd ei angen, ac wedyn gydweithio â phobl i sicrhau bod y broses yn gweithio a bod gennym y pwerau angenrheidiol, a'n bod yn cael hynny mewn ffordd y gallwn reoli'r broses a sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn parhau.

I am pleased that there is an agreement on the Silk process. I would say a couple of things to the Member in agreeing with the core elements of his point. First, do not have such an obsession with the Westminster Government—think more about what we can do here in Wales, as the Welsh Government, and as the National Assembly for Wales, with the people of Wales. I know that you have some kind of obsession with Westminster, but I would suggest that you should perhaps shift away from that. At the same time, do not play games with the devolution process. If you are serious about devolution, and if you are serious about the process of legislating to ensure that we change the settlement that we have, do not play games with amendments to Bill that do something else. Think about the impact on Wales, on the people who work in the sector, and on the people who depend on the services that we have. If you do that, and take this process seriously, you would agree with what we have been saying here: get the necessary political agreement, and then collaborate with people to ensure that the process works and that we have the necessary powers, and have them in such a way that we can manage the process and ensure that these services continue.

Chwarae plant yw gwelliant ar gyfer proses arall. Nid ydych yn cael datganoli trwy araith neu ddatganiad i'r wasg. Os ydych o ddifrif, cefnogwch y broses sydd gennym yn y fan hon, a gwelwn ni ddatganoli'r pwerau hyn. Os ydych am chwarae plant, chwaraewch rywle arall; rydym o ddifrif obeutu'r broses hon.

An amendment to another process is playing games. You do not get devolution through a speech or a press statement. If you are serious, support the process that we have here, and we will see the devolution of these powers. If you want to play games, play somewhere else; we are serious about this process.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dywedaf hyn: mae'n sôn am ddatblygu'r rhwydwaith sydd gennym yng Nghymru—storio dŵr y mae ef wedi ei awgrymu—ond mae fframwaith ac mae rhwydwaith dŵr yng Nghymru. Un o bwrpasau'r strategaeth yw sicrhau bod gennym y rhwydwaith ar gyfer y dyfodol fydd ei angen arnom fel cenedl ac fel cymuned. Proses o drafod yw hyn. Petaem yn dod i'r casgliad bod angen cryfhau ac ehangu'r fframwaith neu'r rhwydwaith sydd gennym ar hyn o bryd, mi fydd hynny'n gwestiwn arall, a chwestiwn y bydd yn rhaid inni ei wynebu ar y pryd.

I will say this: he talks about developing the network that we have in Wales—he suggested water storage—but there is a framework and a water network in Wales. One purpose of the strategy is to ensure that we have the network for the future that we will need as a nation and a community. This is a process of negotiation. Were we to come to the conclusion that we need to strengthen and broaden the framework or the network that we have at present, that would be another question, and a question that we would have to face at the time.

17:07

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog, am y datganiad heddiw.

Thank you, Minister, for the statement today.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I also thank the Minister very much for his enthusiastic participation in last year's inquiry by the Environment and Sustainability Committee into this very issue. I think that issues of water supply, be they issues of quality, quantity or security, are of increasing concern around the world, and, indeed, around this Chamber. As such, I am pleased to see that we are continuing this conversation in Wales with the publication of the strategy consultation document just last month. While Wales is unlikely, I think it is fair to say, to see supply jeopardised to the same degree as other parts of the world, it is nevertheless essential that we take the issue seriously and that we advance a meaningful discussion of what is best for all aspects of our country in relation to water supply.

Diolchaf hefyd i'r Gweinidog yn fawr iawn am gymryd rhan frwdfrydig yn ymchwiliad y llynedd gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'r union fater hwn. Rwy'n meddwl bod materion sy'n ymwneud â chyflenwad dŵr, boed yn ymwneud ag ansawdd, swm neu ddiogelwch, yn peri pryder cynyddol o amgylch y byd, ac, yn wir, o amgylch y Siambr hon. Fel y cyfryw, rwy'n falch o weld ein bod yn parhau â'r sgwrs hon yng Nghymru trwy gyhoeddi'r ddogfen ymgynghorol ar y strategaeth y mis diwethaf. Mae cyflenwad Cymru'n annhebygol o gael ei beryglu i'r un graddau â rhannau eraill o'r byd, credaf ei bod yn deg dweud, er hynny mae'n hanfodol ein bod yn cymryd y mater o ddifrif a'n bod yn hyrwyddo trafodaeth ystyrlon o'r hyn sydd orau i bob agwedd ar ein gwlad mewn cysylltiad â chyflenwad dŵr.

With these points in mind, I want to return briefly in my questioning to issues that I first raised during that water inquiry in committee. The first of these was in terms of collaborative working to combat poverty. As you will be aware, Welsh Water is not the cheapest on the market at the present time, and consumers are not able to switch suppliers in the way that is the case with other utilities. This is particularly important in terms of registered social landlords. At the time, your officials highlighted the work of the water industry forum, which I believe you periodically chair, where water companies and the WLGA work in partnership towards developing support and advice services. Minister, will you outline what specific progress you feel has been made during the last 12-month period towards tackling poverty and this collaborative working agenda? I note, in asking this, that the report points to the need for further research to take place. In doing so, I would also be grateful if you could outline what form and time frame you expect to see that further research take.

Gyda'r pwyntiau hyn mewn golwg, rwyf am ddychwelyd yn gryno yn fy nghwestiynau at faterion a godais yn gyntaf yn ystod yr ymchwiliad dŵr hwnnw yn y pwyllgor. Y cyntaf o'r rhain oedd gweithio ar y cyd i drechu tlodi. Fel y byddwch yn ymwybodol, nid Dŵr Cymru yw'r rhataf ar y farchnad ar hyn o bryd, ac nid yw defnyddwyr yn gallu newid cyflenwyr yn yr un modd ag y gallant gyda chyfleustodau eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Ar y pryd, tynnodd eich swyddogion sylw at waith y fforwm diwydiant dŵr yr ydych yn ei gadeirio o dro i dro, rwy'n credu, lle mae cwmnïau dŵr a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn datblygu gwasanaethau cymorth a chyingor. Weinidog, a wnewch chi amlinellu pa gamau penodol yr ydych yn teimlo sydd wedi cael eu cymryd yn ystod y 12 mis diwethaf tuag at drechu tlodi a'r agenda gydweithredol hon? Rwy'n nodi, wrth ofyn hyn, bod yr adroddiad yn cyfeirio at yr angen i gynnal rhagor o ymchwil. Wrth wneud hynny, byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallech amlinellu pa ffurf ac amserlen yr ydych yn disgwyl eu gweld ar gyfer yr ymchwil ychwanegol honno.

The second point I raised in committee, and which I wish to raise today, is your response to the infrastructure investment programme undertaken by Glas Cymru in recent years, and what your assessment is of the state and adequacy of that investment programme in terms of future needs.

Yr ail bwynt a godwyd gennyf yn y pwyllgor, ac yr wyf am ei godi heddiw, yw eich ymateb i'r rhaglen buddsoddi mewn seilwaith a gynhaliwyd gan Glas Cymru yn y blynyddoedd diwethaf, a beth yw eich asesiad o gyflwr y rhaglen fuddsoddi a pha mor ddigonol ydyw o ran anghenion y dyfodol.

Given the stated desire to bring these items around abstraction, which I also raised in committee, to your attention, will you please outline what assessment has already been made of the likely economic impact, especially to the tourism sector, of any exemptions to current arrangements changing? That is a matter that has been raised with me on several occasions.

Finally, it is also significant that the consultation makes reference to fracking. As you will be aware, this process requires huge amounts of water, and much of that water ends up being heavily polluted by both fracking chemicals and whatever materials it encounters when pumped into the ground. Minister, would you agree with me that, were Wales ever to explore commercial-scale fracking, it would be essential for us to investigate fully its implications for aquifer contamination? There would also be a need for the treatment of polluted water to be managed on-site so as to minimise impacts to geology and the environment.

O ystyried y dymuniad a nodwyd i ddod â'r eitemau hyn sy'n ymwneud â thynnu dŵr, a godais yn y pwyllgor hefyd, at eich sylw, a wnewch chi amlinellu pa asesiad sydd eisoes wedi cael ei gynnal o'r effaith economaidd debygol, yn arbennig ar y sector twristiaeth, pe byddai unrhyw eithriadau i'r trefniadau presennol yn newid? Mae hwnnw'n fater sydd wedi'i godi gyda mi ar sawl achlysur.

Yn olaf, mae hefyd yn arwyddocaol bod yr ymgynghoriad yn cyfeirio at ffracio. Fel y byddwch yn ymwybodol, mae'r broses hon yn gofyn am lawer iawn o ddŵr, ac mae llawer o'r dŵr yn y pen draw yn cael ei lygru'n drwm gan gemegau ffracio a pha bynnag ddeunyddiau y mae'n dod ar eu traws wrth gael ei bwmpio i mewn i'r ddaear. Weinidog, a fydddech yn cytuno â mi y byddai'n hanfodol ein bod yn ymchwilio'n llawn i oblygiadau ffracio o ran halogi'r ddyfrhaen, pe byddai Cymru fyth yn ei ystyried ar raddfa fasnachol? Byddai angen hefyd i'r broses o drin dŵr llygredig gael ei rheoli ar y safle er mwyn lleihau effeithiau i ddaearag a'r amgylchedd.

17:10

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank the Liberal Democrat spokesperson for his words this afternoon. To answer his final point first, in terms of any potential application for fracking, the amount of water required it is likely to be relatively small compared with that required for public supplies, and it would mostly be needed during the initial development of any exploitation of shale gas. Operators would clearly be subject to the same controls and constraints with respect to water availability and pollution as any other industrial user. I would remind Members also that, in Wales, we generally do not use aquifers for domestic water supply. Although we do so in some parts of the country, generally we use impound in reservoirs for water supply.

In terms of your wider points, I am grateful to you for your description of my participation in the committee's work as 'enthusiastic'. I was, I hope, an enthusiastic member of the committee in previous years, and I hope that I am now an enthusiastic witness in front of committee. I certainly welcome the work that the committee undertook, both under the previous Chair and the present Chair, and I hope that the committee, in its investigations and scrutiny, will continue to play that positive part in the overall development of policy.

In terms of your point on poverty, I think the points you make are well made, and are understood around the Chamber. May I say this? A number of your points on poverty and on the investment programme followed by Welsh Water are of course related to the current round of discussions with Ofwat on the next pricing period. I have met Ofwat formally twice in the last few months in order to discuss these matters. I am meeting Ofwat again tomorrow. I have also met with Welsh Water to discuss these issues, and I will be meeting it again in the next month.

Hoffwn ddiolch i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei eiriau brynhawn heddiw. I ateb ei bwynt olaf yn gyntaf, o ran unrhyw gais posibl ar gyfer ffracio, mae'n debygol mai cymharol ychydig o ddŵr sy'n ofynnol, o'i gymharu â'r hyn sydd ei angen ar gyfer cyflenwadau cyhoeddus, a byddai ei angen yn bennaf yn ystod camau cychwynnol y gwaith o elwa ar nwy siâl. Byddai gweithredwyr yn amlwg yn gorfod cadw at yr un rheolaethau a chyfyngiadau o ran dŵr a llygredd ag unrhyw ddefnyddiwr diwydiannol arall. Hoffwn atgoffa Aelodau hefyd nad ydym, yng Nghymru, yn gyffredinol yn defnyddio dyfrhaenau ar gyfer y cyflenwad dŵr domestig. Er ein bod yn gwneud hynny mewn rhai rhannau o'r wlad, yn gyffredinol rydym yn defnyddio dŵr sy'n cael i gronni mewn cronfeydd ar gyfer y cyflenwad.

O ran eich pwyntiau ehangach, rwy'n ddiolchgar ichi am ddweud fy mod wedi cymryd rhan 'frwdfrydig' yng ngwaith y pwyllgor. Roeddwn, rwy'n gobeithio, yn aelod brwdfrydig o'r pwyllgor yn y blynyddoedd blaenorol, ac rwy'n gobeithio fy mod bellach yn dyst brwdfrydig o flaen y pwyllgor. Rwy'n sicr yn croesawu'r gwaith a wnaeth y pwyllgor, o dan y Cadeirydd blaenorol a'r Cadeirydd presennol, ac rwy'n gobeithio y bydd y pwyllgor, yn ei ymchwiliadau a'i waith craffu, yn parhau i chwarae rhan gadarnhaol yn natblygiad cyffredinol y polisi.

O ran eich pwynt am dlodi, rwy'n meddwl bod y pwyntiau a wnewch yn cael eu gwneud yn dda, ac yn cael eu deall o gwmpas y Siambr. A gaf fi ddweud hyn? Mae nifer o'r pwyntiau ar dlodi ac ar raglen fuddsoddi Dŵr Cymru, wrth gwrs, yn gysylltiedig â'r rownd bresennol o drafodaethau gydag Ofwat ar y cyfnod prisio nesaf. Rwyf wedi cyfarfod ddwywaith ag Ofwat yn ffurfiol yn ystod y misoedd diwethaf er mwyn trafod y materion hyn. Rwy'n cyfarfod ag Ofwat eto yfory. Rwyf hefyd wedi cyfarfod gyda Dŵr Cymru i drafod y materion hyn, a byddaf yn ei gyfarfod eto yn ystod y mis nesaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We do work collaboratively with organisations and businesses and other stakeholders in this field, and we will continue to do so. I am anxious to ensure that Welsh Water's price regime is sufficient to ensure sufficient investment in the infrastructure that we require while, at the same time, being affordable for customers across Wales. I hope that that balance is something that we will be able to achieve over the coming months.

In terms of the further points that you made on abstraction, you are aware of other consultations taking place on this matter at the moment, and we are also consulting jointly with the Department for Environment, Food and Rural Affairs on some of these issues. Those matters will be addressed before the summer recess.

Rydym yn gweithio ar y cyd â sefydliadau a busnesau a rhanddeiliaid eraill yn y maes hwn, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Rwy'n awyddus i sicrhau bod trefn brisio Dŵr Cymru yn ddigon i sicrhau buddsoddiad digonol yn y seilwaith y mae arnom ei angen, a'i bod, ar yr un pryd, yn fforddiadwy i gwsmeriaid ar draws Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd y cydbwysedd hwnnw yn rhywbeth y byddwn yn gallu ei gyflawni dros y misoedd nesaf.

O ran y pwyntiau eraill a wnaethoch ynglŷn â thynnu dŵr, rydych yn ymwybodol o ymgynghoriadau eraill sy'n cael eu cynnal ar y mater hwn ar hyn o bryd, ac rydym hefyd yn ymgynghori ar y cyd ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar rai o'r materion hyn. Bydd y materion hynny'n cael sylw cyn toriad yr haf.

17:14

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rydych yn cyfeirio yn eich datganiad at weithredu i sicrhau gwelliannau parhaol—rhywbeth y byddwn yn ei groesawu'n fawr. Rydych newydd ddweud hefyd bod yn rhaid i ni ganolbwyntio ar yr hyn y gallem gyflawni gyda'r pwerau sydd gennym. Felly, hoffwn gyfeirio at achos penodol, sef Llyn Padarn; dŵr lle mae safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig wedi ei llygru dros nifer o flynyddoedd, a lle mae poblogaeth y pysgodyn prin y torgoch ar fin diflannu o'r llyn. Roedd achos llys yr wythnos diwethaf lle cyfaddefodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod ei brosesau arolygu wedi bod yn ddifffygol, a thynnodd allan o'r achos llys.

Rydym yn gwybod bod llygredd o garthffosiaeth sydd wrth graidd y broblem, ac wrth gwrs mai Cyfoeth Naturiol Cymru, a'i ragflaenwyr, yw'r rheolydd yn yr achos hwn i Ddŵr Cymru. Yr hyn rwyf eisiau gofyn i chi heddiw, yn wyneb y datganiad hwn, ynglŷn â'r heriau yw hyn: pa sicrwydd y gallwch chi ei roi i drigolion yr ardal, i ddefnyddwyr y llyn a physgotwyr y bydd bioamrywiaeth ac ansawdd dŵr y llyn a'r afonydd o fewn y dalgylch yn cael eu gwarchod i'r dyfodol?

You refer in your statement to taking action to ensure continuous improvement—something that I would warmly welcome. You have also just said that we must concentrate on what we can achieve with the powers that we have. So, I would like to refer to a particular case, namely Llyn Padarn; a body of water where an area of special scientific interest has been polluted over a number of years, and where the population of the rare arctic char is about to become extinct. There was a court case last week where NRW admitted that its inspection processes had been deficient, and it withdrew from the court case.

We know that pollution from sewage is at the heart of the problem, and of course Natural Resources Wales, and its predecessors, is the manager in this case for Welsh Water. What I want to ask you today, in the light of this statement, on the challenges that we face is this: what assurances can you give to the residents of the area, those who use the lake and fishermen that biodiversity and the water quality in the lake and the rivers within the catchment area will be protected for the future?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:15

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n ymwybodol o'r mater y mae'r Aelod yn awyddus iawn i godi gyda mi y prynhawn yma. Bydd yr Aelod hefyd yn ymwybodol fy mod yn mynd i fod yn garcus yn y ffordd rwy'n ymateb iddo, oherwydd mae'r materion y mae wedi'u disgrifio, fel y mae wedi datgan, wedi bod gerbron y llysoedd. Rwy'n awyddus iawn i sicrhau fy mod yn cael cyfle i ystyried yn llawn goblygiadau hynny cyn fy mod yn ateb yn llawn. Mae'r Aelod wedi gohebu ar hyn ar sawl achos yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a byddaf yn ymateb yn llawn i'r Aelod drwy ohebiaeth.

I am aware of the issue that the Member is very eager to raise with me this afternoon. The Member will also be aware that I am going to be very careful in the way that I respond to him, because the issues that he has described, as he has said, have been before the courts. I am very eager to ensure that I have an opportunity to consider fully the implications of that before I respond in full. The Member has corresponded on this issue several times over the last few years, and I will be making a full response to the Member through correspondence.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:16

Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu Strategol Morol a Physgodfeydd

On 26 November last year, I launched the Wales marine and fisheries strategic action plan. I am pleased today to give my third six-monthly statement on integrated marine and fisheries matters. I will explain the progress that we have made and identify next steps. I have provided a detailed supporting document.

Statement: Update on the Marine and Fisheries Strategic Action Plan

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

Ar 26 Tachwedd y llynedd, lansiais y cynllun gweithredu strategol ar gyfer môr a physgodfeydd Cymru. Rwy'n falch heddiw i roi fy nhrydydd datganiad chwe-misol ar faterion integredig y môr a physgodfeydd. Byddaf yn esbonio'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni ac yn nodi'r camau nesaf. Rwyf wedi darparu dogfen ategol fanwl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I do not underestimate the size of the task and the challenge. I took the decision to bring together marine and fisheries in Welsh Government last year to deliver extra capacity. I will continue to look across my portfolio to try to release additional resources. I am grateful to the Environment and Sustainability Committee for its continuing work and for offering insight and guidance. I trust that the committee will recognise how much we have prioritised and progressed marine matters in the last year. Marine planning will have a positive impact on our seas for years to come. On 3 February, we launched our consultation on the draft statement of public participation for the Welsh national marine plan. That set out proposals on how and when the Welsh Government will engage with the public on marine planning.

I will shortly announce a refreshed approach to external engagement for marine policy. This will ensure that the wide range of groups with an interest in Welsh seas will receive regular information on progress. They will also be able to participate in developing our work on a task and finish basis. We will build on core representation from existing interest groups to form a strategic group across both marine policy and delivery. I want that new group to build on the positive momentum and input that emerged from the review of marine conservation zones, which developed some really useful ideas.

For marine planning to succeed, evidence that is fit for purpose is vital. We have undertaken initial work to scope the available marine evidence and identified opportunities for further improvement. This will soon be made available for comment, along with a marine evidence portal showing relevant marine spatial data sets. I, together with UK Ministers, consulted on monitoring arrangements for the delivery of an ecosystem assessment under the marine strategy framework directive. I will shortly publish our response to the consultation.

We are committed to the principles of integrated coastal zone management. The Welsh national marine plan has a legal duty to take all reasonable steps to be compatible with our land plans and we will ensure that it does so. My officials have reviewed the relevant terrestrial plans that the marine plan will need to work with. We will discuss our findings with the marine planning stakeholder reference group and also with the relevant planning authorities. The marine planning process will, of course, also take account of the principles set out in our recent consultation document, 'Positive Planning: Proposals to Reform the Planning System in Wales'.

Marine planning will incorporate the ecosystem approach. It will include the requirements of the marine strategy framework directive, which requires us to maintain or achieve good environmental status of our waters by 2020. The integration of these two processes will ensure that the benefits of good environmental status are properly captured in marine planning.

Nid wyf yn tanbrizio maint y dasg a'r her. Gwnes y penderfyniad i ddod â'r môr a physgodfeydd at ei gilydd o fewn Llywodraeth Cymru y llynedd er mwyn sicrhau capasiti ychwanegol. Byddaf yn parhau i edrych ar draws fy mhortffolio i geisio rhyddhau adnoddau ychwanegol. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd am ei waith parhaus ac am gynnig dirnadaeth ac arweiniad. Hyderaf y bydd y pwyllgor yn cydnabod faint yr ydym wedi blaenoriaethu a datblygu materion y môr yn y flwyddyn ddiwethaf. Bydd cynllunio morol yn cael effaith gadarnhaol ar ein moroedd am flynyddoedd i ddod. Ar 3 Chwefror, lansiwyd ein hymgyngoriad ar y datganiad drafft o gyfranogiad y cyhoedd ar gyfer cynllun morol cenedlaethol Cymru. Roedd yn nodi cynigion ar sut a phryd y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r cyhoedd ar gynllunio morol.

Byddaf yn cyhoeddi cyn bo hir dull newydd a ffres o ymgysylltu â sefydliadau allanol ynglŷn â pholisi morol. Bydd hyn yn sicrhau y bydd yr ystod eang o grwpiau sydd â budd ym moroedd Cymru yn derbyn gwybodaeth reolaidd am yr hyn a gyflawnir. Byddant hefyd yn gallu cymryd rhan mewn datblygu ein gwaith ar sail gorchwyl a gorffen. Byddwn yn adeiladu ar gynrychiolaeth graidd y grwpiau buddiant presennol i ffurfio grŵp strategol ar gyfer polisi morol ac ar gyfer rhoi'r polisi ar waith. Rwyf am i'r grŵp newydd adeiladu ar y momentwm a'r mewnbwn cadarnhaol a ddeilliodd o'r adolygiad o'r parthau cadwraeth morol, lle y datblygwyd rhai syniadau defnyddiol iawn.

Er mwyn i gynllunio morol lwyddo, mae'n hanfodol cael tystiolaeth sy'n addas at y diben. Rydym wedi gwneud gwaith cychwynnol i bennu cwrpas y dystiolaeth forol sydd ar gael a nodi cyfleoedd ar gyfer ei gwella. Bydd hwn ar gael yn fuan i bobl roi eu sylwadau arno, ynghyd â phorth tystiolaeth forol sy'n dangos setiau data gofodol morol perthnasol. Rwyf i, ynghyd â Gweinidogion y DU, wedi ymgynghori ar drefniadau monitro ar gyfer cyflwyno asesiad ecosystem o dan gyfarwydddeb fframwaith y strategaeth forol. Byddaf yn cyhoeddi ein hymateb i'r ymgynghoriad cyn bo hir.

Rydym wedi ymrwymo i egwyddorion rheolaeth integredig ar barthau arfordirol. Mae dyletswydd gyfreithiol i gynllun morol cenedlaethol Cymru gymryd pob cam rhesymol i fod yn gydnaws â'n cynlluniau ar gyfer y tir a byddwn yn sicrhau ei fod yn gwneud hynny. Mae fy swyddogion wedi adolygu'r cynlluniau daearol perthnasol y bydd angen i'r cynllun morol weithio gyda nhw. Byddwn yn trafod ein canfyddiadau gyda'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid ar gyfer cynllunio morol a hefyd gyda'r awdurdodau cynllunio perthnasol. Bydd y broses gynllunio morol, wrth gwrs, hefyd yn ystyried yr egwyddorion a nodwyd yn ein dogfen ymgynghori ddiweddar, 'Cynllunio Cadarnhaol: Cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru'.

Bydd cynllunio morol yn cynnwys y dull ecosystem. Bydd yn cynnwys gofynion cyfarwydddeb fframwaith y strategaeth forol, sy'n ei gwneud yn ofynnol inni gynnal neu gyflawni statws amgylcheddol da ar gyfer ein dyfroedd erbyn 2020. Trwy integreiddio'r ddwy broses, gallwn sicrhau bod manteision statws amgylcheddol da yn cael eu diogelu'n briodol yn y broses cynllunio morol.

We are working closely with Natural Resources Wales to ensure that marine licensing in Wales is delivered to a high standard. Through the environment Bill White Paper I have consulted on amending the fee-charging powers to ensure that administering the regime is cost neutral. I am initiating a marine licensing fees review, including further possible exemptions to the need for a marine licence. I want to ensure that developments can take place in a way that minimises the burden on industry while protecting our marine environment.

The effective management of our seas requires proper integration across major policy areas. In my last statement, I undertook to discuss this with ministerial colleagues. There is cross-Government support for integrated marine governance. Cabinet colleagues have agreed to establish a Welsh Government marine strategic governance board to support this, and to further sustainable growth in the Welsh seas through developing combined and coherent policies. This will reassure those who have suggested that we are not putting marine matters at the heart of our policy development.

I remain committed to ensuring that our environmental designations are appropriate and support our wider policy objectives. I have committed the necessary resources in the Welsh Government to ensure that we complete our contribution to a representative and coherent network of marine protected areas by the end of 2016 and fulfil our obligations under the marine strategy framework directive. However, this is a complex task requiring co-ordination between all four administrations in the United Kingdom. I have stated previously that our existing suite of sites already makes a significant contribution to this network. We are working to further enhance this with additional special protection areas for seabirds.

My officials are in discussion with the Department for Environment, Food and Rural Affairs about any further marine conservation zones. DEFRA is considering 37 sites, some of which are in our offshore waters, for its second tranche of designations. No decision has been made yet as to which sites will be proposed in consultation in January 2015. We are keeping in very close touch with DEFRA and will make sure that Welsh stakeholders are fully updated.

The exceptional winter storms had a severe impact on our fishing industry. Pot fishermen were particularly badly affected and suffered a significant amount of lost or damaged equipment. Small crab and lobster boats are at the heart of our fishing industry and support many coastal jobs and families. We will ensure that we will have a fund to help fund lost or damaged gear.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau y cynhelir y gwaith trwyddedu morol i safon uchel yng Nghymru. Trwy Bapur Gwyn y Bil amgylchedd, rwyf wedi ymgynghori ar ddiwygio'r pwerau codi ffioedd i sicrhau bod y broses o weinyddu'r gyfundrefn yn niwtral o ran cost. Rwy'n cychwyn adolygiad o ffioedd trwyddedu morol, gan gynnwys eithriadau ychwanegol posibl i'r angen am drwydded forol. Rwyf am sicrhau y gall datblygiadau ddigwydd mewn ffordd sy'n lleihau'r baich ar y diwydiant yn ogystal â diogelu amgylchedd y môr.

Mae angen integreiddio priodol ar draws meysydd polisi pwysig er mwyn rheoli ein moroedd yn effeithiol. Yn fy natganiad diwethaf, addewais drafod hyn gyda'm cyd-Weinidogion. Ceir cefnogaeth ar draws y Llywodraeth i lywodraethu morol integredig. Mae cydweithwyr yn y Cabinet wedi cytuno i sefydlu bwrdd llywodraethu strategol morol Llywodraeth Cymru i gefnogi hyn, ac i hybu twf cynaliadwy pellach ym moroedd Cymru drwy ddatblygu polisiâu cyfun a chydlynol. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i'r rhai sydd wedi awgrymu nad ydym yn rhoi materion morol wrth wraidd ein datblygiadau polisi.

Rwyf wedi ymrwymo o hyd i sicrhau bod ein dynodiadau amgylcheddol yn briodol ac yn cefnogi ein hamcanion polisi ehangach. Rwyf wedi ymrwymo adnoddau angenrheidiol yn Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn cwblhau ein cyfraniad at rwydwaith cynrychiadol a chydlynol o ardaloedd morol gwarchodedig erbyn diwedd 2016 ac yn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan gyfarwydddeb fframwaith y strategaeth forol. Fodd bynnag, mae hon yn dasg gymhleth sy'n gofyn am gyd-drefnu rhwng pob un o'r pedair gweinyddiaeth yn y Deyrnas Unedig. Rwyf wedi dweud o'r blaen bod ein cyfres bresennol o safleoedd eisoes yn gwneud cyfraniad sylweddol at y rhwydwaith hwn. Rydym yn gweithio i wella hyn ymhellach gydag ardaloedd gwarchodaeth arbennig ychwanegol ar gyfer adar y môr.

Mae fy swyddogion yn trafod gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynglŷn ag unrhyw barthau cadwraeth morol ychwanegol. Mae DEFRA yn ystyried 37 o safleoedd ar gyfer ei hail gyfres o ddynodiadau, ac mae rhai ohonynt yn ein dyfroedd môr mawr. Nid oes penderfyniad wedi cael ei wneud hyd yma pa safleoedd a gynigir yn yr ymgynghoriad ym mis Ionawr 2015. Rydym yn cadw mewn cysylltiad agos iawn â DEFRA a byddwn yn sicrhau bod rhanddeiliaid Cymru yn cael yr holl wybodaeth ddiweddaraf.

Cafodd stormydd eithriadol y gaeaf effaith ddifrifol ar ein diwydiant pysgota. Cafodd pysgotwyr cewyll eu heffeithio'n arbennig o wael a chollwyd neu difrodwyd llawer iawn o offer. Mae cychod bach crancod a chimychiaid wrth wraidd ein diwydiant pysgota ac yn cefnogi llawer o swyddi arfordirol a theuluoedd. Byddwn yn sicrhau y bydd gennym gronfa i helpu i ariannu offer a gollwyd neu a ddifrodwyd.

I also want to ensure that our seafood produce is best used as part of our food strategy and delivers the best return for our fishing industry and coastal communities; our officials are working with the industry on this. We have also promoted the Welsh seafood sector through the Welsh stand at the leading seafood exposition in Brussels last week, where seven Welsh companies were present.

We remain committed to reviewing all of the devolved fisheries legislation to ensure that it is fit for purpose. This includes over 200 items inherited by Welsh Ministers. We have consulted on proposed management measures for the crustacean fisheries. This closed on 20 April, and I will announce proposals on the next steps in the coming months.

We have undertaken a thorough review of the management of cockle fisheries, through formal consultation and specific discussions with gatherers. This has raised a number of complex legal issues. I want to make clear my commitment to the industry, which provides valuable income for a large number of people. In the coming months, I will make an announcement on the next steps, with a view to having a revised cockle management scheme in place for 2015.

I have set some challenging targets for the sustainable growth of aquaculture over the next six years. I plan to provide a road map to help achieve those aims at my next update in six months' time. We need to ensure that we can grant several and regulating Orders more effectively. This has been raised in the Senedd recently with regard to mussel farming in the Menai straits. We can best address this through legislative changes planned through the environment Bill. We have consulted on those issues as part of the environment Bill process, and my officials are in active dialogue with mussel farmers. There is not a complete consensus on this, but we will continue to work with the industry to find the best ways forward, as I remain committed to ensuring that we get the best value for the Welsh economy from this sustainable activity.

In the strategic action plan, I undertook to make a statement on inland fisheries. Before the recess, I will announce our intentions for the more effective and sustainable management of our inland fisheries.

Rwyf hefyd yn awyddus i sicrhau bod ein cynnyrch bwyd môr yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau fel rhan o'n strategaeth fwyd ac yn cyflwyno'r budd mwyaf i'n diwydiant pysgota a chymunedau arfordirol; mae ein swyddogion yn gweithio gyda'r diwydiant ar hyn. Rydym hefyd wedi hyrwyddo sector bwyd môr Cymru trwy stondin Cymru yn y ddangosfa bwyd môr flaenllaw ym Mrwsel yr wythnos diwethaf, lle'r oedd saith o gwmnïau o Gymru yn bresennol.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i adolygu'r holl ddeddfwriaeth ddatganoledig ym maes pysgodfeydd i sicrhau ei bod yn addas at y diben. Mae hyn yn cynnwys dros 200 o eitemau a etifeddwyd gan Weinidogion Cymru. Rydym wedi ymgynghori ar fesurau rheoli arfaethedig ar gyfer y pysgodfeydd cramenogion. Caeodd hwn ar 20 Ebrill, a byddaf yn cyhoeddi cynigion ar y camau nesaf yn y misoedd i ddod.

Rydym wedi cynnal adolygiad trylwyr o reolaeth pysgodfeydd cocos, trwy ymgynghoriad ffurfiol a thrafodaethau penodol gyda chasglwyr. Mae hyn wedi codi nifer o faterion cyfreithiol cymhleth. Rwyf am nodi'n eglur fy ymrwymiad i'r diwydiant, sy'n darparu incwm gwerthfawr i nifer fawr o bobl. Yn ystod y misoedd nesaf, byddaf yn gwneud cyhoeddiad ynglŷn â'r camau nesaf, gyda'r bwriad o gael cynllun rheoli diwygiedig ar waith ar gyfer cocos erbyn 2015.

Rwyf wedi gosod rhai targedau heriol ar gyfer twf cynaliadwy dyframaeth dros y chwe blynedd nesaf. Rwy'n bwriadu darparu map i helpu i gyflawni'r amcanion hynny yn fy natganiad nesaf ymhenn chwe mis. Mae angen inni sicrhau y gallwn roi Gorchmynion rheoleiddio a Gorchmynion pysgodfeydd unigol yn fwy effeithiol. Mae hyn wedi cael ei godi yn y Senedd yn ddiweddar o ran ffermio cregyn gleision yn Afon Menai. Y ffordd orau o fynd i'r afael â hyn yw trwy newidiadau deddfwriaethol a gynlluniwyd trwy gyfrwng y Bil amgylchedd. Rydym wedi ymgynghori ar y materion hynny fel rhan o broses y Bil amgylchedd, ac mae fy swyddogion mewn deialog weithredol â ffermwyr cregyn gleision. Nid oes consensws llwyr ar hyn, ond byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau ymlaen, gan fy mod yn dal wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau ar gyfer economi Cymru o'r gweithgaredd cynaliadwy hwn.

Yn y cynllun gweithredu strategol, rwy'n ymgymryd i wneud datganiad ar bysgodfeydd mewndirol. Cyn y toriad, byddaf yn cyhoeddi ein bwriadau ar gyfer rheoli ein pysgodfeydd mewndirol mewn ffordd fwy effeithiol a chynaliadwy.

17:23

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I proceed, can I say that we have had an uncontrolled electronic device in our midst this afternoon? To add to our embarrassment, it has been making rather 'Carry On' noises. So, I remind Members that, when they are in the Chamber, they should switch off all electronic equipment, especially if they then leave the Chamber. We are attempting to identify the miscreant, and I shall take the matter up with that Member when identified. I call on Russell George.

Cyn imi fynd ymlaen, allaf i ddweud ein bod wedi cael dyfais electronig heb ei reoli yn ein plith y prynhawn yma? Er mwyn ychwanegu at ein hembaras, mae wedi bod yn gwneud synau 'Carry On' braidd. Felly, rwy'n atgoffa'r Aelodau y dylent ddiffodd pob teclyn electronig pan fyddant yn y Siambr, yn enwedig os byddant wedyn yn gadael y Siambr. Rydym yn ceisio dod o hyd i'r drwgweithredwyr, a byddaf yn codi'r mater gyda'r Aelod hwnnw pan fyddaf yn gwybod pwy ydyw. Galwaf ar Russell George.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer; it did not come from me. I thank the Minister for his second statement, and for the supporting document that was sent to Members earlier today, which I have looked through this afternoon.

With regard to that update, there appears to be some slippage in timescales—points 1.1, 2.5, 3.1 and 3.4 have all slipped from the timescales previously outlined, and action point 1.2 has changed slightly from the original plan. I would be grateful if you could outline why this slippage has occurred. Are you confident that you will have the funds necessary to finance this action plan, and what sources of funding will be used? If there is a redeployment of resources, what potential budget lines and work streams will be affected? I know that the Minister is very good at finding previously unknown reserves of cash, such as the extra £2 million for flood defences announced earlier this year.

What progress has been made on plugging the gaps in knowledge? Who have you consulted? Do you now feel that your department has the level of knowledge necessary to develop and properly manage existing protected areas?

What efforts are being made to integrate marine spatial planning into existing Bills—and I am thinking of the planning Bill and the environment Bill—and how will the Government ensure that the fisheries industry will have its views heard in the process for these particular Bills?

What assurances can you give to Welsh fishermen and women that they will not be disproportionately affected by the reduction in quotas for some fish species, which are now divided among the four nations? Finally, what monitoring programmes exist that you could use to help to reduce the cost of programmes contained in this strategy?

Diolch, Ddirprwy Lywydd; nid gennyf i yr oedd yn dod. Diolch i'r Gweinidog am ei ail ddatganiad, ac am y ddogfen ategol a anfonwyd at yr Aelodau yn gynharach heddiw. Rwyf wedi edrych drwyddi brynhawn heddiw.

O ran y diweddariad hwnnw, mae'n ymddangos bod rhywfaint o lithriad mewn amserlenni—mae pwyntiau 1.1, 2.5, 3.1 a 3.4 i gyd wedi llithro o'r amserlenni a amlinellwyd yn flaenorol, ac mae pwynt gweithredu 1.2 wedi newid ychydig o'r cynllun gwreiddiol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu pam y mae'r lithriad hwn wedi digwydd. A ydych chi'n hyderus y byddwch yn cael y cyllid angenrheidiol i ariannu'r cynllun gweithredu hwn, a pha ffynonellau cyllid fydd yn cael eu defnyddio? Os bydd adleoli o ran adnoddau, pa linellau cyllideb a ffrydiau gwaith posibl a fydd yn cael eu heffeithio? Gwn fod y Gweinidog yn dda iawn am ddod o hyd i gronfeydd wrth gefn o arian parod nad oeddem yn gwybod amdanynt yn flaenorol, megis y £2 filiwn ychwanegol ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd a gyhoeddwyd yn gynharach eleni.

Pa gynnydd a wnaed o ran llenwi'r bylchau mewn gwybodaeth? Â phwy ydych chi wedi ymgynghori? A ydych chi'n teimlo erbyn hyn bod gan eich adran y lefel o wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddatblygu a rheoli'n briodol yr ardaloedd gwarchodedig sy'n bodoli eisoes?

Pa ymdrechion sy'n cael eu gwneud i integreiddio cynllunio gofodol morol mewn Biliau presennol—ac rwy'n meddwl am y Bil cynllunio a'r Bil amgylchedd—a sut y bydd y Llywodraeth yn sicrhau y clywir barn y diwydiant pysgodfeydd yn y broses ar gyfer y Biliau penodol hyn?

Pa sicrwydd y gallwch chi ei roi i bysgotwyr a physgotwragedd Cymru na fyddant yn cael eu heffeithio'n anghyfartal gan y gostyngiad mewn cwtôtâu ar gyfer rhai rhywogaethau pysgod, sydd bellach yn cael eu rhannu ymhlith y pedair gwlad? Yn olaf, pa raglenni monitro sy'n bodoli y gallech eu defnyddio i helpu i leihau cost y raglenni a gynhwysir yn y strategaeth hon?

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Conservatives' spokesperson for his quite detailed questions on some aspects. In terms of timescales, I was quite anxious to ensure that the action plan, as published, contained deadlines and timescales to ensure exactly the sort of accountability that you described this afternoon. I believe that we are largely meeting the ambitions that we have set for ourselves. The deadlines and the timescales outlined in the action plan are challenging; they are not easy, and it means that we have had to work extremely hard to keep this on track. I believe that it is broadly on track. You are right to describe some areas where timescales have slipped slightly, but they have slipped by weeks or months, and no longer than that. I am still confident that we will achieve our overall objectives and the vision that I have outlined.

Rwy'n ddiolchgar i lefarydd y Ceidwadwyr am ei gwestiynau eithaf manwl ar rai agweddau. O ran amserlenni, rwy'n dra awyddus i sicrhau bod y cynllun gweithredu, fel y'i cyhoeddwyd, yn cynnwys terfynau amser ac amserlenni er mwyn sicrhau'r union fath o atebolrwydd a ddisgrifiwyd gennych y prynhawn yma. Rwy'n credu ein bod yn cyrraedd yr uchelgeisiau yr ydym wedi'u gosod i'n hunain i raddau helaeth. Mae'r terfynau amser a'r amserlenni a amlinellir yn y cynllun gweithredu yn heriol; nid ydynt yn hawdd, ac mae'n golygu ein bod wedi gorfod gweithio'n galed iawn i gadw hyn ar y trywydd iawn. Rwy'n credu ei fod yn fras ar y trywydd iawn. Rydych yn gywir i ddisgrifio rhai meysydd lle mae amserlenni wedi llithro ychydig, ond maent wedi llithro gan wythnosau neu fisoedd, a dim mwy na hynny. Rwy'n dal yn ffyddiog y byddwn yn cyflawni ein hamcanion cyffredinol a'r weledigaeth a amlinellwyd gennyf.

The finances that we have available to us are as in the budget, which has already been subject to scrutiny and which you have debated and discussed in committee. At the moment, we are looking at the finances and resources available to us. There are some matters that we will need to address over the coming weeks and months, and we may potentially have to reprioritise some of our activities and ambitions. If we do reprioritise, then that is a matter that I will report to the Assembly.

In terms of the knowledge gaps, it is not true to assume or assert that the knowledge gaps are within the department. We do have significant gaps in our knowledge regarding what is in the natural environment, and a lot of our work seeks to ensure that we are able to fill those gaps with knowledge, research and understanding, which we currently do not always have in all areas. You will be aware of the investments that we have made over the last few years to ensure that that knowledge increases; we are continuing to make those investments, and will do so into the future.

In terms of the involvement of stakeholders, you specifically discussed the fishing industry, and we have supported the strengthening of the representation of the fishing industry to ensure that we have more structured engagement and conversations with the industry. I believe that that is going well. We have a network now, and a structure of groups with which we are able to have conversations. That is something that we have not always had in the past. So, we have a far more structured dialogue now, not only with the industry, but other stakeholders as well, and I believe that that is working well.

On your final question regarding the Welsh industry not being disproportionately affected by the changes in quota management, throughout my time in office, I have discussed with the DEFRA the way in which we manage the quota on a UK basis. We have agreed, as you are aware, the devolution of fleet management and quota management. At the moment, I am confident that the Welsh fleet will not be disadvantaged by the changes made to the quota, but if changes are made in particular to the under-10m quota, that is something I will address at the time.

Mae'r cyllid sydd gennym ar gael i ni fel ag yn y gyllideb, sydd eisoes wedi bod yn destun craffu ac yr ydych wedi ei ddadlau a'i drafod yn y pwyllgor. Ar hyn o bryd, rydym yn edrych ar y cyllid a'r adnoddau sydd ar gael i ni. Mae rhai materion y bydd angen inni roi sylw iddynt dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, ac efallai y bydd yn rhaid i ni o bosibl ail-flaenoriaethu rhai o'n gweithgareddau a'n huchelgeisiau. Os byddwn yn ailflaenoriaethu, yna mae hynny'n fater y byddaf yn ei adrodd i'r Cynulliad.

O ran y bylchau mewn gwybodaeth, nid yw'n wir i gymryd yn ganiataol na haeru bod y bylchau mewn gwybodaeth o fewn yr adran. Mae gennym fylchau sylweddol yn ein gwybodaeth ynghylch yr hyn sydd yn yr amgylchedd naturiol, ac mae llawer o'n gwaith yn ceisio sicrhau ein bod yn gallu llenwi'r bylchau hynny gyda gwybodaeth, ymchwil a dealltwriaeth, nad ydynt gennym bob amser ar hyn o bryd ym mhob maes. Byddwch yn ymwybodol o'r buddsoddiadau yr ydym wedi'u gwneud dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cynyddu; rydym yn parhau i wneud y buddsoddiadau hynny, a byddwn yn gwneud hynny yn y dyfodol.

O ran cynnwys rhanddeiliaid, roeddech yn trafod y diwydiant pysgota yn benodol, ac rydym wedi cefnogi cryfhau cynrychiolaeth y diwydiant pysgota er mwyn sicrhau bod gennym ymgysylltu a sgysiau mwy strwythuredig gyda'r diwydiant. Credaf fod hynny'n mynd yn dda. Mae gennym rwydwaith erbyn hyn, a strwythur o grwpiau yr ydym yn gallu cael sgysiau â hwy. Mae hynny'n rhywbeth nad ydym bob amser wedi'i gael yn y gorffennol. Felly, mae gennym ddeialog llawer mwy strwythuredig yn awr, nid yn unig â'r diwydiant, ond â rhanddeiliaid eraill yn ogystal, a chredaf fod hynny'n gweithio'n dda.

O ran eich cwestiwn olaf ynghylch diwydiant Cymru ddim yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y newidiadau mewn rheoli cwota, drwy gydol fy nghyfnod yn y swydd, rwyf wedi trafod gyda DEFRA y ffordd yr ydym yn rheoli'r cwota ar sail y DU. Rydym wedi cytuno, fel y gwyddoch, datganoli rheoli fflyd a rheoli cwota. Ar hyn o bryd, rwy'n hyderus na fydd fflyd Cymru dan anfantais oherwydd y newidiadau a wnaed i'r cwota, ond os gwneir newidiadau yn arbennig at y cwota dan 10m, mae hynny'n rhywbeth y byddaf yn mynd i'r afael ag ef ar y pryd.

Weinidog, rwy'n awyddus i ofyn dau gwestiwn syml i chi. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r ardaloedd gwarchodedig morol. A wneuch chi ystyried gorfodadwyedd pa bynnag gynigion sy'n dod ymlaen, ac ystyried, pan fo'r cynigion hynny'n cael eu derbyn yn eang gan y cymunedau sy'n defnyddio'r moroedd at ddibenion pysgota, cadwraeth, hamdden a thwristiaeth, eu bod yn llawer mwy tebygol o gael eu parchu a'u gorfodi ?

17:30

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I want to ask you two simple questions. The first is about the marine protected areas. Will you take into account the enforceability of whatever proposals come forward, and consider that, where those proposals are widely accepted by the communities that use the seas for fishing, conservation, leisure and tourism purposes, they are much more likely to be respected and enforced?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The second point I wanted to make was that I was delighted to see the link between the marine fisheries plan and the food strategy, which I very much approve of. Minister, will you give further consideration to developing a market for fisheries products in Wales, and for developing the provision of value-added processing for mussels, for example, of which we are all rightfully proud but many of which get exported to Holland for processing because no such plant is currently available in Wales?

Yr ail bwynt yr oeddwn yn dymuno ei wneud oedd fy mod yn falch iawn o weld y cysylltiad rhwng y cynllun pysgodfeydd morol a'r strategaeth bwyd, rwy'n ei gymeradwyo'n fawr iawn. Weinidog, a wnewch chi ystyried ymhellach ddatblygu marchnad ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd yng Nghymru, ac ar gyfer datblygu darpariaeth brosesu gwerth ychwanegol ar gyfer cregyn gleision, er enghraifft, y mae pob un ohonom yn briodol falch ohonynt ond mae llawer ohonynt yn cael eu hallforio i'r Iseldiroedd ar gyfer prosesu oherwydd nad oes peiriannau o'r fath ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru?

17:31

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

On your final point, absolutely—I think we do need to look at how we can increase the value of the produce that we produce in Wales and around the Welsh coast. Like you, I do my best to ensure that Welsh mussels are appreciated as far and as widely as possible. There are significant opportunities and significant potential for the industry in Wales to expand and grow in a sustainable way. As a Government, we need to ensure that we provide significant support for the businesses and companies that deliver that produce to us, namely those who fish and the onshore facilities that provide the added value that you have described. That is something that has been described in the food strategy, and it is something that is at the heart of our approach.

In terms of the marine protected areas, I am aware of the points that you make, and we clearly need to ensure that enforcement is possible and proportionate to what we seek to achieve. I understand the debate that has been had over the last few years and the concerns that have been raised by communities around the Welsh coast. I hope that we are now working in a very collaborative way that ensures that those communities are a part of our discussions and conversations on how we take this forward. It is a complex process, and we are trying to move forward on a number of different fronts. I hope that the conversations we are having at the moment will be very positive. I know that the dialogue is positive and I am sure that, when we come to conclusions on this, that those discussions will mean that our decisions are welcomed and not feared by communities.

O ran eich pwynt olaf, yn hollol—rwy'n meddwl bod angen i ni edrych ar sut y gallwn gynyddu gwerth y cynnyrch yr ydym yn ei gynhyrchu yng Nghymru ac o gwmpas arfordir Cymru. Fel chithau, rwy'n gwneud fy ngorau i sicrhau bod cregyn gleision Cymru yn cael eu gwerthfawrogi mor bell ac mor eang ag y bo modd. Mae cyfleoedd sylweddol a photensial sylweddol ar gyfer y diwydiant yng Nghymru i ehangu a thyfu mewn ffordd gynaliadwy. Fel Llywodraeth, mae angen i ni sicrhau ein bod yn darparu cefnogaeth sylweddol i'r busnesau a chwmnïau sy'n darparu'r cynnyrch i ni, sef y rhai sy'n pysgota a'r cyfleusterau ar y tir sy'n darparu'r gwerth ychwanegol yr ydych wedi'u disgrifio. Mae hynny'n rhywbeth sydd wedi cael ei ddisgrifio yn y strategaeth bwyd, ac mae'n rhywbeth sydd wrth wraidd ein dull o weithredu.

O ran yr ardaloedd gwarchodedig morol, rwy'n ymwybodol o'r pwyntiau yr ydych yn eu gwneud, ac mae'n amlwg bod angen i ni sicrhau bod gorfodaeth yn bosibl ac yn gymesur â'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Rwy'n deall y ddadl a gafwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a'r pryderon a godwyd gan gymunedau o amgylch arfordir Cymru. Rwy'n gobeithio ein bod bellach yn gweithio mewn ffordd gydweithredol iawn sy'n sicrhau bod y cymunedau hynny'n rhan o'n trafodaethau a'n sgysiau ar sut yr ydym yn bwrw ymlaen â hyn. Mae'n broses gymhleth, ac rydym yn ceisio symud ymlaen mewn nifer o wahanol ffyrdd. Rwy'n gobeithio y bydd y sgysiau yr ydym yn eu cael ar hyn o bryd yn gadarnhaol iawn. Gwn fod y deialog yn gadarnhaol ac rwy'n siŵr, pan fyddwn yn dod i gasgliadau ar hyn, y bydd y trafodaethau hynny yn golygu bod ein penderfyniadau yn cael eu croesawu ac nid eu hofni gan gymunedau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:33

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am y datganiad. O gofio bod ein glannau a'n moroedd yn ganolog i fywoliaeth cannoedd o filoedd o bobl Cymru ac yn eithriadol o bwysig i'r economi, mae gweithgaredd y Llywodraeth yn y maes yn ganolog i ddatblygiad y polisïau hynny. Rydych yn cyfeirio at 'refreshed approach' yn eich datganiad. Beth yn union yw ystyr hynny, yn wyneb y ffaith bod eich cynllun gweithredu ddim ond newydd gael ei gyhoeddi ddiwedd y flwyddyn diwethaf?

Thank you for the statement. Bearing in mind that our coastlines and seas are central to the livelihood of hundreds of thousands of people in Wales and are extremely important to the economy, the Government's activity in this field is central to the development of these policies. You refer to a 'refreshed approach' in your statement. What exactly does that mean, in view of the fact that your action plan was announced only at the end of last year?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae beirniadaeth wedi bod fod diffyg blaenoriaeth i'r polisi morol; dyna oedd canlyniad ymchwil gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y llynedd. Fodd bynnag, mae croeso cyffredinol wedi bod i'r cynllun gweithredu strategol morol a physgodfeydd, ond mae beirniadaeth wedi bod gan randdeiliaid am fethiant i integreiddio polisiau morol o fewn y Papur Gwyn ar yr amgylchedd, er enghraifft. Felly, sut fydd y polisi morol hwn yn cael ei integreiddio yn y Bil cynllunio a'r polisi cynllunio cadarnhaol?

Rydych wedi cyfeirio at adnoddau, ac mae beirniadaeth wedi bod ynghylch diffyg adnoddau yn eich adran. A allwch chi fanylu ar nifer y staff sydd gennych yn gweithredu yn y maes hwn, a faint o gynnydd sydd wedi bod yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf?

Hoffwn gyfeirio hefyd at gyfarwyddyd fframwaith strategol morol sy'n sôn am yr angen i gael statws amgylcheddol da erbyn 2020 i'n moroedd a'n dyfroedd. Rwyf wedi cyfeirio mewn cwestiwn blaenorol at gyfrifoldeb rheolydd Cyfoeth Naturiol Cymru a chyfrifoldeb Dŵr Cymru. A ydych chi'n credu bod y targed hwnnw yn realistig o gofio'r heriau yr ydym yn eu hwynebu?

Yn olaf, o safbwynt gwybodaeth a'r angen i gasglu rhagor o wybodaeth, beth yw'r cysylltiadau sydd gennych gydag adrannau megis ysgol eigioneg Prifysgol Bangor ac adrannau eraill mewn prifysgolion sydd wedi bod yn gwneud gwaith yn y maes hwn ers degawdau?

There has been criticism that adequate priority has not been given to marine policy; that was the result of research carried out by the Environment and Sustainability Committee last year. However, there has been a general welcome to the marine and fisheries strategic action plan but there has also been criticism from stakeholders about the failure to integrate marine policies within the White Paper on the environment, for example. So, how will marine policy be integrated in the planning Bill and the positive planning approach?

You have referred to resources, and there has been criticism of the lack of resources within your department. Can you give us some details on how many staff you have working in this area and how much progress has been made over the past year or two?

I also want to refer to the marine strategy framework directive that talks about the need for our seas and waters to have good environmental status by 2020. I have referred in a previous question to the regulatory responsibility of NRW and the responsibility of Dŵr Cymru Welsh Water. Do you believe that that target was realistic bearing in mind the challenges we face?

Finally, from the point of view of information and the need to gather more data, what links do you have with departments such as Bangor University's school of ocean sciences and other university departments that have been doing work in this area for decades?

17:35

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n gobeithio bod ein perthynas ni yn un da ac yn un positif. Yn bendant, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw beth a fyddai wedi creu problemau gyda'r berthynas. Mae'n rhywle lle rwy'n mawr obeithio ein bod ni'n gallu cydweithio â'n gilydd i sicrhau bod y math o waith sy'n cael ei wneud, fel rydych chi wedi ei ddisgrifio ym Mangor, yn cyfrannu at ein gwaith ni fel Llywodraeth, ac yn cyfrannu at greu'r math o wybodaeth yr oedd Russell George yn ei disgrifio yn ei gyfraniad. Felly, rwy'n mawr obeithio bod y berthynas yn un gref ac yn un sy'n gallu parhau i dyfu.

O ran y targed yr ydych chi wedi'i ddisgrifio, a 2020, nid oes gennym ddewis, wrth gwrs, ond cyrraedd y targed. Rwy'n mawr obeithio ei fod yn darged realistig, a'n bod ni'n gallu trafod i sicrhau ein bod ni'n ei gyrraedd yn yr amser sydd wedi cael ei nodi yn y 'directive'. Rwy'n ymwybodol o'r her sydd gennym i wneud hynny, ond mae'n rhan hanfodol a rhan bwysig o'r cynllun i'n galluogi ni i gyrraedd y targed yn y ffordd yr ydym ni wedi ei disgrifio.

Pan ydych chi'n sôn am yr adnoddau, rydym wedi creu un adran ac, felly, rydym yn defnyddio'r adnoddau mewn ffyrdd gwahanol. Nid oes gennym adnoddau ychwanegol, fel y gallwch chi ddychmygu, ond rwy'n mawr obeithio, drwy greu un adran gyda staff cadwraeth, staff pysgodfeydd a staff cynllunio morol, y byddwn ni'n defnyddio sgiliau a gwybodaeth swyddogion Llywodraeth Cymru mewn ffordd fwy creadigol nag yn y gorffennol.

I hope that our relationship is a good one and a positive one. Certainly, I am not aware of anything that might have led to problems with the relationship. This is something on which I very much hope we can collaborate in order to ensure that the kind of work that is being done, as you have described in Bangor, contributes to our work as a Government and contributes to creating the kind of information that Russell George described in his contribution. Therefore, I very much hope that the relationship is a strong one and one that can continue to grow.

In terms of the target you have described, and 2020, we have no choice, of course, other than to reach the target. I very much hope that it is a realistic target and that we are able to discuss how we can reach that target in line with the timetable set out in the directive. I am aware of the challenge that we have in doing that, but it is an essential and important part of the scheme to enable us to reach the target in the way we have described.

When you talk about the resources, we have created one department and, therefore, we are using the resources in a variety of ways. We do not have any additional resources, as you can imagine, but I very much hope that, through the creation of one department that consists of conservation staff, fisheries staff and marine planning staff, we will use the skills and knowledge of Welsh Government officials in a more creative way than we have done in the past.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rydych chi wedi sôn am integreiddio, ac rwy'n ymwybodol o le mae'r cwestiwn hwn yn dod. Buaswn i'n awgrymu, efallai, na ddylech dderbyn pob dim yr ydych chi'n ei glywed gan dyst sy'n dod o flaen eich pwyllgor. Rwy'n gwybod bod un person wedi mynegi ei barn hi ar y pwnc hwn, ac mae hynny'n 'fine'; dyna ei barn hi. Ond, rwy'n anghytuno. Cafodd y geiriau 'and marine' eu nodi, ac wedyn dadansoddiwyd bod hynny'n meddwl nad yw Llywodraeth Cymru wedi integreiddio'r ffordd yr ydym yn rheoli polisi morol, ond nid wyf yn cymryd hynny o ddifrif fel beirniadaeth, i fod yn hollol onest gyda chi. Byddaf yn ymateb yn llawnach i hynny pan fyddaf yn ysgrifennu atoch chi fel Cadeirydd y pwyllgor.

Rwy'n sôn am sicrhau bod y cynllun yn aros yn gynllun byw. Fel dywedais wrth ymateb i Russell George, rwyf eisiau sicrhau bod amserlenni ar gyfer y cynllun a'ch bod chi'n gallu ein cwestiynu ni fel Llywodraeth ar y ffordd yr ydym ni'n cyrraedd ein targedau a'r 'deadlines' yr ydym wedi eu gosod. Felly, rydym ni'n edrych ar y cynllun—nid yw'n gynllun sydd wedi cael ei ysgrifennu, wedi'i lansio a'i anghofio. Mae'n rhywbeth sy'n arwain ac yn gyrru gwaith yr adran, ac yn gyrru gwaith y Llywodraeth.

You talked about integration, and I am aware of the direction from which this question was posed. I would suggest, perhaps, that you should not accept everything you hear from a witness who appears before your committee. I know that one person has expressed her opinion on this topic, and that is fine; that is her opinion. However, I disagree. The words 'and marine' were used and then analysed in a way that suggested that the Welsh Government has not integrated the way in which we manage marine policy, but I do not take that seriously as a criticism, to be totally honest with you. I will be responding more fully to that when I write to you as Chair of the committee.

I am talking about ensuring that the plan continues to be a live plan. As I said in response to Russell George, I want to ensure that there are timetables for the plan and that you can question us as a Government on the way in which we meet our targets and the deadlines we have set. Therefore, we are looking at the plan—it is not a plan that has been written, launched and forgotten. It is something that leads and drives the work of the department, and drives the work of the Government.

17:39

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog, am y datganiad hwn.

Thank you, Minister, for this statement.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I agree very much with Alun Ffred Jones's assessment of the work of the Environment and Sustainability Committee in this particular area of policy and the success that has so far been achieved in highlighting the focus that we need to have; the greater focus on the Welsh marine environment. The Minister's commitment to developing this area is certainly appreciated around the committee table. One issue that I have had raised with me on a number of occasions has been the development of the marine strategy framework directive, or the MSFD, and the impact that it will have on the attainment potential of securing good environmental status—or, to use the acronym, GES—standing in the context of wider European directives. To this end, Minister, you stated to me last month that you believe that the Welsh Government has in place a robust data collection mechanism that will enable it to measure whether it has achieved GES under the marine strategy framework directive by 2020. Today, Minister, will you comment on the progress that has been made towards delivering the detailed monitoring of benthic habitats and litter on the seabed in Welsh waters, given that both are key descriptors for assessing good environmental status?

Cytunaf yn llwyr ag asesiad Alun Ffred Jones o waith y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwydd yn y maes penodol hwn o bolisi a'r llwyddiant a gyflawnwyd hyd yn hyn mewn tynnu sylw at y pwyslais y mae angen inni ei gael; y pwyslais mwy ar amgylchedd morol Cymru. Mae ymrwymiad y Gweinidog i ddatblygu'r maes hwn yn sicr yn cael ei werthfawrogi o gwmpas bwrdd y pwyllgor. Un mater sydd wedi cael ei godi gyda mi sawl tro yw datblygiad y gyfarwydddeb fframwaith strategaeth forol, neu'r MSFD, a'r effaith a gaiff ar botensial cyflawni sicrhau statws da neu amgylcheddol—neu i ddefnyddio'r acronym, GES—yng nghyd-destun cyfarwyddbau Ewropeaidd ehangach. I'r perwyl hwn, Weinidog, dywedasoch wrthyf y mis diwethaf eich bod yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu mecanwaith casglu data cadarn a fydd yn ei galluogi i fesur a yw wedi cyflawni Statws Amgylcheddol Da o dan y gyfarwydddeb fframwaith strategol morol erbyn 2020. Heddiw, Weinidog, a wnewch chi roi sylwadau ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r monitro manwl o gynefinoedd môr-waelodol a sbwriel ar wely'r môr yn nyfroedd Cymru, o gofio bod y ddau yn ddisgrifwyr allweddol ar gyfer asesu statws amgylcheddol da?

Building on this, now that a little over a year has passed since the creation of NRW and the reorganisation of some of the Welsh Government functions into that body that have already been referred to, will you please also outline what assessment you have made of the benefits so far that have resulted from that specific reorganisation? Also, will you detail the current status of collaborative working between both parts of the organisation?

Gan adeiladu ar hyn, gan fod ychydig dros flwyddyn wedi mynd heibio ers creu Cyfoeth Naturiol Cymru ac ad-drefnu rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru i mewn i'r corff hwnnw y cyfeiriwyd ato eisoes, a wnewch chi os gwelwch yn dda hefyd amlinellu pa asesiad yr ydych chi wedi'i wneud o'r buddion hyd yn hyn sydd wedi deillio o'r ad-drefnu penodol hwnnw? Hefyd, a wnewch chi roi manylion statws presennol cydweithio rhwng dwy ran y sefydliad?

Turning to the action plan itself briefly, I note that the vast majority of the action points within the next four objectives are due to be completed by the end of next month. While I am sure that the Minister will take time to detail any of those that are not expected to hit their target, I would appreciate a focus on a few of the individual points. Specifically, I would be grateful if the Minister could expand a little on the results of last week's international seafood exposition in Brussels. I see from the update that he shared with Members just earlier this afternoon that seven companies joined the Welsh pavilion and recorded what is termed as a significant sales success. Would you be kind enough, please, to add some figures to this and also to outline the level of Welsh Government presence that you anticipate at similar events in the coming 12 months?

Finally, as other Members have mentioned, Wales was obviously hit by a series of devastating storms earlier in the year and since we last discussed this action plan. It is clear that these storms will have had some significant effect on aspects of our coastal management. To that end, Minister, will you please detail how you envisage this action plan integrating with the wider work programme that is being taken forward both by the Welsh Government and NRW, following the recent publication of the flood review?

17:42

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I answered questions on the stage 2 report from NRW last week in this place, and I said then that there would be a full Government response to that report, which was published two weeks ago, by the summer recess, certainly in terms of how we take the work forward over the coming years and ensure that we are able to integrate the work we do in terms of coastal defences and also management of the coastal zone. The report was published two weeks ago, I responded to it last week and it is something that I will respond to more fully before the summer recess.

We are making good progress in terms of achieving good environmental status for our waters. We are on target to reach where we need to be, as I said in answer to an earlier question. In terms of data collection, I know that you have raised a number of different issues through questions to my department, and I hope that I reassured you in the answers we gave. Certainly, I have not received any further correspondence and I have received no further enquiries following that response. So, I can only assume that you were happy with the response I gave you at that time. We do have the mechanisms and processes in place to provide us with the data we require. Clearly, we would like to do more and we would like to move faster. However, we are only able to do what we can do at present with the resources available to us.

Gan droi at y cynllun gweithredu ei hun yn fyr, rwy'n sylwi bod y mwyafrif helaeth o'r pwyntiau gweithredu o fewn y pedwar amcan nesaf i fod i gael eu cwblhau erbyn diwedd y mis nesaf. Er fy mod yn siŵr y bydd y Gweinidog yn cymryd amser i roi manylion unrhyw un o'r rhai na ddisgwyli'r iddynt gyrraedd eu targed, byddwn yn gwerthfawrogi canolbwyntio ar rai o'r pwyntiau unigol. Yn benodol, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog ymhelaethu rhywfaint ar ganlyniadau'r dangosiad bwyd môr rhyngwladol yr wythnos diwethaf ym Mrwsel. Rwy'n gweld o'r diweddariad a rannodd gydag Aelodau yn gynharach y prynhawn yma bod saith o gwmnïau wedi ymuno â phafiliwn Cymru ac wedi cofnodi'r hyn a elwir yn llwyddiant gwerthu sylweddol. A fydddech chi cystal, os gwelwch yn dda, ag ychwanegu rhai ffigurau at hyn a hefyd amlinellu lefel presenoldeb Llywodraeth Cymru yr ydych yn ei ragweld mewn digwyddiadau tebyg yn y 12 mis nesaf?

Yn olaf, fel y mae Aelodau eraill wedi sôn, cafodd Cymru yn amlwg ei tharo gan gyfres o stormydd dinistriol yn gynharach yn y flwyddyn ac ers i ni drafod y cynllun gweithredu ddiwethaf. Mae'n amlwg y bydd y stormydd hyn wedi cael effaith sylweddol ar agweddau ar ein rheoli o'r arfordir. I'r perwyl hwnnw, Weinidog, a wnewch chi os gwelwch yn dda roi manylion sut yr ydych yn rhagweld y cynllun gweithredu hwn yn integreiddio gyda'r rhaglen waith ehangach sy'n cael ei datblygu gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, yn dilyn cyhoeddiad diweddar yr adolygiad llifogydd?

Atebais gwestiynau ar yr adroddiad cam 2 gan Gyfoeth Naturiol Cymru yr wythnos diwethaf yn y lle hwn, a dywedais bryd hynny y byddai ymateb llawn gan y Llywodraeth i'r adroddiad hwnnw, a gyhoeddwyd bythefnos yn ôl, erbyn toriad yr haf, yn sicr o ran sut y byddwn yn symud y gwaith yn ei flaen dros y blynyddoedd nesaf a sicrhau ein bod yn gallu integreiddio gwaith yr ydym yn ei wneud o ran amddiffynfeydd arfordirol a rheoli'r parth arfordirol hefyd. Cyhoeddwyd yr adroddiad bythefnos yn ôl, ymatebais iddo yr wythnos diwethaf ac mae'n rhywbeth y byddaf yn ymateb yn llawnach iddo cyn toriad yr haf.

Rydym yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni statws amgylcheddol da ar gyfer ein dyfroedd. Rydym ar y trywydd iawn i gyrraedd lle mae angen i ni fod, fel y dywedais wrth ateb cwestiwn cynharach. O ran casglu data, gwn eich bod wedi codi nifer o wahanol faterion trwy gwestiynau i fy adran, ac rwy'n gobeithio fy mod wedi rhoi sicrwydd i chi yn yr atebion a roddwyd gennym. Yn sicr, nid wyf wedi derbyn unrhyw ohebiaeth bellach ac nid wyf wedi derbyn unrhyw ymholiadau pellach yn dilyn yr ymateb hwnnw. Felly, ni allaf ond tybio eich bod yn fodlon ar yr ymateb a roddais i chi ar y pryd. Mae gennym y mecanweithiau a'r prosesau ar waith i roi i ni y data sydd ei angen arnom. Yn amlwg, byddem yn hoffi gwneud mwy a hoffem symud yn gyflymach. Fodd bynnag, nid ydym ond yn gallu gwneud yr hyn y gallwn ei wneud ar hyn o bryd gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of the reorganisation, you asked about collaboration between both parts of the organisation. I am not sure what you meant by that—whether you meant work between the Welsh Government and NRW. We are clearly not the same organisation, as you are aware. However, in terms of the reorganisations that I have pursued within the Welsh Government, I believe that the new department is working well. It is certainly making better use of the skills, knowledge and expertise of people and we have created synergies in a way that we were not able to do before to ensure that marine policy is central to what we achieve as a Government. In terms of our collaboration with NRW, I am very happy with the work that NRW is doing on these matters. I met the chair and the chief executive of NRW yesterday and we discussed issues around coastal and shoreline management and we will continue those conversations as necessary.

Daeth y Llywydd i'r Gadair am 17:45.

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finally, in terms of the seafood expo, which was last week, we had a good week with Welsh businesses and Welsh companies doing good business. We will continue to support Welsh businesses. This Government will continue to help businesses to grow and to export great Welsh products across the world and we will certainly be more than happy to inform Members of the successes that Welsh businesses are achieving.

O ran yr ad-drefnu, roeddech yn holi ynghylch cydweithredu rhwng dwy ran y sefydliad. Nid wyf yn siŵr beth yr oeddech yn ei olygu wrth hynny—pa un a oeddech yn golygu gwaith rhwng Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Yn amlwg nid ydym yr un sefydliad, fel y gwyddoch. Fodd bynnag, o ran yr ad-drefnu yr wyf wedi'i ddilyn o fewn Llywodraeth Cymru, rwy'n credu bod yr adran newydd yn gweithio'n dda. Mae'n sicr yn gwneud gwell defnydd o sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd pobl ac rydym wedi creu synergeddau mewn ffordd nad oeddem yn gallu ei wneud o'r blaen i sicrhau bod y polisi morol yn ganolog i'r hyn yr ydym yn ei gyflawni fel Llywodraeth. O ran ein cydweithrediad â Chyfoeth Naturiol Cymru, rwy'n hapus iawn gyda'r gwaith y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud ar y materion hyn. Cyfarfûm â chadeirydd a phrif weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru ddoe a buom yn trafod materion yn ymwneud â rheoli'r arfordir a'r draethlin a byddwn yn parhau â'r sgysiau hynny fel bo'r angen.

The Presiding Officer took the Chair at 17:45.

Yn olaf, o ran y ddangosfa bwyd môr, a gynhaliwyd yr wythnos diwethaf, cawsom wythnos dda gyda busnesau Cymru a chwmnïau Cymru yn gwneud busnes da. Byddwn yn parhau i gefnogi busnesau Cymru. Bydd y Llywodraeth yn parhau i helpu busnesau i dyfu ac i allforio cynnyrch gwych Cymru ar draws y byd ac yn sicr byddwn yn fwy na pharod i roi gwybod i'r Aelodau am y llwyddiannau y mae busnesau Cymru yn eu cyflawni.

17:45

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am going to jump straight to the action point 4.4 and welcome, as you just have, the Welsh Government's support for the seven Welsh fishing companies that attended the world's largest seafood fare in Brussels last week. I think that it was more fantastic news for the Pembrokeshire Beach Food Company that won the best street food at the BBC food and farming awards earlier this month. I am sure that you will join me in congratulating Aberystwyth farmers' market for taking the honours for the best food market.

I think that it is great news that Welsh companies are getting the recognition that they deserve and that they do, indeed, have opportunities like this to sell and promote their products in a global marketplace. I think that that is at the heart of this action plan and it is about the Welsh Government working in partnership with fisheries industries to help businesses prosper in the longer term.

Weinidog, rwy'n mynd i neidio yn syth at bwynt gweithredu 4.4 a chroesawu, fel yr ydych chi newydd ei wneud, cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r saith cwmni pysgota o Gymru a oedd yn bresennol yn y ffair bwyd môr fwyaf yn y byd ym Mrwsel yr wythnos diwethaf. Rwy'n meddwl ei fod yn fwy o newyddion gwych ar gyfer Cwmni Bwyd Traeth Sir Benfro a enillodd y wobr bwyd stryd gorau yng ngwobrau bwyd a ffermio'r BBC yn gynharach y mis hwn. Rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno â mi i longyfarch marchnad ffermwyr Aberystwyth ar ennill y wobr am y farchnad fwyd orau.

Rwy'n meddwl ei fod yn newyddion gwych bod cwmnïau o Gymru yn cael y gydnabyddiaeth y maent yn ei haeddu a'u bod, yn wir, yn cael cyfleoedd fel hyn i werthu a hyrwyddo eu cynnyrch mewn marchnad fyd-eang. Rwy'n meddwl bod hynny wrth wraidd y cynllun gweithredu hwn ac mae'n ymwneud â Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â diwydiannau pysgodfeydd i helpu busnesau i ffynnu yn y tymor hirach.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Picking up on a couple of things, Minister, while my voice lasts, it is very useful to have a detailed timetable for the implementation of the action points and I am sure that my colleagues on the Environment and Sustainability Committee would want to support that. Can we expect regular updates on the implementation of that strategy? Since your last update in November, the new European common fisheries policy has come into force. How has that impacted on that strategy? The headline reform was to rules for discarding caught fish, of course. Are you happy with how that has so far been implemented in Wales?

Finally, may I ask about the transitional arrangements for European funding? As I understand it, the European fisheries fund will continue to run up until the end of next month, then we will move towards a European maritime and fisheries fund for 2014-20. Has that affected Welsh fishery businesses at all?

Gan gyfeirio at un neu ddau o bethau, Weinidog, tra y bydd fy llais yn para, mae'n ddefnyddiol iawn i gael amserlen fanwl ar gyfer rhoi'r pwyntiau gweithredu ar waith ac rwy'n siŵr y byddai fy nghydweithwyr ar y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn awyddus i gefnogi hynny. A allwn ni ddisgwyl diweddariadau rheolaidd ar weithredu'r strategaeth honno? Ers eich diweddariad diwethaf ym mis Tachwedd, mae'r polisi pysgodfeydd cyffredin Ewropeaidd newydd wedi dod i rym. Sut y mae hynny wedi effeithio ar y strategaeth honno? Roedd y prif ddiwygio yn ymwneud â rheolau ar gyfer taflu pysgod a ddaliwyd, wrth gwrs. A ydych chi'n fodlon â'r modd y mae hyn wedi cael ei roi ar waith yng Nghymru hyd yn hyn?

Yn olaf, a gaf fi ofyn am y trefniadau pontio ar gyfer arian Ewropeaidd? Yn ôl yr hyn a ddeallaf, bydd y gronfa pysgodfeydd Ewropeaidd yn parhau i redeg hyd at ddiwedd y mis nesaf, yna byddwn yn symud tuag at gronfa forwrol a physgodfeydd Ewropeaidd ar gyfer 2014-20. A yw hynny wedi effeithio ar fusnesau pysgodfeydd yng Nghymru o gwbl?

17:47

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Like many Members, I think that we all enjoy the produce from around our coast and our seas. It was a fabulous opportunity last week in Brussels for Welsh businesses to show the world what great produce we are able to export from Wales. I do congratulate Aberystwyth farmers' market. It was great to see somewhere that I frequented often on a Saturday morning, when I lived in the town, and I am delighted to see it go from strength to strength. I think that there is a warm welcome for that across the Chamber.

May I say, being in Pembrokeshire, I have visited Pembrokeshire Fish Week twice in the time that I have been in office? I would like to visit it again and to continue to promote the great produce that you have in Pembrokeshire and around the coast of Pembrokeshire.

In terms of implementation, as Members are aware, I played a full part in the negotiations of the new common fisheries policy as a part of the United Kingdom ministerial team. I attended all of the negotiations and played a part in the discussions that took place around that new policy. We are looking now at implementing that policy in Wales. The strategic action plan is about implementing that policy in Wales. The interface between the current fisheries fund and the new EMFF is one that we are currently working on and we are going to ensure that the EMFF is integrated with other structural funds and pillar 2 of CAP.

Fel nifer o Aelodau, rwy'n meddwl ein bod i gyd yn mwynhau'r cynnyrch o amgylch ein harfordir a'n moroedd. Roedd yn gyfle gwych yr wythnos diwethaf ym Mrwsel i fusnesau Cymru ddangos i'r byd y cynnyrch gwych yr ydym yn gallu ei allforio o Gymru. Rwy'n llongyfarch marchnad ffermwyr Aberystwyth. Roedd yn wych gweld rhywle yr oeddwn yn mynd iddo'n aml ar fore Sadwrn, pan oeddwn yn byw yn y dref, ac rwyf wrth fy modd ei gweld yn mynd o nerth i nerth. Rwy'n credu bod croeso cynnes i hynny ar draws y Siambr.

A gaf fi ddweud, gan fy mod yn Sir Benfro, fy mod wedi ymweld ag Wythnos Bysgod Sir Benfro ddwywaith yn yr amser yr wyf wedi bod yn y swydd? Hoffwn i ymweld â hi eto a pharhau i hyrwyddo'r cynnyrch gwych sydd gennych yn Sir Benfro ac o gwmpas arfordir Sir Benfro.

O ran gweithredu, fel y mae'r Aelodau yn ymwybodol, chwaraeais ran lawn yn y trafodaethau ar y polisi pysgodfeydd cyffredin newydd yn rhan o dîm Gweinidogion y Deyrnas Unedig. Roeddwn yn bresennol ym mhob un o'r trafodaethau a chwaraeais ran yn y trafodaethau a ddigwyddodd o amgylch y polisi newydd. Rydym erbyn hyn yn edrych ar weithredu'r polisi hwnnw yng Nghymru. Mae'r cynllun gweithredu strategol yn ymwneud â gweithredu'r polisi hwnnw yng Nghymru. Mae'r rhyngwyneb rhwng y gronfa pysgodfeydd presennol a'r EMFF newydd yn un yr ydym ar hyn o bryd yn gweithio arno ac rydym yn mynd i sicrhau bod yr EMFF yn cael ei integreiddio gydag arian strwythurol arall a cholofn 2 y PAC.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:49

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Dafydd Elis-Thomas.

Galwaf ar Dafydd Elis-Thomas.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, Fonesig Lywydd. Mae'r Gweinidog yn gofyn yn ei ddatganiad am ymateb a chydabyddiaeth o'r flaenoriaeth sydd wedi'i rhoi i faterion morol ers pan yr adroddodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i ddechrau ar y pwynt hwn ym mis Ionawr y llynedd.

Thank you very much, Dame Presiding Officer. The Minister asked in his statement for a response and a recognition of the priority given to marine issues since the Environment and Sustainability Committee reported on this point in January last year.

Ni fedraf ond ateb dros fy nghadeiryddiaeth i. Am y cyfnod hwnnw, rwy'n rhoi B- i'r Gweinidog am lwyddiant anhygoel. Mae honno, ym Mhrifysgol Bangor, yn radd uchel iawn. [Chwerthin.] O'r diwedd, mae ymateb wedi bod i'r sefyllfa, ac rwyf am ofyn tri chwestiwn.

I can only answer for my own period as Chair. For that period, I give the Minister a B- for incredible success. That, at Bangor University, is a very high grade. [Laughter.] At last, there has been a response to this situation, and I have three questions to ask.

Fe gawsom ni gyfnod o wrthdaro diangen ynglŷn â'r parthau cadwraeth morol. Mater o ofid mawr i mi fel Aelod yn cynrychioli gogledd bae Ceredigion oedd y gwrthdaro a fu gyda'r pysgotwyr. Rwyf i wedi cael sicrwydd, ond rwyf eisiau hyd yn oed mwy o sicrwydd gan y Gweinidog na fydd yna arweiniad polisi o'r natur honno byth yn deillio eto o Lywodraeth Cymru, oherwydd os nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu cynrychioli pysgotwyr Cymru, pwy all Llywodraeth Cymru eu cynrychioli? A gaf i, felly, groesawu'r grŵp rhanddeiliaid? Rwy'n disgwyl gweld datblygiad yn hynny.

We had a period of unnecessary conflict about the marine conservation zones. It was a cause of great concern to me, as a Member representing the north of Cardigan bay, that conflict with the fishermen. I have been given assurances, but I want even greater assurances from the Minister that there will not be a policy lead of that nature ever emerging again from the Welsh Government, because if the Welsh Government cannot represent the fishermen of Wales, who can the Welsh Government represent? May I, therefore, welcome the stakeholder group? I expect to see developments there.

Hefyd, diolch am yr adolygiad ynglŷn â deddfwriaeth. Nid wyf yn synnu bod 200 o eitemau o ddeddfwriaeth wedi cael eu hetifeddu. A gaf i apelio ar y Gweinidog i symleiddio rheoleiddio yn y sector forol yn gyffredinol, ac yn enwedig yn y maes pysgota, a'i sicrhau, fel y gwyr, fod y dechnoleg ar gael i wneud hyn?

Also, I want to thank you for the review of legislation. I am not surprised that 200 items of legislation have been inherited. May I appeal to the Minister to simplify regulation in the marine sector generally, and particularly in terms of fisheries, and assure him, as he knows, that the technology is available to do this?

Hoffwn ddweud gair pellach am y cregyn gleision, fel bwytäwr cyson ohonynt ar bob cyfle posibl. Rwy'n gobeithio y bydd modd datblygu cyfleusterau mewn perthynas â phrifysgol yn y gogledd, ysgolheigion a chwmnïau masnachol er mwyn sicrhau—rwy'n gobeithio bydd y cynllun datblygu gwledig yn gallu helpu hynny—fod yna fodd i ni ganiatáu i'n cregyn gleision gael eu gwerthu yn uniongyrchol yng Nghymru. Gan ei fod o'n derbyn gwahoddiadau i bob man, mi hoffwn ei wadd o i agoriad adeilad newydd SEACAMS ym Mhorthaethwy, lle mae'r arweiniad yn digwydd mewn ehangu cynaliadwy yn y sector arfordirol a morol.

I would like to say a few words about the mussels, as a regular consumer of mussels at every possible opportunity. I hope that it will be possible to develop facilities jointly with a university in the north, scholars and commercial companies—I hope the rural development plan will be able to assist with that—in order to ensure that there is a means for us to allow our mussels to be sold directly in Wales. As he is accepting invitations here, there and everywhere, I would like to invite him to the opening of the new SEACAMS centre in Menai Bridge, where they are taking a lead in sustainable development in the marine and coastal sectors.

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Byddaf yn hapus iawn i dderbyn eich gwahoddiad i Brifysgol Bangor, wrth iddi ehangu dros yr afon i sir Fôn, ac i ymuno â chi yn y fan honno os yw'n bosibl. Rydych chi'n hollol iawn yn y ffordd rydych chi wedi disgrifio'r potensial sydd gan ein cregyn gleision yn ardal forol y gogledd-orllewin. Mae'n bwysig ein bod yn datblygu strwythur a all gefnogi'r diwydiant a llwyddiant y diwydiant. Roedd Julie yn sôn yn ddiweddar amboutu sut rydym ni'n gallu mwynhau bwydydd môr o Gymru yng Nghymru. Rwy'n credu bod hwnnw'n un cyfle sydd â photensial i'n galluogi i wneud hynny.

I will be very happy to accept your invitation to Bangor University, as it is expanding over the river to Anglesey, and to join you there if possible. You are completely right in the way that you have described the potential that we have in terms of our mussels in that area of sea in the north-west. It is important that we develop a structure that can support the industry and the success of the industry. Julie mentioned recently about how we can enjoy seafood from Wales in Wales. I think that that is one opportunity that has potential to enable us to do that.

Pan mae'n dod at adolygu deddfau, rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu gwneud hynny mewn ffordd a fydd yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth a'r rheolau sydd gennym am y moroedd o gwmpas Cymru yn 'proportionate' ac yn gweithio, ond sydd yn syml hefyd. Dyna un o'n hamcanion, o ran sicrhau bod y 200 o ddeddfau gwahanol sydd gennym ar hyn o bryd yn cael eu symleiddio. Rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu gwneud hynny a bydd cynigion i wneud hynny yn y Bil amgylchedd a fydd yn cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad, gobeithio cyn diwedd y flwyddyn.

Rwy'n mawr obeithio na fyddwn ni byth eto yn gweld y fath o wrthdaro a gawsom ni amboutu'r parthau morol yn y gorffennol. Rydych chi'n gwybod fy mod i wedi treulio lot fawr o amser yn siarad â phobl a chreu deialog sydd yn ddeialog lle mae pobl yn gwrandao ac yn siarad, ddim jest yn siarad. Rwy'n mawr obeithio y gallwn ni symud ymlaen i sicrhau 'integrity' arfordir Cymru, ond hefyd i gefnogi'r cymunedau morol ar yr un pryd. Nid wyf yn credu bod yna wrthdaro rhwng y ddau amcan.

When it comes to reviewing legislation, I hope that we will be able to do that in a way that will ensure that the legislation and the regulation that we have in relation to the seas around Wales are proportionate and work, but are simple as well. That is one of our objectives, in terms of ensuring that the 200 pieces of legislation that we have at the moment will be streamlined. I hope that we will be able to do that and there will be proposals to do that in the environment Bill, which will be submitted to the Assembly, hopefully before the end of the year.

I greatly hope that we will never again see the kind of conflict that we saw in terms of the marine zones in the past. You know that I have spent a lot of time speaking to people and creating dialogue that is a dialogue where people are listening and talking, and not just talking. I greatly hope that we can move forward to ensure the integrity of the coastline of Wales, but also to support the coastal communities at the same time. I do not think that there is a conflict between those two objectives.

17:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I call on Rhun ap Iorweth.

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:54 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad Biography](#)

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Rwy'n siŵr na fydd hi'n syndod i'r Gweinidog mai am gregyn gleision rwy'n bwriadu gofyn cwestiwn hefyd. Rwy'n falch iawn bod y Gweinidog yn rhannu fy uchelgais i ac uchelgais yr Aelod dros Ddwyfor Meirionnydd i ddatblygu adnoddau i drin, er enghraifft, ein cynnyrch ni, ond mae'n rhaid edrych ar ôl y cynhyrchwyr eu hunain. Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi'r nod hirdymor o ddatblygu mwy o sicrwydd hirdymor i'r diwydiant drwy'r Bil amgylchedd, ond rwy'n meddwl bod yna wendid yn y trefniadau presennol gan nad oes ateb i'r cyfyng-gyngor gwirioneddol byrdymor mae cynhyrchwyr cregyn gleision yng ngorllewin y Fenai yn ei wynebu ar hyn o bryd. Maent angen les hirdymor ac, ar hyn o bryd, dim ond les tymor byr sy'n cael ei gynnig.

Thank you very much, Presiding Officer. I am sure that it will come as no surprise to the Minister that I want to speak about mussels. I am very pleased that the Minister shares my ambition and the ambition of the Member for Dwyfor Meirionnydd to develop facilities to treat, for example, our produce, but we must also look after the producers themselves. I also appreciate the long-term objective of developing greater long-term assurances for the industry through the environment Bill, but I think that there is a deficiency in the current arrangements because there is no solution to the very real quandary in the short term that mussel farmers in the Menai straits are currently facing. They need a long-term lease and, at present, only a short-term lease is being made available.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Nid oes neb â mwy o ddiddordeb mewn amddiffyn yr amgylchedd morwrol na'r ffermwyr cregyn gleision eu hunain. Heb amgylchedd da, nid oes ganddynt ddiwydiant. Ond, nid yw'n eglur i mi o hyd pam na ellir rhoi cytundebau les hirdymor, er enghraifft, 28 mlynedd, i'r cynhyrchwyr hyn, wrth sicrhau bod cyfnodau penodol efo, o bosibl, saith mlynedd rhyngddynt i fesur unrhyw effaith amgylcheddol. Rwy'n meddwl byddai rhoi'r sicrwydd hwnnw rŵan yn caniatáu i'r cynhyrchwyr hyn fuddsoddi yn eu busnesau nhw—busnesau sy'n bwysig iawn o ran ein diwydiant cregyn gleision yng Nghymru. A allwn ni gael sicrwydd gan y Gweinidog, hyd yn oed efo'r bwriad o edrych ar newidiadau drwy'r Bil amgylchedd, fod yna waith yn cael ei wneud o hyd i oresgyn y problemau cyfreithiol sy'n atal y les hirdymor mae pysgotwyr gwirioneddol ei angen?

Nobody has a greater interest in protecting the marine environment than the mussel farmers themselves. Without a healthy marine environment, they have no industry. However, it is still not clear to me as to why long-term lease agreements cannot be put in place, for example, over a period of 28 years, for these producers, while ensuring that there are specific periods, perhaps seven-year periods, whereby any environmental impact could be assessed. I think that giving that assurance now would allow these producers to invest in their businesses—businesses that are important in terms of our mussel industry in Wales. Can we have an assurance from the Minister, even given the intention of looking at the changes through the environment Bill, that there is still work ongoing in order to overcome the legal problems that preclude the long-term lease arrangements that the mussel fishermen truly need?

17:56

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n credu ein bod ni'n cydweld ac yn rhannu gweledigaeth ar gyfer y diwydiant yn y gogledd-orllewin. Mae'r Aelod wedi codi rhywbeth y mae wedi codi gyda fi drwy ohebiaeth, ac mae'n rhywbeth rwy'n delio ag ef drwy ohebiaeth â'r Aelod ar hyn o bryd. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, rydym yn gwneud beth rydym yn gallu ei wneud a beth mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn ein galluogi i wneud. Mi fydd yr Aelod yn ymwybodol bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod cynhyrchwyr yn y gogledd yn ystod yr wythnos nesaf i barhau'r trafodaethau a, gobeithio, i gael y fath o sicrwydd mae'n gofyn amdano. Ond, dyna pam mae'r Bil a fydd gerbron y Cynulliad yn ystod y flwyddyn nesaf mor bwysig i ni, achos mi fydd yn ein galluogi i symud ymlaen gydag ehangu'r diwydiant mewn ffordd gynaliadwy. Rwy'n cytuno yn llwyr â chi bod pysgotwyr yn deall y 'concept' o fod yn ddiwydiant cynaliadwy fwy efallai nag unrhyw ddiwydiant arall. Mae'r potensial sydd gennym ni yn y gogledd-orllewin yn botensial cynaliadwy. Rydym eisiau cydweithio â'r diwydiant i weld y potensial hwnnw. Rwy'n gobeithio, drwy greu fframwaith deddfwriaeth newydd, y gallwn ni wneud hynny. Ond, ar hyn o bryd, nes bod gennym y ddeddfwriaeth honno, rydym yn gwneud pob dim rydym yn gallu i sicrhau eu bod yn cael y sicrwydd sydd ei angen arnynt, fel rydych wedi ei ddisgrifio, i ddatblygu'r diwydiant ac i wneud y buddsoddiadau sydd eu hangen.

I think that we agree and share the vision that we have for the industry in the north-west. The Member has raised something that he has raised with me through correspondence, and it is something that I am dealing with through correspondence with the Member at present. Under current legislation, we are doing what we can and what the current legislation allows us to do. The Member will be aware that Welsh Government officials will be meeting producers in north Wales during the next week to continue the discussions and, hopefully, to have the kind of assurances that he is asking for. Nevertheless, that is why the Bill that will come before the Assembly during the next year is so important to us, because it will allow us to move forward and expand the industry in a sustainable way. I agree entirely with you that fishermen understand the concept of being a sustainable industry more than any other industry perhaps. We have potential in north-west Wales, and that potential is sustainable. We want to collaborate with the industry to see that potential. Hopefully, by creating a new legislative framework, we can do that. However, at present, until we have that legislation, we are doing everything that we can to ensure that they have the assurance that they need, as you have described, to develop the industry and to make the investments that they need to make.

17:57

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

17:58

**Memorandwm Cydsyniad
Deddfwriaethol ar y Bil
Dadroleiddio**

I call on the Minister for Natural Resources and Food to move the motion—Alun Davies.

Cynnig NDM5492 Alun Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau yn y Bil Dadroleiddio sy'n ymwneud â mesurau sy'n effeithio ar fusnesau: cyffredinol, trafnidiaeth, yr amgylchedd, addysg a hyfforddiant, mesurau i leihau'r baich ar awdurdodau cyhoeddus a deddfwriaeth nad yw o ddefnydd ymarferol mwyach, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Legislative Consent Memorandum Y
on the Deregulation Bill**

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

**Llywydd / The Presiding
Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd i gynnig y cynnig—Alun Davies.

Motion NDM5492 Alun Davies

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Deregulation Bill, relating to measures affecting business: general transport, the environment, education and training, measures to reduce burdens on public authorities and legislation no longer of practical use, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

17:58

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

I move the motion.

Cynigaf y cynnig.

I feel as if I should apologise to Members for detaining them this afternoon. [Laughter.] There is, of course, an easy way of solving the problem and that is by supporting the motion, and I trust that Members will.

Rwy'n teimlo fel pe dylwn i ymddiheuro i'r Aelodau am eu cadw y prynhawn yma. [Chwerthin.] Mae yna, wrth gwrs, ffordd hawdd o ddatrys y problem ac mae hynny drwy gefnogi'r cynnig, ac rwy'n ffyddiog y bydd yr Aelodau'n gwneud hynny.

Members will be aware of the issues around the UK Deregulation Bill, which is being pursued by the United Kingdom Government. I am grateful to the Deputy Presiding Officer, in his role as Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, for the work that it has done on this legislative consent motion. The purpose of the UK Deregulation Bill is to reduce the burden of excessive or unnecessary regulation on businesses, civil society, public bodies, the taxpayer or individual. The Bill also repeals legislation that is deemed to be of no practical use. To this end, we have deemed that a single composite LCM would be the best way to cover provisions in the Bill on introduction that fall within the Assembly's legislative competence and require the Assembly's legislative consent.

The content of the legislative consent motion is wide-ranging. It covers the portfolios of the Minister for Local Government and Government Business, the Minister for Economy, Science and Transport, the Minister for Education and Skills, and my own portfolio. I would like to record the thanks, as I have said, to the Constitutional and Legislative Affairs Committee for its scrutiny. The committee did raise one main point, I think that it is fair to say, and that is about clause 65 of the Bill as introduced. I will address that matter now.

This clause gives the Secretary of State powers to make consequential amendments to other legislation, including Welsh legislation, as a consequence of the substantive provisions contained in the Deregulation Bill. This kind of provision to provide a mechanism to deal with consequential amendments to other legislation is contained in most United Kingdom Bills. We have not included this provision in the legislative consent motion for this Bill, or similar provisions for other Bills that have required LCMs, because we do not believe that it is required. This is because, where the UK Bill makes substantive provision within the Assembly's legislative competence, we lay an LCM for that substantive provision. In our view, the LCM then covers consequential amendments to Welsh and other legislation as a result of the substantive provision that is covered by the LCM.

It is also of note that our own Assembly Acts can make similar provisions to this clause. This means that an Assembly Act may give Welsh Ministers powers to amend by Order or regulations UK parliamentary primary and secondary legislation where it is necessary as being consequential or incidental to an Assembly Act provision. On this point, where a UK Bill makes substantive provision that is not devolved, the provision allowing for consequential amendments does not require an LCM. This is because it falls within the exception in Standing Order 29.1 for provisions that are consequential on non-devolved matters. With those words, Presiding Officer, I commend the motion to the Chamber.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r materion o amgylch Bil Dadreoleiddio y DU, sy'n cael ei ddilyn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Rwy'n ddiolchgar i'r Dirprwy Lywydd, yn ei swyddogaeth fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, am y gwaith y mae wedi'i wneud ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Diben Bil Dadreoleiddio y DU yw lleihau baich rheoleiddio gormodol neu ddiangen ar fusnesau, cymdeithas sifil, cyrff cyhoeddus, y trethdalwr neu'r unigolyn. Mae'r Bil hefyd yn diddymu deddfwriaeth sy'n cael ei hystyried i fod o ddim defnydd ymarferol. I'r perwyl hwn, rydym wedi ystyried mai cynnig cydsyniad deddfwriaethol cyfansawdd unigol fyddai'r ffordd orau o gwmpasu darpariaethau yn y Bil wrth ei gyflwyno sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac sydd angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad.

Mae cynnwys y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn eang. Mae'n cwmpasu portffolios y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, a fy mhortffolio fy hun. Hoffwn gofnodi diolch, fel yr wyf wedi ei ddweud, i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am graffu arno. Mae'r pwyllgor wedi codi un prif bwynt, rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud, ac mae a wnelo â chymal 65 y Bil fel y'i cyflwynwyd. Byddaf yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn awr.

Mae'r cymal hwn yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall, gan gynnwys deddfwriaeth Cymru, o ganlyniad i'r darpariaethau sylweddol a gynhwysir yn y Bil Dadreoleiddio. Mae'r math yma o ddarpariaeth i ddarparu mecanwaith i ymdrin â newidiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall wedi'i chynnwys yn y rhan fwyaf o Filiau'r Deyrnas Unedig. Nid ydym wedi cynnwys y ddarpariaeth hon yn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn, na darpariaethau tebyg ar gyfer Biliau eraill lle mae cynigion cydsyniad deddfwriaethol wedi bod yn ofynnol, oherwydd nad ydym yn credu bod ei hangen. Y rheswm am hyn yw, lle bo Bil y DU yn gwneud darpariaeth sylweddol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, rydym ni'n gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y ddarpariaeth wreiddiol. Yn ein barn ni, mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol wedyn yn cynnwys diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth Cymru a deddfwriaeth arall o ganlyniad i'r ddarpariaeth sylweddol sy'n cael ei chwmpasu gan y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

Dylid nodi hefyd y gall ein Deddfau Cynulliad ein hunain wneud darpariaethau tebyg i'r cymal hwn. Mae hyn yn golygu y gall Deddf Cynulliad roi pwerau i Weinidogion Cymru i ddiwygio trwy Orchymyn neu reoliadau deddfwriaeth seneddol sylfaenol ac eilaidd y DU lle mae'n angenrheidiol fel bod yn ganlyniadol neu'n atodol i ddarpariaeth Deddf Cynulliad. Ar y pwynt hwn, lle mae Bil y DU yn gwneud darpariaeth sylweddol nad yw wedi'i datganoli, nid yw'r ddarpariaeth sy'n caniatáu ar gyfer diwygiadau canlyniadol angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Mae hyn oherwydd ei bod yn dod o fewn yr eithriad yn Rheol Sefydlog 29.1 ar gyfer darpariaethau sy'n ganlyniadol i faterion nad ydynt wedi'u datganoli. Gyda hyn o eiriau, Lywydd, cymeradwyaf y cynnig i'r Siambr.

18:01	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs committee, David Melding.	Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.	Senedd.tv Fideo Video
18:01	David Melding Bywgraffiad Biography Thank you, Presiding Officer. We reported on this legislative consent memorandum on 1 May, and we are content with the consent being sought. However, the Bill raises an important constitutional issue, which we first highlighted in our evidence to the joint committee of both Houses of Parliament that conducted pre-legislative scrutiny of the draft Bill. The Minister has already referred to the main point, but clause 65 of the Bill as introduced, now clause 74, permits the Secretary of State by Order to make consequential amendments, repeals and revocations as a consequence of the provisions in the Bill to any Measure or Act of the National Assembly; the Order is subject to annulment in pursuance of a resolution of either House of Parliament only. An Order made under this clause, revoking provisions in an Assembly Measure or Act, may be subject to Standing Order 30A, namely consent in relation to statutory instruments made by UK Ministers. However, this is not, and should not be seen as, a substitute for statutory obligation to seek the Assembly's consent to revoking laws it has made. It is a matter of concern to us that the provision in a Welsh Act, however trivial or consequential it may appear, requires the legal consent of two Houses of Parliament to repeal it, but not the consent of the legislative body that made it. I did hear the Minister's explanation of how they tried to cover this anomaly, but, really, that is from the Executive's point of view, and I do not think that it adequately protects our legislative prerogatives.	Diolch i chi, Lywydd. Fe wnaethom adrodd ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar 1 Mai, ac rydym yn fodlon ynghylch ceisio caniatâd. Fodd bynnag, mae'r Bil yn codi mater cyfansoddiadol pwysig, y gwnaethom dynnu sylw ato am y tro cyntaf yn ein tystiolaeth i gydbwyllgor dau Dŷ'r Senedd a gynhaliodd y craffu cyn y broses ddeddfu ar y Bil drafft. Mae'r Gweinidog eisoes wedi cyfeirio at y prif bwynt, ond mae cymal 65 y Bil fel y'i cyflwynwyd, cymal 74 erbyn hyn, yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy Orchymyn wneud diwygiadau canlyniadol, diddymadau a dirymadau o ganlyniad i'r darpariaethau yn y Bil i unrhyw Fesur neu Ddeddf y Cynulliad Cenedlaethol; mae'r Gorchymyn yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan un o ddau Dŷ'r Senedd yn unig. Gall Gorchymyn a wneir o dan y cymal hwn, yn diddymu darpariaethau mewn Mesur neu Ddeddf Cynulliad, fod yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 30A, sef caniatâd mewn perthynas ag offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion y DU. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael, ac ni ddylai gael ei weld, fel rhywbeth sy'n cymryd lle rhwymedigaeth statudol i ofyn am ganiatâd y Cynulliad i ddiddymu deddfau a wnaed ganddo. Mae'n fater o bryder i ni fod y ddarpariaeth mewn Deddf Cymru, waeth pa mor ddibwys neu ganlyniadol y gall ymddangos, yn gofyn am gydsyniad cyfreithiol o ddau Dŷ'r Senedd i'w diddymu, ond nid caniatâd y corff deddfwriaethol a'i gwnaeth. Clywais esboniad y Gweinidog o sut y gwnaethant geisio ymdrin â'r anghysondeb hwn, ond, mewn gwirionedd, mae hynny o safbwynt y Weithrediaeth, ac nid wyf yn credu ei fod yn diogelu ein huchelfreintiau deddfwriaethol yn ddigonol.	Senedd.tv Fideo Video
18:03	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I have no other speakers. I call on the Minister to reply.	Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill. Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.	Senedd.tv Fideo Video
18:03	Alun Davies Bywgraffiad Biography <i>Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food</i> I do accept the points that were made by the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, and this may well be a point that we will wish to debate further at another time. However, the legislative consent motion before the Chamber this afternoon is one that provides the necessary consents for the United Kingdom Government to pursue the Deregulation Bill, which is currently before Parliament. I hope that Members will support the LCM this afternoon, while recognising the very good points that have been made by the Chair of the committee. Perhaps that is something that the Assembly would wish to return to at another time.	Rwy'n derbyn y pwyntiau a wnaed gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a gall hyn fod yn bwynt y byddwn yn dymuno ei drafod ymhellach ar adeg arall. Fodd bynnag, mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron y Siambr y prynhawn yma yn un sy'n darparu'r caniatâd angenrheidiol i Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ganlyn y Bil Dadreoleiddio, sydd ar hyn o bryd gerbron y Senedd. Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol y prynhawn yma, ond yn cydnabod ar yr un pryd y pwyntiau da iawn a wnaed gan Gadeirydd y pwyllgor. Efallai fod hynny'n rhywbeth y byddai'r Cynulliad yn dymuno dychwelyd ato ar adeg arall.	Senedd.tv Fideo Video

18:03

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

18:03

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That brings today's business to a close. Thank you very much.

Daw hynny â busnes heddiw i ben. Diolch yn fawr iawn i chi.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:04.

The meeting ended at 18:04.